

Votes and Proceedings – Plenary – Fourth Assembly

Meeting Venue:

Y Siambr – Y Senedd

Meeting date:

Tuesday, 18 November 2014

Meeting time: 13.30

This meeting can be viewed

on [Senedd TV](#) at:

<http://senedd.tv/en/2763>

(230)v3

- 1 Questions to the First Minister
- 2 Business Statement and Announcement
- 3 The Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 (Amendment) Order 2014
- 4 Legislative Consent Memorandum on the Small Business, Enterprise and Employment Bill – provisions relating to export support
- 5 Debate: The Draft Budget 2015–16
- 6 Debate: The Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2013–14
- 7 Voting Time

Votes Summary

The meeting concluded at 17.09

The Assembly will sit again in Plenary at 13.30, Wednesday, 19 November 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2012 \(Diwygio\) 2014](#)
[The Local Government Byelaws \(Wales\) Act 2012 \(Amendment\) Order 2014](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyfogaeth—Darpariaethau sy'n Ymwneud â Chymorth Allforio](#)
[Legislative Consent Memorandum on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Provisions Relating to Export Support](#)

[Y Gyllideb Ddrafft 2015-16](#)
[The Draft Budget 2015-16](#)

[Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14](#)
[The Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2013-14](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Yr Hawl i Bleidleisio (pobl 16 ac 17 oed)

The Right to Vote (16 and 17-year-olds)

13:30 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch caniatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio mewn refferendwm ar bwerau i amrywio trethi yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)1966(FM)

1. What discussions has the Welsh Government had with regard to allowing 16 and 17-year-olds the right to vote in a future referendum on tax-varying powers in Wales? OAQ(4)1966(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Such discussions would be needed if and when the Assembly agreed that there should be such a referendum. However, extending the franchise for elections generally seems to me to be something that we should now consider very carefully, given the fact that it has already been done in Scotland for the referendum there.

Byddai angen trafodaethau o'r fath os a phryd y byddai'r Cynulliad yn cytuno y dylid cynnal refferendwm o'r fath. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi bod ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau yn gyffredinol yn rhywbeth y dylem ei ystyried yn ofalus iawn bellach, o ystyried y ffaith ei fod eisoes wedi ei wneud yn yr Alban ar gyfer y refferendwm yno.

13:30 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer. First Minister, it is important that we engage young people in the decisions affecting their lives. What action is the Welsh Government taking to encourage young people to learn about politics, democracy, governance and citizenship at school?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys pobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog pobl ifanc i ddysgu am wleidyddiaeth, democratiaeth, llywodraethu a dinasyddiaeth yn yr ysgol?

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is done primarily through the PSE, personal and social education, element of the curriculum. It forms part of the basic curriculum for all registered pupils at maintained schools. However, of course, as the Member will be aware, a curriculum review is in the midst of taking place, and we expect that that curriculum review will report in the earlier part of next year. Of course, PSE may well be part of the review that takes place.

Gwneir hynny'n bennaf trwy elfen ABCh, addysg personol a chymdeithasol, y cwricwlwm. Mae'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Fodd bynnag, wrth gwrs, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae adolygiad cwricwlwm wrthi'n cael ei gynnal, ac rydym yn disgwyl y bydd yr adolygiad cwricwlwm hwnnw'n adrodd yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd ABCh yn rhan o'r adolygiad sy'n cael ei gynnal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I noticed there that you did not shut the door on the idea of lowering the voting age to 16. I have never been an advocate of lowering the voting age to 16 from 18, but in the vein of Gwyn Price's question, if you do go any way down that line, you will have to ensure that there is adequate education about the system, and that younger people are fully knowledgeable of what is going on. So, will you agree that you will not go down the line of supporting voting for 16-year-olds without looking at all other aspects of education and politics in schools?

Brif Weinidog, rwy'n sylwi na wnaethoch chi gau'r drws ar y syniad o ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Nid wyf erioed wedi cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 o 18, ond yn debyg i gwestiwn Gwyn Price, os byddwch chi'n dilyn y trywydd hwnnw i unrhyw raddau, bydd yn rhaid i chi sicrhau bod addysg briodol ar gael am y system, a bod pobl ifanc yn gwybod yn iawn beth sy'n digwydd. Felly, a wnech chi gytuno na fyddwch chi'n dilyn y trywydd o gefnogi pleidleisiau i bobl ifanc 16 mlwydd oed heb ystyried pob agwedd arall ar addysg a gwleidyddiaeth mewn ysgolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think that there are wider issues. Now that it has been established that 16-year-olds could vote in one referendum in Scotland, it is logically difficult to say that that should not be extended to all elections. That said, I think that there is a need now for a wider debate because, traditionally, being able to vote at a particular age has meant that that age has been seen as the age of majority or adulthood. So, there would have to be a further debate on top of moving ahead with votes for 16 and 17-year-olds as to whether, in fact, we would want the age of adulthood to be brought down as well.

Rwy'n credu bod materion ehangach yn bodoli. Gan ei fod wedi ei sefydlu bellach bod pobl ifanc 16 mlwydd oed wedi cael pleidleisio mewn un refferendwm yn yr Alban, mae'n rhesymegol anodd dweud na ddylai hynny gael ei ymestyn i bob etholiad. Wedi dweud hynny, rwy'n meddwl bod angen cael dadl ehangach bellach, oherwydd, yn draddodiadol, mae cael pleidleisio ar ôl cyrraedd oedran penodol wedi golygu bod yr oedran hwnnw wedi ei ystyried yn oedran y mwyafrif neu oedolaeth. Felly, byddai'n rhaid cael trafodaeth bellach yn ogystal â bwrw ymlaen gyda phleidleisiau i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed ynghylch pa un a fyddem ni, mewn gwirionedd, eisiau i oedran oedolaeth gael ei ostwng hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae pleidleisiau i bobl 16 a 17 oed wedi bod yn bolisi gan Blaid Cymru ers blyneddau mawr, ac mae'n dda i weld y pleidiau eraill yn awr yn dechrau sylweddoli mai dyna'r peth derbyniol i'w wneud. Fodd bynnag, mae'r modd y mae pobl yn cofrestru ar gyfer pleidleisio wedi bod yn newid, ac mae hynny wedi cyflwyno nifer o heriau. A ydych yn cytuno â mi, pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ymestyn i bobl iau, y byddai angen ymgyrch debyg, efallai, i ymgyrch y 'missing million' yn yr Alban, pan fyddai'n dod i refferendwm posibl?

Votes for 16 and 17-year-olds has been a Plaid Cymru policy for many years, and it is good to see the other parties now starting to realise that it is the right thing to do. However, the way in which people register to vote has been changing, and that has introduced a number of challenges. Do you agree with me that, if the voting age were to be extended to younger age groups, there would be a need for a campaign similar, perhaps, to the 'missing million' campaign in Scotland, when it came to any possible referendum?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddai. Nid oeddwn o blaid newid y system fel ag yr oedd; roeddwn yn meddwl ei bod yn gweithio'n ddigon da. Fodd bynnag, mae'n bwysig dros ben—ac rwy'n gwybod bod pawb yn y Siambr yn rhannu'r safbwynt hwn—fod pawb yn cofrestru i bleidleisio. Byddai hynny'n wir nid yn unig i'r rheini sy'n 16 neu'n 17 oed ond i bawb sydd â'r hawl i bleidleisio. Yr ofn sydd gyda fi, a rhai eraill, yw y bydd pobl yn cwmpo allan o'r gofrestr, a bydd hynny'n meddwl bod llai o bobl â'r hawl i ddweud eu barn yn ystod etholiad.

There would. I was not in favour of changing the system as it stood; I thought that it worked quite well. However, it is very important—and I know that everyone in this Chamber would share this view—that everyone should be registered to vote. That would be true not only for 16 and 17-years-old but for everyone eligible to vote. What concerns me, and others, is that people will fall off the register, and that will mean that fewer people have the right to give their opinion via an election.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brechiad y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela

The Measles, Mumps and Rubella Vaccination

13:33 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y niferoedd sydd wedi cael brechiadau MMR yng Nghymru? OAQ(4)1957(FM)

2. Will the First Minister make a statement on the take-up of MMR vaccinations in Wales? OAQ(4)1957(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, the take-up has improved. For example, by June of this year, 96.3% of two-year-olds had received their first dose of the MMR vaccine. All health boards reached the target, and uptake of the second dose by the age of five was 92.8%.

Gwnaf, mae'r nifer sydd wedi manteisio arno wedi gwella. Er enghraifft, erbyn mis Mehefin eleni, roedd 96.3% o blant dyflwydd oed wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechiad MMR. Cyrhaeddodd pob bwrrd iechyd y targed, a 92.8% yw'r nifer a gafodd yr ail ddos erbyn iddynt gyrraedd pump oed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the First Minister for that response? I, like him, I am sure, am very pleased to see those numbers because that brings herd immunity into the system and should stop another measles epidemic like the one that we, unfortunately, suffered in Swansea, during which somebody died. Will the First Minister urge health boards to continue to promote take-up so that we can keep at that level of above 95%, which is so important?

A gaf i ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna? Rwyf fi, fel yntau, rwy'n siŵr, yn falch iawn o weld y niferoedd hynny gan fod hynny'n dod ag imiwneidd torfol i mewn i'r system a dylai hynny atal epidemig arall o'r frech goch fel yr un a ddiodefwyd gennym ni, yn anffodus, yn Abertawe, pryd y bu farw rhywun. A wnaiff y Prif Weinidog annog byrddau iechyd i barhau i hybu pobl i fanteisio ar y brechiadau hyn fel y gallwn gadw ar y lefel honno o fod yn uwch na 95%, sydd mor bwysig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, the NHS delivery framework does include the need to ensure that 95% of children are fully immunised for all routine vaccinations, not just for MMR, by the age of four. We continue to work with Public Health Wales and the health boards to meet our programme for government commitment to eradicate the health problems caused by the three MMR viruses by increasing uptake further of the vaccination itself.

Ydy, mae fframwaith cyflawni'r GIG yn cynnwys yr angen i sicrhau bod 95% o blant yn cael eu himiwneiddio'n llawn ar gyfer yr holl frechiadau arferol, nid yn unig ar gyfer MMR, erbyn iddynt gyrraedd pedair oed. Rydym yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd i fodloni ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu i gael gwared â'r problemau iechyd a achosir gan y tri firws MMR trwy gynyddu ymhellach y nifer sy'n derbyn y brechiad ei hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35	Darren Millar Bywgraffiad Biography First Minister, it is not just the MMR vaccine that is important, of course—there are a whole host of other vaccines that have targets to be achieved, one of which is the flu vaccination target for over-65s, which, unfortunately, has been missed so far in each of the past few years. It is particularly a concern given that the front-line NHS staff take-up of the flu vaccine is lower than the Welsh Government's target as well. What action is your Government taking particularly to ensure that NHS staff have their flu vaccinations, where they have a front-line duty, and that older people in Welsh society have those flu vaccines, too?	Brif Weinidog, nid dim ond y brechiad MMR sy'n bwysig, wrth gwrs—ceir llu o frechiadau eraill sydd â thargedau i'w bodloni, ac un o'r rhain yw'r targed brechu rhag y fflw ar gyfer pobl dros 65 oed, na fodlonwyd hyd yn hyn, yn anffodus, mewn unrhyw un o'r blynyddoedd diwethaf. Mae'n bryder arbennig o gofio bod nifer aelodau staff rheng flaen y GIG sy'n manteisio ar y brechiad fflw yn is na tharged Llywodraeth Cymru hefyd. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd yn benodol i sicrhau bod aelodau staff y GIG yn derbyn eu brechiadau fflw, lle mae ganddynt ddyletswydd rheng flaen, a bod pobl hŷn yng nghymdeithas Cymru yn cael y brechiadau fflw hynny hefyd?	Senedd.tv Fideo Video
13:35	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, the question is about MMR vaccination particularly, but, nevertheless, I will answer his question. I have seen in GPs' surgeries and, indeed, in pharmacies a great deal of information being made available to people, informing them of the need to take up vaccination, particularly the elderly and those whose immune systems are compromised. I would expect local health boards to make sure that their staff are made as aware as possible of the advantages of the flu vaccination, in order for them to avoid any problems during the course of the winter.	Wel, mae'r cwestiwn yn ymwneud â brechiadau MMR yn benodol, ond, serch hynny, byddaf yn ateb ei gwestiwn. Rwyf wedi gweld mewn meddygyfeydd teulu ac, yn wir, mewn fferyllfeydd, llawer iawn o wybodaeth ar gael i bobl, yn eu hysbysu am yr angen i fanteisio ar frechiadau, yn enwedig yr henoed a'r rhai y mae eu systemau imiwnedd mewn perygl. Byddwn yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol wneud yn siŵr bod eu haelodau staff yn cael eu gwneud mor ymwybodol â phosibl o fanteisio y brechiad fflw, er mwyn iddynt osgoi unrhyw broblemau yn ystod y gaeaf.	Senedd.tv Fideo Video
	Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau	Questions Without Notice from the Party Leaders	
13:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography First this afternoon, the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.	Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, sydd gyntaf y prynhawn yma.	Senedd.tv Fideo Video
13:36	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i> First Minister, would you agree with me that nobody should lose their sight from a treatable eye condition simply because their eye clinic is too busy to provide care within a clinically appropriate timescale?	Brif Weinidog, a fydddech chi'n cytuno â mi na ddylai unrhyw un golli ei olwg oherwydd cyflwr llygad y gellir ei drin dim ond oherwydd bod ei glinig llygaid yn rhy brysur i ddarparu gofal yn unol ag amserlen sy'n briodol yn glinigol?	Senedd.tv Fideo Video
13:36	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I would, of course, expect people to get the appropriate treatment at the right time.	Byddwn, wrth gwrs, yn disgwyl i bobl i gael y driniaeth briodol ar yr amser iawn.	Senedd.tv Fideo Video

13:36

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. I welcome that commitment. However, as you will know, last week's RNIB Cymru report into the number of people going blind unnecessarily in Wales made some pretty stark reading. The number of patients waiting over 36 weeks for their first appointment had tripled in just two years, some clinics were reported as being overbooked by some 50%, and age-related macular degeneration patients are waiting up to six weeks to be seen, when your guidance is quite clear to local health boards that it should be no more than two. Could you outline why your Government is not able to provide the care that you say that you want to see?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Croesawaf yr ymrwymiad hwnnw. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, roedd adroddiad RNIB Cymru yr wythnos diwethaf ar nifer y bobl sy'n mynd yn ddall yn ddiangen yng Nghymru yn blaen iawn. Roedd nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf wedi treblu mewn dim ond dwy flynedd, adroddwyd bod tua 50% yn ormod o leoedd wedi eu cadw mewn rhai clinigau, ac mae cleifion dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran yn aros hyd at chwe wythnos i gael eu gweld, pan fo eich canllawiau i fyrddau iechyd lleol yn gwbl eglur na ddylai fod yn fwy na phythefnos. A allech chi amlinellu pam na all eich Llywodraeth ddarparu'r gofal y dywedwch eich bod eisiau ei weld?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have to say, first of all, that we do not necessarily accept the methodology in the RNIB report. It seems to be based on a very small sample. Nevertheless, in terms of the issue itself, we would expect the treatment to be made available. For example, if you look at wet macular degeneration, that is something that had no treatment in 2007. Now, of course, that treatment is available, and many, many people are now having their sight preserved as a result of the treatment that is available, and is being made available to them, in the Welsh NHS.

Mae'n rhaid i mi ddweud, yn gyntaf oll, nad ydym o reidrwydd yn derbyn y dull yn adroddiad yr RNIB. Mae'n ymddangos ei fod yn seiliedig ar sampl bychan iawn. Serch hynny, o ran y mater ei hun, byddem yn disgwyl i'r driniaeth fod ar gael. Er enghraifft, os edrychwch chi ar ddirywiad macwlaidd gwlyb, mae hynny'n rhywbeth nad oedd triniaeth ar ei gyfer yn 2007. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'r driniaeth honno ar gael, ac mae llawer iawn o bobl yn cadw eu golwg bellach o ganlyniad i'r driniaeth sydd ar gael, ac sy'n cael ei rhoi ar gael iddynt, yn y GIG yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hear what you say about the small sample. It is the reason why your Deputy Minister was so dismissive of the report last week. However, the sample is no smaller than your college medical friends who advise you on the NHS, it seems. It is not the fault of people with eye conditions that, thankfully, because of medical advancements, we now have treatments that we were not able to use a number of years ago. We have to respond as a country, to make sure that people have access to those treatments. The fact here is that the testimony is from medical professionals working within the system, who are telling you that they are seeing people who have lost their sight because of a failure to respond appropriately. Would you commit today to working with the RNIB—not to dismiss its work—and with the professionals quoted in the report, and undertake a thorough review of ophthalmology services in Wales to ensure that, in future, not a single person will lose their sight unnecessarily?

Rwy'n deall yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud am y sampl bychan. Dyna'r rheswm pam y gwnaeth eich Dirprwy Weinidog ddiystyru'r adroddiad yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r sampl ddim llai na'ch ffrindiau meddygol coleg sy'n eich cynghori chi ar y GIG, mae'n ymddangos. Nid bai pobl â chyflyrau llygaid yw hi, diolch byth, bod gennym, oherwydd datblygiadau meddygol, driniaethau erbyn hyn nad oeddem yn gallu eu defnyddio nifer o flynyddoedd yn ôl. Mae'n rhaid i ni ymateb fel gwlad, i wneud yn siŵr bod y triniaethau hynny ar gael i bobl. Y ffaith yma yw bod y dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol meddygol sy'n gweithio yn y system, sy'n dweud wrthydd chi eu bod yn gweld pobl sydd wedi colli eu golwg oherwydd methiant i ymateb yn briodol. A wnewch chi ymrwymo heddiw i weithio gyda'r RNIB—ac nid diystyru ei waith—a chyda'r gweithwyr proffesiynol a ddyfynnir yn yr adroddiad, a chynnal adolygiad trylwyr o wasanaethau offthalmoleg yng Nghymru er mwyn sicrhau, yn y dyfodol, na fydd yr un person yn colli ei olwg yn ddiangen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We will, of course, work with the RNIB. While the report itself is unclear in terms of its methodology, we have a very good relationship with the RNIB, and we would want to ensure that, where people have the opportunity of having their sight preserved—or, indeed, of having the deterioration of their sight slowed—we work with them, and, indeed, with hospital ophthalmologists, to make sure that people have the right access to treatment at the right time. I think that the success that we are having with wet macular degeneration shows, in particular, how treatment, as soon as it is made available, is rolled out within the Welsh NHS.
- Byddwn, wrth gwrs, yn gweithio gyda'r RNIB. Er bod yr adroddiad ei hun yn aneglur o ran ei ddull, mae gennym berthynas dda iawn gyda'r RNIB, a byddem eisiau sicrhau, lle mae pobl yn cael y cyfle i gadw eu golwg—neu, yn wir, arafu dirywiad eu golwg—ein bod yn gweithio gyda nhw, ac, yn wir, gydag offthalmolegwyr ysbysai, i wneud yn siŵr bod y driniaeth gywir ar gael ar yr amser iawn. Rwy'n credu bod y llwyddiant yr ydym ni'n ei gael gyda dirywiad macwlaidd gwlyb, yn arbennig, yn dangos sut mae triniaeth, cyn gynted ag y bydd ar gael, yn cael ei chyflwyno yn y GIG yng Nghymru.
- 13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies. Galwaf ar arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.
- 13:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
First Minister, you and I will disagree over the method with which your Government has supported Cardiff Airport: by going in and buying it. However, I think that we would all be very disappointed with the news last week that Lufthansa is withdrawing its route to Düsseldorf, on the back of, obviously, the Glasgow route being discontinued, the decline in passenger numbers by 7%, and the rather hasty departure of the chief executive at the end of August. Can you tell us what your take is on the current position that Cardiff Airport finds itself in?
Brif Weinidog, byddwch chi a minnau'n anghytuno am y ffordd y mae eich Llywodraeth wedi cefnogi Maes Awyr Caerdydd: trwy fynd i mewn a'i brynu. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y bydd pob un ohonom ni'n siomedig iawn gyda'r newyddion yr wythnos diwethaf bod Lufthansa yn tynnu ei lwybr i Düsseldorf yn ôl, yn dilyn, yn amlwg, rhoi terfyn ar y llwybr i Glasgow, y gostyngiad o 7% i nifer y teithwyr ac ymadawiad ar frys braidd y prif weithredwr ddiwedd mis Awst. A allwch chi ddweud wrthym beth yw eich barn ar y sefyllfa bresennol y mae Maes Awyr Caerdydd yn canfod ei hun ynnddi?
- 13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The first thing I can say to the leader of the opposition is that Lufthansa does not run the Cardiff to Düsseldorf route; it is run by Germanwings. I know that the airport has been in discussion with Germanwings, I believe this morning, and it is looking to see how the route can be preserved. The issue with the route is the aircraft, not the sustainability of the route. We have to accept that there will be times when routes start and then come to an end. What we are looking for is a steady increase in the number of passengers using the airport. It will dip during the course of the winter, as it always has, particularly in November and December. We know that passenger satisfaction has increased enormously. We are very optimistic about the airport's medium to long-term future.
Y peth cyntaf y gallaf ei ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid yw mai nad Lufthansa sy'n rhedeg y llwybr o Gaerdydd i Düsseldorf, fe'i rhedir gan Germanwings. Gwn fod y maes awyr wedi bod mewn trafodaethau gyda Germanwings, y bore yma rwy'n credu, ac mae'n edrych i weld sut y gellir cadw'r llwybr. Y broblem gyda'r llwybr yw'r awyren, nid cynaliadwyedd y llwybr. Mae'n rhaid i ni dderbyn y bydd adegau pan fydd llwybrau yn cychwyn ac yna'n dod i ben. Yr hyn yr ydym ni'n chwilio amdano yw cynnydd cyson i nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r maes awyr. Bydd yn gostwng yn ystod y gaeaf, fel y mae wedi ei wneud erioed, yn enwedig ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Rydym yn gwybod bod boddhad teithwyr wedi cynyddu'n aruthrol. Rydym yn obeithiol iawn ynghylch dyfodol y maes awyr yn y tymor canol i'r tymor hir.

13:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I agree with you that money has been spent on the terminal building and there is a better passenger experience going through the airport, but, regrettably, there are substantial negatives coming from the airport, month in month out, in relation to routes and route accessibility with precious few new routes being announced—although I take the point, with Ryanair, for example, announcing a once-a-week flight out to Tenerife. The Welsh Government has invested considerable sums of money in the airport, if you take the purchase price of £52 million, the loan of £10 million, and, in the budget that will be debated this afternoon, there is another £3.5 million for route development. As the only shareholder of that airport, where can you expect us to be looking to for the future of Cardiff Airport in 12 months' time: a greater number of passengers, a larger diversification of routes, or what?

Brif Weinidog, rwy'n cytuno â chi bod arian wedi ei wario ar adeilad y derfynfa a bod gwell profiad i deithwyr sy'n mynd drwy'r maes awyr, ond, yn anffodus, ceir agweddau negyddol sylweddol yn gysylltiedig â'r maes awyr, fis ar ôl mis, o ran llwybrau a hygyrchedd llwybr a phrin iawn yw'r llwybrau newydd sy'n cael eu cyhoeddi—er fy mod i'n derbyn y pwynt, gyda Ryanair, er enghraifft, yn cyhoeddi taith unwaith yr wythnos allan i Tenerife. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian yn y maes awyr, os cymerwch chi'r pris prynu o £52 miliwn, y benthyciad o £10 miliwn, ac, yn y gyllideb a fydd yn cael ei thrafod y prynhawn yma, ceir £3.5 miliwn arall ar gyfer datblygu llwybrau. Fel yr unig gyfranddaliwr yn y maes awyr hwnnw, i le allwch chi ddisgwyl i ni fod yn edrych o ran dyfodol Maes Awyr Caerdydd ymhenn blwyddyn: nifer uwch o deithwyr, mwy o arallgyfeirio llwybrau, neu beth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Both. A larger number of passengers, and the airport will not lose money this year as it did in the previous financial year. That is a start. I think the strength of the airport lies in particular in long-haul flights. Bristol Airport has been very successful in short-haul flights and business flights. It would be very difficult to take Bristol on, if I can put it that way, in that regard. However, we do have great advantages over Bristol in terms of long-haul flights, the length of the runway, the 24-hour operation that we have, and also the ability to widen the runway to take a fully laden A380. So, that is where the advantages will come for us in the future. I think it fair to say—and I repeat what I have said before—that, while we are at the moment the only shareholder in the airport, that does not mean that we would not want to introduce private investment in the future. That is something that we will continue to have discussions about with potential investors.

Y ddau. Nifer fwy o deithwyr, ac ni fydd y maes awyr yn colli arian eleni fel y gwnaeth yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hynny'n ddechrau. Rwy'n credu mai teithiau pell yw cryfder penodol y maes awyr. Mae Maes Awyr Bryste wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran teithiau byr a theithiau busnes. Byddai'n anodd iawn cystadlu â Bryste, os gallaf ei roi felly, yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae gennym fanteision mawr dros Fryste o ran teithiau pell, hyd y rhedfa, y gweithrediad 24 awr sydd gennym ni, a hefyd y gallu i lydanu'r rhedfa i dderbyn A380 â llwyth iawn. Felly, dyna o ble y bydd y manteision yn dod i ni yn y dyfodol. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud—ac rwy'n ailadrodd yr hyn yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen—er mai ni yw'r unig gyfranddaliwr yn y maes awyr ar hyn o bryd, nid yw hynny'n golygu na fyddem yn dymuno cyflwyno buddsoddiad preifat yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn parhau i gael trafodaethau yn ei gyloch gyda darpar fuddsoddwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, 12 months ago, we came forward with our own blueprint for the airport because, in fairness, I always think, in opposition, if you are prepared to criticise, you have to offer an alternative. Everyone who read the blueprint we put forward said that it was a sensible business plan for taking Cardiff Airport forward. The Scottish Government, for example, at Prestwick has just signed up to an agreement with the Trump organisation, which has a big commercial interest in Scotland, to partner the Scottish Government in running the airport at Prestwick. Is it the intention now that, in the next 12 months, we will see the transatlantic routes that have been talked of at great length out of Cardiff Airport? Will we also see other investors investing in Cardiff Airport, because it is nearly two years since the Welsh Government purchased that airport, or is it your intention to be the sole shareholder of the airport?

Brif Weinidog, flwyddyn yn ôl, cyflwynasom ein glasbrint ei hunain ar gyfer y maes awyr, oherwydd, a bod yn deg, rwyf bob amser yn meddwl, yn yr wrthblaid, os ydych chi'n barod i feirniadu, mae'n rhaid i chi gynnig dewis arall. Dywedodd pawb a ddarllenodd y glasbrint a gyflwynwyd gennym ei fod yn gynllun busnes synhwyrol ar gyfer symud Maes Awyr Caerdydd yn ei flaen. Mae Llywodraeth yr Alban, er enghraifft, newydd lofnodi cytundeb gyda sefydliad Trump yn Prestwick, sydd â buddiant masnachol mawr yn yr Alban, i fod yn bartner i Lywodraeth yr Alban yn y gwaith o redeg y maes awyr yn Prestwick. Ai'r bwriad nawr, yn ystod y flwyddyn nesaf, yw y byddwn yn gweld y llwybrau trawsiwerydd y soniwyd amdanynt yn fanwl iawn yn mynd allan o Faes Awyr Caerdydd? A fyddwn ni hefyd yn gweld buddsoddwyr eraill yn buddsoddi yn Maes Awyr Caerdydd, oherwydd mae bron i ddwy flynedd ers i Lywodraeth Cymru brynu'r maes awyr hwnnw, neu ai eich bwriad yw bod yn unig gyfranddaliwr y maes awyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

'No' is the answer to that. We would not want to be in a position where we lost control of the airport. I have to say to the leader of the opposition that we did not actively seek the purchase of the airport; it was offered to us somewhat out of the blue. It was made clear to us that it was being offered to us and that it would not be sold to another private company. So, the opportunity was there for us and a decision had to be taken quickly. However, what we want to see is for private investors to come in to the airport, for them to buy shares in the airport. We want to work with private investors in that way, and there is interest there at the moment, in terms of forming a public-private partnership with a view to developing the airport in the future. With the transatlantic routes, I would caution against that being a holy grail. New York, for example, is a difficult route to run because New York does not have a hub airport in the same way as Dubai is a hub airport, or Singapore is a hub airport. New York has at least three different airports that airlines fly into. We have to be careful in terms of the routes that we would seek to support, and to ensure that, where we look to support long-haul international routes, they are to hub airports, to attract more passengers who will want to travel beyond the hub.

'Nage' yw'r ateb i hynny. Ni fyddem eisiau bod mewn sefyllfa lle byddem yn colli rheolaeth dros y maes awyr. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid nad aethom ni ati'n weithredol i geisio prynu'r maes awyr; fe'i cynigiwyd i ni heb fawr o rybudd. Fe'i gwnaed yn eglur i ni ei fod yn cael ei gynnig i ni ac na fyddai'n cael ei werthu i gwmni preifat arall. Felly, roedd y cyfle ar gael i ni a bu'n rhaid gwneud penderfyniad yn gyflym. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym ni'n dymuno ei weld yw bod buddsoddwyr preifat yn dod i mewn i'r maes awyr, ac yn prynu cyfranddaliadau yn y maes awyr. Rydym ni eisiau gweithio gyda buddsoddwyr preifat yn y modd hwnnw, a cheir diddordeb yno ar hyn o bryd, o ran ffurfio partneriaeth cyhoeddus-preifat gyda'r bwriad o ddatblygu'r maes awyr yn y dyfodol. O ran y llwybrau trawsiwerydd, byddwn yn rhybuddio yn erbyn hynny fel greal sanctaidd. Mae Efrog Newydd, er enghraifft, yn llwybr anodd ei redeg gan nad oes gan Efrog Newydd faes awyr canolbwynt yn yr un ffordd ag y mae Dubai yn faes awyr canolbwynt, neu y mae Singapore yn faes awyr canolbwynt. Ceir o leiaf tri gwahanol faes awyr yn Efrog Newydd y mae cwmnïau hedfan yn hedfan iddynt. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus o ran y llwybrau y byddem yn ceisio eu cefnogi, ac i sicrhau, pan ein bod yn ceisio cefnogi llwybrau rhyngwladol pell, eu bod i feysydd awyr canolbwynt, er mwyn denu mwy o deithwyr a fydd eisiau teithio y tu hwnt i'r canolbwynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Last week, I asked you, First Minister, whether you supported parity with Scotland in terms of finance for Wales, and, if you did, whether you would be seeking to secure a commitment in Labour's 2015 election manifesto to provide an additional £1.2 billion to Wales. You did not answer that question on 'Question Time' on Thursday. Would you like to answer it now?

Gofynnais i chi yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, a ydych chi'n cefnogi cydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid i Gymru, ac, os ydych chi, a fydddech chi'n ceisio sicrhau ymrwymiad ym manifesto'r Blaid Lafur yn etholiad 2015 i ddarparu £1.2 biliwn ychwanegol i Gymru. Ni wnaethoch chi ateb y cwestiwn hwnnw ar 'Question Time' ddydd Iau. A hoffech chi ei ateb nawr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I do not know where that £1.2 billion comes from. What we know is that there is all-party agreement that the Holtham commission identified £300 million, and that is what we say is the shortfall. I expect that shortfall to be addressed; I expect my party to address that shortfall. However, as I said to the leader of Plaid Cymru, there is a contradiction, is there not, in saying on the one hand that Wales is owed £1.2 billion and, on the other, saying that Wales should be independent and therefore get no money at all from Westminster?

Nid wyf yn gwybod o ble mae'r £1.2 biliwn yn dod. Yr hyn yr ydym ni yn ei wybod yw bod cytundeb trawsbleidiol bod comisiwn Holtham wedi nodi £300 miliwn, a dyna rydym ni'n ei ddweud yw'r diffyg. Rwy'n disgwyl i'r diffyg hwnnw gael sylw; rwy'n disgwyl i'm plaid i roi sylw i'r diffyg hwnnw. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth arweinydd Plaid Cymru, mae gwrth-ddweud, onid oes, wrth ddweud ar y naill law bod £1.2 biliwn yn ddyledus i Gymru ac, ar y llaw arall, dweud y dylai Cymru fod yn annibynnol ac felly peidio â chael unrhyw arian o gwbl gan San Steffan?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, £1.2 billion would provide to Wales the same level of per-head funding as they get in Scotland; it is what parity with Scotland actually means. On 14 September, you said:

Brif Weinidog, byddai £1.2 biliwn yn darparu i Gymru yr un lefel o gyllid fesul pen ag y maen nhw'n ei gael yn yr Alban; dyna beth mae cydraddoldeb â'r Alban yn ei olygu mewn gwirionedd. Ar 14 Medi, dywedasoeh chi:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'What is on offer [to Scotland] should be offered to Wales. There is no reason why Wales should be treated separately to Scotland'.

I agree—there is no reason why Wales should be treated separately to Scotland. So, if financial parity does not mean an extra £1.2 billion—that is an extra £1.2 billion for investment in public services and our economy—then what exactly does equality with Scotland mean, First Minister?

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As the Holtham commission identified, and as your party accepted, it is to the tune of £300 million per year. I do not know where the £1.2 billion a year figure comes from; I have not seen the figures that back that up. Bear in mind as well that Scotland has more devolved responsibilities than Wales. It is inevitable then that Scotland will get more money, because Scotland has criminal justice functions, for example. What is important is that Wales receives the right level of funding per head, and we know that Holtham's work showed that that level of funding per head amounts to some £300 million. Unless she can provide the figures that show that Holtham is wrong and that her party is right, clearly, we are never going to get to a position where we can discuss this.

Dylai'r hyn sy'n cael ei gynnig [i'r Alban] gael ei gynnig i Gymru. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei thrin ar wahân i'r Alban.

Rwy'n cytuno—nid oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei thrin ar wahân i'r Alban. Felly, os nad yw cydraddoldeb ariannol yn golygu £1.2 biliwn yn ychwanegol—hynny yw, £1.2 biliwn yn ychwanegol i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi—yna beth yn union mae cydraddoldeb â'r Alban yn ei olygu, Brif Weinidog?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fel y nododd comisiwn Holtham, ac fel y derbyniodd eich plaid chi, mae'n gyfanswm o £300 miliwn y flwyddyn. Nid wyf yn gwybod o ble mae'r ffigur o £1.2 biliwn y flwyddyn yn dod; nid wyf wedi gweld y ffigurau sy'n cefnogi hynny. Cofiwch hefyd bod gan yr Alban fwy o gyfrifoldebau datganoledig na Chymru. Mae'n anochel felly y bydd yr Alban yn cael mwy o arian, gan fod gan yr Alban swyddogaethau cyfiawnder troseddol, er enghraifft. Yr hyn sy'n bwysig yw bod Cymru'n derbyn y lefel gywir o gyllid fesul pen, a gwyddom fod gwaith Holtham yn dangos bod y lefel honno o gyllid fesul pen yn dod i tua £300 miliwn. Oni bai y gall hi ddarparu'r ffigurau sy'n dangos bod Holtham yn anghywir a bod ei phlaid hi'n iawn, yn amlwg, nid ydym ni byth yn mynd i fod mewn sefyllfa lle y gallwn drafod hyn.

13:47

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it is per-head funding that I am talking about. Whose side are you on with this? It does not sound like you have given any thought at all as to what parity with Scotland actually means. You have failed to secure fair funding. When BBC Wales interviewed your leader about the Barnett formula, your party leader said, 'I will look at it'. Have you made any serious representations to him? Has he made any serious commitments to you? Does this not really just reflect the fact that you run a Labour party branch office here in Wales, and that you have failed to stand up for the people of Wales on funding?

Brif Weinidog, cyllid fesul pen rwy'n sôn amdano. Ar ochr pwy ydych chi yn hyn o beth? Nid yw'n swnio fel eich bod wedi rhoi unrhyw ystyriaeth o gwbl i'r hyn y mae cydraddoldeb gyda'r Alban yn ei olygu mewn gwirionedd. Rydych chi wedi methu â sicrhau cyllid teg. Pan gyfwelodd BBC Wales eich arweinydd am fformiwla Barnett, dywedodd arweinydd eich plaid, 'Byddaf yn edrych arno'. A ydych chi wedi gwneud unrhyw sylwadau o bwys iddo? A yw ef wedi gwneud unrhyw ymrwymadau o bwys i chi? Onid yw hynny, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r ffaiht mai dim ond rhedeg swyddfa gangen y blaid Lafur yr ydych chi yma yng Nghymru, a'ch bod wedi methu â sefyll dros bobl Cymru o ran cyllid?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I am sure that the Member opposite will seek the support of her own leader, Nicola Sturgeon, because she spends more time with the Scottish National Party than she does in Wales. [Laughter.] The reality is that we have said very clearly that we will address the issue of Wales's underfunding, but it comes back to the point that I made earlier on, and that is that her party's objective is that Wales gets nothing at all from Whitehall or Westminster. If her party took the view that it did not want to pursue independence any more, her argument would have more weight, if I may put it that way. However, you cannot say that, on the one hand, 'We want independence and no money from Whitehall', while at the same time arguing that you want £1.2 billion extra from Whitehall. It is independence or not; you need to make your mind up.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod gyferbyn yn gofyn am gefnogaeth ei harweinydd ei hun, Nicola Sturgeon, gan ei bod yn treulio mwy o amser gyda Phlaid Genedlaethol yr Alban nag y mae yng Nghymru. [Chwerthin.] Y gwir amdani yw ein bod wedi dweud yn eglur iawn y byddwn yn mynd i'r afael â'r mater o danariannu Cymru, ond mae'n dod yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach, sef mai amcan ei phlaid hi yw bod Cymru'n cael dim byd o gwbl gan Whitehall na San Steffan. Pe byddai ei phlaid yn cymryd y farn nad oedd eisiau mynd ar drywydd annibyniaeth mwyach, byddai mwy o bwys i'w dadl, os caf ei roi felly. Fodd bynnag, ni allwch chi ddweud, ar y naill law, 'Rydym ni eisiau annibyniaeth a dim arian gan Whitehall', gan ddadlau ar yr un pryd eich bod eisiau £1.2 biliwn ychwanegol gan Whitehall. Annibyniaeth neu ddim annibyniaeth yw hi; mae angen i chi benderfynu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:48	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. We now move back to questions on the order paper.</p>	<p>Diolch. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur trefn nawr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cronfa Byw'n Annibynnol		The Independent Living Fund	
13:48	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru? OAQ(4)1958(FM)</i></p>	<p><i>3. What action is being taken to publicise the consultation on the future of the Independent Living Fund in Wales? OAQ(4)1958(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Rydym wedi rhoi llythyr gwybodaeth i'r gronfa byw'n annibynnol ac awdurdodau lleol yng Nghymru ei hala i'w cleientiaid. Mae'n amlinellu sut mae'r ymgynghoriad yn gweithio, gan nodi ei gyfeiriad ar wefan Llywodraeth Cymru a manylion ynghylch sut i ofyn am gopi os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn.</p>	<p>We provided the independent living fund and local authorities in Wales with an information letter to send to their clients. It outlined how the consultation would work, where it was available on the Welsh Government's website and details of how to request a copy should recipient's wish to receive this.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am eich ymateb, Brif Weinidog. Mae'r rhai sy'n cael cymorth o'r ILF a'u gofalwyr, sydd yn aml â phŵer twrnai dros faterion eu hanwyliaid, wedi bod yn pryderu am ddyfodol yr ILF yng Nghymru ers i Lywodraeth San Steffan gyhoeddi ei chau o Fehefin 2015. Brif Weinidog, a wnewch chi roi sicrwydd y bydd pontio di-dor gan yr ILF i'w chynllun olynol yng Nghymru fel na fydd oedi a gofid diangen yn digwydd? A wnewch chi hefyd roi sicrwydd i dderbynwyr yr ILF a'u gofalwyr y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru?</p>	<p>Thank you for your response, First Minister. Those benefiting from the ILF and their carers, who often have power of attorney over their loved ones' matters, have been concerned about the future of ILF in Wales since the Westminster Government announced the fund's closure from June 2015. First Minister, can you give us an assurance that there will be continuity between the ILF and its successor scheme in Wales so that there should be no delay or unnecessary anxieties caused? Will you also assure recipients of ILF and their carers that their voices will be heard during the Welsh Government consultation?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:49	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wrth gwrs, gallaf ddeall pam mae yna ofid ar ôl y datganiad a gafodd ei wneud. Rydym wedi ymrwymo fel Llywodraeth i sicrhau bod trefniadau yn eu lle mewn amser da er mwyn sicrhau bod cefnogaeth yno pan fydd y gronfa yn cau, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn annibynnol yn y gymuned. Felly, mae ymgynghoriad yn cymryd lle, ac rydym am sicrhau nid yn unig bod unigolion yn cael cyfle i ddweud eu barn, ond bod y cyrff sy'n cynrychioli pobl yn gallu gwneud hynny hefyd.</p>	<p>Of course, I can understand why there is concern after the statement that was made on the matter. We as a Government are committed to ensuring that arrangements will in place in good time in order to ensure that the support is there when the fund closes, so that people can continue to live independently in the community. Therefore, a consultation is taking place, and we wish to ensure not only that individuals have the opportunity to give their views, but that representative bodies can also make their views known.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:50	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Good afternoon, First Minister. This, of course, is about the devolution of responsibility, about who decides how financial support for people with a particular sort of disability is spent, and how that financial support articulates the needs of individuals. Therefore, regardless of which of the schemes is supported by the consultation responses in the end, can you guarantee that the money that comes from the UK will go into that scheme in its entirety?</p>	<p>Prynawn da, Brif Weinidog. Mae hyn, wrth gwrs, yn ymwneud â datganoli cyfrifoldeb, ynghylch pwy sy'n penderfynu sut mae cymorth ariannol i bobl â math penodol o anabledd yn cael ei wario, a sut mae'r cymorth ariannol hwnnw'n mynegi anghenion unigolion. Felly, waeth pa un o'r cynlluniau sy'n cael ei gefnogi gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y pen draw, a allwch chi sicrhau y bydd yr arian a ddaw oddi wrth y DU yn mynd i mewn i'r cynllun hwnnw yn ei gyfanrwydd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
That is our intention. We want to make sure that the scheme is fully financed. The UK Government is to transfer £20.4 million in the next financial year, based on the estimated number of recipients as at 30 June next year. The difficulty is, of course, what happens in future years, because that will be subject to future spending rounds.
Dyna yw ein bwriad. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod y cynllun yn cael ei ariannu'n llawn. Bydd Llywodraeth y DU yn trosglwyddo £20.4 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn seiliedig ar nifer y derbynwyr a amcangyfrifir ar 30 Mehefin y flwyddyn nesaf. Yr anhawster, wrth gwrs, yw'r hyn a fydd yn digwydd yn y blyneddoddi i ddod, gan y bydd hynny'n ddarostyngedig i gylchoedd gwariant y dyfodol.
- 13:51 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, on 14 October, in this Chamber, you rightly complained that the UK Government devolves welfare issues, such as the independent living fund, without serious consideration of budget allocations. You have mentioned £20.4 million, but we are unclear what will happen in the future. Can you tell us, therefore, whether you or any of your officials have had any meetings with UK Ministers on this issue to fight the corner for Wales?
Brif Weinidog, ar 14 Hydref, yn y Siambr hon, gwnaethoch gwyno, a hynny'n iawn, bod Llywodraeth y DU yn datganoli materion lles, fel y gronfa byw'n annibynnol, heb ystyriaeth o ddifrif o ddyraniadau cyllideb. Rydych chi wedi crybwyll £20.4 miliwn, ond rydym yn ansicr o'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol. A allwch chi ddweud wrthym, felly, pa un a ydych chi neu unrhyw un o'ch swyddogion wedi cael unrhyw gyfarfodydd gyda Gweinidogion y DU ar y mater hwn i bledio achos Cymru?
- 13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
This was something, of course, that was thrown at us; we did not ask for it. Therefore, this is something that the UK Government decided to transfer. With council tax benefits, of course, it skimmed money off the top before giving it to us. Our view is that this is not something that we would have sought as a Government; nevertheless, we have a duty and we want to ensure that we hold ourselves to this duty to make sure that people in Wales are not frightened by the announcement that has been made. We intend to make sure, as best we can, that the new arrangements are fully funded.
Roedd hyn yn rhywbeth, wrth gwrs, a daflwyd atom ni; ni wnaethom ofyn amdano. Felly, mae hyn yn rhywbeth y penderfynodd Llywodraeth y DU ei drosglwyddo. O ran budd-daliadau'r dreth gyngor, wrth gwrs, sgimiodd arian oddi ar y top cyn ei roi i ni. Rydym ni o'r farn nad yw hyn yn rhywbeth y byddem wedi gofyn amdano fel Llywodraeth; er hynny, mae'n ddyletswydd arnom ac rydym ni eisiau sicrhau ein bod yn cyflawni'r ddyletswydd hon i wneud yn siŵr nad yw pobl yng Nghymru yn cael eu dychryn gan y cyhoeddiad a wnaed. Rydym yn bwriadu gwneud yn siŵr, hyd eithaf ein gallu, bod y trefniadau newydd yn cael eu hariannu'n llawn.
- 13:52 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, mae'r cynllun hwn wedi ei gau ers 2007, i bob pwrpas, i ymgeiswyr newydd. Rwy'n deall eich bod yn ymgynghori, ond mae angen penderfynu ai Llywodraeth Cymru fydd yn gweithredu'r cynllun neu lywodraeth leol, fel yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r achos busnes ar hyn o bryd wedi ei gyfyngu i bobl sydd yn y cynllun yn barod. Beth ydych yn ei wneud o ran ystyried y bobl hynny sydd wedi cael eu cau allan o'r cynllun ers 2007?
First Minister, this scheme has been closed since 2007, to all intents and purposes, to new applicants. I understand that you are consulting on this, but there is a decision to be taken as to whether it is Welsh Government that will operate the scheme, or local government, as is the case in England. However, the business case at present is restricted to those who are already within the scheme. What are you doing in terms of considering those who have been excluded from the scheme since 2007?
- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae'n rhaid inni sicrhau bod digon o arian ar gael er mwyn cefnogi pobl sydd wedi derbyn cefnogaeth hyd yma. Mae'n anodd dros ben, wrth gofio faint sydd wedi cael ei drosglwyddo i ni fel Llywodraeth, i weld sut y gallwn ehangu'r cynllun heb fod mwy o arian yn dod o Whitehall, ac nid felly y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd.
We must ensure that sufficient funding is available to support those people who have been supported to date. It is very difficult, bearing in mind the amount transferred to us as a Government, to see how we can expand the scheme without additional funding from Whitehall, and that is not the case at present.

Brecwast Ysgol am Ddim

Free School Breakfasts

- 13:53 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyfodol brechwast ysgol am ddim? OAQ(4)1965(FM) 4. Will the First Minister make a statement on the future of free school breakfasts? OAQ(4)1965(FM)
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Y Prif Weinidog / The First Minister
 O dan ddarpariaethau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae gofyn bod awdurdodau lleol yn cynnig brechwast am ddim ar bob diwrnod ysgol i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd y maen nhw'n eu cynnal. Mae'r arian yn cael ei roi drwy'r grant cynnal referniw.
 Under provisions in the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, local authorities are required to provide free breakfast on each school day for pupils at a primary school it maintains. The money is provided through the revenue support grant.
- 13:53 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Diolch yn fawr i chi. Mae'r Prif Weinidog a finnu yn gytŷn ynglŷn â gwerth sicrhau nad oes yr un plentyn yng Nghymru yn dechrau'r diwrnod gwaith yn yr ysgol ar stumog wag, ond, wrth i'r cyfrifoldeb hwn cael ei wneud yn un statudol, yr hyn a wnaeth Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, oedd tynnu oddi wrth y cyngorau y grant uniongyrchol a oedd yn cael ei roi iddynt i dalu am y gwasanaeth hwn, sydd, yn achos Ynys Môn, rhyw £400,000 y flwyddyn. A wnaiff y Prif Weinidog gydnabod felly mai canlyniad y penderfyniad hwnnw a'r amseriad oedd sicrhau bod y straen mwyaf posibl yn cael ei roi ar gyllidebau cyngorau lleol ar adeg pan mae cyllidebau yn gostwng yn barod, gan beryglu mwy o wasanaethau sydd eisoes o dan fygythiad?
 Thank you very much. The First Minister and I agree on the value of ensuring that not a single child in Wales starts their school working day on an empty stomach, but, as this responsibility becomes statutory, the Welsh Government withdrew from councils the direct grant provided to them to pay for this service, which, in the case of Anglesey, is some £400,000 per annum. Will the First Minister therefore acknowledge that the outcome of that decision and its timing was to ensure that the greatest possible strain was placed on local authority budgets at a time when budgets are already reducing and to put previously threatened services at further risk?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Y Prif Weinidog / The First Minister
 Ni chafodd yr arian ei gymryd wrthynt; cafodd yr arian ei drosglwyddo i mewn i'r grant referniw, fel yr oeddent yn mo'yn. Roedd awdurdodau lleol wedi gofyn am lai o grantiau unigol ac am i'r arian fynd i mewn i'r grant referniw. Dyna sydd wedi digwydd. Felly, mae'r arian yn dal i fod yno ar gyfer awdurdodau lleol. Os nad ydynt yn gallu sicrhau brechwast am ddim i blant yn eu hardaloedd, mae'n rhaid iddynt esbonio hynny i'r etholwyr lleol.
 That money was not withdrawn; the money was transferred into the revenue grant, as they had asked for. Local authorities asked for fewer individual grants and for the money to go into the revenue grant. That is what has happened. Therefore, the money is still there for local authorities. If they cannot provide free breakfast for children in their area, then they will have to explain that to the local electorate.
- 13:55 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, I am pleased that we did introduce free school breakfasts for the reason that Rhun ap Iorwerth has just mentioned, which is that no child should go to school and start their working day feeling hungry. I also wanted to talk about the nutrition of that breakfast and tie that into healthy eating, and to ask whether Estyn has been able to report to you that it is having an effect on the way in which educational attainment for pupils is rising. The other question that bears out my point is that you mentioned that the grant has been rolled into the RSG. Is it not time that we started to hypothecate such grants?
 Brif Weinidog, rwy'n falch ein bod wedi cyflwyno brechwast ysgol am ddim am y rheswm y mae Rhun ap Iorwerth newydd ei grybwyll, sef na ddylai unrhyw blentyn fynd i'r ysgol a dechrau ei ddiwrnod gwaith yn teimlo'n llwglyd. Roeddwn i hefyd eisiau siarad am faetheg y brechwast hwnnw a chysylltu hynny â bwyta'n iach, a gofyn a yw Estyn wedi gallu adrodd i chi ei fod yn cael effaith ar y ffordd y mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion yn gwella. Y cwestiwn arall sy'n profi fy mhwynt yw eich bod wedi sôn bod y grant wedi cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Referniw. Onid yw'n bryd i ni ddechrau neilltuo cyllid grantiau o'r fath?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If local authorities do not fulfil the requirements of the legislation, we will have to take a view on that with regard to the way in which money is distributed through the grant. I can say, however, that through the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 which came into force in September of last year, Estyn will report for the first time on the arrangements that schools have made to implement the Measure in its 2013-14 annual report, which is due to be published in the new year. That will be the first time that the contents of that report will be made available.

Os nad yw awdurdodau lleol yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, bydd yn rhaid i ni fabwysiadu safbwynt ar hynny o ran y ffordd y mae arian yn cael ei ddosbarthu drwy'r grant. Gallaf ddweud, fodd bynnag, trwy Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a ddaeth i rym ym mis Medi y llynedd, y bydd Estyn yn adrodd am y tro cyntaf ar y trefniadau y mae ysgolion wedi eu gwneud i weithredu'r Mesur yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Dyna fydd y tro cyntaf y bydd cynnwys yr adroddiad hwnnw ar gael.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, picking up on Rhun ap Iorwerth's points about how tight funding now is for councils, will this Government look at enabling local county councils to charge those who can afford it for a school breakfast? It is an initiative that I heartily support, but I send my child to have breakfast in school every day because it enables me and my husband to work. It is a great economic benefit as it enables cheap childcare, which has substantial benefits to the economy. However, when these councils are struggling so hard to find funding, if those who can afford to pay do so and those who cannot afford to pay are protected and given the food they need, then surely everyone will win?

Brif Weinidog, gan ddilyn pwyntiau Rhun ap Iorwerth am ba mor dynn yw cyllid i gynghorau erbyn hyn, a wnaiff y Llywodraeth hon ystyried galluogi cynghorau sir lleol i godi tâl am frecwast ysgol gan y rhai sy'n gallu ei fforddio? Mae'n fenter rwy'n ei chefnogi'n frwd, ond rwy'n anfon fy mhentyn i gael brecwast yn yr ysgol bob dydd gan ei fod yn fy ngalluogi i a fy ngŵr i weithio. Mae'n fudd economaidd mawr gan ei fod yn cynnig gofal plant rhad, sydd â manteision sylweddol i'r economi. Fodd bynnag, pan fo'r cynghorau hyn yn ei chael hi mor anodd i ddod o hyd i gyllid, os bydd y rhai sy'n gallu fforddio talu yn gwneud hynny a'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio talu yn cael eu diogelu ac yn cael y bwyd y mae ei angen arnynt, yna does bosib y bydd pawb ar eu hennill?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I welcome the Member back to the Chamber, first of all; I know that she has been away for some time and it is always good to see a Member return after some months. I do welcome her back.

Croesawaf yr Aelod yn ôl i'r Siambr, yn gyntaf oll; gwn ei bod wedi bod i ffwrdd ers cryn amser ac mae bob amser yn braf gweld Aelod yn dychwelyd ar ôl rhai misoedd. Rwy'n ei chroesawu yn ôl.

In terms of the question, we provide the funding for local authorities for them to provide free school breakfasts. If we were to start charging, there would be two consequences: first of all, it would cut across a manifesto commitment that we made; and, secondly, it would mean that local councils had even less money, because, if they started charging, we would have to recoup the money that they earn through charges back through the revenue support grant. So, from their point of view, they would be no better off. We prefer a system where we provide free school breakfasts for all, where there is no stigma attached to those who receive free school breakfasts, and to make sure that children have the opportunity of a good meal at the start of the day so that they are in a position to learn better throughout the day.

O ran y cwestiwn, rydym yn darparu'r cyllid i awdurdodau lleol iddynt ddarparu brecwast am ddim mewn ysgolion. Pe byddem yn dechrau codi tâl, byddai dau ganlyniad: yn gyntaf oll, byddai'n torri ar draws ymrwymiad manifffesto a wnaethom; ac, yn ail, byddai'n golygu bod gan gynghorau lleol hyd yn oed lai o arian, oherwydd, pe byddent yn dechrau codi tâl, byddai'n rhaid i ni adennill yr arian y maent yn ei ennill trwy daliadau yn ôl drwy'r grant cynnal referiw. Felly, o'u safbwynt nhw, ni fyddent ddim gwel eu byd. Mae'n well gennym ni system lle'r ydym yn darparu brecwast ysgol am ddim i bawb, lle nad oes unrhyw stigma'n gysylltiedig â'r rhai sy'n derbyn brecwast am ddim yn yr ysgol, ac i wneud yn siŵr bod plant yn cael y cyfle i gael pryd o fwyd da ar ddechrau'r diwrnod fel eu bod yn mewn sefyllfa i ddysgu'n well trwy gydol y dydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:57 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n derbyn bod hyn yn ymrwymiad manifffesto gennyh, ond mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos mai dim ond 22% o blant sy'n derbyn y cynnig o frecwast am ddim erbyn hyn. Felly, a ydych chi'n barod i ystyried y polisi yn Lloegr ynglŷn â phrydau amser cinio am ddim, er mwyn gweld a oes unrhyw fath o welliant o ran cyrhaeddiad plant, gan dderbyn mai ymrwymiad manifffesto cynt sydd gennyh?

First Minister, I accept that this was one of your manifesto commitments, but the most recent information shows that only 22% of children receive free breakfasts to date. Therefore, would you be willing to consider the policy in England as regards free school meals at lunch time, to see whether that has led to an improvement in children's attainment, although I do bear in mind that you are working on a previous manifesto commitment?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae fel pe bai rhyw ddadl yn cymryd lle ynglŷn â phryd yn y dydd y dylai plant gael bwyd am ddim. Brecwast yw'r pryd rydym ni'n mo'yn ei weld, ond mae'n rhaid i mi ddweud hyn wrth y Rhyddfrydwyr: rwyf wedi clywed y Rhyddfrydwyr yn beirniadu brecwastau am ddim yn y Siambr hon, ond wedyn yn canmol cael cinio am ddim. Dywedodd Kirsty Williams, fel arweinydd y Rhyddfrydwyr yng Nghymru, ynglŷn â'r brecwastau mai 'happy meals' oeddynt. Os mai 'happy meal' yw brecwast, beth felly yw cinio amser cinio? Nid wyf yn gweld bod gwahaniaeth. Ein barn ni yw mai amser brecwast yw'r amser i gael bwyd i blant er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dechrau'r dydd ar sylfaen gadarn.

There seems to be a debate here as to when during the school day children should be given meals for free. Breakfast is where we see the priority, but I would say this to the Liberals: I have heard them criticising free school breakfasts in this Chamber and then praising the free school lunch policy. Kirsty Williams, as leader of the Liberal Democrats in Wales, described the breakfasts as 'happy meals'. If breakfasts are 'happy meals' then what are lunches? I do not see that there is a difference there. Our view is that breakfast time is the best time of day to provide children with a meal in order ensure that they start the day on a firm foundation.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yswirio Tai (Llifogydd)

House Insurance (Flooding)

13:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chynlluniau i yswirio tai sydd o dan fygythiad gan lifogydd? OAQ(4)1960(FM)

5. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government in relation to plans to insure houses under threat from flooding? OAQ(4)1960(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rydym wedi cael llawer o drafodaethau. Mae'r trafodaethau ynghylch yswiriant llifogydd wedi bod yn cael eu cynnal ers dros flwyddyn. Yr wythnos diwethaf, cydnabu Llywodraeth y Deyrnas Unedig ein pryderon ynghylch y cynllun sy'n cael ei ffafrio, sef Flood Re, ac mae wedi cytuno ar drefn sy'n golygu na fydd yn rhaid i berchnogion tai Cymru dalu mwy na gweddill y Deyrnas Unedig.

We have had many discussions. Flood insurance discussions have been ongoing for over a year. Last week, the UK Government acknowledged our concerns over the preferred scheme, Flood Re, and has agreed to a solution that will not leave Welsh homeowners paying more than the rest of the UK.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae hynny'n newyddion arbennig o dda, newyddion nad oeddwn yn ymwybodol ohono. Roedd y cynllun yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ei ffafrio yn mynd i roi tai yng Nghymru o dan anfantais sylweddol iawn. Byddai tŷ gwerth £250,000, mae'n debyg, yng Nghymru yn talu £162 yn fwy y flwyddyn o insiwrans. Felly, os yw Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi cydnabod yr annhegwch hwn, rwy'n falch iawn o hynny. Efallai y gallwch roi mwy o wybodaeth inni pan fyddwch yn gwbl sicr bod cynllun yn mynd i gael ei roi ar waith sydd llawn mor ffafriol yng Nghymru ag yn Lloegr.

That is particularly good news, and news that I was not aware of. The scheme preferred by the United Kingdom Government would have placed Welsh homes under very significant disadvantage. A £250,000 house in Wales would probably pay £162 more per year in insurance. Therefore, if the United Kingdom Government has recognised this injustice, I am pleased. Perhaps you can give us more information when you are absolutely certain that a plan will be implemented that is equally favourable in Wales and in England.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Byddai'r cynllun yr oedd wedi meddwl amdano yn y lle cyntaf wedi golygu y byddai mwy nag 20,000 o dai yng Nghymru yn talu mwy na thai cymharol yng ngweddill y Deyrnas Unedig, felly roedd yn bleser mawr i weld ei bod wedi newid ei meddwl, a'i bod wedi cytuno ar ffordd ymlaen sy'n sicrhau bod cydraddoldeb rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

The plan that it originally thought about meant that more than 20,000 houses in Wales would pay more than comparable housing in the rest of the United Kingdom, so it was a great pleasure to see that it has changed its mind, and that it has agreed on a way forward that ensures equality between Wales and the rest of the United Kingdom.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:00 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I have raised in this Chamber many times the disgust of my constituents when the Prime Minister came over the border into Wales to announce a scheme that would only apply to English homes. The Secretary of State at the time fully supported that. Now that we have had a change of Secretary of State for Wales, have you had any meaningful discussions about how we can move forward together, so that when somebody is flooded—wherever they happen to live—we offer them the support that they need?
- Brif Weinidog, rwyf wedi codi sawl gwaith yn y Siambr hon anniddigrwydd fy etholwyr pan ddaeth Prif Weinidog y DU dros y ffin i Gymru i gyhoeddi cynllun a fyddai'n berthnasol i gartrefi yn Lloegr yn unig. Cefnogodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd hynny'n llawn. Gan ein bod ni wedi newid Ysgrifennydd Gwladol Cymru erbyn hyn, a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau ystyrllon am sut y gallwn ni symud ymlaen gyda'n gilydd, fel pan fydd rhywun yn dioddef lligfogydd—lle bynnag y mae'n digwydd byw—ein bod yn cynnig y gefnogaeth y mae ei hangen iddo?
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We have, of course, as a Government, in all that we did after the storms in January. It was a curious statement by the Prime Minister, at that time—to come to Pembrokeshire to announce a scheme that would not apply in Pembrokeshire. It was really a lesson for him regarding devolution, and hopefully it is a lesson that they have learned in Whitehall.
- Rydym ni wedi, wrth gwrs, fel Llywodraeth, ym mhopeth a wnaethom ar ôl y stormydd ym mis Ionawr. Roedd yn ddatganiad rhyfedd gan Brif Weinidog y DU, ar yr adeg honno—i ddod i Sir Benfro i gyhoeddi cynllun na fyddai'n berthnasol yn Sir Benfro. Roedd wir yn wers iddo o ran datganoli, a gobeithio ei bod yn wers y maen nhw wedi ei dysgu yn Whitehall.
- 14:01 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, no new homes built on floodplains since 2009 will qualify for the Flood Re insurance scheme, unless that position has now changed as a result of your negotiations. Can you outline what action the Welsh Government is taking to inform the homeowners of those properties that they will not be covered by the Flood Re scheme, and, also, perhaps, what action you are taking to notify local councils of their liability if they grant planning permission on floodplains, because, of course, that is why the insurers will not insure homes that were built on floodplains post-2009?
- Brif Weinidog, ni fydd unrhyw gartrefi newydd a adeiladwyd ar orlfdiroedd ers 2009 yn gymwys ar gyfer y cynllun yswiriant Flood Re, oni bai bod y sefyllfa honno wedi newid erbyn hyn o ganlyniad i'ch trafodaethau. A allwch chi amlinellu pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hysbysu perchnogion y cartrefi hynny na fyddant yn cael eu cynnwys yn y cynllun Flood Re, a, hefyd, efallai, pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i hysbysu cynghorau lleol am eu hatebolrwydd os byddant yn rhoi caniatâd cynllunio ar orlfdiroedd, oherwydd, wrth gwrs, dyna pam na wnaiff cwmnïau yswiriant yswirio cartrefi a adeiladwyd ar orlfdiroedd ar ôl 2009?
- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- It is your party's scheme. Flood Re is a UK Government scheme and it is for the UK Government to explain its position on that. It is for the UK Government to ensure that it informs local councils of the reasoning for its decisions. It is not for us to defend or, indeed, to propagate what the UK Government does. It is for it to explain to the people of Wales.
- Cynllun eich plaid chi yw hwn. Cynllun Llywodraeth y DU yw Flood Re a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw egluro ei safbwynt ar hynny. Mater i Lywodraeth y DU yw sicrhau ei bod yn hysbysu cynghorau lleol am y rhesymau dros ei phenderfyniadau. Nid ein lle ni yw amddiffyn neu, yn wir, lledaenu'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Ei chyfrifoldeb hi yw esbonio i bobl Cymru.
- 14:02 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your earlier answer. Many constituents of mine in the Roath and Penylan areas of Cardiff have experienced problems with getting any home insurance at all, due to a perceived flood risk from Roath brook, despite their properties not having been affected. I am grateful to Natural Resources Wales for its action and its active engagement with the community in terms of remedial works that are planned, but how can you ensure that the information that insurers use to set their risk levels is kept up to date with regard to flood risk when remedial works are done?
- Diolch i chi am eich ateb cynharach. Mae llawer o'm hetholwyr i yn ardaloedd y Rhath a Phen-y-lan yng Nghaerdydd wedi cael problemau i gael unrhyw yswiriant cartref o gwbl, oherwydd y perygl tybiedig o lifogydd o'r Nant Fawr, er gwaethaf y ffaith nad yw eu cartrefi wedi eu heffeithio. Rwy'n ddiolchgar i Gyfoeth Naturiol Cymru am ei weithredoedd a'i ymgysylltiad ymarferol â'r gymuned o ran gwaith adfer sydd wedi ei gynllunio, ond sut allwch chi sicrhau bod y wybodaeth y mae yswirwyr yn ei defnyddio i bennu eu lefelau risg yn cael ei diweddarau o ran perygl o lifogydd pan fydd gwaith adfer yn cael ei wneud?

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would expect insurers—the Association of British Insurers, particularly, as the umbrella organisation—to make sure that they are fully aware of the latest flood risk advice from Natural Resources Wales. This is something that has been done, to my knowledge, over the past few years. I remember that, when the TAN was first introduced—TAN 15—there was great controversy in this Chamber at the time when I introduced it, as Minister. What happened was that there was flexibility within the TAN to make sure that, with specific instances of what appeared to be a property at risk of flooding on a map that was actually protected because of a natural feature, such as a large bank, that was built into the methodology that NRW uses. So, I would expect insurers to look at the up to date information that NRW has at its disposal.

Byddwn yn disgwyl i yswirwyr—Cymdeithas Yswirwyr Prydain, yn arbennig, fel y mudiad ymbarél—i wneud yn siŵr eu bod yn gwbl ymwybodol o'r cyngor perygl llifogydd diweddaraf gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei wneud, hyd y gwn i, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwy'n cofio, pan gyflwynwyd y TAN gyntaf—TAN 15—y bu dadlau mawr yn y Siambr hon ar y pryd pan y'i cyflwynais, fel Gweinidog. Yr hyn a ddigwyddodd oedd bod hyblygrwydd o fewn y TAN i wneud yn siŵr, gydag enghreifftiau penodol o'r hyn a oedd yn ymddangos i fod yn eiddo a oedd mewn perygl o lifogydd ar fap, a oedd wedi ei amddiffyn mewn gwirionedd oherwydd nodwedd naturiol, fel glan fawr, ac roedd hyn wedi ei gynnwys yn y dull y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddefnyddio. Felly, byddwn yn disgwyl i yswirwyr edrych ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig

Autistic Spectrum Disorders

14:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sydd ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru? OAQ(4)1955(FM)

6. Will the First Minister outline Welsh Government support for people with Autistic Spectrum Disorders in Wales? OAQ(4)1955(FM)

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. As the Member knows, since 2008, the autistic spectrum disorder strategic action plan has been delivering support for people with autism. There is an ASD lead in every local authority and a local stakeholder group. We also fund the community monitoring support project and the ASD adults diagnostic network to support adults with autism.

Gwnaf. Fel y mae'r Aelod yn gwybod, ers 2008, mae'r cynllun gweithredu strategol ar anhwylderau sbectrwm awtistig wedi bod yn cynnig cefnogaeth i bobl ag awtistiaeth. Ceir arweinydd Anhwylder Sbectrwm Awtistig ym mhob awdurdod lleol a grŵp rhanddeiliaid lleol. Rydym hefyd yn ariannu'r prosiect cymorth monitro cymunedol a rhwydwaith diagnostig oedolion Anhwylderau Sbectrwm Awtistig i gefnogi oedolion ag awtistiaeth.

14:04 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. You may be aware that there is growing concern in the autism community—people on the spectrum, their carers and families—not only over delays with the refreshing of the strategy, but over news that the £40,000 paid annually to each local authority, or £880,000 a year, for the ASD infrastructure grant to support services for people with autism is going to lose its protection and go into the local government revenue support grant, at a time when budgets are generally under pressure. The community is asking for this money to continue to receive its protection as a commitment from the Welsh Government to the ongoing strategy. I would welcome your response accordingly.

Diolch i chi am hynna. Efallai y byddwch yn gwybod bod pryder cynyddol yn y gymuned awtistiaeth—pobl ar y sbectrwm, eu gofalwyr a'u teuluoedd—nid yn unig am oediadau o ran adnewyddu'r strategaeth, ond am newyddion bod y £40,000 a delir yn flynyddol i bob awdurdod lleol, neu £880,000 y flwyddyn, ar gyfer y grant seilwaith Anhwylder Sbectrwm Awtistig i gefnogi gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth yn mynd i gollu ei amddiffyniad a mynd i mewn i'r grant cynnal refferniw llywodraeth leol, ar adeg pan fo cyllidebau dan bwysau yn gyffredinol. Mae'r gymuned yn gofyn am i'r arian hwn barhau i gael ei amddiffyn fel ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'r strategaeth barhaus. Byddwn yn croesawu eich ymateb yn unol â hynny.

- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- I do know that this is an issue and I am aware that the National Autistic Society has expressed some concerns about this. Can I make it absolutely clear that we have, I believe, a good system of support in place through local authorities for those who are on the spectrum with autism? I would expect that to remain in place. If we find that local authorities, even though the money is being distributed through the revenue support grant, are weakening the structure that we have in place at the moment, then clearly we would have to examine how that could be fortified in future.
- Rwy'n gwybod fod hyn yn broblem ac rwy'n ymwybodol bod y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi mynegi rhai pryderon am hyn. A gaf i ei gwneud yn gwbl eglur bod gennym, yn fy marn i, system dda o gymorth ar waith drwy awdurdodau lleol i'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistig? Byddwn yn disgwyl i honno barhau i fod ar waith. Os byddwn yn canfod bod awdurdodau lleol yn gwanhau'r strwythur sydd gennym ar waith ar hyn o bryd, er bod yr arian yn cael ei ddosbarthu drwy'r grant cynnal refeniw, yna mae'n amlwg y byddai'n rhaid i ni ystyried sut y gellid cryfhau hynny yn y dyfodol.
- 14:05 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I am in contact with Cynon Valley P.A.L.S, a group of families whose children live with autism, ADHD and Aspergers, and they tell me of the many challenges they face at home and at school as a result. We know that many children and young people with autism find the prospect of sitting exams particularly daunting. This may be attributed to the school environment or the fact that they have missed out on lessons as a result of their condition. We know that they need regular movement breaks to help keep their concentration. How can we ensure, First Minister, a more consistent approach across education in supporting these young people? Would you agree that it is important to get it right when they are young to ensure that their futures are not blighted as a result?
- Brif Weinidog, rwyf mewn cysylltiad â P.A.L.S. Cwm Cynon, grŵp o deuluoedd y mae eu plant yn byw gydag awtistiaeth, ADHD a syndrom Asperger, ac maen nhw'n dweud wrthyf am yr heriau niferus y maen nhw'n eu hwynebu gartref ac yn yr ysgol o ganlyniad. Rydym yn gwybod bod y posibilrwydd o sefyll arholiadau yn arbennig o frawychus i lawer o blant a phobl ifanc ag awtistiaeth. Gellir priodoli hyn i amgylchedd yr ysgol neu'r ffaith eu bod wedi colli gwersi o ganlyniad i'w cyflwr. Rydym yn gwybod bod angen seibiannau symud arnynt yn rheolaidd i'w helpu i ganolbwyntio. Sut allwn ni sicrhau, Brif Weinidog, dull mwy cyson ar draws y byd addysg wrth gefnogi'r bobl ifanc hyn? A fydddech chi'n cytuno ei bod yn bwysig cael hyn yn iawn pan fyddant yn ifanc er mwyn sicrhau nad yw eu dyfodol yn cael ei ddifetha o ganlyniad?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Of course. I think that that is something we would all agree with within the Chamber. I can say that the Equality Act 2010 places a duty upon awarding bodies to make reasonable adjustments for disabled learners taking general qualifications such as GCSEs and A-levels. In terms of what is devolved, for literacy and numeracy tests we give guidance to schools on access arrangements for pupils for additional learning needs, including suggestions on how tests might be delivered, and that includes autism and other learning difficulties that affect concentration. So, there is guidance in place, building on what is already there in the Equality Act.
- Wrth gwrs. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y byddem i gyd yn cytuno ag ef yn y Siambr. Gallaf ddweud bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar gyrrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl sy'n astudio ar gyfer cymwysterau cyffredinol fel TGAU a Safon Uwch. O ran yr hyn sydd wedi ei ddatganoli, darparwyd canllawiau i ysgolion gennym ar drefniadau mynediad i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer profion llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gellid darparu profion, ac mae hynny'n cynnwys awtistiaeth ac anawsterau dysgu eraill sy'n effeithio ar ganolbwyntio. Felly, mae canllawiau ar waith, yn adeiladu ar yr hyn sydd ar gael eisoes yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- 14:07 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae nifer o achosion wedi dod i fy sylw i yn fy etholaeth gan rieni sy'n nodi bod ysgolion yn gwrthod neu'n methu ag adnabod cyflwr ac anghenion plant yn y maes hwn. Mae amryw o rieni yn gorfod mynd yn breifat, hyd yn oed, er mwyn cael diagnosis cyn bod ysgolion yn fodlon cydnabod a chyn eu bod yn ymateb gyda rhaglen briodol. Pa arweiniad rydych chi, fel Llywodraeth, yn ei rhoi i awdurdodau lleol i sicrhau bod plant gyda'r cyflwr hwn yn cael eu hadnabod ac yna bod awdurdodau lleol yn ymateb yn briodol?
- A number of cases have come to my attention in my constituency, brought to my attention by parents who say that the schools refuse or are unable to diagnose conditions in this field. A number of parents have had to go private in order to secure a diagnosis before schools are willing to recognise this and respond with the appropriate programmes. What guidance do you as a Government give to local authorities to ensure that children with this condition are identified and that the local authority response is appropriate?

- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Byddwn yn erbyn iddynt sicrhau eu bod yn adnabod y plant hyn. Nid wyf yn deall pam y byddai'n rhaid mynd yn breifaf i gael diagnosis. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn rhoi'r gwasanaethau y dylent eu rhoi i blant ag anghenion arbennig a phlant awtistaidd. Felly, os oes enghraifft o le nad yw hynny'n digwydd, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog am wybod amdano.
We would expect them to be able to identify these children. I do not understand why they would have to go privately for a diagnosis. However, every local authority is duty-bound to ensure that it provides the services needed by children with special educational needs and autistic children. So, if there is an example of where that is not the case, I am sure that the Minister would want to hear about it.
- 14:08 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, you will be aware of the case of Claire Dyer who lives in my region. One of the issues that has arisen as a result of her particular circumstances is that it has become evident that there are no low secure or medium secure in-patient specialist autism services in south Wales and very little in the way of non-secure hospital provision. While that position also applies in parts of England, England has the benefit of specialist autism community services and support that does not exist in Wales at the moment, as far as I am aware. In addition, there is no consultant specialising in autism located in south Wales. May I ask you what the Welsh Government is doing to try to address that situation?
Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o achos Claire Dyer sy'n byw yn fy rhanbarth i. Un o'r materion sydd wedi codi o ganlyniad i'w hamgylchiadau arbennig yw ei bod wedi dod yn amlwg nad oes unrhyw wasanaethau awtistaeth arbenigol ar gyfer cleifion mewnlol diogelwch isel na diogelwch canolog yn y de ac ychydig iawn o ran darpariaeth ysbyty anniogel. Er bod y sefyllfa honno hefyd yn wir mewn rhannau o Loegr, mae gan Loegr y fantais o wasanaethau a chymorth cymunedol awtistaeth arbenigol nad yw'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd, hyd y gwn i. Hefyd, nid oes unrhyw ymgynghorydd sy'n arbenigo mewn awtistaeth wedi ei leoli yn y de. A gaf i ofyn i chi beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa honno?
- 14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I will ask the Minister to write you on that. I can say though that I understand that Claire was discharged from where she had previously been and is now at the family home in Swansea. Ministers clearly cannot intervene in an individual patient's care. I understand that it was a decision of the team caring for her that led to her being placed where she was placed. I do not want to go into any more detail in fairness to her but perhaps the Minister can write to you with the details on the issues you have raised to answer you with more detail.
Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch ynghylch hynny. Gallaf ddweud er hynny fy mod yn deall bod Claire wedi ei rhyddhau o'r lle yr oedd ynddo cynt a'i bod yn y cartref teuluol yn Abertawe erbyn hyn. Yn amlwg, ni all Gweinidogion ymyrryd yng ngofal claf unigol. Rwy'n deall mai penderfyniad gan y tîm a oedd yn gofalu amdani a arweiniodd iddi gael ei lleoli yn y man y'i lleolwyd. Nid wyf eisiau rhoi mwy o fanylion er tegwch iddi hi, ond efallai y gall y Gweinidog ysgrifennu atoch gyda'r manylion am y materion yr ydych chi wedi eu codi er mwyn eich ateb yn fwy manwl.
- Safonau mewn Cartrefi Gofal** **Care Home Standards**
- 14:09 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
7. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar safonau mewn cartrefi gofal yng Nghymru? OAQ(4)1969(FM)
7. What assessment has the First Minister made of the Older People's Commissioner's report into standards within care homes in Wales? OAQ(4)1969(FM)
- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The report is a detailed review of the quality of life in residential care. There are some examples of excellent care throughout the report. There are 43 recommendations, however, in the report and they are largely in line with the Welsh Government's existing plans.
Adolygiad manwl o ansawdd bywyd mewn gofal preswyl yw'r adroddiad. Ceir rhai enghreifftiau o ofal rhagorol ym mhob rhan o'r adroddiad. Ceir 43 o argymhellion yn yr adroddiad er hynny, ac maen nhw'n cyd-fynd â chynlluniau presennol Llywodraeth Cymru ar y cyfan.

14:10

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that you will agree that this is a landmark report that raises some fundamental questions, not just in relation to standards within Welsh care homes, but more widely in terms of the way in which we as a society support and care for people in their old age.

It is clear to me that a step change is required if we are to confront the issues that have been highlighted, and making progress will require a concerted effort across the Welsh Government. Working with the Minister for Health and Social Services, will you commit to playing a leading role in that process, so that this report represents a line in the sand, so that we can begin to address these long-standing issues that are so detrimental to the quality of life of older people living in residential care?

Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno bod hwn yn adroddiad pwysig sy'n codi rhai cwestiynau sylfaenol, nid yn unig o ran safonau yng nghartrefi gofal Cymru, ond yn ehangach o ran y ffordd yr ydym ni fel cymdeithas yn cefnogi ac yn gofalu am bobl yn eu henaint.

Mae'n amlwg i mi bod angen newid sylweddol os ydym am wynebu'r problemau a amlygwyd, a bydd gwneud cynnydd yn gofyn am ymdrech ar y cyd ar draws Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a wnewch chi ymrwymo i chwarae rhan flaenllaw yn y broses honno, fel bod yr adroddiad hwn yn cynrychioli llinell yn y tywod, ac y gallwch ddechrau mynd i'r afael â'r materion hirsefydlog hyn sydd mor niweidiol i ansawdd bywyd y bobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Absolutely. There are two issues that I can point to in terms of us moving forward. Work is already under way in relation to a number of recommendations within the document and a care home task and finish group, as I mentioned in the Chamber last week, is already in effect. That was established in July. Its role is to ensure the effective oversight and co-ordination of action to ensure the quality and sustainability of care in the sector. On top of that, we have the White Paper, which sets out our proposals to strengthen the regulation and inspection of social services. Many of the recommendations in the report are contained in the reforms that we propose to introduce through the draft Bill that will be put before the Assembly in February.

Yn sicr. Ceir dau fater y gallaf eu nodi o ran ein bod yn symud ymlaen. Mae gwaith ar y gweill eisoes o ran nifer o argymhellion yn y ddogfen ac mae grŵp gorchwyl a gorffen cartrefi gofal, fel y soniais yn y Siambr yr wythnos diwethaf, wedi ei sefydlu eisoes. Sefydlwyd hwnnw ym mis Gorffennaf. Ei swyddogaeth yw sicrhau goruchwyliaeth a chydgyssylltiad effeithiol o gamau gweithredu i sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd gofal yn y sector. Yn ogystal â hynny, mae'r Papur Gwyn gennym, sy'n nodi ein cynigion i gryfhau'r broses o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol. Mae llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad wedi eu cynnwys yn y diwygiadau yr ydym ni'n bwriadu eu cyflwyno drwy'r Bil drafft a fydd yn cael ei roi gerbron y Cynulliad ym mis Chwefror.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The number of care homes in Wales failing to provide for more than the most basic of older people's needs and the total disregard for their personal identities and individuality made reading Sarah Rochira's report incredibly alarming. First Minister, do you agree with the Older People's Commissioner for Wales that the findings of this report show that too many of today's care home residents are now sadly becoming institutionalised? What assurances will you give that the findings in this report will be acted upon and that the excellent work by the older people's commissioner will go forward and influence future policy and legislation in order to protect our most vulnerable and certainly our older people in society?

Roedd nifer y cartrefi gofal yng Nghymru sy'n methu â diwallu mwy na'r anghenion mwyaf sylfaenol sydd gan bobl hyn, a'u diystyriaeth llwyr o'u hunaniaeth a'u hunigoliaeth bersonol yn gwneud darllen adroddiad Sarah Rochira yn hynod o frawychus. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â Chomisynydd Pobl Hŷn Cymru bod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos bod gormod o breswylwyr cartrefi gofal y dyddiau hyn yn cael eu sefydliadu yn anffodus erbyn hyn? Pa sicrwydd wnewch chi ei roi y bydd camau'n cael eu cymryd ar sail y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ac y bydd y gwaith rhagorol gan y comisiynydd pobl hŷn yn mynd yn ei flaen ac yn dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn amddiffyn ein pobl sydd fwyaf agored i niwed ac yn sicr ein pobl hŷn mewn cymdeithas?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I would argue that that is already in effect with the task and finish group and the White Paper, through which there will be an opportunity for Members to strengthen the regulatory and inspection regime to make sure that there is greater consistency in the sector.

Byddwn yn dadlau bod hynny ar waith eisoes gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen a'r Papur Gwyn, a bydd cyfle drwy'r rheini i'r Aelodau gryfhau'r gyfundrefn reoleiddio ac arolygu i sicrhau bod mwy o gysondeb yn y sector.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Brif Weinidog, byddwn yn cytuno â'r sylwadau a wnaed eisoes gan y ddau Aelod Cynulliad a'r comisiynydd, sydd wedi dweud mai'r peth pwysig yn hyn yw deall sut mae pobl hŷn yn mynd i ddeall bod eu hawliau'n mynd i wella mewn ffordd weithredol. Felly, rwyf eisiau ichi ddangos sut mae hynny'n mynd i ddigwydd, yn enwedig yn yr 'aspect' o hunan ariannu. Rydym yn gweld yn yr adroddiad bod lot o bobl sydd wedi hunan-ariannu yn ofni dod ag unrhyw broblemau gerbron, oherwydd nad ydynt yn cael cefnogaeth yr awdurdod lleol, er enghraifft, neu oherwydd nad ydynt yn gallu dod o'r sefyllfa y maent ynddi. Dyna'r peth a oedd yn dod trwyddo'n glir iawn yn yr adroddiad, Brif Weinidog.

First Minister, I would agree with the comments already made by the two Assembly Members and the commissioner, who has said that the important thing is to understand how older people are going to understand that their rights will improve. Therefore, I want you to demonstrate how that is going to happen, particularly in the aspect of self-funding. We see in the report that a lot of people who have been self-funding fear bringing problems forward, because they do not get the support of the local authority, for example, or because they cannot get themselves out of the situation that they are in. That is the thing that came through very clearly in the report, First Minister.

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yr hyn sy'n bwysig am yr adroddiad hwn yw ei fod yn dangos bod y comisiynydd yn gwneud y gwaith y byddwn yn erfyn iddi'i wneud, i ddangos lle mae'r gwendidau yn y system a hefyd i ddangos lle mae pethau'n cael eu gwneud mewn ffordd ardderchog. Y nod yw sicrhau bod y rheini nad ydynt lan i'r safon yn awr yn dod lan i safon y gorau. I wneud hynny, fel y dywedais yn gynharach, mae gennym y grŵp gweithredol sydd wedi cael ei sefydlu a'r Papur Gwyn, a fydd yn arwain at sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth sy'n gwarchod pobl fwyfwy yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw pobl yn teimlo, os ydynt yn cwyno, eu bod mewn perygl o gael eu taflu allan o'r cartref. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn i'n mo'yn ei osgoi pob tro.

The important thing about this report is that it demonstrates that the commissioner is doing the work that I would expect her to do, to highlight weaknesses in the system and also to show where things are being done in an excellent way. The aim is to ensure that those not up to standard now come up to the standard of the best. To do so, as I said earlier, we have the working group that has been established and the White Paper, which will lead to ensuring that we have legislation to increasingly protect people in the future to ensure that people do not feel that, if they complain, they are in danger of being thrown out of the home. That is something that I would always want to avoid.

14:14

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

First Minister, the commissioner pointed to a lack of voice and control that many older people have when entering into care. Only yesterday, I was approached by a family whose elderly relative had hoped to enter a care home in Glyn Neath, which would allow him to continue to see his friends and family, to visit the library daily and to visit his church twice a week. Unfortunately, as he is a Powys resident in the Pont Neath Vaughan area of Powys, at the last minute, Powys declined to place him in the Neath Port Talbot home and moved him to a home within the county, miles away from his social contacts, affecting his ability to carry on living the life that he is able to lead. Would you agree that county councils should make placements based on the wellbeing of individuals, and not on their own convenience within county boundaries?

Brif Weinidog, tynnodd y comisiynydd sylw at y diffyg llais a rheolaeth sydd gan lawer o bobl hŷn wrth fynd i mewn i ofal. Ddoe ddiwethaf, cysylltodd teulu â mi yr oedd perthynas oedrannus iddynt wedi gobeithio mynd i gartref gofal yng Nglyn-nedd, a fyddai'n caniatáu iddo barhau i weld ei ffrindiau a'i deulu, i ymweld â'r llyfrgell bob dydd ac i ymweld â'i eglwys ddwywaith yr wythnos. Yn anffodus, gan ei fod yn un o drigolion Powys yn ardal Pontneddfechan Powys, gwrthododd Powys le iddo yn y cartref yng Nghastell-nedd Port Talbot ar y funud olaf, gan ei symud i gartref o fewn y sir, filltiroedd i ffwrdd o'i gysylltiadau cymdeithasol, sy'n effeithio ar ei allu i barhau i fyw'r bywyd y gall ei fyw. A fydddech chi'n cytuno y dylai cynghorau sir wneud lleoliadau yn seiliedig ar les unigolion, ac nid ar eu cyfleustra eu hunain o fewn ffiniau siroedd?

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
How many times have we said that we want local authorities to work together and not to see boundaries as the modern equivalent of the Berlin wall? I am familiar with that part of her constituency, some of it part of the Neath valley and some of it part of the Dulais valley, and, of course, they have an affinity with the settlements further down towards the coast, because they are physically closer. In the same way as we have always said that we would not want people who live in the border towns of Brecon and Radnor to be forced to travel to Cardiff or Newport for treatment when it is available in Hereford, or perhaps Shrewsbury, we would not want people to travel many miles from their communities and away from places that they have lived all their lives simply because of the need to stay within a county boundary.
- Sawl gwaith ydym ni wedi dweud ein bod ni eisiau i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd a pheidio ag ystyried ffiniau fersiwn fodern o wal Berlin? Rwy'n gyfarwydd â'r rhan honno o'i hetholaeth, rhywfaint ohoni'n rhan o ddyffryn Nedd a rhywfaint ohoni'n rhan o ddyffryn Dulais, ac, wrth gwrs, mae ganddynt gysylltiad â'r aneddiadau ymhellach i lawr tuag at yr arfordir, gan eu bod yn ffisegol agosach. Yn yr un modd ag yr ydym ni wedi dweud erioed na fyddem eisiau i bobl sy'n byw yn nhrefi ffin Brycheiniog a Maesyfed gael eu gorfodi i deithio i Gaerdydd neu Gasnewydd i gael triniaeth pan fydd ar gael yn Henffordd, neu efallai Amwythig, ni fyddem eisiau i bobl deithio milltiroedd lawer o'u cymunedau ac i ffwrdd o'r lleoedd y maen nhw wedi byw ynddynt drwy gydol eu hoes dim ond oherwydd yr angen i aros o fewn ffin sir.
- 14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, First Minister. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.
- 14:16 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Business Statement and Announcement** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We now move to the business statement and I call on the Minister, Jane Hutt. Symudwn at y datganiad busnes nawr a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.
- 14:16 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business
I have one change to report to this week's business. There will be no short debate tomorrow, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.
- Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Ni fydd dadl fer yfory, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 14:16 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Leader of the house, could we have a statement from the Minister for health as to the Government's position in respect of the OECD report into the workings of the health service across United Kingdom? I know that this report was supposed to have been commissioned by all the Governments across the United Kingdom and there was to be joint ownership of it. It is my understanding, through recent press reports, that the Welsh Government no longer wishes to undertake this report. Could we have a statement from the Minister for health to clarify exactly what role the Government sees the OECD having in analysing the effectiveness of the Welsh NHS in comparison with the NHS in other parts of United Kingdom?
- Arweinydd y tŷ, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog iechyd ar safbwynt y Llywodraeth o ran adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar waith y gwasanaeth iechyd ledled y Deyrnas Unedig? Gwn fod yr adroddiad hwn i fod i gael ei gomisiynu gan yr holl Lywodraethau ar draws y Deyrnas Unedig ac y byddai cyfrifoldeb ar y cyd amdano. Rwy'n deall, trwy adroddiadau diweddar yn y wasg, nad yw Llywodraeth Cymru'n dymuno cyflawni'r adroddiad hwn mwyach. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog iechyd i egluro'n union pa swyddogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei gredu y bydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ei chyflawni wrth ddadansoddi effeithiolrwydd y GIG yng Nghymru o'i gymharu â'r GIG mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig?

14:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the leader of the opposition knows perfectly well the circumstances surrounding the timing of what is, obviously, a very important analysis in terms of the OECD role. It is very clear that this has been politically influenced and motivated, and we will not say very much more than that we know that your party and your Minister for health in London have something to do with this. There is no more to be said at this point in time.

Rwy'n credu bod arweinydd yr wrthblaid yn gwybod yn iawn yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag amseriad yr hyn sydd, yn amlwg, yn ddadansoddiad pwysig iawn o ran swyddogaeth y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae'n amlwg iawn y bu dylanwad a chymhelliaid gwleidyddol i hyn, ac ni wnawn ni ddweud llawer iawn mwy na'r ffaith ein bod yn gwybod bod gan eich plaid chi a'ch Gweinidog iechyd yn Llundain rywbeth i'w wneud â hyn. Nid oes mwy i'w ddweud ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yesterday, I was very pleased to visit Vision 21 in my constituency. It was a visit organised by the Wales Co-operative Centre to promote social enterprise and co-operatives as part of Global Entrepreneurship Week. I was absolutely thrilled to see how Vision 21 had grown from a garage at the back of the founder's house, which I remember well, to 97 staff, 44 weekly volunteers, 365 training placements for students with additional learning support needs, and 17 social businesses. What can we do here in the Assembly to mark this very important week, Global Entrepreneurship Week, and the successes of social enterprises and co-operatives in Wales?

Ddoe, roeddwn i'n falch iawn o ymweld â Vision 21 yn fy etholaeth. Ymweliad oedd hwn a drefnwyd gan Ganolfan Gydweithredol Cymru i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chydweithredol yn rhan o Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd. Roeddwn i wrth fy modd o weld sut roedd Vision 21 wedi tyfu o garej yng nghefn tŷ'r sylfaenydd, yr wyf yn ei gofio'n dda, i 97 o aelodau staff, 44 o wirfoddolwyr bob wythnos, 365 o leoliadau hyfforddiant i fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol, a 17 o fusnesau cymdeithasol. Beth allwn ni ei wneud yma yn y Cynulliad i ddathlu'r wythnos bwysig iawn hon, Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd, a llwyddiannau mentrau cymdeithasol a chydweithredol yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question. I am also very aware of Vision 21, and remember when it started in the back garage of Barry Shiers, who pioneered this development. As part of Global Entrepreneurship Week, I think that many Members around this Chamber have been involved in visiting pioneering projects of this kind and I think that, particularly, the Wales Co-operative Centre has supported many of those projects. I think that the Minister for Economy, Science and Transport's commission, which Professor Andrew Davies chairs, in terms of future prospects for mutuals and co-operatives, will be very helpful in terms of taking these initiatives forward.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Rwyf innau hefyd yn ymwybodol iawn o Vision 21, ac yn cofio pan ddechreuodd yng ngarej gefn Barry Shiers, a arloesodd y datblygiad hwn. Yn rhan o Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd, rwy'n credu bod llawer o Aelodau o gwmpas y Siambr hon wedi bod yn ymweld â phrosiectau arloesol o'r math hwn ac rwy'n credu, yn benodol, bod Canolfan Gydweithredol Cymru wedi cefnogi llawer o'r prosiectau hynny. Rwy'n credu y bydd comisiwn Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y mae'r Athro Andrew Davies yn ei gadeirio, o ran rhagolygon y dyfodol i gwmnïau cyd-fuddiannol a mentrau cydweithredol, yn ddefnyddiol iawn o ran symud y mentrau hyn yn eu blaenau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roedd adroddiad diweddar, Weinidog, gan ganolfan ymchwil Prifysgol Sheffield Hallam yn datgan bod ardaloedd y gorllewin a'r Cymoedd yng Nghymru yn derbyn y lefel uchaf o gyllid Ewropeaidd, ond, eto i gyd, y byddai'r diwygiadau i'r wladwriaeth les sy'n cael eu cyflwyno gan y glymblaid yn San Steffan yn tynnu pedair gwaith cymaint o arian o economi'r cymunedau hynny ag y byddai'r cronfeydd Ewropeaidd yn ei gyflwyno ar gyfer datblygu rhanbarthol. A oes modd i ni gael dadl yma yn y Senedd ynglŷn â'r gyferbyniaeth hon a'r ffaith bod y glymblaid yn San Steffan yn tanseilio'r holl waith da sy'n cael ei wneud trwy gronfeydd Ewropeaidd yn yr ardaloedd hyn?

There was a recent report, Minister, by the Sheffield Hallam University research centre that declared that areas in west Wales and the Valleys received the highest level of European funding, but, even so, changes to the welfare state that are being brought forward by the coalition in Westminster would take four times as much money out of the economies of those communities as the European structural funds would provide for regional development. Could we have a debate in the Senedd on this contradiction and the fact that the coalition in Westminster is undermining all the good work being done through the European structural funds in these areas?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Rhodri Glyn Thomas raises a very important point about the Sheffield Hallam University research on showing the impact of the cuts by the UK Government in terms of welfare benefits. The impact of the cut is deepest in our Valleys communities—some of the most disadvantaged communities in Wales, of course, which we are reaching out to support, not just in terms of European structural funds, but also in terms of our programme for government. Certainly, the Minister for Communities and Tackling Poverty has agreed to table a debate on the issue of the impact of welfare reform, and it will be timetabled.

Rwy'n credu bod Rhodri Glyn Thomas yn codi pwynt pwysig iawn am waith ymchwil Prifysgol Sheffield Hallam ar ddangos effaith y toriadau gan Lywodraeth y DU o ran budd-daliadau lles. Mae effaith fwyaf y toriad yn ein cymunedau yn y Cymoedd—rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, wrth gwrs, yr ydym yn estyn allan iddynt i'w cefnogi, nid yn unig o ran y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ond hefyd o ran ein rhaglen lywodraethu. Yn sicr, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cytuno i gyflwyno dadl ar y mater o effaith diwygio lles, a bydd yn cael ei hamserlennu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae nifer o'n hysgolion cynradd ni ar hyn o bryd yn mynd trwy system newydd o gategoreiddio. Roedd Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddai newidiadau i'r gyfundrefn fandio o fewn ysgolion uwchradd. A fyddwch felly yn sicrhau bod naill ai datganiad ysgrifenedig neu fod y Gweinidog addysg yn gwneud datganiad cyn diwedd y tymor ynglŷn â beth rydych yn bwriadu ei wneud?

Minister, a number of our primary schools at present are going through the new system of categorisation. The Welsh Government had suggested that there would be changes made to the banding system in secondary schools. Will you therefore ensure that either a written statement is issued or that the Minister for education makes a statement before the end of term about your intentions?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister for Education and Skills is clear regarding the need to engage, as he has done not only with teaching staff professionals, but with local education authorities and consortia. Also, I will draw this to his attention: the prospect of having any statement or further information to Assembly Members.

Gwn fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn eglur am yr angen i ymgysylltu, fel y mae wedi ei wneud, nid yn unig â gweithwyr proffesiynol staff addysgu, ond gydag awdurdodau addysg lleol a chonsortia. Hefyd, tynnaf ei sylw at hyn: y posibilrwydd o gael unrhyw ddatganiad neu wybodaeth bellach i Aelodau'r Cynulliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are two matters that I would like to have statements on. The first is, perhaps, for the Minister for Public Services, together with the Minister responsible for planning. In the light of the First Minister's answer to my question today, it appears that he does not appear to understand that planning is devolved to the Welsh Government. Clearly, local authorities have been put on notice that properties built on floodplains post 2009 will not be covered by the Flood Re scheme. Presumably any future developments on floodplain land will also not be covered by the Flood Re scheme. Many purchasers will not be aware of that restriction, and it seems to me that it is advisable that householders should be alerted to the fact that they may not be covered by insurance because it will massively affect the values of their properties. That is the first matter on which I would like a statement.

Ceir dau fater yr hoffwn gael datganiadau arnynt. Mae'r cyntaf, efallai, ar gyfer y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio. Yng ngoleuni ateb y Prif Weinidog i fy nghwestiwn heddiw, mae'n ymddangos nad yw'n ymddangos ei fod yn deall bod cynllunio wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Yn amlwg, mae awdurdodau lleol wedi cael eu rhybuddio na fydd cartrefi a adeiladwyd ar orlifdiroedd ar ôl 2009 yn cael eu cynnwys yn y cynllun Flood Re. Rwy'n tybio na fydd unrhyw ddatblygiadau ar orlifdir yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yng nghynllun Flood Re ychwaith. Ni fydd llawer o brynwyr yn ymwybodol o'r cyfyngiad hwnnw, ac mae'n ymddangos i mi ei bod yn ddoeth y dylai deiliaid tai gael eu hysbysu am y ffaith y gallent fod heb yswiriant gan y bydd yn effeithio'n aruthrol ar werthoedd eu heiddo. Dyna'r mater cyntaf yr hoffwn gael datganiad arno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The second relates to special educational needs. I am aware that there are proposals for an additional learning needs Bill coming forward. However, there appears to be a lacuna in the legislation at the moment where local authorities are not delivering statemented services to a child. If a parent complains to the local education authority and it does not deal with that complaint within its normal time frames, there is no recourse for that particular pupil or their parent. I wondered whether we could have a statement from the Minister on that matter, or an indication of when the additional learning needs Bill is likely to come forward.

Mae'r ail yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig. Rwy'n ymwybodol bod cynigion ar gyfer Bil anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod bwlch yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd lle nad yw awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau datganiad i blentyn. Os bydd rhiant yn gwneud cwyn i'r awdurdod addysg lleol ac nad yw'n ymdrin â'r gŵyn honno yn unol â'i hamserlenni arferol, nid oes atebolrwydd ar gyfer y disgybl penodol hwnnw na'i riant. Roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog ar y mater hwnnw, neu awgrym o bryd y mae'r Bil anghenion dysgu ychwanegol yn debygol o gael ei gyflwyno.

14:23	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank Antoinette Sandbach for those two questions. If you look at the first question, in terms of changes that are to a UK Government flood insurance scheme, you will see that we have said all along that we support the aims of Flood Re to promote the availability and affordability of flood insurance for high-risk households. This change means that the scheme will be applied fairly and that Welsh home owners will not be left paying more for their insurance than the rest of the UK.</p>	<p>Diolchaf i Antoinette Sandbach am y ddau gwestiwn yna. Os edrychwch chi ar y cwestiwn cyntaf, o ran y newidiadau sydd i gynllun yswiriant llifogydd Llywodraeth y DU, byddwch yn gweld ein bod wedi dweud o'r dechrau ein bod yn cefnogi amcanion Flood Re i sicrhau bod yswiriant llifogydd ar gael ac yn fforddiadwy i gartrefi â risg uchel. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd y cynllun yn cael ei ddefnyddio'n deg ac na fydd perchnogion tai yng Nghymru yn gorfod talu mwy am eu hyswiriant na gweddill y DU.</p>
	<p>In terms of your second issue about special educational needs, a consistent standard of delivery across Wales is important and legislation is forthcoming. This is a matter where it would be helpful if you could write to the Minister with any specific examples with an indication of where there is a failure in terms of local authority delivery at this stage.</p>	<p>O ran eich ail fater ynghylch anghenion addysgol arbennig, mae safon gyson o ddarpariaeth ledled Cymru yn bwysig ac mae deddfwriaeth ar y ffordd. Mae hwn yn fater lle byddai o gymorth pe gallech chi ysgrifennu at y Gweinidog gydag unrhyw enghreifftiau penodol gan nodi ble y ceir methiant o ran darpariaeth awdurdod lleol ar hyn o bryd.</p>
14:24	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We will have all watched in awe and wonder the images being relayed by the Philae space probe from the comet hundreds of millions of miles away. My constituents are very bemused that we can do that, yet it is beyond the wit of communications companies to supply them with a decent mobile phone signal and decent broadband. Please could we have an update from the Welsh Government on the Superfast Cymru scheme and on what efforts the Welsh Government is making to communicate with the mobile telephone operators to ensure that people in Brecon and Radnor can send photographs just a number of miles down the road and communicate with their clients and families? I am sure they would be very grateful to have an update.</p>	<p>Byddwn wedi gwyllo'n syn a chyda rhyfeddod y delweddau sy'n cael eu cyfleu gan chwiliedydd gofod Philae o'r gomed gannoedd o filiynau o filltiroedd i fwrdd. Mae fy etholwyr wedi eu syfrdanu'n llwyr ein bod yn gallu gwneud hynny, ond eto ei fod y tu hwnt i allu cwmnïau cyfathrebu i gyflenwi signal ffôn symudol da a band eang da iddynt. A allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru os gwelwch yn dda ar gynllun Cyflymu Cymru ac am yr ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i gyfathrebu gyda'r gweithredwyr ffonau symudol er mwyn sicrhau y gall pobl ym Mrycheiniog a Maesyfed anfon lluniau dim ond ychydig o filltiroedd i lawr y ffordd a chyfathrebu â'u cleientiaid a'u teuluoedd? Rwy'n siŵr y byddent yn ddiolchgar iawn o gael y wybodaeth ddiweddaraf.</p>
14:25	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am sure we also enjoyed that extraordinary vision. It is good that, globally, people could recognise the advances that have been made by that space probe and the huge outcomes that could have an impact.</p>	<p>Rwy'n siŵr ein bod ninnau wedi mwynhau'r olygfa anhygoel honno hefyd. Mae'n dda y gallai pobl, yn fyd-eang, gydnabod y datblygiadau sydd wedi eu cyflawni gan y chwiliedydd gofod hwnnw a'r canlyniadau enfawr a allai gael effaith.</p>
	<p>I will ask the Deputy Minister to consider at what stage it would be helpful to give an update in terms of Superfast Cymru.</p>	<p>Byddaf yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog ystyried ar ba adeg y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cyflymu Cymru.</p>
14:25	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>
14:26	Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014	Y Senedd.tv Fideo Video
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 (Amendment) Order 2014
	<p>I call on the Minister, Leighton Andrews.</p>	<p>Galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.</p>
	<p>Cynnig NDM5620 Jane Hutt</p>	<p>Motion NDM5620 Jane Hutt</p>

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (Diwygio) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2014.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 (Amendment) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 13 October 2014.

14:26

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

I move the motion.

The Local Government Byelaws (Wales) Act 2012, which received Royal Assent in November 2012, includes a power for the Welsh Ministers to make an Order to add to or remove from Schedule 1 to the Act enactments containing bye-law-making powers. The Act gives effect to the Welsh Government's proposals to simplify the procedures making and enforcing local government bye-laws.

The Order currently before the National Assembly adds 10 enactments to Part 1 of the Schedule and nine enactments to Part 2 of the Schedule. Apart from one enactment, which only features in Part 1, the same enactments have been added to both Part 1 and Part 2. Bye-laws made under enactments in Part 1 will not require confirmation by the Welsh Ministers. Those made under Part 2 may use fixed-penalty notices as a method of enforcement.

The addition of these enactments resulted from a recommendation made by the Communities, Equality and Local Government Committee during the Stage 1 scrutiny of the then Bill. The committee recommended the inclusion of the Swansea City Council (Tawe Barrage) Act 1986 and any other relevant legislation if appropriate. The bye-law-making powers to be added to Parts 1 and 2 of Schedule 1 have resulted from an extensive trawl of relevant legislation and our own historic local Acts. The powers remain in force today.

The Welsh Government has accepted a recommendation from the Constitutional and Legislative Affairs Committee to seek to ensure these historic Acts are made more readily accessible. The Order enables local authorities to take ownership of an increasing number and variety of bye-laws. Additionally, the power to enforce bye-laws through fixed penalty notices reduces pressures on magistrates' courts.

The Order is due to come into force on 19 November. I recommend it to you.

Cynigiau y cynnig.

Mae Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2012, yn cynnwys grym i Weinidogion Cymru i wneud Gorchymyn i ychwanegu deddfiadau sy'n cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfau at Atodlen 1 y Ddeddf neu eu tynnu oddi yno. Mae'r Ddeddf yn rhoi effaith i gynigion Llywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau llywodraeth leol.

Mae'r Gorchymyn sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn awr yn ychwanegu 10 deddfiad i Ran 1 yr Atodlen a naw deddfiad i Ran 2 yr Atodlen. Ar wahân i un deddfiad, sydd ddim ond yn ymddangos yn Rhan 1, mae'r un deddfiadau wedi eu hychwanegu at Ran 1 a Rhan 2. Ni fydd angen i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau a wneir o dan ddeddfiadau yn Rhan 1. Gall y rhai a wneir o dan Ran 2 ddefnyddio hysbysiadau cosbau penodedig fel dull o orfodi.

Daw ychwanegu'r deddfiadau hyn yn sgil argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ystod craffu Cyfnod 1 ar y Bil bryd hynny. Argymhellodd y pwyllgor y dylid cynnwys Deddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall pe bai hynny'n briodol. Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfau i'w hychwanegu at Rannau 1 a 2 o Atodlen 1 yn deillio o dreillio helaeth drwy ddeddfwriaeth berthnasol a'n Deddfau lleol hanesyddol ein hunain. Mae'r pwerau yn dal i fod mewn grym heddiw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn ceisio sicrhau bod y Deddfau hanesyddol hyn ar gael yn rhwyddach. Mae'r Gorchymyn yn galluogi awdurdodau lleol i berchnogi nifer ac amrywiaeth cynyddol o is-ddeddfau. Yn ogystal, mae'r grym i orfodi is-ddeddfau drwy hysbysiadau cosbau penodedig yn lleihau'r pwysau ar lysoedd ynadon.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19 Tachwedd. Rwyf yn ei argymhell ichi.

14:28

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I congratulate the Minister on navigating his way through that very technical script just now? Clearly, it took me about three readings of the actual explanatory memorandum before I fully grasped everything that was in there.

A gaf fi longyfarch y Gweinidog ar lywio ei ffordd drwy'r sgript dechnegol iawn honno? Wrth gwrs, bu'n rhaid i mi ddarllen y memorandwm esboniadol ei hun dair gwaith cyn imi ddeall yn iawn bopeth a oedd ynddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:28	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Oh, keep up. [Laughter.]	O, cadwch i fyny. [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Peter Black Bywgraffiad Biography It is actually quite an important point that was raised by the committee. I was one of its members who actually highlighted the fact that the legislation, when it came to committee, did not refer back to these local Acts of Parliament. So, in this sense, it is a lesson, I think, for the Government that when you legislate in haste, you do miss things out. Can the Minister, therefore, give assurances that he is now content that we have a comprehensive list of all the possible Acts that could generate bye-laws and that these are now incorporated into this particular Assembly Act? Can the Minister also confirm whether he has checked with other statutory bodies in Wales as to whether they have any Acts of Parliament that they are hiding away that we might want access in future as well?	Mae'r pwynt a godwyd gan y pwyllgor mewn gwirionedd yn un pwysig. Roeddwn yn un o'r aelodau a dynnod sylw at y ffaith nad oedd y ddeddfwriaeth, pan ddaeth at y pwyllgor, yn cyfeirio'n ôl at y Deddfau Seneddol lleol hyn. Felly, yn hynny o beth, mae'n wers, rwyf yn meddwl, i'r Llywodraeth—pan fyddwch yn deddfu ar frys, bydd pethau'n mynd ar goll. A wnaiff y Gweinidog, felly, roi sicrwydd inni ei fod bellach yn fodlon bod gennym restr gynhwysfawr o'r holl Ddeddfau posibl a allai greu is-ddeddfau a bod y rhain bellach wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cynulliad benodol hon? A all y Gweinidog hefyd gadarnhau a yw wedi holi cyrff statudol eraill yng Nghymru a oes ganddynt unrhyw Ddeddfau Seneddol y maent yn eu cuddio y gallem fod am fynd atynt yn y dyfodol hefyd?	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I have no other speakers. I call the Minister.	Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Galwaf ar y Gweinidog.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Llywydd, in answer to the Member: I am content.	Lywydd, imi gael ateb yr Aelod: rwyf yn fodlon.	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography You are content. Fine. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36. <i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	Rydych yn fodlon. O'r gorau. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. <i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Darpariaethau sy'n Ymwneud â Chymorth Allforio	Legislative Consent Memorandum Y on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Provisions Relating to Export Support	Senedd.tv Fideo Video
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call on the Minister, Edwina Hart. Cynnig NDM5617 Edwina Hart Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â chymorth allforio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	Officer Bywgraffiad Biography Galwaf ar y Gweinidog, Edwina Hart. Motion NDM5617 Edwina Hart To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Small Business, Enterprise and Employment Bill, relating to export support in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.	
14:29	Edwina Hart Bywgraffiad Biography <i>Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport</i> I move the motion.	Cynigiaf y cynnig.	Senedd.tv Fideo Video

The measure relates to exports and will broaden the Secretary of State's powers to provide financial support for exporters and exporting supply chains in the UK and for their investments overseas. The broadened powers will ensure that UK exporters, including those in Wales, when they wish to export are able to receive support similar to that available to their overseas competitors. I commend this to the Chamber.

Mae'r mesur yn ymwneud ag allforion a bydd yn ehangu pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cymorth ariannol i allforwyr a chadwyni cyflenwi allforio yn y DU ac i'w buddsoddiadau tramor. Bydd y pwerau wedi'u hehangu yn sicrhau bod allforwyr y DU, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, pan fyddant yn dymuno allforio, yn gallu cael cymorth tebyg i'r hyn sydd ar gael i'w cystadleuwyr dramor. Cymeradwyaf hyn i'r Siambr.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. Therefore, the— I beg your pardon; William Graham would like to speak.

Nid oes gennyf siaradwyr. Felly, mae— Mae'n ddrwg gennyf; mae William Graham am siarad.

14:30 William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As Chair of the committee, if I may, Presiding Officer, I just want to say that the Enterprise and Business Committee considered the legislative consent memorandum for the Small Business Enterprise and Employment Bill on 24 September. The committee agreed that the Bill, rather than separate Assembly legislation concerning exports, would ensure that the permissions applied in relation to Wales would give a fair system, providing for businesses in Wales compared with that of the United Kingdom. The committee did have concerns relating to the education provisions referred to in the memorandum, which will be discussed at a later date.

A minnau'n Gadeirydd ar y pwyllgor, os caf, Lywydd, hoffwn ddweud bod y Pwyllgor Menter a Busnes wedi ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ar 24 Medi. Cytunodd y pwyllgor y byddai'r Bil, yn hytrach na deddfwriaeth Cynulliad ar wahân yn ymwneud ag allforion, yn sicrhau y byddai unrhyw ganiatâd a gymhwyswyd yn gysylltiedig â Chymru yn darparu system deg, ac yn darparu ar gyfer busnesau yng Nghymru o gymharu â'r hyn sydd yn y Deyrnas Unedig. Roedd gan y pwyllgor bryderon o ran y darpariaethau addysg y cyfeirir atynt yn y memorandwm, a chaiff y rheini eu trafod yn nes ymlaen.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I apologise, William Graham, for not calling you. I have no other speakers, so, Minister, would you like to reply?

Rwyf yn ymddiheuro, William Graham, am beidio â'ch galw. Nid oes gennyf siaradwyr eraill, felly, Weinidog, a hoffech chi ateb?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I thank the Assembly's Enterprise and Business Committee for the scrutiny of the legislative consent memorandum and the report? May I say that this does help us in terms of the legislation that is going forward to help exporters?

A gaf fi ddiolch i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad am graffu ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r adroddiad? A gaf fi ddweud bod hyn yn ein helpu o ran y ddeddfwriaeth sy'n mynd rhagddi i helpu allforwyr?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y Gyllideb Ddrafft 2015-16

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.

The Draft Budget 2015-16

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Elin Jones.

14:31 Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion—Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig—Jane Hutt.

Cynnig NDM5619 Jane Hutt

Motion NDM5619 Jane Hutt

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-2016 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 30 Medi 2014.

Notes the Draft Budget for the financial year 2015-2016 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Government Business on 30 September 2014.

14:31

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

The spending plans that we are debating today reflect the Welsh Government's determination to deliver a draft budget for 2015-16 that protects our key public services in the toughest of times for public finances since 1999. Despite continuing austerity, new pressures and demands, we have chosen priorities that will have maximum impact, with significant new funding for health and for schools, which, in turn, will support the Welsh economy. Evidence shows that Governments can make choices with reducing budgets that support a balanced economic recovery for the common good. In response to the economic downturn, our budget focus on growth and jobs has made a real impact on the Welsh economy, especially for young people. However, as the UK Government block grant for Wales goes down, and needs increase, there are ever deepening challenges faced by our public services, which we must address. I believe that investing in health and schools will ensure that we are protecting the services that really matter to the people of Wales and that support the vulnerable.

Mae'r cynlluniau gwariant yr ydym yn eu trafod heddiw yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 sy'n gwarchod ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn yr adeg galetaf o ran cyllid cyhoeddus ers 1999. Er gwaethaf cyni parhaus, pwysau a galwadau newydd, rydym wedi dewis blaenoriaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf, gydag arian newydd sylweddol ar gyfer iechyd ac ar gyfer ysgolion, a fydd, yn ei dro, yn cefnogi economi Cymru. Mae tystiolaeth yn dangos y gall Llywodraethau wneud dewisiadau â chyllidebau sy'n crebachu sy'n cefnogi adferiad economaidd cytbwys er lles pawb. Mewn ymateb i'r dirywiad economaidd, mae ein pwyslais yn y gyllideb ar dwf a swyddi wedi cael effaith wirioneddol ar economi Cymru, yn enwedig o ran pobl ifanc. Fodd bynnag, wrth i grant bloc Llywodraeth y DU i Gymru fynd yn llai, ac wrth i'r anghenion gynyddu, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau sy'n dyfnhau fwyfwy, ac mae'n rhaid inni ymateb iddynt. Credaf fod buddsoddi mewn iechyd ac ysgolion yn sicrhau ein bod yn gwarchod y gwasanaethau sy'n wirioneddol bwysig i bobl Cymru ac sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

Boosting our skills through Jobs Growth Wales and Skills for Growth, and support for small and medium sized enterprises, alongside our investment in the Wales infrastructure investment plan, will all continue to support our economy in line with the Organisation for Economic Co-operation and Development predictors. These investments also help to deliver our commitment to fairness and supporting people who are still losing out as a result of in-work poverty and rising living costs.

Bydd rhoi hwb i'n sgiliau drwy Twf Swyddi Cymru a Sgiliau Twf, a chymorth i fusnesau bach a chanolig, law yn llaw â'n buddsoddiad yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, i gyd yn parhau i gefnogi ein heconomi yn unol â rhagfynegyddion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae'r buddsoddiadau hyn hefyd yn helpu i gyflawni ein hymrwymiad i degwch a chefnogi pobl sy'n dal i fod ar eu colled oherwydd tlodi mewn gwaith a chostau byw cynyddol.

The wider context in terms of public finances and priorities was addressed in our unanimous vote last month calling for talks on fair funding with the UK Government to begin immediately, with the goal of securing rapid implementation of a funding floor. This has sent a clear and united message from the Senedd to the people of Wales, businesses and communities, which has been widely welcomed. I look forward to progressing those talks with the UK Government as a key priority to demonstrate our determination to secure a fair and resilient funding base for our people.

Rhoddwyd sylw i'r cyd-destun ehangach o ran cyllid cyhoeddus a blaenoriaethau yn ein pleidlais unfrydol y mis diwethaf yn galw am i drafodaethau ar gyllid teg â Llywodraeth y DU ddechrau ar unwaith, er mwyn sicrhau y caiff cyllid gwaelodol ei roi ar waith yn gyflym. Mae hyn wedi anfon neges glir ac unedig oddi wrth y Senedd i bobl Cymru, busnesau a chymunedau, a chroesawyd hynny'n eang. Edrychaf ymlaen at fwrw ymlaen â'r trafodaethau hynny â Llywodraeth y DU fel blaenoriaeth allweddol er mwyn dangos ein bod yn benderfynol o sicrhau sylfaen ariannu deg a chadarn i'n pobl.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:33.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:33.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our commitment to sustainable public services has been central to our draft budget, as reflected by Ministers in their assessment of the impact of their decisions to shift the focus towards prevention. The strategic integrated impact assessment and draft budget report give examples of the key decisions that we have made, which reflect our support for prevention and early intervention. While this has been welcomed by the Finance Committee, we note its call for further clarity on what we mean by prevention and early intervention. I would like to take the opportunity to thank the Finance Committee for its scrutiny, as well as the report on the draft budget, which helpfully explores these shared objectives. The discussions with the Finance Committee have highlighted the clarity needed in defining what we mean by preventative spend. In the broader sense, it means that we will use our funding today, wherever possible, to avoid problems happening tomorrow. This approach is clear, for example, in the Flying Start programme. Our investment of £77 million in 2015-16 can help to boost the chances and educational attainment of children from our most disadvantaged communities—a key objective of this Welsh Labour Government.

Similarly, our investment in universal benefits is based on strong evidence. It is relatively easy to identify the impact that a nutritious, free breakfast can have on the attainment of a child. Free prescriptions help people to manage chronic conditions, stay in work and maintain quality of life. The additional £10 million that we have provided for social services, funded through the revenue support grant, reflects our recognition of the importance of social services in reducing demand in other areas and our strong commitment to integrating health and social care. This also gives fairer shares and helps to provide a safety net for vulnerable people and low-income households.

There are many examples of specific Welsh Government initiatives that directly focus on avoiding more costly intervention. During scrutiny, there was also acknowledgement of just how much of our whole Welsh Government budget focuses on prevention; health spending is a good example. Although some health spending is directed at very targeted preventative programmes, such as vaccination, stopping smoking initiatives, and weight loss programmes, at the core of our approach to improving health in Wales is prudent healthcare, tackling the root causes of ill health, and reform of the health service to move care out of hospitals and into local communities, closer to people's homes.

Mae ein hymrwymiad i wasanaethau cyhoeddus cynaliadwy wedi bod yn ganolog i'n cyllideb ddrafft, ac adlewyrchir hynny gan Weinidogion wrth iddynt asesu effaith eu penderfyniadau er mwyn symud y pwyslais tuag at atal. Mae'r asesiad effaith strategol ac adroddiad y gyllideb ddrafft yn rhoi enghreifftiau o'r penderfyniadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud, sy'n adlewyrchu ein cefnogaeth i atal ac ymyrryd yn gynnar. Er bod y Pwyllgor Cyllid wedi croesawu hyn, rydym yn nodi ei alwad am eglurhad pellach o'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth atal ac ymyrryd yn gynnar. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu, yn ogystal â'r adroddiad ar y gyllideb ddrafft, sy'n ddefnyddiol gan ei fod yn archwilio'r amcanion hyn a rennir. Mae'r trafodaethau â'r Pwyllgor Cyllid wedi tynnu sylw at yr eglurder sydd ei angen wrth ddiffinio'r hyn a olygwn wrth wariant ataliol. Yn yr ystyr ehangach, mae'n golygu y byddwn yn defnyddio ein cyllid heddiw, ble bynnag y bo modd, er mwyn osgoi problemau yfory. Mae'r dull hwn yn amlwg, er enghraifft, yn y rhaglen Dechrau'n Deg. Gall ein buddsoddiad o £77 miliwn yn 2015-16 helpu i hybu cyfleoedd a chyrhaeddiad addysgol plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, sy'n un o amcanion allweddol Llywodraeth Lafur Cymru.

Yn yr un modd, mae ein buddsoddiad mewn buddion cyffredinol yn seiliedig ar dystiolaeth gref. Mae'n gymharol hawdd nodi'r effaith y gall brecwast maethlon am ddim ei chael ar gyrhaeddiad plentyn. Mae presgripsiynau am ddim yn helpu pobl i reoli cyflyrau cronig, i aros mewn gwaith ac i gynnal ansawdd bywyd. Mae'r £10 miliwn ychwanegol yr ydym wedi'i ddarparu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a ariennir drwy'r grant cynnal refeniw, yn adlewyrchu ein cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn lleihau'r galw mewn meysydd eraill a'n hymrwymiad cryf i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfrannau tecach ac yn helpu i ddarparu rhwyd ddiogelwch i bobl sy'n agored i niwed ac i aelwydydd incwm isel.

Mae llawer o enghreifftiau o fentrau penodol gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar osgoi mwy o ymyrraeth gostus. Yn ystod y gwaith craffu, roedd cydnabyddiaeth hefyd i faint o gyllideb gyfan Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar atal; mae gwariant ar iechyd yn enghraifft dda. Er bod peth gwariant ar iechyd yn cael ei gyfeirio at raglenni ataliol wedi'u targedu'n fanwl, megis brechu, mentrau rhoi'r gorau i ysmegu, a rhaglenni colli pwysau, wrth wraidd ein hymagwedd tuag at wella iechyd yng Nghymru mae gofal iechyd darbodus, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael, a diwygio'r gwasanaeth iechyd i symud gofal allan o ysbytai ac i mewn i gymunedau lleol, yn nes at gartrefi pobl.

The Nuffield Trust report was clear about the need to prevent people from being admitted to hospital unnecessarily, to help people who have been admitted to get home quickly with the right support, and to help people with chronic conditions and long-term illnesses to manage their health at home. Professor Alan Rees, of the Royal College of Physicians, articulated this policy very clearly last week, in support of the work being carried out by the Welsh NHS. Our new plan for primary healthcare in Wales, backed by a new £10 million primary care fund, will develop this further.

We will continue to use our capital budget to support a healthier and more prosperous Wales. Investing in infrastructure and skills will deliver the balanced economic growth that we seek. For example, in cancer, early diagnosis, and early access to the best treatment facilities, including equipment, can reduce the chances of adverse outcomes later on. That is why we are investing in our Welsh NHS capital programme, not only in terms of new hospital facilities, but also in newer diagnostic equipment, such as the world-class scanner that the Royal Glamorgan Hospital recently installed. In the current financial year, I have allocated over £80 million capital funding to support a number of strategic health projects, over and above the core capital allocation of around £220 million.

Research suggests that spending on public services such as health and education reduces inequality by benefitting low-income households more than more well-off households. As Sir Michael Marmot said when he came to Wales earlier this year, preventative spend includes investment in services that reduce inequalities in health. In this regard, the additional funding of £225 million for the Welsh NHS in 2015-16 is investing for the long term, taking action to help support our ambitions for achieving a better quality of life for our own, and future, generations.

Roedd adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield yn glir ynghylch yr angen i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen, i helpu pobl sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty i gyrraedd adref yn gyflym â'r gefnogaeth gywir, a helpu pobl â chyflyrau cronig a salwch hirdymor i reoli eu hiechyd gartref. Soniodd yr Athro Alan Rees, o Goleg Brenhinol y Ffisigwyr, yn glir iawn am y polisi hwn yr wythnos diwethaf, er mwyn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y GIG yng Nghymru. Bydd ein cynllun newydd ar gyfer gofal iechyd sylfaenol yng Nghymru, gyda chymorth cronfa gofal sylfaenol newydd sy'n werth £10 miliwn, yn datblygu hyn ymhellach.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein cyllideb gyfalaf i gefnogi Cymru iachach a mwy llewyrchus. Bydd buddsoddi mewn seilwaith a sgiliau yn sicrhau'r twf economaidd cytbwys a geisiwn. Er enghraifft, ym maes canser, gall diagnosis cynnar, a mynediad cynnar i'r cyfleusterau trin gorau, gan gynnwys cyfarpar, leihau'r posibilrwydd o ganlyniadau niweidiol yn nes ymlaen. Dyna pam yr ydym yn buddsoddi yn rhaglen gyfalaf y GIG yng Nghymru, nid yn unig o ran cyfleusterau ysbyty newydd, ond hefyd o ran offer diagnostig mwy newydd, megis y sganiwr o'r radd flaenaf y mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi'i osod yn ddiweddar. Yn y flwyddyn ariannol hon, rwyf wedi dyrannu dros £80 miliwn o gyllid cyfalaf i gefnogi nifer o brosiectau iechyd strategol, yn ychwanegol at y dyraniad cyfalaf craidd o tua £220 miliwn.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, megis iechyd ac addysg yn lleihau anghydraddoldeb trwy gynnig mwy o fudd i aelwydydd incwm isel nag i gartrefi mwy cefnog. Fel y dywedodd Syr Michael Marmot pan ddaeth i Gymru'n gynharach eleni, mae gwariant ataliol yn cynnwys buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd. Yn hyn o beth, mae'r cyllid ychwanegol o £225 miliwn i'r GIG yng Nghymru yn 2015-16 yn buddsoddi ar gyfer y tymor hir, ac yn cymryd camau i helpu i gefnogi ein huchelgais o sicrhau gwell ansawdd bywyd i ni ein hunain, ac i genedlaethau'r dyfodol.

14:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, have you and the Minister for health decided yet what the actual sum of preventative spend is in the health service, because he has been saying that it is 2%, but you do not agree with him, do you?

Weinidog, a ydych chi a'r Gweinidog iechyd wedi penderfynu eto beth yw swm gwirioneddol y gwariant ataliol yn y gwasanaeth iechyd, oherwydd mae ef wedi bod yn dweud mai 2% ydyw, ond nid ydych chi'n cytuno ag ef, ydych chi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The importance of investing in our health service in terms of prevention—you obviously have not listened to my opening remarks, Nick Ramsay—is key.

Mae pwysigrwydd buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd o ran atal—yn amlwg nid oeddech yn gwrando ar fy sylwadau agoriadol, Nick Ramsay—yn allweddol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, I will also move on to the importance of investing in skills. The Confederation of British Industry has called for a protection of the schools budget, which we are delivering, and, with a focus on supporting children and young people and early intervention, our spending plans also reflect our shared goals with the Welsh Liberal Democrats. Those goals are to break the link between poverty and educational attainment—and this includes the funding that we have allocated, of £47.8 million, to increase the pupil deprivation grant, which is already making an impact, as evaluation shows, and extending it to the under-fives, as well as funding to establish a youth concessionary fares scheme, and mitigating the impact of planned cuts to apprenticeships.

If we believe in creating a fairer Wales, we must invest in our children and young people. That is why this Welsh Labour Government has maintained its protection for schools budgets, resulting in an additional £106 million over this spending review period, but also allocating funding to maintain the educational maintenance allowance, which allows us to address the link between low income and low participation.

However, I am also today announcing additional powers to boost significantly our capital investment in schools. The Welsh Government will use a non-profit distribution model in order to spearhead the next phase of the twenty-first century schools programme, from 2019, financing this mechanism with a further £500 million of investment in priority schools projects throughout Wales to bring them to the standard of the magnificent £49 million Penarth Learning Community, which the Minister for education and I visited yesterday. This investment is, of course, in addition to £170 million that I announced last year for schools through the local government borrowing initiative.

So, these innovative investments will create a new generation of twenty-first century schools in Wales, and deliver £670 million of investment in schools across Wales. That will ensure, with this NPD programme for band B of twenty-first century schools, that we can work with local authorities to continue to deliver the quality of schools and their estates.

Fodd bynnag, rwyf hefyd am symud ymlaen at bwysigrwydd buddsoddi mewn sgiliau. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi galw am amddiffyn y gyllideb ysgolion, ac rydym yn cyflawni hynny, a chan ganolbwyntio ar gefnogi plant a phobl ifanc ac ymyrryd yn gynnar, mae ein cynlluniau gwariant hefyd yn adlewyrchu'r nodau yr ydym yn eu rhannu â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Y nodau hynny yw torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol—ac mae hyn yn cynnwys yr arian yr ydym wedi'i ddyrannu, £47.8 miliwn, i gynyddu'r grant amddifadedd disgyblion, sydd eisoes yn cael effaith, fel y dengys y gwaith gwerthuso, a'i estyn i blant dan bump oed, yn ogystal â chyllid i sefydlu cynllun teithio rhatach i bobl ifanc, a lliniaru effaith y toriadau arfaethedig i brentisiaethau.

Os ydym yn credu mewn creu Cymru decach, mae'n rhaid inni fuddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc. Dyna pam y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dal ati i warchod cyllidebau ysgolion, gan arwain at £106 miliwn yn ychwanegol dros gyfnod yr adolygiad hwn o wariant, ond dyrannu cyllid hefyd i gynnal y lwfans cynhaliath addysg, sy'n ein galluogi i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng incwm isel a chyfranogiad isel.

Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cyhoeddi heddiw bwerau ychwanegol i roi hwb sylweddol i'n buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio model dosbarthu dielw er mwyn arwain cam nesaf y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, o 2019, gan ariannu'r mecanwaith hwn â buddsoddiad arall o £500 miliwn mewn prosiectau ysgolion blaenoriaeth ledled Cymru i ddod â hwy i safon Cymuned Ddysgu odidog Penarth sy'n werth £49 miliwn, y bu'r Gweinidog addysg a minnau'n ymweld â hi ddoe. Mae'r buddsoddiad hwn, wrth gwrs, yn ychwanegol at £170 miliwn a gyhoeddais y llynedd ar gyfer ysgolion drwy'r fenter benthyca llywodraeth leol.

Felly, bydd y buddsoddiadau arloesol hyn yn creu cenhedlaeth newydd o ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru, ac yn darparu buddsoddiad o £670 miliwn mewn ysgolion ledled Cymru. Bydd hynny'n sicrhau, gyda'r rhaglen NPD hon ar gyfer band B ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, y gallwn weithio gydag awdurdodau lleol i barhau i gyflawni ansawdd ysgolion a'u hystadau.

We will boost our Wales infrastructure investment plan, alongside the £100 million I announced in the draft budget of this year and next. That boost, of course, will come as a result of this investment. However, of course, that does include £37 million for housing, not only benefitting people's overall quality of life but delivering benefits to people's health and wellbeing. This reflects our determination to deliver a budget for a fairer Wales, with the Welsh Government intervening and using scarce resources to this end. Working with the Minister for Health and Social Services, I have been determined to deliver a draft budget for 2015-16 to provide the support that doctors and nurses in Wales need and patients are entitled to. With the support of the Welsh Liberal Democrats, I believe we can also help to deliver the Minister for Education and Skills' ambitions and objectives to support our teachers to promote lifelong learning and to deliver the best chances for the children of Wales. This is the very best defence against poverty. Yes, we are facing some very tough decisions, but it is about facing up to reality and being prepared to take those tough decisions in the face of the most challenging financial times since devolution.

So, I trust and hope that Members will consider this draft budget in light of my statement this afternoon, which I believe addresses many of the issues raised in the opposition amendments, which we will not be supporting. Finally, remember our strength here in this Assembly as we debate our draft budget: we can unite to show where we agree for the greater good, for our public services and economy. I hope my call for fairer funding for Wales will also underpin this important date. I move the motion.

Byddwn yn rhoi hwb i'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, ochr yn ochr â'r £100 miliwn a gyhoeddais yn y gyllideb ddrafft eleni a'r flwyddyn nesaf. Mae'r hwb hwnnw, wrth gwrs, yn dod yn sgil y buddsoddiad hwn. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys £37 miliwn ar gyfer tai, sydd nid yn unig o fudd i ansawdd bywyd pobl yn gyffredinol ond yn dod â manteision i iechyd a lles pobl. Mae hyn yn adlewyrchu ein penderfyniad i ddarparu cyllideb ar gyfer Cymru decach, gyda Llywodraeth Cymru'r ymyrryd ac yn defnyddio adnoddau prin i'r perwyl hwn. Gan weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf wedi bod yn benderfynol o gyflwyno cyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar feddygon a nyrsys yng Nghymru ac y mae gan gleifion hawl iddi. Gyda chefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwyf yn credu y gallwn hefyd helpu i gyflawni uchelgeisiau ac amcanion y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gefnogi ein hathrawon i hyrwyddo dysgu gydol oes ac i ddarparu'r cyfleoedd gorau i blant Cymru. Dyna'r amdiffyniad gorau yn erbyn tlodi. Ydym, rydym yn wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn, ond mae'n fater o wynebu realiti a bod yn barod i wneud y penderfyniadau anodd hynny yn wyneb y cyfnod ariannol mwyaf heriol ers datganoli.

Felly, rwyf yn hyderus ac yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n ystyried y gyllideb ddrafft hon yng ngoleuni fy natganiad y prynhawn yma sydd, yr wyf yn credu, yn mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd yng ngwelliannau'r wrthblaid, na fyddwn yn eu cefnogi. Yn olaf, cofiwch ein cryfder yma yn y Cynulliad hwn wrth inni drafod ein cyllideb ddrafft: gallwn uno i ddangos lle'r ydym yn cytuno er lles pawb, er mwyn ein gwasanaethau cyhoeddus a'r economi. Rwyf yn gobeithio y bydd fy ngalwad am gyllid tecach i Gymru hefyd yn ategu'r dyddiad pwysig hwn. Cynigïaf y cynnig.

14:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:42 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Throughout the Finance Committee's consideration of the 2015-16 draft budget we have been mindful that Welsh public services and the public in Wales are experiencing a time of financial austerity. We are aware that there is not a limitless pot of money available to fund services. The impact of the UK Government's austerity measures has yet to fully be felt and the year ahead will present further challenges. So, it is more important than ever that the Assembly's approach to budget scrutiny is as thorough as it can be. We have a duty to get the best value for the Welsh public. With this in mind, our inquiry into the draft budget has included taking written and oral evidence from stakeholders, considering correspondence from all the policy committees, and having two evidence sessions with the Minister. This combined evidence has led us to a number of conclusions and recommendations, many of which I will not have time to cover today, but I encourage Members to read the committee's report for further details and I strongly recommend that the Welsh Government accept each of our conclusions and recommendations.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Drwy gydol ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o gyllideb ddrafft 2015-16 rydym wedi cadw mewn cof y ffaith bod y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r cyhoedd yng Nghymru'n profi cyfnod o gynni ariannol. Rydym yn gwybod nad oes crochan diderfyn o arian ar gael i ariannu gwasanaethau. Nid yw effaith mesurau cyni Llywodraeth y DU wedi ei theimlo'n llawn eto a bydd y flwyddyn sydd i ddod yn dod â rhagor o heriau. Felly, mae'n bwysicach nag erioed fod ymagwedd y Cynulliad tuag at graffu ar y gyllideb mor drylwyr ag y gall fod. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd yng Nghymru. O ystyried hynny, wrth gynnal ein hymchwiliad i'r gyllideb ddrafft rydym wedi cymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan randdeiliaid, wedi ystyried gohebiaeth oddi wrth yr holl bwyllgorau polisi, ac wedi cynnal dwy sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog. Mae'r dystiolaeth hon gyda'i gilydd wedi peri inni lunio nifer o gasgliadau ac argymhellion, ac mae llawer ohonynt na fydd gennyf amser i'w trafod heddiw, ond rwyf yn annog yr Aelodau i ddarllen adroddiad y pwyllgor i gael rhagor o fanylion ac rwyf yn argymhell yn gryf fod Llywodraeth Cymru'n derbyn pob un o'n casgliadau a'n hargymhellion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In the last year, the Minister for Finance has said that investing in the health service is a Welsh Government priority. The Government has made an additional £425 million available for the health sector through this draft budget and a forthcoming supplementary budget. As a Committee, we are clear that setting priorities is a matter for the Government, and we do not dispute that this additional funding is needed in the health service. However, we have concerns about the lack of evidence that these additional funds will be accompanied by essential reform. We heard conflicting evidence on what the additional money would be used for and whether it would be linked to reform in the health service. We ask that the Government clarifies what the additional money is for, is clear about what reforms are expected from the health service and what the financial consequences will be if reform is not achieved. The committee felt strongly that the issue of reforming the health sector is of great importance and we concluded that it needs to be reviewed by this Assembly. So, I have written to the Health and Social Care Committee and I sincerely hope it will be able to schedule a piece of work to scrutinise those reforms.

The committee also looked at the proposed local government reforms. There is no obvious financial provision in the 2015-16 draft budget for any costs associated with those reforms. With the anticipation of major structural reform in local government, we believe there is a risk that resources needed to maintain service delivery will be diverted to cover the costs of organisational reform. Therefore, the committee recommends that the Government provide an estimate of the costs, benefits and timescales of possible local government mergers.

Much of the evidence that we heard related to the ability of local government and the third sector to deliver essential services while facing budget reductions, particularly services for vulnerable people. Many of the services provided by these sectors are preventative in nature, and we heard persuasive evidence that they can lessen the need for service users to access the health service. The committee is particularly concerned about the reduction in funding to the Supporting People programme, and we heard persuasive evidence from the third sector that budget cuts will have significant negative consequences for the programme's ability to continue to provide genuinely preventative services, and we recommend that the Minister review the funding decision in this area.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gweinidog Cyllid wedi dweud bod buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi darparu £425 miliwn yn ychwanegol i'r sector iechyd drwy'r gyllideb ddrafft hon a chyllideb atodol sydd ar ddod. Fel Pwyllgor, rydym yn glir mai mater i'r Llywodraeth yw gosod blaenoriaethau, ac nid ydym yn anghytuno bod angen y cyllid ychwanegol hwn yn y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, mae gennym bryderon am y diffyg tystiolaeth y bydd diwygio hanfodol yn mynd law yn llaw â'r cyllid ychwanegol hwn. Clywsom dystiolaeth anghyson am yr hyn y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer a ph'un a fyddai'n gysylltiedig â diwygio yn y gwasanaeth iechyd. Rydym yn gofyn i'r Llywodraeth egluro diben yr arian ychwanegol, egluro pa ddiwygiadau a ddisgwyllir gan y gwasanaeth iechyd a beth fydd y canlyniadau ariannol os na fydd diwygio. Roedd y pwyllgor yn gryf o'r farn fod diwygio'r sector iechyd yn bwysig iawn a daethom i'r casgliad fod angen i'r Cynulliad hwn adolygu hynny. Felly, rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac rwyf yn mawr obeithio y bydd yn gallu trefnu darn o waith i graffu ar y diwygiadau hynny.

Edrychodd y pwyllgor hefyd ar y diwygiadau arfaethedig i lywodraeth leol. Nid oes darpariaeth ariannol amlwg yng nghyllideb ddrafft 2015-16 ar gyfer unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau hynny. Gyda diwygiadau strwythurol sylweddol ar y gweill mewn llywodraeth leol, rydym yn credu bod perygl y bydd yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn dal ati i ddarparu gwasanaethau'n cael eu dargyfeirio i dalu costau diwygio sefydliadol. Felly, mae'r pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn rhoi amcangyfrif o gostau, buddion ac amserlenni uno posibl rhwng yr awdurdodau lleol.

Roedd llawer o'r dystiolaeth a glywsom yn ymwneud â gallu llywodraeth leol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau hanfodol a hwythau'n wynebu gostyngiadau yn eu cyllidebau, yn enwedig gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed. Mae llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan y sectorau hyn yn ataliol eu natur, a chlywsom dystiolaeth ddarbwyllol y gallant leihau'r angen i ddefnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd. Mae'r pwyllgor yn arbennig o bryderus am y gostyngiad yn y cyllid i'r rhaglen Cefnogi Pobl, a chlywsom dystiolaeth ddarbwyllol o du'r trydydd sector y bydd toriadau i'r gyllideb yn arwain at gryn dipyn o ganlyniadau negyddol o ran gallu'r rhaglen i barhau i ddarparu gwasanaethau gwirioneddol ataliol, ac rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r penderfyniad cyllido yn y maes hwn.

An issue that continues to cause concern for the committee is the costs arising from legislation. Last year, the committee concluded that the financial impact of legislation passed by this Assembly was not fully known, despite the increased volume of legislation. We therefore welcome the inclusion of legislation's costs in this year's draft budget. However, we share the concerns of those delivering front-line services about the consequences of reduced resources, and found that there is considerable scope for improvement in how legislation is costed and how estimated costs are reflected in the budget process. We think that there is still work to be done, and suggest that the Government undertake a review of the current process. As a committee, this is an area that we intend to revisit in the future.

This year, we were pleased that the Welsh Government was able to lay the draft budget early, which gave the committee more time for informed scrutiny. The additional week meant that we had time to fully consider correspondence from the policy committees in relation to the draft budget, and this ensured that we had a full and strategic overview of the issues. We would strongly encourage the Government to continue with this practice in future.

Finally, I offer my thanks to those who assisted us with the scrutiny of this draft budget. We had a number of consultation responses and stakeholder sessions, and they provided the committee with the opportunity to fully consider the issues facing those delivering front-line services in Wales. Following the success in recent years of engaging an expert adviser to assist the committee in our financial scrutiny, we were delighted to have Don Peebles, head of the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy Scotland, join us this year. I am confident that we will draw on the lessons learned in future, particularly as the financial procedures at the Assembly change in the coming years. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Mater sy'n parhau i achosi pryder i'r pwyllgor yw'r costau sy'n codi o ddeddfwriaeth. Y llynedd, daeth y pwyllgor i'r casgliad nad yw effaith ariannol y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad hwn yn gwbl hysbys, er gwaethaf y cynnydd mewn deddfwriaeth. Felly, rydym yn croesawu'r ffaith bod costau deddfwriaeth wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft eleni. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon y rhai sy'n darparu gwasanaethau'r rheng flaen ynghylch canlyniadau llai o adnoddau, a chafwyd bod cryn dipyn o le i wella o ran y ffordd y caiff deddfwriaeth ei chostio a'r ffordd y mae costau amcangyfrifedig yn cael eu hadlewyrchu yn y broses gyllidebol. Credwn fod gwaith i'w wneud o hyd, ac awgrymwn fod y Llywodraeth yn cynnal adolygiad o'r broses gyfredol. Mae hwn yn faes yr ydym ni fel pwyllgor yn bwriadu ymchwilio iddo eto yn y dyfodol.

Eleni, roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu gosod y gyllideb ddrafft yn gynnar, oherwydd rhoddodd hynny fwy o amser i'r pwyllgor wneud gwaith craffu ar sail gwybodaeth. Roedd yr wythnos ychwanegol yn golygu bod gennym amser i ystyried yn llawn yr ohebiaeth gan y pwyllgorau polisi mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft, ac roedd hynny'n fodd o sicrhau trosolwg llawn a strategol ar y materion. Byddem yn annog y Llywodraeth yn gryf i barhau â'r arfer hwn yn y dyfodol.

Yn olaf, rwyf am ddiolch i'r rhai a fu'n ein cynorthwyo â'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft. Cawsom nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad a'r sesiynau rhanddeiliaid, ac roeddem yn gyfle i'r pwyllgor i ystyried yn llawn y materion sy'n wynebu'r rheini sy'n cyflwyno gwasanaethau'r rheng flaen yng Nghymru. Yn dilyn llwyddiant yn y blynyddoedd diwethaf o ran penodi ymgynghorydd arbenigol i gynorthwyo'r pwyllgor â'n gwaith craffu ariannol, roeddem yn falch iawn o gael Don Peebles, pennaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifysyddiaeth yr Alban, i ymuno â ni eleni. Rwyf yn hyderus y byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn y dyfodol, yn enwedig wrth i'r gweithdrefnau ariannol yn y Cynulliad newid yn y blynyddoedd i ddod. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

14:47

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Nick Ramsay to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

Rwyf wedi dewol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Amendment 1—Paul Davies

Delete all and replace with:

To propose that the National Assembly for Wales:

Does not believe the Welsh Government Draft Budget 2015/16 meets the needs of the Welsh people.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:47

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1.

Cynigiad welliant 1.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If I were a betting man, I would have toddled across to Ladbrokes and placed a bet that the Minister was going to stand up today and do her usual groundhog day routine and blame all the Welsh Government's woes on a lack of funding from the UK Government and, of course, the Barnett formula. Now, yes, of course, the Barnett formula needs revision, but, listening to the Welsh Government, you would be forgiven for thinking that we do not get any money.

It is worth remembering that the UK Government has supported additional spending power, with Barnett consequentials of over £36 million over two years as a result of decisions taken in the budget. The additional spending power since 2010 is almost £800 million. Yes, capital spend has been less, but there has still been capital money as well. You know, it is a bit rich for the Welsh Government on the one hand to talk about the real-terms cuts to the Barnett formula and the block grant and, on the other, not to want to talk about real-terms cuts in the Welsh health budget but to talk about cash-terms protection instead. You have got to compare like with like.

So, turning to the details of the budget and the all-important Welsh NHS budget, after years of underfunding and Welsh Conservatives' calls for the NHS budget here to be protected, this budget, on the face of it, provides an injection of £425 million. It sounds great, does it not? That is, until you factor in the hundreds of millions of pounds that have been shipped out of the health budget in real terms over the last few years. So, the right hand has actually given back less than what the left hand had slyly been taking away. It is an old trick, Minister, and it does not really fool anyone.

What is this money actually for? Well, it is not for a cancer drugs fund, is it? That is clear. There is still no sign of that vital piece of support for cancer sufferers in Wales, despite the fact that English patients have been benefiting from it for years, and despite numerous petitions. [Assembly Members: 'Oh.'] You may protest, but many members of the public have been protesting over recent months as well. You did not listen to them, did you? Numerous petitions—hundreds of thousands of signatures—have called for £5 million to go into this area. So much for listening to the public.

Pe bawn i'n un am fetio, byddwn wedi mynd draw i Ladbrokes a gosod bet fod y Gweinidog yn mynd i sefyll heddiw, a gwneud ei sioe 'groundhog day' arferol a rhoi'r bai am holl ofidiau Llywodraeth Cymru ar ddiffyg cyllid gan Lywodraeth y DU ac, wrth gwrs, fformiwla Barnett. Oes, wrth gwrs, mae angen adolygu fformiwla Barnett, ond, o wrando ar Lywodraeth Cymru, gallech feddwl nad ydym yn cael dim arian.

Mae'n werth cofio bod Llywodraeth y DU wedi cefnogi grym gwario ychwanegol, gyda symiau canlyniadol Barnett o dros £36 miliwn dros ddwy flynedd o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed yn y gyllideb. Mae'r grym gwario ychwanegol ers 2010 bron yn £800 miliwn. Ydy, mae gwariant cyfalaf wedi bod yn llai, ond mae arian cyfalaf wedi bod ar gael o hyd yn ogystal. Wyddoch chi, mae'n haerllug braidd i Lywodraeth Cymru ar y naill law siarad am y toriadau termau real i fformiwla Barnett a'r grant bloc ac, ar y llaw arall, beidio â dymuno siarad am doriadau termau real yng nghyllideb iechyd Cymru ond sôn am ddiogelu termau arian parod yn lle hynny. Mae'n rhaid ichi gymharu tebyg a thebyg.

Felly, a throi at fanylion y gyllideb a chyllideb hollbwysig y GIG yng Nghymru, ar ôl blynyddoedd o danariannu a galwadau gan y Ceidwadwyr Cymreig am warchod cyllideb y GIG yma, mae'r gyllideb hon, ar yr olwg gyntaf, yn rhoi chwistrelliad o £425 miliwn. Mae'n swnio'n wych, onid yw? Hynny yw, hyd nes i chi gynnwys y cannoedd o filiynau o bunnoedd sydd wedi cael eu symud allan o'r gyllideb iechyd mewn termau real dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae'r llaw dde mewn gwirionedd wedi rhoi llai yn ôl na'r hyn y mae'r llaw chwith yn gyfrwys iawn wedi'i gymryd i ffwrdd. Mae'n hen dric, Weinidog, ac nid yw'n twyllo neb mewn gwirionedd.

Beth yw diben yr arian hwn mewn gwirionedd? Wel, nid ar gyfer cronfa cyffuriau canser y mae. Mae hynny'n glir. Nid oes dim sôn eto am y darn hanfodol hwnnw o gefnogaeth i ddiodeffwyr canser yng Nghymru, er gwaethaf y ffaith bod cleifion yn Lloegr wedi bod yn elwa arni ers blynyddoedd, ac er gwaethaf nifer o ddeisebau. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Fe allwch chi brotestio, ond mae llawer o aelodau'r cyhoedd wedi bod yn protestio yn y misoedd diwethaf hefyd. Nid ydych wedi gwranddo arnynt, ydych chi? Mae nifer o ddeisebau—cannoedd o filoedd o lofnodion—wedi galw am £5 miliwn i'r maes hwn. Dyna beth yw gwranddo ar y cyhoedd.

In fact, it is not clear what the money is for. Suddenly, the goalposts have changed anyway. As the Finance Committee report reveals, the Minister has decided that this money is now conditional—conditional—on health board reforms. The only problem is, of course, that the health boards did not know that and did not have time to prepare, did they? So, we now have a ludicrous position whereby the health boards are being threatened that if they do not spend the money on reform, they will not get any additional future money. That is really clever, is it not? It is a really clever message for the health service. The truth is that this money will simply be absorbed into bailing out the health boards' debts, which the Welsh Government has presided over, and then, next year, it happens all over again. It is groundhog day. Quite simply, this money is too little, too late, and a recipe for disaster. When will you commit to the full protection of the health budgets, and no less than that?

Turning to the economy, now, which is not traditionally the Welsh Government's strongest card in the pack, there are clearly big concerns about the apprenticeship budget. Will the Minister come clean on the number of apprenticeships that will now not be finished as a result of the in-year cuts being proposed? We all know the effect that in-year cuts like this have. It is proving very difficult, not surprisingly, to get an answer on this. I wonder why. While Finance Wales will, I am sure, to look on the positive side, welcome the £5 million injection of cash—and we all know the problems that Finance Wales has been facing, do we not, highlighted by Professor Dylan Jones-Evans's work—it is interesting that the local health—[Interruption.] You may groan, Ann Jones, but it was your Government that commissioned it. Do not ask the question if you do not want the answer.

It is interesting that local health boards are being expected to demonstrate improvement with the funding they are getting, but there is no such obligation on Finance Wales, is there? As you know, the Welsh Conservatives would totally remodel Finance Wales and get it out there in the high street, where it belongs, as a proper public-facing lending business bank. Meanwhile, we would take small businesses out of business rates altogether. I know that there has been an echo in here from the Plaid Cymru benches over the last year on this, which is to be welcomed. Once again, there has been no commitment from the Labour-Lib Dem deal to do this. What a missed opportunity for the budget, and what a missed opportunity for businesses in Wales. So much for supporting business. By the way, there is no strategy for boosting exports in this budget, either, but I have complained enough on that front.

Mewn gwirionedd, nid yw'n glir ar gyfer beth y mae'r arian. Yn sydyn, mae'r pyst wedi symud beth bynnag. Fel y mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ei ddatgelu, mae'r Gweinidog wedi penderfynu bod yr arian hwn yn awr yn amodol—yn amodol—ar ddiwygio'r byrddau iechyd. Yr unig broblem, wrth gwrs, yw nad oedd y byrddau iechyd yn gwybod hynny ac na chawsant amser i baratoi, naddo? Felly, mae gennym yn awr sefyllfa hurt lle mae'r byrddau iechyd yn cael eu bygwth, os na fyddant yn gwario'r arian ar ddiwygio, na fyddant yn cael dim arian ychwanegol yn y dyfodol. Mae hynny'n wirioneddol glyfar, onid yw? Mae'n neges wirioneddol glyfar i'r gwasanaeth iechyd. Y gwir yw y bydd yr arian hwn yn cael ei amsugno i helpu i dalu dyledion y byrddau iechyd, y mae Llywodraeth Cymru wedi llywyddu drostynt, ac yna, y flwyddyn nesaf, mae'n digwydd eto fyth. Dyna i chi 'groundhog day'. Yn y bôn, mae'r arian hwn yn rhy ychydig, yn rhy hwyr, ac yn sicr o beri llanast. Pryd ydych chi am ymrwymo i warchod y cyllidebau iechyd yn llawn, a dim llai na hynny?

A throi at yr economi, nid dyma'r cerdyn cryfaf yn y pecyn i Lywodraeth Cymru yn draddodiadol, ac mae'n amlwg bod pryderon mawr ynghylch cyllideb y prentisiaethau. A wnaiff y Gweinidog ddweud y gwir am nifer y prentisiaethau na fyddant bellach yn cael eu gorffen yn sgil y toriadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn? Rydym i gyd yn gwybod pa effaith y mae toriadau yn ystod y flwyddyn fel hyn yn ei chael. Mae'n anodd iawn cael ateb am hyn, ac nid yw hynny'n syndod. Tybed pam? Er y bydd Cyllid Cymru, rwyf yn sicr, yn edrych ar yr ochr gadarnhaol, yn croesawu'r chwistrelliad o £5 miliwn—ac rydym i gyd yn gwybod am y problemau y mae Cyllid Cymru wedi bod yn eu hwynebu, onid ydym, a amlygwyd gan waith yr Athro Dylan Jones-Evans—mae'n ddiddorol bod y bwrdd iechyd— [Torri ar draws.] Ochneidiwch chi, Ann Jones, ond eich Llywodraeth chi a'i comisiynodd. Peidiwch â gofyn y cwestiwn os nad ydych am glywed yr ateb.

Mae'n ddiddorol bod disgwyl i fyrdau iechyd lleol ddangos gwelliant gyda'r cyllid y maent yn ei gael, ond nid oes rhwymedigaeth o'r fath ar Cyllid Cymru, nac oes? Fel y gwyddoch, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ailfodelu Cyllid Cymru yn llwyr ac yn ei roi allan ar y stryd fawr, lle y dylai fod, fel banc busnes benthycy sy'n ymdrin â'r cyhoedd. Yn y cyfamser, byddem yn tynnu busnesau bach allan o ardrethi busnes yn gyfan gwbl. Gwn y bu adlais yma o feinciau Plaid Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf yn hyn o beth, ac mae hynny i'w groesawu. Unwaith eto, ni chafwyd yr un ymrwymiad yn y fargen rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol i wneud hyn. Am golli cyfle o ran y gyllideb, ac am golli cyfle i fusnesau yng Nghymru. Dyna beth yw cefnogi busnes. Gyda llaw, nid oes yr un strategaeth ar gyfer hybu allforion yn y gyllideb hon, chwaith, ond rwyf wedi cwyno digon am hynny.

Local government is, of course, once again bearing the brunt of this year's cuts, with a 4% decrease and an average 3.4% cut for local authorities. However, as the Finance Committee discovered, when you factor in the statutory requirements that local authorities have to fund, the cut to non-statutory parts of the budgets is actually much higher, and this budget signals the beginning of the end for some of this non-statutory provision, does it not? Local government has told us that it has cut and cut, and it is back to the bone. The decision to scrap improvement grant funding has been another hammer blow for local authorities. Who will pay for the proposed voluntary mergers? Local government reorganisation is always costly, as we know, and funding for merger will, of course, be achieved by cuts to existing budgets.

Now, of course, education has not escaped, either. For the second year running, there has been a cut—of 4.8% in real terms, if you like talking about real terms—to the further education budget. As Greg Walker, the chief executive of ColegauCymru said,

'it is adult learners aged 19 and over who will undoubtedly suffer the brunt of the cuts.'

To their credit, our old friends, the Liberal Democrats have not simply rolled over—I am getting older, I think—in the face of the Welsh Government steamroller. It has moved up from the Gwent levels to the budget, has it not? As part of your pre-election budget deal for Cardiff Central and Brecon and Radnorshire, you have got some little gems in there, have you not? For example, there is hospital investment in B&R—where else, of course—and the eastern bay link road is back, or at least part of it, anyway. Some £13 million this year is to go towards phase 1 of the EBL, from the Bute tunnel ski jump to the Rover Way roundabout to nowhere. So, instead of traffic being divided between Rover Way and Newport Road, it will all continue a few miles on to Rover Way, and then the traffic has nowhere to go. There is nothing to deal with the congestion and no commitment to fund the rest of the road to Eastern Avenue at any time soon. Genius. Who thought of that one? Silly question, really.

However, it is not just the EBL, is it? No, the jewel in the crown of the Lib Dem master plan is, of course, that you have managed to get the Welsh Government to agree to delay the construction date of the new M4 relief road until after the next Assembly election in 2016—the date on which building work was going to start anyway. We now know that land and property has been retained—leaving aside the property that has been sold off at a loss, which is for another day—along the route to prepare for the construction, at the same time as the public thought that it was contributing to a meaningful consultation on the M4. That is possibly one of the most bizarre and meaningless concessions in the history of the Assembly—and there has been some stiff competition. You have been conned. No-one else will tell you, as they are probably embarrassed, but I will, as it is better that you know sooner rather than later. So, Presiding Officer, what have we got? The story of this year's budget is more of the same.

Mae llywodraeth leol, wrth gwrs, unwaith eto yn dwyn baich y toriadau eleni, gyda gostyngiad o 4% a thoriad o 3.4% ar gyfartaledd i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, fel y darganfu'r Pwyllgor Cyllid, pan fyddwch yn cynnwys y gofynion statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hariannu, mae'r toriad i rannau anstatudol y cyllidebau mewn gwirionedd yn llawer uwch, ac mae'r gyllideb hon yn nodi dechrau'r diwedd ar gyfer rhywfaint o'r ddarpariaeth anstatudol hon, onid yw? Mae llywodraeth leol wedi dweud wrthym ei bod wedi cael ei thorri a'i thorri, a'i bod yn ôl at yr asgwrn. Mae'r penderfyniad i gael gwared ar arian y grant gwella wedi bod yn ergyd arall i awdurdodau lleol. Pwy fydd yn talu am yr uno gwirfoddol arfaethedig? Mae ad-drefnu llywodraeth leol bob amser yn gostus, fel y gwyddom, a bydd y cyllid ar gyfer uno, wrth gwrs, yn cael ei sicrhau trwy dorri cyllidebau cyfredol.

Yn awr, wrth gwrs, nid yw addysg wedi dianc rhag hyn, chwaith. Am yr ail flwyddyn yn olynol, bu toriad—4.8% mewn termau real, os ydych am siarad am dermau real—i'r gyllideb addysg bellach. Fel y dywedodd Greg Walker, prif weithredwr ColegauCymru,

dysgwyr 19 oed a throsodd yn ddi-os fydd yn dioddef baich y toriadau.

Er clod iddynt, nid yw ein cyfeillion, y Democratiaid Rhyddfrydol wedi rowlio drosodd—rwyf yn mynd yn hŷn, rwyf yn meddwl—yn wyneb stêm-roler Llywodraeth Cymru. Mae wedi symud i fyny o wastadeddau Gwent i'r gyllideb, onid yw? Fel rhan o'ch cytundeb cyn yr etholiad ar y gyllideb ar gyfer Canol Caerdydd a Brycheiniog a Sir Faesyfed, mae gennych rai perlau bach i mewn yna, onid oes? Er enghraifft, bydd buddsoddi mewn ysbytai ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed—ble arall, wrth gwrs—ac mae ffordd gyswllt dwyrain y bae yn ôl, neu o leiaf ran ohoni, beth bynnag. Mae rhyw £13 miliwn eleni yn mynd tuag at gam 1 ffordd gyswllt dwyrain y bae, o naid sgïo twnnel Bute at gylchfan Rover Way i unman. Felly, yn hytrach na bod traffig yn cael ei rannu rhwng Rover Way a Heol Casnewydd, bydd y cyfan yn parhau ychydig filltiroedd ymlaen i Rover Way, ac yna nid oes gan y traffig unman i fynd. Nid oes dim i ddelio â'r tagfeydd a dim ymrwymiad i ariannu gweddill y ffordd i Eastern Avenue yn y dyfodol agos. Athrylithgar. Pwy feddyliodd am honna? Cwestiwn gwirion, a dweud y gwir.

Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â mwy na dim ond ffordd gyswllt dwyrain y bae, onid yw? Na, trysor pennaf uwchgynllun y Democratiaid Rhyddfrydol, wrth gwrs, yw eich bod wedi llwyddo i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cytuno i ohirio dyddiad adeiladu ffordd liniaru newydd yr M4 tan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad yn 2016—y dyddiad pan oedd y gwaith adeiladu yn mynd i gychwyn beth bynnag. Rydym yn gwybod bellach fod tir ac eiddo wedi eu cadw—heb sôn am yr eiddo sydd wedi ei werthu am gollod, oherwydd rhywbeth at ddiwrnod arall yw hynny—ar hyd y ffordd i baratoi ar gyfer y gwaith adeiladu, ar yr un pryd ag yr oedd y cyhoedd yn meddwl ei fod yn cyfrannu at ymgynghoriad ystyrlon ar yr M4. Dyna o bosibl yw un o'r consesiynau rhyfeddaf a mwyaf diystyr yn hanes y Cynulliad—a bu cystadleuaeth frwd. Rydych wedi cael eich twylllo. Ni fydd neb arall yn dweud wrthy'ch, gan eu bod yn ôl pob tebyg yn teimlo embaras, ond fe ddywedaf fi wrthy'ch, gan ei bod yn well eich bod yn gwybod cyn gynted ag y bo modd. Felly, Lywydd, beth sydd gennym? Mwy o'r un peth yw hanes y gyllideb eleni.

There is additional health budget money, but it is going nowhere. Local authorities' non-statutory provision? Going nowhere. FE funding? Going nowhere. Thirty million quid on a road to nowhere, the M4? Going nowhere—well, until it was due to go somewhere anyway. In fact, it is a budget that is going nowhere, is it not, Minister? You know it, really, the Lib Dems know it, really, and the public knows it, really: this is too little, too late.

Mae arian ychwanegol i'r gyllideb iechyd, ond nid yw'n mynd i unman. Darpariaeth anstatudol awdurdodau lleol? Nid yw'n mynd i unman. Cyllid addysg bellach? Nid yw'n mynd i unman. Tri deg miliwn o bunnau ar ffordd i unlle, yr M4? Nid yw'n mynd i unman—wel hyd nes ei fod i fod i fynd i rywle beth bynnag. A dweud y gwir, mae'n gyllideb nad yw'n mynd i unman, onid yw, Weinidog? Rydych chi'n gwybod hynny, mewn gwirionedd, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod hynny, mewn gwirionedd, ac mae'r cyhoedd yn gwybod hynny, mewn gwirionedd: mae hyn yn rhy ychydig, yn rhy hwyr.

14:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Leanne Wood to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Leanne Wood i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnis:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu at y ffaith bod:

Regrets that:

a) y Gyllideb Ddrafft yn methu ag ymgymryd â dull gweithredu Cymru gyfan mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf at y dyfodol;

a) the Draft Budget fails to take an all-Wales approach to future capital investment;

b) y symiau a fuddsoddir mewn mesurau integreiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu torri, ac y bydd hyn yn arwain at fwy o bwysau ariannol ar y GIG yn y dyfodol;

b) investment in integration measures in health and social care has been cut, which will result in increased financial pressures on the NHS in the future; and

c) dull gweithredu annoeth mewn perthynas â buddsoddi mewn sgiliau wedi arwain at ostyngiad yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael, a gallai hyn arwain at ddirywiad pellach mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc.

c) a short-sighted approach to investment in skills has resulted in fewer apprenticeship places, which risks leading to a further deterioration in youth unemployment.

14:56

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 2.

Cynigiau welliant 2.

That Wales faces significant pressures due to UK-level cuts is beyond doubt, and I want to begin today by reiterating Plaid Cymru's opposition to the damaging austerity agenda being pursued blindly by the Westminster Government. Wales's particularly challenging economic context is not being addressed sufficiently and, indeed, is being made worse by damaging and severe cuts to our public services. It was suggested just last week by the Secretary of State for Wales that this Assembly should somehow be grateful for enduring a 10% cut to our budget when some Whitehall departments are taking cuts of up to 25%. The people of Wales did not give a mandate for the dogmatic economic and fiscal policy being enforced by Westminster. Far from being grateful, the people of Wales have every right to be concerned for the future of public services, and even angry about the consequence of such cuts.

Nid oes amheuaeth nad yw Cymru'n wynebu pwysau sylweddol oherwydd toriadau ar lefel y DU, ac rwyf am ddechrau heddiw drwy ailadrodd gwrthwynebiad Plaid Cymru i'r agenda cyni niweidiol sy'n cael ei dilyn yn ddall gan Lywodraeth San Steffan. Nid yw cyd-destun economaidd arbennig o heriol Cymru'n cael sylw digonol ac, yn wir, mae toriadau niweidiol a difrifol i'n gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Awgrymodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wythnos diwethaf y dylai'r Cynulliad hwn rywsut fod yn ddiolchgar ein bod yn dioddef toriad o 10% i'n cyllideb tra bo rhai adrannau yn Whitehall yn dioddef toriadau o hyd at 25%. Ni roddodd pobl Cymru fadad i'r polisi economaidd ac ariannol dogmatig sy'n cael ei orfodi gan San Steffan. Yn hytrach na bod yn ddiolchgar, mae gan bobl Cymru bob hawl i fod yn bryderus am ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus, a hyd yn oed yn ddig am ganlyniad toriadau o'r fath.

Now, I want to recognise from the outset the unenviable context the Welsh Government finds itself in. Indeed, I want to recognise the elements of the budget that are to be welcomed. Plaid Cymru, along with the Liberal Democrats, found agreement with the Government previously for the pupil deprivation grant, and we welcome renewed funding for that grant in this budget. Alongside enhanced investment, there will be enhanced scrutiny as to how the grant is used, and I hope that the outcome of the review in 2015 will result in the sharing of good practice, for the benefit of pupils right across the country.

There are, however, deep concerns on these benches for the short-sighted and narrow basis of the current budget. For Plaid Cymru, such concerns are the result of three tests. First, we asked ourselves, 'Is this an all-Wales budget, one where communities are not pitted against each other, or where a disproportionate concentration is given to one geographical area over another?' Secondly, as we are likely to live in challenging economic and financial circumstances for the foreseeable future, we ask whether spending plans are consistent with long-term planning that could ease the pressures on public services in the future. Thirdly, given the deep flaws in the structure of Wales's economy, often resulting in difficulties for young people in the labour market in particular, does the Welsh Government's approach aid efforts at tackling youth unemployment, and upskilling more generally, for the immediate and longer terms? On all three major tests, I regret to say that, as far as Plaid Cymru is concerned, the current budget fails.

The decision of the Government to commit all of its future borrowing to one project in one corner of the country is ill-judged and is symbolic of its approach to infrastructure investment in this country. The north, the west, the Valleys—all parts of our country should feel the benefit of enhanced investment in infrastructure in a way that is consistent with the principles behind the national transport plan. The M4 decision itself was made in a way that was unacceptable to Plaid Cymru, and that led us to withdraw from the negotiations on the budget. We did not feel able to scrutinise the decision-making process, and now the decision itself is subject to a legal challenge. We know that construction is a matter for the next Welsh Government, and this was confirmed during December. The issue for Plaid Cymru is that Government policy continues to prefer the black route, and that, in the words of the Government, design and development will continue. This work has a £7 million financial implication in today's budget according to information provided to us by the Welsh Government.

Yn awr, rwyf am gydnabod o'r cychwyn y cyd-destun diflas y mae Llywodraeth Cymru ynddo. Yn wir, rwyf am gydnabod yr elfennau o'r gyllideb sydd i'w croesawu. Llwyddodd Plaid Cymru, ynghyd â'r Democratiaid Rhyddfrydol, i ddod i gytundeb â'r Llywodraeth o'r blaen ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, ac rydym yn croesawu'r cyllid o'r newydd i'r grant yn y gyllideb hon. Ochr yn ochr â mwy o fuddsoddi, bydd mwy o graffu ar sut y caiff y grant ei ddefnyddio, ac rwyf yn gobeithio y bydd canlyniad yr adolygiad yn 2015 yn arwain at rannu arfer da, er lles disgyblion ar draws y wlad.

Fodd bynnag, mae pryderon dwfn ar y meinciau hyn am sylfaen annoeth a chul y gyllideb gyfredol. I Blaid Cymru, mae pryderon o'r fath yn ganlyniad tri phrawf. Yn gyntaf, gofynnwn inni ein hunain, 'A yw hon yn y gyllideb ar gyfer Cymru gyfan, yn un lle nad yw cymunedau'n cael eu gosod yn erbyn ei gilydd, neu lle mae crynodiad anghymesur yn cael ei roi i un ardal ddaearyddol dros un arall?' Yn ail, gan ein bod yn debygol o fod yn byw mewn amgylchiadau economaidd ac ariannol heriol yn y dyfodol hyd y gellir ei ragweld, gofynnwn a yw'r cynlluniau gwario'n gyson â chynllunio tymor hir a allai leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Yn drydydd, o ystyried y diffygion dwfn yn strwythur economi Cymru, sy'n aml yn arwain at anawsterau i bobl ifanc yn y farchnad lafur yn arbennig, a yw ymagwedd Llywodraeth Cymru'n helpu ymdrechion i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc, ac uwchsgilio'n fwy cyffredinol, yn y tymor agos a'r tymor hwy? Ar bob un o'r tri phrawf mawr, mae'n ddrwg gennyf ddweud, o safbwynt Plaid Cymru, mae'r gyllideb hon yn methu.

Mae penderfyniad y Llywodraeth i neilltuo'i holl fenthycia yn y dyfodol i un prosiect mewn un cornel o'r wlad yn annoeth ac yn symbolaidd o'i hymagwedd at fuddsoddi yn seilwaith y wlad hon. Dylai'r gogledd, y gorllewin, y Cymoedd—dylai pob rhan o'n gwlad deimlo budd mwy o fuddsoddi mewn seilwaith mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion sydd wrth wraidd y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Gwnaed penderfyniad yr M4 ei hun mewn ffordd a oedd yn annerbyniol i Blaid Cymru, a pharodd hynny inni dynnu'n ôl o'r trafodaethau ar y gyllideb. Nid oeddem yn teimlo y gallem graffu ar y broses o wneud penderfyniadau, ac yn awr y mae'r penderfyniad ei hun yn destun her gyfreithiol. Gwyddom mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru yw'r gwaith adeiladu, a chadarnhawyd hyn yn ystod mis Rhagfyr. Yr hyn sydd dan sylw gan Blaid Cymru yw bod polisi'r Llywodraeth yn parhau i ffafrio'r llwybr du, ac y bydd, yng ngeiriau'r Llywodraeth, y dylunio a'r datblygu yn parhau. Mae goblygiad ariannol o £7 miliwn i'r gwaith hwn yn y gyllideb heddiw yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd inni gan Lywodraeth Cymru.

Plaid Cymru maintains that an all-Wales approach to investment, treating all regions fairly, is the best way to ensure that we have a nationwide recovery and nationwide prosperity for the long term. Plaid Cymru has concerns that, in this current period of protracted pressure on public spending, the Government should plan now for future pressures. In no area is this more pertinent than health and social care. In a previous agreement with the Government, Plaid Cymru ensured investment in social care that not only provides better quality of care for patients, but strengthens measures that could alleviate pressures on our health service in future. This is precisely the approach that should be furthered by the Welsh Government now, and Plaid Cymru very much regrets that it has decided not to do this. Plaid Cymru argues that breaking down the barriers between health and social care now is as important as ever, and it makes financial sense in the current financial climate.

Finally, we had confirmation last week of the fact that the so-called economic recovery is not a universal recovery at all and that, in Wales, we face continuing challenges in terms of underemployment, which is increasing, and also the disturbing trend of growing youth unemployment. We are all aware of the social as well as economic costs of youth unemployment, now amounting to nearly 25%. We know the impact that spells out of work can have on the skills base and the self-esteem of our young people. To slash funding in higher education and apprenticeships against such a backdrop is short-sighted and damaging, and Plaid Cymru opposes these cuts. We also share the concerns outlined by the Chair of the Finance Committee about the cuts to the Supporting People budget, which is, of course, preventative expenditure, often preventing disastrous consequences happening to those in dire need.

All of Wales faces collective punishment for the greed and mistakes of a handful. Wales has paid a heavy economic price since its intentional deindustrialisation many decades ago. All of Wales deserves an alternative to austerity, an alternative that is based on investment. Wales deserves at least parity of resources with other parts of the UK. Plaid Cymru has highlighted the £1.2 billion annual price tag of the inequality of funding between Wales and Scotland, and Plaid Cymru reiterates the need for Wales to be treated equally. We are not asking for special treatment. We are asking for equal and fair treatment. In the meantime, an all-Wales budget from the Welsh Government is needed but is sadly not forthcoming. Plaid Cymru will therefore be opposing this budget today, and I urge Members to support our amendment. Diolch yn fawr.

Mae Plaid Cymru o'r farn mai arfer ymagwedd Cymru gyfan at fuddsoddi, gan drin pob rhanbarth yn deg, yw'r ffordd orau o sicrhau y ceir adferiad cenedlaethol a ffyniant ledled y wlad yn y tymor hir. Mae Plaid Cymru o'r farn y dylai'r Llywodraeth, yn y cyfnod hwn o bwysau parhaus ar wariant cyhoeddus, gynllunio yn awr ar gyfer pwysau yn y dyfodol. Mae hyn yn fwy perthnasol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol nag yn unman arall. Mewn cytundeb blaenorol â'r Llywodraeth, sicrhodd Plaid Cymru fuddsoddiad mewn gofal cymdeithasol sydd nid yn unig yn darparu gofal o ansawdd gwell i gleifion, ond yn cryfhau mesurau a allai leddfu'r pwysau ar ein gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Dyma'r union ymagwedd a ddylai gael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru yn awr, ac mae Plaid Cymru'n gresynu'n fawr ei bod wedi penderfynu peidio â gwneud hyn. Mae Plaid Cymru'n dadlau bod chwalu'r rhwystrau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn awr yr un mor bwysig ag erioed, ac mae'n gwneud synnwyr ariannol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Yn olaf, cawsom gadarnhad yr wythnos diwethaf nad yw'r adferiad economaidd honedig yn adferiad i bawb o gwbl a'n bod ni, yng Nghymru, yn wynebu heriau sy'n parhau o ran tangyflogaeth, sydd ar gynnydd, a hefyd duedd sy'n peri pryder, sef y cynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc. Rydym i gyd yn ymwybodol o gostau cymdeithasol yn ogystal â chostau economaidd diweithdra ymhlith pobl ifanc, sydd bellach bron yn 25%. Rydym yn gwybod pa effaith y gall cyfnodau o fod yn ddi-waith ei chael ar y sylfaen sgiliau ac ar hunan-barch ein pobl ifanc. Mae torri cyllid addysg uwch a phrentisiaethau mewn cyd-destun o'r fath yn annoeth ac yn niweidiol, ac mae Plaid Cymru'n gwrthwynebu'r toriadau hyn. Rydym hefyd yn rhannu'r pryderon a amlinellwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am y toriadau i'r gyllideb Cefnogi Pobl, sydd, wrth gwrs, yn wariant ataliol, ac yn aml yn atal canlyniadau trychinebus rhag digwydd i'r rhai sydd mewn angen dybryd.

Mae Cymru gyfan yn wynebu cosb ar y cyd am drachwant a chamgymeriadau llond llaw o bobl. Mae Cymru wedi talu pris economaidd trwm ers ei dad-ddiwydiannu bwriadol ddegawdau lawer yn ôl. Mae Cymru gyfan yn haeddu dewis arall yn lle cyni, dewis arall sy'n seiliedig ar fuddsoddi. Mae Cymru'n haeddu o leiaf yr un adnoddau â rhannau eraill o'r DU. Mae Plaid Cymru wedi tynnu sylw at y pris o £1.2 biliwn y flwyddyn o ran y bwlc ariannu rhwng Cymru a'r Alban, ac mae Plaid Cymru yn ailadrodd bod angen i Gymru gael ei thrin yn gyfartal. Nid ydym yn gofyn am driniaeth arbennig. Rydym yn gofyn am driniaeth gyfartal a theg. Yn y cyfamser, mae angen cyllideb Cymru gyfan gan Lywodraeth Cymru, ond nid dyna sydd wedi'i gynni, yn anffodus. Felly, bydd Plaid Cymru'n gwrthwynebu'r gyllideb hon heddiw, ac rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwlliant. Diolch yn fawr.

May I start by agreeing that this year's budget process has been particularly difficult? I am of course aware that, in real terms, the money we have available to spend on services in Wales has reduced by £1.7 billion since 2010. That is a consequence of the austerity measures that the UK Government has had to adopt so as to rebalance the budget, but it could have been much worse. We have at least had some protection due to the decision to protect health and education spending in England. It is worth remembering that in the budget Red Book that accompanied Alistair Darling's 2009 budget, the assumptions he was working to would have led to a 17.2% real-terms cut in the amount available to the Assembly to spend. That would have amounted to a total loss of £2.2 billion from Wales's budget. In addition, those Treasury figures indicate an intention to cut the Welsh capital grant by 45% over three years; that compares to the current Government cutting the same grant by 41% over four years. In other words, Alistair Darling's budget would have cut capital expenditure more deeply and faster than what we actually experienced.

As a result of these cuts, many of the decisions that we are being asked to make today, and in a few weeks' time when we come to look at the final budget, are particularly unpalatable. The Welsh Liberal Democrats understand that. Our disagreement with the budget is not focused on the fact that cuts have had to take place, but on some of the choices that had to be made. I will go into that in more detail later. The fact that we believe that the budget contains a number of wrong choices is the reason why we will not be voting for it. The fact that we have come to an agreement with the Welsh Government on specific and important spending priorities is why we will allow it to pass by abstaining in the final vote.

The negotiations with the Welsh Government produced some important concessions that the Welsh Liberal Democrats very much welcome. However, I need to make it clear that those discussions focus on specific areas that we wish to see enhanced. It is not a negotiation that covers every aspect of the budget, much of which we did not see until it was published. For that to happen, we would have needed to be in Government, which we are not. Therefore, I am going to concentrate for the next few minutes on welcoming the specific aspects of the budget relating to our £223 million two-year deal with the Welsh Government.

A gaf fi ddechrau drwy gytuno bod proses y gyllideb eleni wedi bod yn arbennig o anodd? Gwn, wrth gwrs, mewn termau real, fod yr arian sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau yng Nghymru wedi lleihau £1.7 biliwn ers 2010. Mae hynny'n ganlyniad i'r mesurau cyni y mae Llywodraeth y DU wedi gorfod eu mabwysiadu er mwyn ailgloriannu'r gyllideb, ond gallai fod wedi bod yn waeth o lawer. Cawsom o leiaf ryw faint o ddiogelwch oherwydd y penderfyniad i warchod gwariant ar iechyd ac addysg yn Lloegr. Mae'n werth cofio, yn Llyfr Coch y gyllideb a oedd yn cyd-fynd â chyllideb Alistair Darling yn 2009, y byddai'r rhagdybiaethau yr oedd yn gweithio ar eu sail wedi arwain at dorri'r swm a oedd ar gael i'r Cynulliad ei wario 17.2% mewn termau real. Byddai hynny'n golled o £2.2 biliwn o gyllideb Cymru. Yn ogystal, mae'r ffigurau hynny gan y Trysorlys yn dangos bwriad i dorri grant cyfalaf Cymru 45% dros dair blynedd; sy'n cymharu â'r Llywodraeth bresennol yn torri'r un grant 41% dros bedair blynedd. Mewn geiriau eraill, byddai cyllideb Alistair Darling wedi torri gwariant cyfalaf yn ddyfnach ac yn gyflymach na'r hyn a brofwyd gennym mewn gwirionedd.

O ganlyniad i'r toriadau hyn, mae llawer o'r penderfyniadau y gofynnir inni eu gwneud heddiw, ac ymhen ychydig wythnosau pan fyddwn yn edrych ar y gyllideb derfynol, yn arbennig o annymunol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn deall hynny. Nid yw ein hanghytundeb â'r gyllideb yn seiliedig ar y ffaith bod toriadau wedi gorfod digwydd, ond yn hytrach ar rai o'r dewisiadau yr oedd yn rhaid eu gwneud. Byddaf yn ymhelaethu'n fanylach ar hynny maes o law. Rydym o'r farn bod y gyllideb yn cynnwys nifer o ddewisiadau anghywir a dyna pam na fyddwn yn pleidleisio drosti. Rydym wedi dod i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau gwario penodol a phwysig a dyna pam y byddwn yn caniatáu iddi basio drwy ymatal yn y bleidlais derfynol.

Esgorodd y trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar rai consesiynau pwysig y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n eu croesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae angen imi ei gwneud yn glir fod y trafodaethau hynny'n canolbwyntio ar feysydd penodol yr ydym am eu gweld yn gwell. Nid yw'n gyd-drafod sy'n cwmpasu pob agwedd ar y gyllideb. Mae llawer ohoni na chawsom ei weld hyd nes iddi gael ei chyhoeddi. Er mwyn i hynny ddigwydd, byddai angen inni fod wedi bod mewn Llywodraeth, ac nid ydym. Felly, rwyf am ganolbwyntio am yr ychydig funudau nesaf ar groesawu'r agweddau penodol ar y gyllideb sy'n ymwneud â'n cytundeb dwy flynedd £223 miliwn â Llywodraeth Cymru.

Our agreement is a clear investment in children and young people. It helps to ensure that children and young people get the best opportunities in life. It involves additional support for pupils from more disadvantaged backgrounds by boosting funding for the pupil deprivation grant so that it rises to £1,050 per pupil next year and £1,150 per pupil the year after. In addition, we have secured investment in early years education by extending the pupil deprivation grant to the under-fives. We have put in place support for young people to access education and employment through discounted bus travel via our young travellers youth concessionary fare scheme. We have also set in train a pilot study that will provide support for young students who are parents by helping them with the costs of childcare.

In addition, we have reversed at least some of the planned cuts to apprenticeships by funding 5,000 new apprenticeships over the coming two years. Throughout our budget deals, we have been consistent in prioritising support for the pupil deprivation grant to help break the deep-rooted link between poverty and low educational achievement. A two-year deal gives schools more certainty over future funding of the pupil deprivation grant and enables them to plan ahead to ensure that funding is spent most effectively. In that regard, I was delighted at the outcome of the recently published evaluation of the pupil deprivation grant, which concluded that it is having a positive impact and plays an important role in helping to break the link between poverty and low attainment. We accept that there is a need to improve the focus of the grant in some schools, but that is consistent with what our spokesperson, Aled Roberts, has been saying for some time. How the grant is implemented is a matter for the Minister for education, of course. We will continue to press for improvements in delivery.

The budget deal also secured a £95 million-capital investment in infrastructure that will provide a strong boost to jobs and the economy. This included bringing forward investment in the Llandrindod Wells Memorial Hospital and in the Cardiff bay eastern link road, as well as money to improve connectivity in north Wales. The fact that this deal took place underlines the reality of a minority Government, but also how it is possible to work constructively to approve the budget rather than shouting from the sidelines. I believe that that is how mature political parties should operate. It is about working in the public interest and taking responsibility.

Mae ein cytundeb yn fuddsoddiad dir mewn plant a phobl ifanc. Mae'n helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Mae'n cynnwys cymorth ychwanegol i ddisgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig trwy roi hwb i'r cyllid ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion er mwyn iddo godi i £1,050 fesul disgybl y flwyddyn nesaf a £1,150 fesul disgybl y flwyddyn wedyn. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau buddsoddiad mewn addysg yn y blynyddoedd cynnar drwy estyn y grant amddifadedd disgyblion i blant dan bump oed. Rydym wedi rhoi cymorth ar waith i bobl ifanc i gael mynediad i addysg a chyflogaeth drwy deithio ar fysiau am bris gostyngol drwy ein cynllun teithio rhatach i deithwyr ifanc. Rydym hefyd wedi dechrau astudiaeth beilot a fydd yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr ifanc sy'n rhieni trwy eu helpu gyda chostau gofal plant.

Yn ogystal, rydym wedi gwyrddroi o leiaf rai o'r toriadau arfaethedig i brentisiaethau drwy ariannu 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Trwy gydol ein cytundebau cyllidebol, rydym yn gyson wedi blaenoriaethu cefnogaeth i'r grant amddifadedd disgyblion i helpu i dorri'r cysylltiad dwfn rhwng tlodi a chyrrhaeddiad addysgol isel. Mae cytundeb dwy flynedd yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion ynghylch ariannu'r grant amddifadedd disgyblion yn y dyfodol ac yn eu galluogi i gynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod cyllid yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn hynny o beth, roeddwn wrth fy modd â chanlyniad y gwerthusiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r grant amddifadedd disgyblion, a ddaeth i'r casgliad ei fod yn cael effaith gadarnhaol ac yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrrhaeddiad isel. Rydym yn derbyn bod angen gwella ffofws y grant mewn rhai ysgolion, ond mae hynny'n gyson â'r hyn y mae ein llefarydd, Aled Roberts, wedi bod yn ei ddweud ers peth amser. Mater i'r Gweinidog addysg yw'r ffordd y caiff y grant ei roi ar waith, wrth gwrs. Byddwn yn parhau i bwysio am welliannau i'r ddarpariaeth.

Roedd cytundeb y gyllideb hefyd yn sicrhau buddsoddiad cyfalaf o £95 miliwn mewn seilwaith a fydd yn rhoi hwb cryf i swyddi a'r economi. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi yn Ysbyty Coffa Llandrindod ac yn ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd, yn ogystal ag arian i wella cysylltiedd yng ngogledd Cymru. Mae'r ffaith bod y cytundeb hwn wedi digwydd yn tanlinellu realiti Llywodraeth leiafrifol, ond hefyd ei bod yn bosibl gweithio'n adeiladol i gymeradwyo'r gyllideb yn hytrach na gweiddi o'r cyrion. Credaf mai dyna sut y dylai pleidiau gwleidyddol aeddfed weithredu. Mae'n fater o weithio er budd y cyhoedd a chymryd cyfrifoldeb.

We also clarified as part of this deal the precise timetable with regard to the Government's proposals for an extension of the M4 around Newport, which we as a party are opposed to in their present form. We now know that no construction work on the M4 will take place during this Assembly term and that a detailed environmental impact study into the Government's proposed route will need to take place before it can proceed further. If the Welsh Government wants its preferred route for the M4 to be built, it must survive a possible legal challenge, produce a convincing environmental assessment, win a majority at the next Assembly elections and then face a public inquiry. The Welsh Liberal Democrats will not support a scheme that blows such a large proportion of the Welsh Government's borrowing powers on one single road.

So, where do we disagree? Fundamentally, we believe that the Welsh Government's decisions around education and training were the wrong ones. Wales, like the rest of the UK, is still emerging from a deep recession. Unemployment across Wales rose in the last month by 4,000, while the UK as a whole saw a fall. Compared with this time last year, unemployment in Wales is down 1.1%, compared with 1.7% across the UK as a whole. Despite that, there have been cuts to the Young Recruits programme and other work-based learning programmes, while other, ineffective programmes, such as Jobs Growth Wales, have been protected. We particularly oppose the cuts to apprenticeship programmes, which we sought to mitigate in our budget deal.

There are concerns too over local government budgets. Hiding behind the rhetoric about the level of reserves held by councils does not cut it. I understand that Welsh local government has been better protected than its English counterpart, but it is my view that any extra benefit that we may get from putting more money into health will be undermined by the additional pressure on social services. The extra £10 million allocated to social services is welcome, but it is a drop in the ocean. That sum will most likely just about cover the probable overspend in children's and adult services this year for one or two councils.

Then there is the issue of preventative spend. Like the Finance Committee, I am concerned that there is conflicting evidence on the extent to which preventative spending is driving funding decisions. Across Government, there appears to be no clear understanding as to what constitutes preventative spending. That is evidenced by the cut to the Supporting People budget, which is £10 million down on last year. That budget line is absolutely crucial in helping to prevent homelessness and in intervening on a wide range of problems such as substance misuse. It means that we can spread resources elsewhere in the system more widely. Even at this late stage, I would urge the Minister for finance to revisit this cut before she presents the final budget to us. There are, of course, other choices that we disagree with as well, which means that we cannot vote for this budget. However, we believe that the extra investment in children and young people over the next two years, which comes as a result of our intervention, is worth supporting, and, for that reason, we will enable the budget to be passed today.

Aethom ati hefyd fel rhan o'r cytundeb hwn i gael eglurhad ar yr union amserlen mewn perthynas â chynigion y Llywodraeth ar gyfer estyn yr M4 o amgylch Casnewydd, ac rydym fel plaid yn gwrthwynebu hynny yn ei ffurf bresennol. Rydym bellach yn gwybod na fydd dim gwaith adeiladu ar yr M4 yn digwydd yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac y bydd angen astudiaeth effaith amgylcheddol fanwl i lwybr arfaethedig y Llywodraeth cyn y gall symud ymlaen ymhellach. Os yw Llywodraeth Cymru am i'w dewis lwybr ar gyfer yr M4 gael ei adeiladu, rhaid iddi oroesi her gyfreithiol bosibl, llunio asesiad amgylcheddol sy'n darbwyllo, ennill mwyafrif yn etholiadau nesaf y Cynulliad, ac yna wynebu ymchwiliad cyhoeddus. Ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi cynllun sy'n defnyddio cyfran mor fawr o bwerau benthyca Llywodraeth Cymru ar gyfer un ffordd.

Felly, ble'r ydym yn anghytuno? Yn y bôn, rydym yn credu bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru o ran addysg a hyfforddiant yn anghywir. Mae Cymru, fel gweddill y DU, yn dal i ddod allan o ddirwasgiad dwfn. Gwelwyd diweithdra'n cynyddu 4,000 ar draws Cymru yn ystod y mis diwethaf, tra gwelwyd cwmp yn y DU gyfan. O gymharu â'r adeg hon y llynedd, mae diweithdra yng Nghymru wedi gostwng 1.1%, o gymharu ag 1.7% ledled y DU. Er gwaethaf hynny, bu toriadau i'r rhaglenn Recriwtiaid Newydd a rhaglenni dysgu yn y gwaith, tra bo rhaglenni eraill, aneffeithiol, megis Twf Swyddi Cymru, wedi cael eu gwarchod. Rydym yn gwrthwynebu'n arbennig y toriadau i raglenni prentisiaeth, yr oeddem yn ceisio'u lliniaru yn ein cytundeb cyllidebol.

Mae pryderon hefyd am gyllidebau llywodraeth leol. Nid yw cuddio y tu ôl i'r rhyngwylch lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan gynghorau yn gwneud y tro. Rwyf yn deall bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi ei gwarchod yn well na llywodraeth leol yn Lloegr, ond yn fy marn i bydd unrhyw fudd ychwanegol y gallwn ei gael o roi mwy o arian i mewn i iechyd yn cael ei danseilio gan y pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r £10 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaethau cymdeithasol i'w groesawu, ond nid yw ond yn ddiferyn bach yn y môr. Fydd y swm hwnnw fwy na thebyg ddim ond yn talu am y gorwariant tebygol mewn gwasanaethau plant ac oedolion eleni ar gyfer un neu ddau o gynghorau.

Yna mae mater gwariant ataliol. Fel y Pwyllgor Cyllid, rwyf yn pryderu bod tystiolaeth anghyson ynghylch i ba radda y mae gwariant ataliol yn gyrru penderfyniadau cyllido. Ar draws y Llywodraeth, nid yw'n ymddangos bod dim dealltwriaeth glir o beth yw gwariant ataliol. Gwelir hynny yn y toriad i'r gyllideb Cefnogi Pobl, sef £10 miliwn yn llai na'r llynedd. Mae'r llinell honno yn y gyllideb yn gwbl hanfodol er mwyn helpu i atal digartrefedd ac er mwyn ymyrryd mewn ystod eang o broblemau megis camddefnyddio sylweddau. Mae'n golygu y gallwn ledaenu adnoddau mewn mannau eraill yn y system yn ehangach. Hyd yn oed mor hwyr â hyn, byddwn yn annog y Gweinidog cyllid i ailedrych ar y toriad hwn cyn iddi gyflwyno'r gyllideb derfynol inni. Mae dewisiadau eraill, wrth gwrs, yr ydym yn anghytuno â hwy yn ogystal, sy'n golygu na allwn bleidleisio o blaid y gyllideb hon. Fodd bynnag, credwn fod y buddsoddiad ychwanegol mewn plant a phobl ifanc dros y ddwy flynedd nesaf, a ddaw yn sgil ein hymyrraeth, yn werth ei gefnogi, ac, am y rheswm hwnnw, byddwn yn galluogi'r gyllideb i gael ei phasio heddiw.

With the block grant worth £1.5 billion less in real terms than it was in 2010, this budget highlights the heavy price that we have paid here in Wales for the global economic crisis and the ideologically driven response from the coalition in Westminster. We have suffered nearly five years of it in Government, but it never gets any easier to witness it shrinking the state, stoking division on issues like welfare reform and immigration and, at the same time, handing over valued public services to its pals in the private sector. However I feel about the coalition, I am relieved that the Welsh Lib Dems seem to recognise that it is my party that can best deliver the social justice that the vast majority of people who have supported them in the past believe in. Indeed, that two-year agreement over the pupil deprivation grant is important, not just as it provides stability for the remainder of this Assembly and means that the budget will pass, but, above all, because it underscores our unstinting commitment to breaking the unacceptable link between poverty and low attainment.

However, my overriding concern, when it comes to the spending round, is the impact on councils and their ability to sustain some of the really important services that they currently provide, particularly when, as we are boosting health spending to meet the challenge set out in the Nuffield report, some of the cuts being considered by councils will almost certainly increase pressure on the NHS, an issue that we have explored during budget scrutiny on the health committee and then raised in our formal letter to the Minister. That danger is clear from the list of mitigations that my local authority in Torfaen is being forced to consider. It is doing its utmost to deliver a budget that protects the most vulnerable, but it is having to explore measures such as introducing a waiting list for adult social services. It is a move that would save the authority £200,000 a year but, according to its own analysis, will restrict the range of support available and will mean that people are waiting longer in hospital until there is capacity in terms of provision and funding, delays that, in turn, will increase the risk of hospital-acquired infection and the loss of independence that we know can be the consequence of extended hospital stays.

Gyda'r grant bloc yn werth £1.5 biliwn yn llai mewn termau real nag yr oedd yn 2010, mae'r gyllideb hon yn tanlinellu'r pris trwm yr ydym wedi'i dalu yma yng Nghymru am yr argyfwng economaidd byd-eang a'r ymateb ar sail ideoleg gan y glymblaid yn San Steffan. Rydym wedi dioddef bron i bum mlynedd ohono mewn Llywodraeth, ond nid yw'n mynd yn ddim haws ei weld yn crebachu'r wladwriaeth, yn porthi rhaniadau ar faterion fel diwygio lles a mewnfudo ac, ar yr un pryd, yn trosglwyddo gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr i'w chyfeillion yn y sector preifat. Sut bynnag yr wyf yn teimlo am y glymblaid, rwyf yn falch bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fel petaent yn cydnabod mai fy mhlaid i sydd yn y sefyllfa orau i allu sicrhau'r cyfiawnder cymdeithasol y mae mwyafrif helaeth y bobl sydd wedi eu cefnogi yn y gorffennol yn credu ynddo. Yn wir, mae'r cytundeb dwy flynedd hwnnw dros y grant amddifadedd disgyblion yn bwysig, nid yn unig am ei fod yn darparu sefydlogrwydd ar gyfer gweddi y Cynulliad hwn ac yn golygu y bydd y gyllideb yn pasio, ond, yn anad dim, am ei fod yn tanlinellu ein hymrwymiad diflino i dorri'r cysylltiad annerbyniol rhwng tlodi a chyrrhaeddiad isel.

Fodd bynnag, fy mhryder pennaf, o ran y cylch gwario, yw'r effaith ar gynghorau a'u gallu i gynnal rhai o'r gwasanaethau gwirioneddol bwysig y maent yn eu darparu ar hyn o bryd, yn enwedig, wrth inni roi hwb i wariant ar iechyd i ymateb i'r her a nodir yn adroddiad Nuffield, pan fydd rhai o'r toriadau sy'n cael eu hystyried gan gynghorau bron yn sicr yn cynyddu'r pwysau ar y GIG, mater yr ydym wedi'i archwilio wrth graffu ar y gyllideb yn y pwyllgor iechyd, ac yna'i godi yn ein llythyr ffurfiol at y Gweinidog. Mae'r perygl hwnnw'n glir o'r rhestr o leddfidiadau y mae fy awdurdod lleol yn Nhorfaen wedi cael ei orfodi i'w hystyried. Mae'n gwneud ei orau glas i ddarparu cyllideb sy'n amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, ond mae'n gorfod edrych ar fesurau megis cyflwyno rhestr aros ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Mae'n rhywbeth a fyddai'n arbed £200,000 y flwyddyn i'r awdurdod, ond, yn ôl ei ddadansoddiad ei hun, bydd yn cyfyngu ar yr ystod o gymorth sydd ar gael a bydd yn golygu bod pobl yn aros yn hwy yn yr ysbyty hyd nes y bydd capasiti o ran darpariaeth a chyllid, oedi a fydd, yn ei dro, yn cynyddu'r risg o gael heintiau a geir mewn ysbytai a cholli annibyniaeth a gwyddom y gall hynny fod yn ganlyniad i aros am gyfnodau hir yn yr ysbyty.

A major reconfiguration of the community rehabilitation team is also proposed, a move that will directly impact on the Gwent frailty programme, which has long been vaunted as an example of best practice in reablement. Council cuts affecting sports clubs, in terms of both increased fees and mandatory lease agreements, will also end up costing the NHS more in the long term in the light of big public health challenges like obesity and diabetes. Do not get me wrong; I am not laying the blame at the council's door. It has been left with no choice, given its financial pressures. When protection is rightly in place to protect areas like school funding, it means that it has to look at even deeper cuts in other areas. This is not a criticism of the Minister for health either, who has made a very strong case for increasing spending on health. Indeed, I particularly welcome his pledge to allocate the second tranche of increased health spending via the Townsend formula—a commitment that I felt that the health spokesperson for the Welsh Conservatives was wrong to question in committee, given that they would have been the first to accuse us of rewarding failure if that money had simply been allocated to health boards with the biggest funding gaps.

I will take an intervention very quickly from Darren.

15:15

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for taking an intervention. Does she accept that the Welsh Government has rewarded failure by bailing health boards out in each of the past few financial years? Does she also accept that the Townsend formula will result in a redistribution of cash across Wales and that many parts of the country, including north Wales, west Wales and mid Wales, will lose out?

15:16

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I accept that the Townsend formula will result in a redistribution of cash to those areas with the highest levels of need, which is exactly what should happen and is being done by this Labour Government.

I know that the Minister would be concerned if we were to see delayed transfers of care increase, for example, and there are really important conversations that must now take place when it comes to these crucial areas when cuts are proposed. However, on a more fundamental level, and despite the challenges and concerns that I have expressed, I am supporting this budget because it is shaped by Labour values. Take the continued investment in Jobs Growth Wales, for example, where we are supporting opportunities to pay a proper wage and to equip young people with the skills that they need to get on in life, and contrast that with the coalition in Westminster, whose flagship job scheme forces people to work for nothing, often in menial roles with no prospects and with the threat of benefit sanctions if they refuse.

Mae ad-drefnu mawr ar y gweill i'r tîm adsefydlu cymunedol hefyd, cam a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar raglen eiddilwch Gwent, sydd ers tro wedi ei chlodfori fel enghraifft o arfer gorau ym maes ailalluogi. Bydd toriadau'r cyngor sy'n effeithio ar glybiau chwaraeon, o ran cynnydd yn y ffioedd a chytundebau prydles gorfodol, hefyd yn y pen draw yn costio mwy i'r GIG yn y tymor hir yng ngoleuni heriau iechyd cyhoeddus mawr fel gordewdra a diabetes. Peidiwch â'm camddeall; nid wyf yn rhoi'r bai wrth ddrws y cyngor. Nid oedd dewis ganddo, ac ystyried y pwysau ariannol arno. Pan fo mesurau diogelu ar waith i warchod meysydd megis ariannu ysgolion, a hynny'n briodol, mae'n golygu bod yn rhaid iddo edrych ar doriadau dyfnach eto mewn meysydd eraill. Nid beirniadaeth o'r Gweinidog iechyd mo hynny, chwaith, oherwydd mae wedi cyflwyno achos cryf iawn dros gynyddu gwariant ar iechyd. Yn wir, rwyf yn croesawu'n arbennig ei addewid i ddyrannu ail gyfran y cynnydd mewn gwariant ar iechyd drwy gyfrwng fformiwla Townsend—ymrwymiad yr wyf o'r farn bod llefarydd iechyd y Ceidwadwyr Cymreig yn anghywir i'w amau yn y pwyllgor, o gofio mai nhw fyddai'r cyntaf i'n cyhuddo o wobrwyo methiant pe bai'r arian wedi ei ddyrannu i'r byrddau iechyd â'r bylchau cyllido mwyaf.

Cymeraf ymyriad yn gyflym iawn gan Darren.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. A yw'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi gwobrwyo methiant drwy achub croen byrddau iechyd ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol diwethaf? A yw hefyd yn derbyn y bydd fformiwla Townsend yn arwain at ailddosbarthu arian ar draws Cymru, ac y bydd llawer rhan o'r wlad, gan gynnwys gogledd, gorllewin a chanolbarth Cymru, ar eu colled?

Derbyniaf y bydd fformiwla Townsend yn arwain at ailddosbarthu arian i'r ardaloedd hynny sydd â'r lefelau uchaf o angen, sef yr union beth a ddylai ddigwydd ac sy'n cael ei wneud gan y Llywodraeth Lafur hon.

Gwn y byddai'r Gweinidog yn bryderus pe baem yn gweld mwy o oedi wrth drosglwyddo gofal, er enghraifft, ac mae sgyrsiau pwysig iawn y mae angen iddynt ddigwydd yn awr o ran y meysydd allweddol hyn pan fydd toriadau'n cael eu cynnig. Fodd bynnag, ar lefel fwy sylfaenol, ac er gwaethaf yr heriau a'r pryderon a fynegwyd gennyf, rwyf yn cefnogi'r gyllideb hon gan ei bod wedi'i seilio ar werthoedd Llafur. Cymerwch y buddsoddiad parhaus yn Twf Swyddi Cymru, er enghraifft, lle'r ydym yn cefnogi cyfleoedd i dalu cyflog priodol ac i roi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen mewn bywyd, a chymharwch hynny â'r glymblaid yn San Steffan, y mae ei phrif gynllun swyddi'n gorfodi pobl i weithio am ddim, yn aml mewn swyddi isel heb ddim rhagolygon a dan fygythiad sancsiynau ar eu budd-dal os ydynt yn gwrthod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is galling to hear the Welsh Conservatives complaining in this Chamber about the settlement that we have been forced to pass on to local government, when it is their party's financially illiterate obsession with austerity that has led to this situation in the first place, when they have been imposing far deeper cuts on councils in England and when their own spending plans for this Assembly would have meant swingeing cuts across the board. At the end of the day, every cut in Wales is a Tory cut; and we should never let them forget it.

15:17

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was 2005 when the International Monetary Fund criticised the Treasury's approach to public finances and called for fiscal consolidation, meaning reduced borrowing and spending. Labour ignored it. At the same time, it was leaning on the Financial Services Authority to go easy on banking regulation. The rest is history. Six years on from the financial crash, the UK economy is growing faster than any other G7 country and record numbers are in employment, but jobs and growth will be at risk if we repeat the mistakes of the past.

For every 10 private sector jobs created in London and southern England between 1998 and 2008, only one was created elsewhere. Since the 2010 UK general election, five jobs have been created in the private sector for every job lost in the public sector, and three quarters of the rise in employment has been in full-time jobs. The independent Legatum Institute's 2014 prosperity index this month named Britain as one of the best places in the world to do business, and revealed that Britain had leapfrogged Germany to become the most prosperous of all major EU countries. With economic development devolved, however, the latest index of production for Wales shows just a 0.6% increase, compared to 2% across the UK, and the index for construction for Wales shows a 1.7% increase, compared to a 5.9% increase across the UK.

Until recently, Labour and Plaid Cymru championed France as the anti-austerity alternative to the UK Government's approach. With socialist François Hollande as President, the French economy has now stalled, unemployment is over 10%, and household incomes are being squeezed far worse than over here. This dismal French performance has been blamed on a programme of higher regulation, spending and tax—a warning to us all.

Despite the tough decisions forced on the UK Government, total managed expenditure allocations to the Welsh block grant will still have increased, in cash terms, by £489 million, or 3.1%, between 2010-11 and 2015-16—the year that we are debating this afternoon.

Mae'n boenus clywed y Ceidwadwyr Cymreig yn cwyno yn y Siambr hon am y setliad yr ydym wedi cael ein gorfodi i'w drosglwyddo i lywodraeth leol, pan mai obsesiwn ariannol anlythrennog eu plaid hwy â chyni sydd wedi arwain at y sefyllfa hon yn y lle cyntaf, pan maent wedi bod yn gosod toriadau llawer dyfnach ar gynghorau yn Lloegr a phan fyddai eu cynlluniau gwariant eu hunain ar gyfer y Cynulliad hwn wedi golygu toriadau llym drwyddi draw. Yn y pen draw, mae pob toriad yng Nghymru'n doriad Toriaidd; ac ni ddylem byth adael iddynt anghofio hynny.

Yn 2005 beirniadodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol ymagwedd y Trysorlys tuag at gyllid cyhoeddus a galw am atgyfnerthu ariannol, sy'n golygu llai o fenthycia a gwario. Anwybyddodd Llafur hi. Ar yr un pryd, roedd yn pwysu ar yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i beidio â bod yn rhy galed ar reoleiddio'r banciau. Hanes yw'r gweddill. Chwe blynedd ar ôl y cwmp ariannol, mae economi'r DU yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw wlad G7 arall ac mae nifer mwy nag erioed mewn cyflogaeth, ond bydd swyddi a thwf mewn perygl os ailadroddwn gamgymeriadau'r gorffennol.

Am bob 10 swydd yn y sector preifat a grëwyd yn Llundain a de Lloegr rhwng 1998 a 2008, dim ond un gafodd ei chreu yn rhywle arall. Ers etholiad cyffredinol y DU yn 2010, mae pum swydd wedi eu creu yn y sector preifat ar gyfer pob swydd a gollwyd yn y sector cyhoeddus, ac mae tri chwarter y cynnydd mewn cyflogaeth wedi bod mewn swyddi llawn-amser. Mae mynegai ffyniant 2014 Sefydliad Legatum, sy'n sefydliad annibynnol, y mis hwn wedi enwi Prydain fel un o'r llefydd gorau yn y byd i wneud busnes, a datgelodd fod Prydain wedi neidio ar y blaen i'r Almaen ac mai hi bellach yw'r fwyaf ffyniannus o holl wledydd mawr yr UE. Gyda datblygu economaidd wedi'i ddatganoli, fodd bynnag, mae'r mynegai cynhyrchu diweddaraf ar gyfer Cymru'n dangos cynnydd o ddim ond 0.6%, o gymharu â 2% ar draws y DU, ac mae'r mynegai adeiladu ar gyfer Cymru'n dangos cynnydd o 1.7%, o gymharu â chynnydd o 5.9% ar draws y DU.

Tan yn ddiweddar, roedd y Blaid Lafur a Phlaid Cymru'n hyrwyddo Ffrainc fel dewis amgen gwrth-gyni i ymagwedd Llywodraeth y DU. A'r sosialydd François Hollande yn Arlywydd, mae economi Ffrainc bellach wedi arafu, mae diweithdra yn fwy na 10%, ac mae incwm aelwydydd dan bwysau llawer gwaeth nag yma. Rhoddwyd y bai am y perfformiad digalon hwn yn Ffrainc ar raglen o reoleiddio, gwario a threthi uwch—ac mae hynny'n rhybudd inni i gyd.

Er gwaethaf y penderfyniadau anodd a orfodwyd ar Lywodraeth y DU, bydd cyfanswm y dyraniadau gwariant a reolir i grant bloc Cymru yn dal wedi cynyddu, mewn termau arian parod, £489 miliwn, neu 3.1%, rhwng 2010-11 a 2015-16—y flwyddyn yr ydym yn ei thrafod y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, let me speak as a cross-party group chair. Correspondence received from the Minister for health states that it has been agreed that the infrastructure grant for autism should go into the local authority revenue settlement. Since the autism strategy was launched in 2008, after a huge amount of work, effort and campaigning over many years, £40,000 of ring-fenced money has been allocated to each local authority annually to spend on autism. That is £880,000 in total. The removal of this ring fencing means that a local authority can choose to spend the money on anything, with a high risk that they will do so at a time of budget pressure. Taking away the ring fencing will mean a loss of jobs, the local infrastructure will disappear and the whole autism strategy will be undermined. I therefore call on the Welsh Government to protect this ring fencing and thereby bring certainty for people with autism, their carers and families.

Last month, I chaired the north Wales meeting of the cross-party group on hospices and palliative care, at which the Hospices Cymru report on the impact of no-inflation-linked increase in funding from local health boards to Welsh hospices from 2011 to 2015 was launched. This states that hospices throughout Wales are now £1.7 million worse off because of this over the last five years. It adds that hospices may not be able to sustain current service models if the overall financial situation remains as it is, and that in the event that this potential impact is realised, the patients and carers currently accessing services from the hospices would need to access support from within a stretched NHS in Wales.

The majority of end-of-life care in Wales is provided by our independent charitable hospices, across a range of settings, including in-patient units and hospice-at-home services. Yet, hospices in Wales receive less Government funding as a proportion of expenditure than those in England and Scotland. The Welsh Labour Government should instead be asking our hospices how they can help deliver more, saving the Welsh NHS money and delivering enhanced care for patients, their families and carers.

Finally, the proposed cuts for the Supporting People programme also present a false economy. This programme saves £2.30 for every £1 spent, preventing homelessness, preventing spending on health and social care and increasing community safety, minimising the need for high-cost interventionists and reducing avoidable pressure on statutory services.

I therefore urge Ministers to listen, to learn and to improve lives by addressing these very real issues in their final budget.

15:22

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

There is no doubt that the background to all the contributions is the enormous pressure there is on the finances available to us and to public services. We know, equally, that in England there has been an enormous devastation of public services and that it currently faces a £30 billion black hole in the NHS.

Yn awr, gadewch imi siarad fel cadeirydd grŵp trawsbleidiol. Mae gohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gweinidog iechyd yn dweud y cytunwyd y dylai'r grant seilwaith ar gyfer awtistiaeth fynd i mewn i setliad referniw awdurdodau lleol. Ers lansio'r strategaeth awtistiaeth yn 2008, ar ôl llawer iawn o waith, ymdrech ac ymgyrchu dros nifer o flynyddoedd, mae £40,000 wedi'i glustnodi i bob awdurdod lleol bob blwyddyn i'w wario ar awtistiaeth. Dyna gyfanswm o £880,000. Mae cael gwared ar y clustnodiad hwn yn golygu y gall awdurdod lleol ddewis gwario'r arian ar unrhyw beth, gyda risg uchel y bydd yn gwneud hynny ar adeg pan fo pwysau ar y gyllideb. Bydd cymryd ymaith y clustnodi hwn yn golygu colli swyddi, bydd y seilwaith lleol yn diflannu a bydd y strategaeth awtistiaeth gyfan yn cael ei thanseilio. Galwaf felly ar Lywodraeth Cymru i warchod y clustnodiad hwn a thrwy hynny ddod â sicrwydd i bobl ag awtistiaeth, eu gofawyr a'u teuluoedd.

Y mis diwethaf, bŵm yn cadeirio cyfarfod y gogledd o'r grŵp trawsbleidiol ar hosbisau a gofal lliniarol, lle cafodd adroddiad Hosbisau Cymru ar effaith cynyddu cyllid heb ddim cysylltiad â chwyddiant gan fyrddau iechyd lleol i hosbisau yng Nghymru o 2011 hyd at 2015 ei lansio. Mae hwn yn datgan bod hosbisau ledled Cymru yn awr £1.7 miliwn yn waeth eu byd oherwydd hyn dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n ychwanegu efallai na fydd hosbisau'n gallu cynnal modelau gwasanaeth presennol os bydd y sefyllfa ariannol gyffredinol yn parhau fel y mae, a phe digwyddai i'r effaith bosibl hon gael ei gwreiddo, byddai angen i'r cleifion a'r gofawyr sydd ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau yn yr hosbisau gael cymorth o fewn GIG sydd wedi'i orymestyn yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o'r gofal diwedd oes yng Nghymru'n cael ei ddarparu gan ein hosbisau elusennol annibynnol, mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys unedau cleifion mewnlol a gwasanaethau hosbis yn y cartref. Eto i gyd, mae hosbisau yng Nghymru'n cael llai o arian gan y Llywodraeth fel cyfran o wariant na'r rhai yn Lloegr a'r Alban. Dylai Llywodraeth Lafur Cymru yn hytrach fod yn gofyn i'n hosbisau sut y gallant helpu i gyflawni mwy, gan arbed arian i'r GIG yng Nghymru a darparu gofal gwell i gleifion, eu teuluoedd a'u gofawyr.

Yn olaf, mae'r toriadau arfaethedig i'r rhaglen Cefnogi Pobl hefyd yn cyflwyno economi ffug. Mae'r rhaglen hon yn arbed £2.30 am bob £1 sy'n cael ei wario, gan atal digartrefedd, atal gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol a chynyddu diogelwch cymunedol, lleihau'r angen am ymyriadau cost uchel a lleihau pwysau diangen ar wasanaethau statudol.

Rwyf felly'n annog Gweinidogion i wrando, i ddysgu ac i wella bywydau drwy fynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol hyn yn eu cyllideb derfynol.

Nid oes amheuaeth nad cefndir yr holl gyfraniadau yw'r pwysau aruthrol sydd ar y cyllid sydd ar gael i ni ac i wasanaethau cyhoeddus. Rydym yn gwybod, yr un modd, yn Lloegr, y dinistriwyd gwasanaethau cyhoeddus yn aruthrol a'i bod ar hyn o bryd yn wynebu twll du o £30 biliwn yn y GIG.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Leanne Wood raised two areas that I particularly want to look at. One is the issue of the planning for future pressures and the other is the parity of resources across United Kingdom. This is important, because we have to look at the announcements that have recently been made by George Osborne and by the Tory party in terms of what is going to happen to future financing. An announcement made at the Conservative Party conference of all places, rather than Parliament, was that they are looking for a further £45 billion of public sector cuts, with £30 billion— [Interruption.]

Cododd Leanne Wood ddau fater yr wyf yn arbennig o awyddus i edrych arnynt. Un yw cynllunio ar gyfer pwysau yn y dyfodol a'r llall yw cyfartaledd adnoddau ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn bwysig, oherwydd mae'n rhaid inni edrych ar y cyhoeddiadau a wnaed yn ddiweddar gan George Osborne a chan y blaid Doriaidd o ran yr hyn a fydd yn digwydd i ariannu yn y dyfodol. Cyhoeddiad a wnaed yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol o bob man, yn hytrach nag yn y Senedd, oedd eu bod yn chwilio am £45 biliwn pellach o doriadau i'r sector cyhoeddus, gyda £30 biliwn— [Torri ar draws.]

15:23 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention.

Diolch ichi am gymryd yr ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In the light of what you have just said, what do you make of the Labour Party's announcement that it will stick to the Tory party's plans in the first two years if it gains a majority in the next election?

Yng ngoleuni'r hyn yr ydych newydd ei ddweud, beth yw eich barn am gyhoeddiad y Blaid Lafur y bydd yn cadw at gynlluniau'r blaid Doriaidd yn y ddwy flynedd gyntaf os bydd yn ennill mwyafrif yn yr etholiad nesaf?

15:24 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that depends on what the financial position is in May, after the election. What is important is that two things happen. The first is that there is a greater redistribution of wealth, which I will comment on in a minute, and the second is that there is fairness in the way that that funding is used. I think that that is where the difference will be made in social programmes.

Credaf fod hynny'n dibynnu ar y sefyllfa ariannol ym mis Mai, ar ôl yr etholiad. Yr hyn sy'n bwysig yw bod dau beth yn digwydd. Y cyntaf yw bod mwy o aildosbarthu cyfoeth, a byddaf yn sôn am hynny mewn munud, a'r ail yw bod tegwch yn y ffordd y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio. Credaf mai dyna lle y bydd gwahaniaeth yn cael ei wneud mewn rhaglenni cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Let me go back to the issue of the £45 billion that has been announced, because even if only two thirds of those cuts took place, that would mean a consequential loss to us of £1.5 billion. What would that mean if a Tory Government was elected in May with that as part of the agenda that had been announced? It would mean an end to all non-statutory services in Wales. There would no longer be the capability of supporting any libraries, any leisure centres or any community centres. That is the seriousness of the implications of the announcement that has been made. You have to take that in conjunction with the recent research from University of Essex and the London School of Economics, which have done an analysis of the impact of coalition spending plans. What is absolutely clear from some of the most detailed economic analysis that has taken place is that, over the past four years, there has been a significant and fundamental shift in wealth from the poorest in the country to the richest in the country. As is clearly stated in the research, the reforms had the effect of making an income transfer from the poor half of households to most of the richer half, with no net effect on public services. There is not even a benefit to the actual deficit reduction. There has been—what always happens when you have a Tory Government—a shifting of resources from the poorest to the richest. We know that if we want to get rid of the bedroom tax—that vile tax—there is only one way of doing it: by the election of a Labour Government in May.

Gadewch imi fynd yn ôl at fater y £45 biliwn sydd wedi ei gyhoeddi, oherwydd hyd yn oed os mai dim ond dwy ran o dair o'r toriadau hynny fyddai'n digwydd, byddai hynny'n golygu colled ganlyniadol inni o £1.5 biliwn. Beth fyddai hynny'n ei olygu pe bai Llywodraeth Doriaidd yn cael ei hethol ym mis Mai a hynny'n rhan o'r agenda a oedd wedi ei chyhoeddi? Byddai'n golygu diwedd ar yr holl wasanaethau anstatudol yng Nghymru. Ni fyddai modd bellach cefnogi dim llyfrgelloedd, dim canolfannau hamdden na dim canolfannau cymunedol. Dyna pa mor ddifrifol yw goblygiadau'r cyhoeddiad a wnaed. Rhaid ichi gymryd hynny law yn llaw â'r gwaith ymchwil diweddar gan Brifysgol Essex ac Ysgol Economeg Llundain, sydd wedi gwneud dadansoddiad o effaith cynlluniau gwariant y glymblaid. Yr hyn sy'n gwbl glir o rai o'r dadansoddiadau economaidd mwyaf manwl sydd wedi digwydd yw y bu newid sylweddol a sylfaenol, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, o ran cyfoeth o'r tlotaf yn y wlad i'r cyfoethocaf yn y wlad. Fel y nodir yn glir yn yr ymchwil, effaith y diwygiadau oedd trosglwyddo incwm o hanner tlawd yr aelwydydd i'r rhan fwyaf o'r hanner cyfoethocach, heb ddim effaith net ar wasanaethau cyhoeddus. Nid oes budd hyd yn oed i'r gostyngiad yn y diffyg gwirioneddol. Yr hyn sydd wedi digwydd, a'r hyn sy'n digwydd bob amser pan fydd gennych Lywodraeth Doriaidd, yw symud adnoddau oddi wrth y tlotaf i'r cyfoethocaf. Rydym yn gwybod os ydym am gael gwared ar y dreth ystafell wely—y dreth ffiadd honno—mai dim ond un ffordd o wneud hynny sydd: drwy ethol Llywodraeth Lafur ym mis Mai.

I said that I would talk about the fair funding formula. I agree with Leanne that there has to be a fair funding formula and it has to be one that is based, to use her own words, on a 'parity of resources' across the UK. I predict that, in two years' time, Barnett will be dead. I think that Barnett is unsustainable. Even a Barnett plus is potentially unsustainable. That is the reality of where we are going to be in several years' time. It has to be a formula that is not only fair to Wales, but is sustainable, which means that it has to be fair to the poorer regions of England as well, which are equally dispossessed.

The crux of the problem, as we know—

15:26 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Would you take an intervention?

15:26 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Certainly; go on.

15:27 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Do you accept that Wales is a nation and not a region? Therefore we should be treated with parity to Scotland, and not to the regions of England that you talk about.

15:27 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I agree with you that there has to be a parity of resources across the UK, which means—. [Interruption.] I am talking about people. That means that the funding has to be fair to all the people across the UK, otherwise it is incapable of being sustainable. To do otherwise, quite frankly, is Mickey Mouse economics.

I would also like to move on to a couple of other areas, Minister, to raise the issue of the local government borrowing initiative. What I would particularly like to welcome is the ingenuity of the Government in achieving somewhere in the region of £100 million investment in Rhondda Cynon Taf—an investment in schools. A large proportion of it, I will say, is going to be in my constituency, but it is certainly that innovative way of looking at funding that is going to make a great difference to education in Rhondda Cynon Taf and other parts of Wales. May I ask you about one other area, Minister? Could we have, perhaps, a slight expansion of your notes on the investment that is going to be necessary to develop the metro over the coming 15 years?

15:28 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Fel mae eraill wedi cyfeirio, cefndir y gyllideb hon yw'r wasgfa ariannol sy'n dod o Lundain. Bydd pobl gyffredin yn gweld dirywiad yn eu gwasanaethau tra bo'r bobl a oedd yn gyfrifol am greu'r dirwasgiad—y marchnadoedd arian direol ac anfoesol, a gafodd eu mawrygu, gyda llaw, gan y Blaid Lafur pan oedd mewn Llywodraeth—yn dal i dorri cyfraith ryngwladol heb i neb eu cosbi a heb i neb godi llais yn eu herbyn. Fel y dywedodd Mick Antoniw yn glir iawn, mae'r cyfoethog yn dal i ymgyfoethogi ac mae'r tlotaf yn mynd yn dlotach.

Dywedais y byddwn yn sôn am y fformiwla ariannu teg. Rwyf yn cytuno â Leanne fod yn rhaid cael fformiwla ariannu teg ac mae'n rhaid iddi fod yn un sydd wedi'i seilio, yn ei geiriau hi, ar 'gyfartaledd adnoddau' ledled y DU. Rwyf yn rhagweld y bydd Barnett, ymhen dwy flynedd, yn farw. Credaf fod Barnett yn anghynaliadwy. Mae hyd yn oed Barnett plws o bosibl yn anghynaliadwy. Dyna realiti ble y byddwn ymhen rhai blynyddoedd. Mae'n rhaid iddi fod yn fformiwla sydd nid yn unig yn deg i Gymru, ond yn gynaliadwy, sy'n golygu bod yn rhaid iddi fod yn deg i ranbarthau tlotach Lloegr yn ogystal, sydd yr un mor amddifad.

Craidd y broblem, fel y gwyddom—

A wneuch chi dderbyn ymyriad?

Yn sicr; siaradwch chi.

A ydych yn derbyn bod Cymru'n genedl ac nid yn rhanbarth? Felly, dylem gael ein trin yn gydradd â'r Alban, ac nid â rhanbarthau Lloegr yr ydych yn sôn amdanynt.

Rwyf yn cytuno â chi fod yn rhaid cael cyfartaledd adnoddau ledled y Deyrnas Unedig, sy'n golygu—. [Torri ar draws.] Rwyf yn sôn am bobl. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r cyllid fod yn deg i'r holl bobl ledled y DU; fel arall, ni fydd modd cynnal hyn. Mae gwneud fel arall, a dweud y gwir, yn economeg Mickey Mouse.

Hoffwn hefyd symud ymlaen at un neu ddau o feysydd eraill, Weinidog, a sôn am fenter benthyca llywodraeth leol. Yr hyn yr wyf yn arbennig o awyddus i'w groesawu yw dyfeisgarwch y Llywodraeth o ran cyflawni oddeutu £100 miliwn o fuddsoddiad yn Rhondda Cynon Taf—buddsoddiad mewn ysgolion. Bydd cyfran fawr ohono yn fy etholaeth i, ond yn sicr y ffordd arloesol honno o edrych ar gyllid sy'n mynd i wneud gwahaniaeth mawr i addysg yn Rhondda Cynon Taf a rhannau eraill o Gymru. A gaf fi ofyn i chi am un mater arall, Weinidog? A gawn ni, efallai, ychydig o ymhelaethu ar eich nodiadau ar y buddsoddiad a fydd yn angenrheidiol er mwyn datblygu'r metro dros y 15 mlynedd nesaf?

As others have already mentioned, the background to this budget is the financial squeeze emanating from London. Ordinary people will see diminishing services while those responsible for creating the recession—the unregulated and immoral financial markets, that were revered, incidentally, by the Labour Party when it was in Government—continue to break international law without penalty and without anyone raising their voice against them. As Mick Antoniw said very clearly, the rich continue to get richer while the poor get poorer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth wrando ar y Gweinidog, gallech feddwl bod rhagor o arian yn mynd i gael ei wario ar bob gwasanaeth yng Nghymru. Mae yna arian ychwanegol, mae'n debyg, i wasanaethau cymdeithasol ac mae addysg yn cael ei warchod. Os felly, sut mae'r cynghorau sir yn mynd i ddelio â'r £190 miliwn y maent yn mynd i'w golli'r flwyddyn nesaf? Os bydd gwario ychwanegol ar wasanaethau cymdeithasol, ac mae'r galw'n fawr, ac addysg yn cael ei gynnal, mae hynny'n 60% o gyllideb llywodraeth leol. Mae'r toriadau ar bopeth arall yn mynd i fod yn ffaidd. Yn wir, cyn i George Osborne gael gafael ar y £45 biliwn ychwanegol hwn, bydd pob llyfrgell, canolfan hamdden, pwll nofio, theatr, canolfan ddydd a phob gwasanaeth bws gwledig o dan fygythiad. Dyna yw'r realiti a fydd yn wynebu rhai o'n cynghorau'r flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog yn sôn am benderfyniadau anodd i'r Llywodraeth, ond y gwir amdani yw mai cynghorwyr a chynghorau sir Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau anodd hynny, a'r rheiny fydd yn gorfod wynebu y bobl wrth iddynt weld eu gwasanaethau yn dirywio ac yn pellhau oddi wrthyn nhw, ac mi fydd y Llywodraeth wedi golchi ei dwylo o hynny.

Y symudiad mawr yn y gyllideb yw'r £225 miliwn ychwanegol i'r gwasanaeth iechyd y flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog yn dadlau mai adroddiad Nuffield arweiniodd at y penderfyniad hwn, a hefyd wrth gwrs dyna sy'n esbonio'r £200 miliwn sydd wedi'i gribinio at ei gilydd eleni i lenwi'r twll yng nghyllideb y byrddau iechyd. Fodd bynnag, dylai'r Gweinidog—ac nid yw wedi gwneud o gwbl hyd y gwelaf i—gyfeirio at adroddiad yr archwilydd cyffredinol eleni ar y gwasanaeth iechyd, a oedd wedi adnabod y gorwario yma ac yn ei amcangyfrif yn £192 miliwn ar y pryd. Felly, mewn gwirionedd, mae'r arian ychwanegol eleni yn mynd i lenwi twll. Y cwestiwn sydd yn ein hwynebu ni i gyd yw: pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd yr arian ychwanegol yn arwain at newidiadau a fydd yn gwella'r gwasanaethau i bobl gyffredin?

Yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, clywsom fod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn debygol o orwario £60 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, ac yn dynn ar ei ôl y bydd bwrdd iechyd Hywel Dda, sy'n debygol o orwario £40 miliwn. Dyna i chi hanner yr arian newydd wedi diflannu yn barod. Efallai ei bod yn berthnasol mai dau fwrdd iechyd yw'r rhain sydd yn gwasanaethu ardaloedd gwledig. Cyfeiriwyd at fformiwla Townsend fel yr un a fydd yn sail i ddosbarthu'r arian ychwanegol yma, ond roedd swyddogion y gwasanaeth iechyd yma yn cyfaddef bod honno hefyd yn wallus.

A derbyn bod y Llywodraeth mewn lle anodd ar ôl methu perswadio ei phlaid ei hun pan yr oedd mewn Llywodraeth i gywiro annhegwch fformiwla Barnett—rwy'n clywed Gweinidogion ac Aelodau yn gweiddi ynglŷn â Barnett, ac yn hollol deg ynglŷn â hynny—y gwir amdani yw, tra yr oedd y Blaid Lafur mewn Llywodraeth yn Llundain, ni wnaeth unrhyw beth i ddiwygio fformiwla Barnett, heb sôn am gysoni'r gwario rhwng Cymru a'r Alban.

Listening to the Minister, you could think that more money is to be spent on each and every service in Wales. There is additional money, it seems, for social services and education is being protected. If so, how are county councils going to deal with the £190 million they are going to lose next year? If there is additional spending for social services, and demand is high, and if spending on education is to be maintained, that is 60% of the budget of local government. The cuts in every other area will be swingeing. Indeed, before George Osborne gets hold of that additional £45 billion, every library, leisure centre, swimming pool, theatre, day centre and rural bus service will be under threat. That is the reality facing some of our councils next year. The Minister talks about difficult decisions for the Government, but the truth is that it is councillors and county councils in Wales that will make those difficult decisions, and it is they who will have to face the people as they see their services declining and getting further and further away from them, and the Government will have washed its hands of that.

The major shift in the budget is the additional £225 million for the health service for next year. The Minister argues that it is the Nuffield Trust report that led to that decision, and of course that is what explains the £200 million that has been pulled together this year to fill the black hole in the health boards' budgets. But the Minister should—she has not done this at all, as far as I can see—refer to the auditor general's report for this year on the health service, which had identified this overspend, which he estimated to be £192 million at that time. So, in reality, the additional funding for this year is going to fill a black hole. The question facing us all is: what assurances can you give that the additional funding will lead to changes that will actually improve services for ordinary people?

The Public Accounts Committee heard that the Betsi Cadwaladr health board is likely to overspend by £60 million by the end of this financial year, and close behind will be Hywel Dda health board, which is likely to overspend by £40 million. That is half of the additional funding already accounted for. It is perhaps pertinent that these are two health boards that serve rural areas. Reference has already been made to the Townsend formula as a foundation for the distribution of this additional funding, but health service officials admitted here that that too is flawed.

Accepting that the Government is in a difficult position, having failed to persuade its own party when in government to put right the inequity of the Barnett formula—I have heard Ministers and Members shouting their mouths off about Barnett, and that is quite fair—but the truth is that, while Labour was in Government in England, it did nothing at all to reform the Barnett formula, never mind actually putting right the discrepancy between the expenditure in Wales and in Scotland.

Felly, mewn sefyllfa argyfyngus fel hon, byddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth edrych yn fanwl ar bob rhaglen er mwyn asesu eu gwerth a'u heffeithlonrwydd. Ond, o holi'r Gweinidog, deallwyd mai dim ond un cynllun pitw bach sydd wedi ei derfynu ymhlith holl raglenni'r Llywodraeth—un cynllun, tra'n condemnio ein cynghorau sir ni i flwyddyn arall o doriadau milain i wasanaethau sy'n cynnal pobl go iawn ledled Cymru.

So, in a critical situation such as this, I would expect the Government to look in detail at all programmes to assess their value and efficiency. But, when questioning the Minister, I was given to understand that only one minor scheme is to be terminated of all the Government programmes—one scheme, while condemning our local authorities to another year of swingeing cuts to services that support real people the length and breadth of Wales.

15:33

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In response to Alun Ffred, I am sure that we all wish that we had regulated the banks better in the last decade, but we have to remind ourselves that the blowout that the bankers entered into was caused by the deregulation of the 1980s under Mrs Thatcher and Ronald Reagan. It is one of the great disappointments of the Obama presidency that he has not tackled banking reform. I was not holding my breath to think that the Conservative Government was going to do it. So, it will be unfinished business that will need to be completed by the incoming Labour Government.

However, I rise to discuss the Welsh budget for next year and to support a road scheme that is going to be hugely beneficial to the people of my constituency and to the whole of Cardiff. It is a line in the budget that is an additional £30 million to ensure that the Cardiff eastern bay link road scheme starts next year and is completed within the next two years. It is not just that it is going to improve access to the central Cardiff enterprise zone, or that it will improve connectivity across the capital city; it is because this work will be a win-win for both residents and commuters, who are currently clogging up Newport road in my constituency, which is the current preferred option for drivers coming into Cardiff from the east, via the A48. Now, this new road, which actually follows a very small distance, follows the line of the old docks and does not trample on a site of special scientific interest, unlike the proposed M4 relief road.

Under the Environment Act 1995, local authorities are obliged to regularly review and assess air quality in their areas. In Cardiff, there are currently four areas that meet that need, in that they do not meet the air quality standards. In all these areas, this is due to the nitrogen dioxide resulting from road traffic emissions. They are Cardiff city centre, Ely bridge, Llandaff, and a place called Stephenson Court on Newport Road, opposite the Cardiff Royal Infirmary. There is now a fifth one to be proposed, at the bottom of Roath park. That is the extent of the congestion problem that we face in our capital city, which is neither good for the health of the residents of our capital city nor for the image of Cardiff.

Mewn ymateb i Alun Ffred, rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn dymuno bod wedi rheoleiddio'r banciau'n well yn y degawd diwethaf, ond mae'n rhaid inni ein hatgoffa ein hunain fod y ffrwydrad yr aeth y bancwyr iddo wedi'i ei achosi gan ddadreoleiddio'r 1980au dan Mrs Thatcher a Ronald Reagan. Mae'n un o siomedigaethau mawr arlywyddiaeth Obama nad yw wedi mynd i'r afael â diwygio'r banciau. Nid oeddwn yn dal fy anadl a meddwl bod y Llywodraeth Geidwadol yn mynd i wneud hynny. Felly, bydd yn fusnes anorffenedig y bydd angen i'r Llywodraeth Lafur newydd ei gwblhau.

Fodd bynnag, codaf i drafod cyllideb Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i gefnogi cynllun ffordd a fydd o fudd mawr i bobl fy etholaeth i ac i Gaerdydd gyfan. Mae'n llinell yn y gyllideb sy'n £30 miliwn yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod cynllun ffordd gyswllt dwyrain bae Caerdydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf ac yn cael ei gwblhau o fewn y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â gwella mynediad i ardal fenter ganolog Caerdydd, a gwella cysylltedd ar draws y brifddinas, bydd preswylwyr a chymudwyr ar eu hennill—maent ar hyn o bryd yn tagu heol Casnewydd yn fy etholaeth i, sef y dewis a ffeirir ar hyn o bryd gan yrwyr sy'n dod i mewn i Gaerdydd o'r dwyrain, ar hyd yr A48. Yn awr, mae'r ffordd newydd hon, sydd mewn gwirionedd yn dilyn pellter bach iawn, yn dilyn llinell yr hen ddociau ac nid yw'n sathru ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, yn wahanol i ffordd liniaru arfaethedig yr M4.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd. Yng Nghaerdydd, mae pedair ardal sy'n bodloni'r angen hwnnw, gan nad ydynt yn bodloni'r safonau ansawdd aer ar hyn o bryd. Ym mhob un o'r ardaloedd hyn, mae hyn oherwydd y nitrogen deuocsid sy'n deillio o allyriadau traffig ar y ffordd. Yr ardaloedd hynny yw canol dinas Caerdydd, pont Trelái, Llandaf, a lle o'r enw Stephenson Court ar Heol Casnewydd, gyferbyn ag Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Erbyn hyn mae pumed yn cael ei chynnig, ar waelod parc y Rhath. Dyna yw maint problem y tagfeydd sy'n ein hwynebu yn ein prifddinas, ac nid yw hynny'n dda i iechyd trigolion ein prifddinas nac i ddelwedd Caerdydd.

15:36

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well done on getting Ronald Reagan into an Assembly debate, but that was not my intervention.

You have to be clear with the public that what you are talking about here is phase 1—one part of what was proposed as the eastern bay link. There is no commitment to finish that, and, without that commitment, you are going to cause potential chaos in the south of Cardiff.

Da iawn ar gael Ronald Reagan i mewn i ddadl yn y Cynulliad, ond nid dyna oedd fy ymyriad.

Mae'n rhaid ichi fod yn glir â'r cyhoedd mai'r hyn yr ydych yn sôn amdano yma yw cam 1—un rhan o'r hyn a gynigiwyd fel ffordd gyswllt dwyrain y bae. Nid oes ymrwymiad i orffen hynny, a heb yr ymrwymiad hwnnw, rydych yn mynd i achosi anhrefn posibl yn ne Caerdydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:36

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I disagree, because I have looked at the map. It is going to connect the Bute tunnel with the roundabout that goes nowhere, which is near the Lamby way dump. [Interruption.]

No, not at all, there is already a very fine link road coming off the A48, and it will actually enable it to direct the traffic down by the docks, rather than going into the residential area, which is extremely built up, and where the high volume of traffic, the queuing and the location of the buildings, right along the route, hinder the dispersion of the emissions. It is extremely dangerous and difficult for anybody who is living in that area. Cardiff Council admits that it is not just the congestion and the queuing; it is also the buses that are a significant part of the total emissions, because of the location of the bus lane and the stops that are in the area, which is also having a great impact.

So, I am concerned that, while I welcome this £30 million in the budget to enable the link road to be completed in the next two years, it needs to be accompanied by measures to suppress further traffic coming into, and moving around, the capital city, which is due to grow by 100,000 people over the next 10 years. We have to make sure that walking and cycling are the first-line options for short journeys, and that commuters have alternatives to the car. So, like others, I would be keen to find out just how much progress is being made on developing the metro, and whether we are going to use the European Investment Bank to start the first phase.

I have run out of time, so I will confine my remarks to that.

Wel, rwyf yn anghytuno, gan fy mod wedi edrych ar y map. Bydd yn cysylltu twnnel Bute â chylchfan nad yw'n mynd i unman, sy'n agos at domen ffordd Lamby. [Torri ar draws.]

Na, ddim o gwbl, mae ffordd gyswllt dda iawn yn dod oddi ar yr A48 yn barod, a bydd mewn gwirionedd yn ei galluogi i gyfeirio'r traffig i lawr ger y dociau, yn hytrach na mynd i mewn i'r ardal breswyl, sy'n adeiledig dros ben, a lle mae'r lefel uchel o draffig, y ciwio a lleoliad yr adeiladau, ar hyd y llwybr, yn llesteirio gwasgariad yr allyriadau. Mae'n hynod beryglus ac anodd i unrhyw un sy'n byw yn yr ardal honno. Mae Cyngor Caerdydd yn cyfaddef nad y tagfeydd a'r ciwio'n unig sydd dan sylw yma; mae hefyd yn ymwneud â'r bysiau sy'n rhan sylweddol o gyfanswm yr allyriadau, oherwydd lleoliad y lôn fysiau a'r arosfannau sydd yn yr ardal, sydd hefyd yn cael effaith fawr.

Felly, er fy mod yn croesawu'r £30 miliwn yn y gyllideb er mwyn gallu cwblhau'r ffordd gyswllt yn y ddwy flynedd nesaf, law yn llaw â hynny mae angen mesurau i atal rhagor o draffig rhag dod i mewn i'r brifddinas, a symud o'i chwmpas; disgwylir 100,000 yn rhagor o bobl yn y brifddinas dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr mai cerdded a beicio yw'r opsiynau llinell gyntaf ar gyfer teithiau byr, a bod dewisiadau eraill i gymudwyr yn lle'r car. Felly, fel eraill, byddwn yn awyddus i gael gwybod faint yn union o gynnydd sy'n cael ei wneud ar ddatblygu'r metro, ac a ydym yn mynd i ddefnyddio Banc Buddsoddi Ewrop i ddechrau'r cam cyntaf.

Mae fy amser ar ben, felly cyfyngaf fy sylwadau i hynny.

15:38

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to focus my contribution on how this draft budget will impact, I believe, rural Wales, particularly. I understand the need for reductions to be made across Government—I understand that—but there are serious concerns about how this budget will affect rural and farming communities across Wales.

The draft budget proposes to cut the natural resources budget by 7.5%, the largest percentage decrease of any Government department, and a greater reduction than had been predicted by indicative figures last year. The Government has so far failed to adequately clarify how it will prioritise its policy commitments in the natural resources portfolio, and how the 17.8% cut in the agriculture and food budget will affect farmers, who are already facing a difficult economic outlook. So, I believe that the Welsh Government must set out clearly how it intends to deal—

Hoffwn ganolbwyntio yn fy nghyfraniad ar sut y bydd y gyllideb ddrafft hon yn effeithio, yn fy marn i, ar gefn gwlad Cymru, yn enwedig. Rwyf yn deall yr angen i ostyngiadau gael eu gwneud ar draws y Llywodraeth—rwyf yn deall hynny—ond mae pryderon difrifol ynghylch y ffordd y bydd y gyllideb hon yn effeithio ar gymunedau gwledig a ffermio ledled Cymru.

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnig torri'r gyllideb cyfoeth naturiol 7.5%, y gostyngiad canrannol mwyaf yn unrhyw adran o'r Llywodraeth, a mwy o ostyngiad na'r hyn a ragwelwyd yn y ffigurau dangosol y llynedd. Mae'r Llywodraeth hyd yma wedi methu ag egluro'n ddigonol sut y bydd yn blaenoriaethu ei hymrwymadau polisi yn y portffolio cyfoeth naturiol, a sut y bydd y toriad o 17.8% yn y gyllideb amaethyddiaeth a bywd yn effeithio ar ffermwyr, sydd eisoes yn wynebu rhagolygon economaidd anodd. Felly, credaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu ymdrin—

15:39

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:39

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member seeks to make his case that people will suffer as a consequence of the decisions that have been forced upon this Government by his own Government in London. Does he therefore welcome the fact that we have the biggest rural development plan in our history, with nearly £1 billion to spend on investment in farming and agriculture—an RDP that his party opposed?

Mae'r Aelod yn ceisio gwneud ei achos y bydd pobl yn dioddef o ganlyniad i'r penderfyniadau sydd wedi eu gorfodi ar y Llywodraeth hon gan ei Lywodraeth ei hun yn Llundain. A yw felly'n croesawu'r ffaith bod gennym y cynllun datblygu gwledig mwyaf yn ein hanes, gyda bron i £1 biliwn i'w wario ar fuddsoddi mewn ffermio ac amaethyddiaeth—Cynllun Datblygu Gwledig yr oedd ei blaid ef yn ei wrthwynebu?

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will come on to talk about the RDP, and I will answer your question at that point, I hope.

Ie, byddaf yn sôn yn nes ymlaen am y Cynllun Datblygu Gwledig, a byddaf yn ateb eich cwestiwn ar y pwynt hwnnw, rwy'n gobeithio.

I would like to ask for specific clarification on one area: the impact of the revenue reductions for the 2014-20 rural development programme and how that will affect the delivery of year one of the scheme. The average income of farming businesses in Wales has fallen by 30% as a result of tough market conditions, which I hope that we are all aware of, in the dairy, beef and lamb industries. Of course, farming industries want assurances that they will not be disproportionately hit by this budget.

Hoffwn ofyn am eglurhad penodol ar un maes: effaith y gostyngiadau refeniw ar gyfer y rhaglen datblygu gwledig 2014-20 a sut y bydd hynny'n effeithio ar gyflwyno blwyddyn gyntaf y cynllun. Mae incwm cyfartalog busnesau ffermio yng Nghymru wedi gostwng gan 30% o ganlyniad i amodau marchnad anodd, yr wyf yn gobeithio ein bod i gyd yn ymwybodol ohonynt, yn y diwydiannau llaeth, cig eidion a chig oen. Wrth gwrs, mae diwydiannau ffermio eisiau sicrwydd na fyddant yn cael eu taro'n anghymesur gan y gyllideb hon.

As I said a few weeks ago, in my contribution to the debate on farming, if we want farmers to succeed in an open market, we cannot continue to put Welsh farms at a competitive disadvantage with other parts of the UK and Europe. We have seen a 15% maximum transfer of payments from pillar 1 to pillar 2—the largest across the EU, as it stands, in 2014. All other UK and European countries have lower transfer rates. I do not want to rehearse a previous argument that we have mentioned in the Chamber in the past, but that clearly puts farmers at a competitive disadvantage.

Fel y dywedais rai wythnosau yn ôl, yn fy nghyfraniad i'r ddadl ar ffermio, os ydym am i ffermwyr lwyddo mewn marchnad agored, ni allwn barhau i roi ffermydd yng Nghymru o dan anfantais gystadleuol â rhannau eraill o'r DU ac Ewrop. Rydym wedi gweld uchafswm trosglwyddo taliadau o 15% o golofn 1 i golofn 2—y mwyaf ar draws yr UE, fel y mae pethau'n sefyll, yn 2014. Mae gan bob gwlad arall y DU ac Ewrop gyfraddau trosglwyddo is. Nid wyf am ymarfer dadl flaenorol yr ydym wedi sôn amdani yn y Siambwr yn y gorffennol, ond mae hynny yn amlwg yn rhoi ffermwyr o dan anfantais gystadleuol.

Secondly, last week, the Welsh Government confirmed that it will be unable to pay farmers the full common agricultural policy basic payment in December—once again heaping cash-flow pressures on farmers. So, at a time when farming incomes are under considerable pressure, it is disappointing that the Welsh Government feels that it is appropriate to cut the agriculture and food budget to this extent. Our farmers and food industry deserve the utmost support, and it is counterintuitive for the Welsh Government to be aiming for 30% growth in the Welsh food and drinks sector on the one hand, and then pulling the rug from underneath the industry with the other. I cannot help but wonder that if we had a Cabinet member for agriculture and rural affairs who could take part in Cabinet negotiations, the agriculture and food budget would have been protected to a greater extent.

Yn ail, yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fydd yn gallu talu taliad sylfaenol llawn y polisi amaethyddol cyffredin i ffermwyr ym mis Rhagfyr—gan unwaith eto bentyrru pwysau llif arian ar ffermwyr. Felly, ar adeg pan fo incwm ffermio dan bwysau sylweddol, mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru yn teimlo ei bod yn briodol i dorri'r gyllideb amaethyddiaeth a bwyd i'r graddau hyn. Mae ein ffermwyr a'r diwydiant bwyd yn haeddu'r gefnogaeth fwyaf, ac mae'n groes i reddf i Lywodraeth Cymru fod â'r nod o gael twf o 30% yn sector bwyd a diod Cymru ar y naill law, a gadael y diwydiant ar y clwt ar y llaw arall. Ni allaf beidio â chredu pe byddai gennym aelod o'r Cabinet ar gyfer amaethyddiaeth a materion gwledig a fyddai'n cael cymryd rhan mewn trafodaethau Cabinet, byddai'r gyllideb amaethyddiaeth a bwyd wedi cael ei hamddiffyn i fwy o raddau.

I am afraid that Welsh Labour has a poor track record of understanding the needs of rural communities; when I meet farming communities across my constituency, this is now stated as a matter of general fact. It is clear to me that any Assembly Member who does not vote against this draft budget cannot criticise the effect of the budget on rural Wales in future, or at least for the rest of this Assembly. It is disappointing to hear Peter Black, talking on behalf of the Liberal Democrats, saying that his party will be allowing this draft budget to pass today.

Mae arnaf ofn bod gan Lafur Cymru hanes gwael o ddeall anghenion cymunedau gwledig; pan fyddaf yn cwrrdd â chymunedau amaethyddol ar draws fy etholaeth i, mae hyn yn awr yn cael ei ddatgan fel mater o ffaith gyffredinol. Mae'n amlwg i mi na all unrhyw Aelod Cynulliad nad yw'n pleidleisio yn erbyn y gyllideb ddrafft hon feirniadu effaith y gyllideb ar y Gymru wledig yn y dyfodol, neu o leiaf yn ystod gweddill y Cynulliad hwn. Mae hi'n siomedig clywed Peter Black, yn siarad ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, gan ddweud y bydd ei blaid yn caniatáu i'r gyllideb ddrafft hon basio heddiw.

15:43

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, the budget needs to be looked at in the context of the Westminster Government cuts that are being imposed on the Welsh block grant. The budget in 2015-16 is nearly 10% lower overall, in real terms, compared to 2010-11, which equates to over £1.5 billion removed from the Welsh public purse, or, more importantly, removed from Welsh public services. The long period of sustained reduction has had an impact on all services, even those that have been relatively protected. The fear is that, in future years, if the coalition continues in Westminster, things will only get worse.

The amount available for capital investment will be 30% lower than it was at its peak in 2009-10. I listened to speeches earlier from both Peter Black and Nick Ramsay, when they talked about being unhappy with some of the cuts. What they have failed to do is come up with a balanced budget that replaced those cuts with others. I think that the people who wish to amend the budget need to come along with suggestions—if you add £200 million here, you have to take £200 million off somewhere else.

On the budget strategy, the budget increases health expenditure by £226 million, which equates to a real terms increase of £121 million or 1.9%. This has been mainly paid for by a reduction in local government of £193 million, which equates to a reduction of £262 million in real terms, or 5.7%. Effectively, this is a movement of resources to hospitals from local government services, such as leisure, environmental health and social services, whose activities are important in ensuring that people stay out of hospitals.

Another £44 million has been added to the pupil deprivation grant, which I know has been welcomed by most of the schools in my constituency, because my constituency has one of the highest numbers in Wales of pupils receiving free school meals. However, after two years of the pupil deprivation grant, a resulting improvement in the key stage 1 results of children receiving free school meals should have occurred. I look forward to seeing these results show that the expenditure has had beneficial results in terms of educational attainment. After four years, we should be seeing improvement in key stage 2 results and, after five years, in GCSE results for free school meal pupils. This is one of the easiest expenditure headings to identify success or failure in.

Yn gyntaf, mae angen edrych ar y gyllideb yng nghydestun toriadau Llywodraeth San Steffan sy'n cael eu gosod ar grant bloc Cymru. Mae'r gyllideb yn 2015-16 bron i 10% yn is ar y cyfan, mewn termau real, o'i gymharu â 2010-11, sy'n cyfateb i dros £1.5 biliwn wedi'i dynnu oddi ar y pwrs cyhoeddus yng Nghymru, neu, yn bwysicach, ei dynnu oddi ar y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cyfnod hir o ostyngiad parhaus wedi cael effaith ar yr holl wasanaethau, hyd yn oed y rhai sydd wedi eu diogelu i raddau. Yr ofn yw, yn y dyfodol, os bydd y glymblaid yn parhau yn San Steffan, mai gwaethygu y bydd pethau.

Bydd y swm sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf 30% yn is nag yr oedd ar ei anterth yn 2009-10. Gwrandewais ar areithiau cynharach gan Peter Black a Nick Ramsay, pan oeddent yn siarad am fod yn anhapus gyda rhai o'r toriadau. Yr hyn y maent wedi methu â'i wneud yw cynnig cyllideb gytbwys a fyddai'n newid y toriadau hynny am rai eraill. Credaf fod angen i'r bobl sydd am newid y gyllideb ddod ag awgrymiadau—os ydych yn ychwanegu £200 miliwn yma, mae'n rhaid i chi dynnu £200 miliwn yn rhywle arall.

O ran strategaeth y gyllideb, mae'r gyllideb yn cynyddu gwariant ar iechyd gan £226 miliwn, sy'n cyfateb i gynnydd termau real o £121 miliwn neu 1.9%. Talwyd am hyn yn bennaf gan ostyngiad mewn llywodraeth leol o £193 miliwn, sy'n cyfateb i ostyngiad o £262 miliwn mewn termau real, neu 5.7%. I bob pwrpas, mae hyn yn symud adnoddau i ysbytai o wasanaethau llywodraeth leol, megis hamdden, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol, y mae eu gweithgareddau yn bwysig o ran sicrhau nad yw pobl yn mynd i ysbytai.

Mae £44 miliwn arall wedi ei ychwanegu at y grant amddifadedd disgyblion, a gwn ei fod wedi ei groesawu gan y rhan fwyaf o'r ysgolion yn fy etholaeth i, oherwydd bod gan fy etholaeth un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ar ôl dwy flynedd o'r grant amddifadedd disgyblion, dylai gwelliant canlyniadol yng nghanlyniadau cyfnod allweddol 1 y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim fod wedi digwydd. Edrychaf ymlaen at weld y canlyniadau hyn yn dangos bod y gwariant wedi cael canlyniadau buddiol o ran cyrhaeddiad addysgol. Ar ôl pedair blynedd, dylem fod yn gweld gwelliant mewn canlyniadau cyfnod allweddol 2 ac, ar ôl pum mlynedd, mewn canlyniadau TGAU ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae hwn yn un o'r penawddau gwariant hawddaf i nodi llwyddiant neu fethiant ynddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I now turn to the increase in health expenditure, which has been welcomed across Wales, including by many in my constituency. In the 10 steps towards a future NHS Wales discussion paper by Tony Beddow, Julian Tudor Hart, Wayne Richard and John Richards, recommendation 5 is to stop doing all work categorised by the National Institute for Health and Care Excellence as ineffective or harmful.

Trof yn awr at y cynnydd yn y gwariant ar iechyd, sydd wedi'i groesawu ar draws Cymru, gan gynnwys llawer yn fy etholaeth i. Yn y papur trafod 10 cam tuag at ddyfodol GIG Cymru gan Tony Beddow, Julian Tudor Hart, Wayne Richard a John Richards, argymhelliad 5 yw rhoi'r gorau i wneud yr holl waith sydd wedi ei gategoreiddio fel bod yn aneffeithiol neu niweidiol yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

15:45 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mike, you have just welcomed the injection of cash into the health service. Do you therefore regret supporting a Government that, over the last four years, has taken more money than that cash injection out of the health service? That is your Government; you supported it.

Mike, rydych chi newydd groesawu'r chwistrelliad o arian i mewn i'r gwasanaeth iechyd. A ydych chi, felly, yn gresynu cefnogi Llywodraeth sydd, dros y pedair blynedd diwethaf, wedi cymryd mwy o arian na'r chwistrelliad ariannol hwnnallan o'r gwasanaeth iechyd? Dyna eich Llywodraeth; chi wnaeth ei gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:45 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If you listen to what I have to say in the next few minutes, I am going to explain why health needs to be run efficiently. I have serious concerns about some of the work being done in health. If you had listened to what I just said, it should stop doing all work categorised by NICE as ineffective or harmful. I can think of no other public service outside health where such a recommendation could exist. I cannot imagine having in education a recommendation that we should stop teaching people in a way that means they do not learn or we take knowledge out of them. Surely the Welsh Government should tell health boards to stop funding such work. How much of the health budget is being spent on such work? To quote remarks made by Mark Drakeford in January 2014, roughly 20% of customary medical activity is either ineffective or harmful to health, based on US research.

Os ydych yn gwranddo ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud yn yr ychydig funudau nesaf, rwy'n mynd i esbonio pam mae angen i iechyd gael ei redeg yn effeithlon. Mae gennyf bryderon difrifol am rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud ym maes iechyd. Pe byddech wedi gwranddo ar yr hyn yr wyf newydd ei ddweud, dylai roi'r gorau i wneud yr holl waith sy'n cael ei gategoreiddio fel aneffeithiol neu niweidiol gan NICE. Ni allaf feddwl am unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall y tu allan i iechyd lle y gallai argymhelliad o'r fath fodoli. Ni allaf ddychmygu cael argymhelliad mewn addysg y dylem roi'r gorau i addysgu pobl mewn modd sy'n golygu nad ydynt yn dysgu, neu ein bod yn cymryd gwybodaeth allan ohonynt. Oni ddylai Llywodraeth Cymru ddweud wrth fyrdau iechyd roi'r gorau i ariannu gwaith o'r fath. Faint o'r gyllideb iechyd sy'n cael ei gwario ar waith o'r fath? I ddyfynnu sylwadau a wnaed gan Mark Drakeford ym mis Ionawr 2014, mae tua 20% o weithgarwch meddygol arferol naill ai'n aneffeithiol neu'n niweidiol i iechyd, yn seiliedig ar ymchwil yn yr Unol Daleithiau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The report I mentioned earlier also crushes some health myths. Facts cited in the research report show that the average time in hospital before death does not increase with age and admission rates fall after the age 85. That is from the BMJ, which is an organisation that has been quoted in the Chamber several times in the past. After reviewing major trials, the Cochrane Centre for meta analysis concluded in 2012 that treatment for the borderline range of blood pressure is more likely to harm people than help them, except for those with diabetes. However, GPs are still being encouraged to treat this group as part of their quality and outcomes framework.

Mae'r adroddiad y soniais amdano'n gynharach hefyd yn difodi rhai mythau iechyd. Mae ffeithiau a nodwyd yn yr adroddiad ymchwil yn dangos nad yw'r amser cyfartalog yn yr ysbyty cyn marw yn cynyddu gydag oedran a bod cyfraddau derbyn yn lleihau ar ôl 85 oed. Mae hynny yn dod gan y BMJ, sef sefydliad sydd wedi ei ddyfynnu yn y Siambwr sawl gwaith yn y gorffennol. Ar ôl adolygu arbrofion helaeth, daeth Canolfan Cochrane ar gyfer metaddadansoddi i'r casgliad yn 2012 bod triniaeth ar gyfer yr ystod ffiniol o bwysedd gwaed yn fwy tebygol o niweidio pobl na'u helpu, ac eithrio ar gyfer y rhai sydd â diabetes. Fodd bynnag, mae meddygon teulu yn dal i gael eu hannog i drin y grŵp hwn fel rhan o'u fframwaith ansawdd a chanlyniadau.

I also share the concerns about polypharmacy and the detrimental effect on health it can have. Rather than charging for prescriptions, perhaps you should be looking for a reduction in the number of prescriptions, especially those whose interaction with others can make health worse. So, yes, more money for health is good, but it needs to be money that works. Every time somebody goes to see a doctor, they do not have to walk out with a prescription and they do not have to walk out with a doctor's paper: they can actually be given advice on how to improve their health, and that might well be a better way of making progress than doing what we are doing at the moment.

On a major point, we cannot continue to increase the proportion of the Assembly's expenditure on health, or sometime in the next Assembly, health will hit 50% of total Welsh expenditure. If we keep on going like this, in the middle of this century, it will hit 100%, and, towards the end of it, it will be over 100%, but I am not quite sure how you spend more than 100% of your budget.

15:48 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would agree with much of what Mike had to say regarding the need to spend resources wisely and not to waste them. However, I have to say that I am disappointed that it has taken this long for the Government to wake up to the fact that the national health service needs extra resources. We are finally starting to see an injection of extra cash into the NHS. The national health service has, of course, been on life support for far too long. This is too little, too late, and there will be a need, I believe, for further transfusions of cash into the health service, including in the next financial year, because I still do not believe that it is getting sufficient resources, even with the additional cash that has been announced.

Let us just remind ourselves as to why these cuts are having to take place in terms of the Welsh block grant more generally. I have to take issue with some of the figures that you cited, Mike, because the figures that we have from the Research Service are that the block grant has fallen by 7.2% since 2010-11—just 7.2% in total of the block grant, which is not, of course, the 10% figure that you cited. However, let us just remind ourselves why we are in this mess. We are in this mess because of Gordon Brown and his tardy stewardship of public finances when he was Prime Minister and, indeed, when he was Chancellor of the Exchequer. He left us with the biggest budget deficit that our nation has ever seen, and George Osborne is starting to put our finances back on an even keel.

15:49 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, the reality of the situation is that it was not expenditure that caused the problem, it was the fact that income dropped because of the collapse in world trade and the banking crisis, which no-one actually predicted.

Rwyf hefyd yn rhannu'r pryderon am amfferylliaeth a'r effaith andwyol ar iechyd y gall ei gael. Yn hytrach na chodi tâl am bresgripsiynau, efallai y dylech fod yn chwilio am ostyngiad yn nifer y presgripsiynau, yn enwedig y rhai y gall eu hymadweithio ag eraill wneud iechyd yn waeth. Felly, ydy, mae mwy o arian ar gyfer iechyd yn dda, ond mae angen iddo fod yn arian sy'n gweithio. Bob tro y bydd rhywun yn mynd i weld meddyg, nid oes rhaid iddynt gerdded allan gyda phresgripsiwn ac nid oes rhaid iddynt gerdded allan gyda phapur meddyg: gallant mewn gwirionedd dderbyn cyngor ar sut i wella eu hiechyd, a allai fod yn ffordd well o wneud cynnydd na gwneud yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Ar bwynt o bwys, ni allwn barhau i gynyddu cyfran gwariant y Cynulliad ar iechyd, neu rywbryd yn y Cynulliad nesaf, bydd iechyd yn taro 50% o gyfanswm y gwariant yng Nghymru. Os byddwn yn parhau i fynd ymlaen fel hyn, yng nghanol y ganrif hon, bydd yn taro 100%, a, thua'i diwedd, bydd dros 100%, ond nid wyf yn hollol siŵr sut yr ydych yn gwario mwy na 100% o'ch cyllideb.

Byddwn yn cytuno â llawer o'r hyn oedd gan Mike i'w ddweud ynghylch yr angen i wario adnoddau yn ddoeth ac i beidio â'u gwastraffu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig ei fod wedi cymryd cyhyd i'r Llywodraeth ddeffro i'r ffaith bod y gwasanaeth iechyd gwladol angen adnoddau ychwanegol. Rydym o'r diwedd yn dechrau gweld chwistrelliad o arian ychwanegol i mewn i'r GIG. Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol, wrth gwrs, wedi bod ar beiriant cynnal bywyd am lawer yn rhy hir. Mae hyn yn rhy ychydig, yn rhy hwyr, a bydd angen, yn fy marn i, cael trallwysiaidau ychwanegol o arian i mewn i'r gwasanaeth iechyd, gan gynnwys yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan nad wyf yn credu o hyd ei fod yn cael digon o adnoddau, hyd yn oed gyda'r arian ychwanegol sydd wedi ei gyhoeddi.

Gadewch inni atgoffa ein hunain pam y mae'r toriadau hyn yn gorfod digwydd o ran grant bloc Cymru yn fwy cyffredinol. Mae'n rhaid i mi anghytuno â rhai o'r ffigurau a ddyfynnwyd gennych, Mike, oherwydd y ffigurau sydd gennym ni gan y Gwasanaeth Ymchwil yw bod y grant bloc wedi gostwng 7.2% ers 2010-11—dim ond 7.2% yn y cyfanswm o'r grant bloc, nad yw, wrth gwrs, y ffigwr o 10% a ddyfynnwyd gennych chi. Fodd bynnag, gadewch i ni atgoffa ein hunain pam yr ydym yn y twll hwn. Rydym yn y twll hwn oherwydd Gordon Brown a'i stiwardiaeth araf o arian cyhoeddus pan oedd yn Brif Weinidog ac, yn wir, pan oedd yn Ganghellor y Trysorlys. Gadawodd ni gyda'r diffyg cyllidebol mwyaf y mae ein cenedl wedi'i weld erioed, ac mae George Osborne yn dechrau rhoi ein cyllid yn ôl yn ei le.

Wrth gwrs, y gwir yw nad y gwariant a achosodd y broblem, ond y ffaith bod incwm wedi gostwng oherwydd y cwmp ym masnach y byd ac yn yr argyfwng bancio, na ragwelwyd gan unrhyw un mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 15:50 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The deficit was the largest we have ever inherited of any incoming Government—that was the legacy of Gordon Brown. He was Chancellor. He had his hands on the tiller for all those years when he was working with Tony Blair also. I will happily take an intervention.
- 15:50 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Is Darren Millar aware of the work of the Institute for Fiscal Studies, which actually identified that the deficit was in place before the 2008 crash?
- A yw Darren Millar ymwybodol o waith y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a nododd fod y diffyg yn bodoli mewn gwirionedd cyn cwmp 2008?
- 15:50 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It was, and it had been growing before the crash. So, the cuts that we are seeing, they are Labour's cuts, they are not cuts that are being imposed, and it is your cuts to the NHS over the past few years, as a Welsh Government, that have seen hospitals closed and downgraded, seen beds axed from our hospitals, seen services centralised against popular wishes, and seen key performance times missed. Let us just remind ourselves of how the NHS is performing and has been over the past 12 months. A recent Wales Audit Office report on NHS finances said that we have declining performance in stroke care, worsening cardiac care mortality rates, we are missing our mental health targets in terms of waiting times, we have declining ambulance performance, longer waiting times, more than twice as many people on a waiting list as when Carwyn Jones first became First Minister—over 200,000 more people; it is absolutely scandalous—and, of course, our A&E targets are being missed now on a regular basis. Mike, again, I have to take issue with your figures. You said that we have had a 30% cut in capital expenditure; it is up to your Government how it carves up the block grant. It is entirely up to your Government. You do not necessarily have to have a 30% cut in capital expenditure; that is the prerogative of your Minister for Finance. [Interruption.] It is not rubbish; that is the truth. You know what? We have a £365 million backlog in the capital estate across the Welsh NHS. That needs to be invested in. We need to see extra investment in our hospitals, and that is why you should all be regretting the cuts that you have imposed over the past few years on the national health service. Those cuts are inflicting damage across every one of our constituencies and I will not be supporting the Townsend formula, which will redistribute the resources available to the Welsh NHS into Labour constituencies and out of constituencies represented by other parties. That is the plan; we know what the plan is—[Interruption.]
- Mae'n wir, ac roedd wedi bod yn tyfu cyn y cwmp. Felly, y toriadau a welwn, toriadau Llafur ydynt, nid ydynt yn doriadau sy'n cael eu gosod, a'ch toriadau chi i'r GIG dros y blynyddoedd diwethaf, fel Llywodraeth Cymru, sydd wedi gweld ysbysu'n cau ac yn cael eu hisraddio, gwelyau wedi'u torri o'n hysbytai, gwasanaethau wedi'u canoli yn groes i ddymuniadau poblogaidd, ac wedi gweld amseroedd perfformiad allweddol wedi'u methu. Gadewch inni atgoffa'n hunain o'r ffordd y mae'r GIG yn perfformio ac wedi bod yn ei wneud dros y 12 mis diwethaf. Mae adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid y GIG yn dweud bod perfformiad wedi dirywio mewn gofal strôc, cyfraddau marwolaethau gofal cardiaidd yn gwaethygu, rydym yn methu ein targedau iechyd meddwl o ran amseroedd aros, mae perfformiad ambiwlansys yn dirywio, amseroedd aros yn hirach, mwy na dwywaith cymaint o bobl ar restr aros â phan ddaeth Carwyn Jones yn Brif Weinidog Cymru—dros 200,000 yn fwy o bobl; mae'n hollol warthus—ac, wrth gwrs, mae ein targedau Damweiniau ac Achosion Brys yn cael eu methu'n rheolaidd erbyn hyn. Mike, unwaith eto, mae'n rhaid i mi anghytuno â'ch ffigurau. Dywedsoch ein bod wedi cael 30% o doriad mewn gwariant cyfalaf; mater i'ch Llywodraeth chi yw sut y mae'n mynd ati i rannu'r grant bloc. Mae'n fater i'ch Llywodraeth chi yn llwyr. Nid oes rhaid i chi o reidrydd gael 30% o doriad mewn gwariant cyfalaf; uchelfraint eich Gweinidog Cyllid yw hynny. [Torri ar draws.] Nid yw'n lol; dyna'r gwir. Wyddoch chi beth? Mae gennym ôl-groniad o £365 miliwn yn yr ystâd cyfalaf ar draws y GIG yng Nghymru. Mae angen buddsoddi ynddo. Mae angen i ni weld buddsoddiad ychwanegol yn ein hysbytai, a dyna pam y dylech chi i gyd fod yn difaru'r toriadau yr ydych wedi'u gosod yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'r toriadau hynny yn achosi niwed ar draws pob un o'n hetholaethau, ac ni fyddaf yn cefnogi fformiwla Townsend, a fydd yn aildosbarthu'r adnoddau sydd ar gael i'r GIG yng Nghymru i etholaethau Llafur ac allan o etholaethau a gynrychiolir gan bleidiau eraill. Dyna'r cynllun; rydym yn gwybod beth yw'r cynllun- [Torri ar draws.]
- 15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order, order. Order, order. Quiet. Order. I honestly thought we were going to get through this budget debate with relatively calm analysis and discussion, and it is all falling apart now. I want both sides to be quiet—less shouting from everyone. I call Darren Millar.
- Trefn, trefn. Trefn, trefn. Tawel. Trefn. Roeddwn wir yn meddwl ein bod yn mynd i gael drwy'r drafodaeth hon ar y gyllideb gyda dadansoddiad a thrafodaeth cymharol dawel, ac mae pethau'n chwalu nawr. Rwyf am i'r ddwy ochr fod yn dawel—llai o weiddi gan bawb. Galwaf ar Darren Millar.

- 15:52 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It should not come as any surprise that you want to redistribute the cash, because that is, of course, what you have been doing in local government for many years. That is why Conwy and Denbighshire have had their budgets cut, and north Wales has had its budget cut, by far more than the average cut elsewhere, particularly in south Wales. You know what? It is the same old Labour. Time and again, they syphon cash away from areas that they are not representing—
- Ni ddylai fod yn ddim syndod eich bod am ailddosbarthu'r arian, oherwydd dyna, wrth gwrs, yr hyn yr ydych wedi bod yn ei wneud mewn llywodraeth leol ers blynyddoedd lawer. Dyna pam mae Conwy a Sir Ddinbych wedi cael torri eu cyllidebau, a gogledd Cymru wedi cael torri ei gyllideb, o lawer mwy na'r toriad cyfartalog mewn mannau eraill, yn enwedig yn y de. Wyddoch chi beth? Dyma'r un hen Lafur. Dro ar ôl tro, maent yn seiffno arian o ardaloedd nad ydynt yn eu cynrychioli—
- 15:53 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- He does not have time. Nid oes ganddo amser.
- 15:53 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- [Continues.]—and into the areas that they do represent. We need more cash for the NHS. This does not go far enough, although it is a step in the right direction. I suspect that we will be having more bail-outs in the next financial year.
- [Yn parhau.]—ac i mewn i'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli. Mae arnom angen mwy o arian ar gyfer y GIG. Nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell, er ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir. Rwy'n amau y byddwn yn cael mwy o arian achub croen yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on Eluned Parrott. Galwaf ar Eluned Parrott.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, I think. I am grateful for the opportunity to contribute to this debate today. I want to focus just briefly on some of the areas my own party had influence over that I believe will have a positive impact on the Welsh economy. First, with regard to infrastructure, I am delighted that our agreement confirmed a commitment to moving forward with the south Wales metro, starting, of course, with restoring that all-important link between Newport and the Ebbw Vale line. The metro concept has the potential not only to transform the way that people travel around south Wales, but I think that it can also open up opportunities for education, for training and work, to people in some of our most deprived communities, who, due to transport poverty or a lack of accessible public transport altogether, have faced huge barriers to building their lives and careers. For that reason, I would like to welcome it. In parallel with that, I want to welcome measures that will help boost the skills of our workforce and help young people access work, education, training and apprenticeships. In particular, I was delighted that, as part of our deal with the Welsh Government, we have been able to provide funding for 5,000 new apprenticeships over the next two years. Apprenticeships are vitally important if we want to equip our young people with the skills that will enable them to get on in life and to strengthen the Welsh economy for the future. We have to start giving them the kind of parity and esteem of profile with academic pathways that they truly deserve. However, I also believe that, in order to encourage inward investors to Wales, we need to give a clear signal in practice, not just in words, about how much we value vocational skills and how we invest in our people as a result.

So, like Peter, I was hugely disappointed to see that the Welsh Government was keen to keep its support for Jobs Growth Wales, a work placement scheme with no obligation for training, while cutting back on skills training, apprenticeships and careers advice roles, all things that the OECD suggests investing in in order to help reduce income inequality in a population. To me, that sends out absolutely the wrong signal, both to businesses and to our young people. Now, I suspect that our two parties are never going to agree on the cost-effectiveness of Jobs Growth Wales. However, I sincerely hope that the Welsh Government will look at introducing more formal skills training to young people through this scheme if they are intending to pursue it in the long term, as the best providers already do on an informal basis.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddaid hon heddiw. Rwyf am ganolbwyntio'n fyr yn unig ar rai o'r meysydd yr oedd gan fy mhlaidd fy hun ddylanwad drostynt yr wyf yn credu y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru. Yn gyntaf, o ran isadeiledd, rwyf wrth fy modd bod ein cytundeb yn cadarnhau ymrwymiad i symud ymlaen gyda metro de Cymru, gan ddechrau, wrth gwrs, gydag adfer y cyswllt hollbwysig rhwng lein Glyn Ebwy a Chasnewydd. Mae gan y cysyniad metro y potensial nid yn unig i weddnewid y ffordd y mae pobl yn teithio o amgylch de Cymru, ond credaf y gall hefyd agor cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a gwaith, i bobl mewn rhai o'n cymunedau mwyaf amddifad, sydd, o ganlyniad i dlodi trafnidiaeth neu ddiffyg cludiant cyhoeddus hygyrch yn gyfan gwbl, wedi wynebu rhwystrau anferth i adeiladu eu bywydau a'u gyrfaoedd. Am y rheswm hwnnw, hoffwn ei groesawu. Ochr yn ochr â hynny, rwy'n awyddus i groesawu mesurau a fydd yn helpu i roi hwb i sgiliau ein gweithlu a helpu pobl ifanc i gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau. Yn arbennig, roeddwn yn falch iawn, yn rhan o'n cytundeb gyda Llywodraeth Cymru, ein bod wedi gallu darparu cyllid ar gyfer 5,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Mae prentisiaethau yn hanfodol bwysig os ydym ni dymuno rhoi'r sgiliau i'n pobl ifanc a fydd yn eu galluogi i ddod ymlaen mewn bywyd ac i gryfhau economi Cymru ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i ni ddechrau rhoi iddynt y math o broffil o gydraddoldeb a pharch gyda'r llwybrau academaidd y maent wir yn eu haeddu. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn credu, er mwyn annog buddsoddwyr o'r tu allan i Gymru, bod angen i ni roi arwydd clir yn ymarferol, nid yn unig mewn geiriau, am faint yr ydym yn gwerthfawrogi sgiliau galwedigaethol a sut yr ydym yn buddsoddi yn ein pobl o ganlyniad.

Felly, fel Peter, roeddwn yn hynod siomedig o weld bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gadw ei chefnogaeth i Twf Swyddi Cymru, cynllun lleoliad gwaith heb unrhyw rwymedigaeth ar gyfer hyfforddiant, gan gwtogi ar hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a swyddogaethau cyngor gyrfaoedd ar yr un pryd, pob un yn rhywbeth y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn awgrymu buddsoddi ynddynt er mwyn helpu i leihau anghydraddoldeb incwm mewn poblogaeth. I mi, mae hynny'n anfon yr arwydd hollol anghywir, i fusnesau ac i'n pobl ifanc. Nawr, rwy'n amau nad yw ein dwy blaidd byth yn mynd i gytuno ar gost-efeithiolrwydd Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno mwy o hyfforddiant sgiliau ffurfiol i bobl ifanc drwy'r cynllun hwn os ydynt yn bwriadu ei ddilyn yn y tymor hir, fel y mae'r darparwyr gorau eisoes yn ei wneud ar sail anffurfiol.

With this in mind, we are delighted that we have also secured £14.75 million over two years for a concessionary fares scheme for young people to be introduced from September 2015. A report by the Campaign for Better Transport in 2012 highlighted that transport costs are the biggest expenditure in relation to post-16 education and that nearly half of 16 to 18-year-old students find their transport costs hard to meet. Safe and affordable public transport is key to enabling young people to access work, education, training and apprenticeships. In March 2014, the Welsh Liberal Democrats launched a report on a concessionary fares scheme for young travellers in Wales based on a campaign by the youth wing of our party, IR Cymru, to secure affordable transport for young people, but it is not just about the affordability; it is about having a service to access as well. That is why I am particularly pleased with this programme. According to the British Youth Council, children and young people are one of the largest groups of users of public transport. So, by introducing a concessionary fares scheme, we have two positive impacts: we help young people to overcome a barrier to building their lives and building a career for themselves, and, because this is a reduced fare scheme and not a free fare scheme, we also encourage greater bus use and therefore boost revenue for bus operators and, vitally in rural Wales, we help keep marginal services viable and on our roads.

Now, could it have been different? Yes it could. Plaid's amendment raises some of its own priorities, of course. However, if they had come to the negotiating table they might have actually been able to have an influence on some of those things. Instead, they flounced away, as we know, over the all-important M4, which, of course, was not actually important enough to make it into their own amendment. Now then, Mr Ramsay, on roads, the continuation of the A4232, which is entirely in Cardiff South, of course, will have a hugely positive impact on businesses across Cardiff, and I am grateful to Jenny Rathbone for her recognition of the importance of the project that my party has brought forward. In fact, businesses in Cardiff are very enthusiastic about the continuation of this road, as Celsa told me when I visited it this morning. However, it is also the residents in places like Splott in Cardiff South who will benefit from this in terms of their health and wellbeing if commuters stop dashing along Carlisle Street as a shortcut and if commuters stop using Newport Road and use other places instead. It is not the budget that we would have written, but it is a budget that we will allow to pass on the basis that we have put forward.

Gyda hyn mewn golwg, rydym wrth ein boddau ein bod hefyd wedi sicrhau £14.75 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer cynllun teithio rhatach i bobl ifanc i gael ei gyflwyno o fis Medi 2015. Roedd adroddiad gan y Campaign for Better Transport yn 2012 yn amlygu mai costau cludiant yw'r gwariant mwyaf mewn cysylltiad ag addysg ôl-16, a bod bron i hanner y myfyrwyr 16 i 18 mlwydd oed yn ei chael yn anodd talu eu costau cludiant. Mae cludiant cyhoeddus diogel a fforddiadwy yn allweddol i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau. Ym mis Mawrth 2014, lansiodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru adroddiad ar y cynllun teithio rhatach i deithwyr ifanc yng Nghymru yn seiliedig ar ymgyrch gan adain ieuenticid ein plaid, IR Cymru, er mwyn sicrhau cludiant fforddiadwy i bobl ifanc, ond nid yw'n ymwneud â fforddiadwyedd yn unig; mae'n ymwneud â chael gwasanaeth i gael mynediad ato hefyd. Dyna pam yr wyf yn arbennig o falch o'r rhaglen hon. Yn ôl y Cyngor Ieuenticid Prydeinig, mae plant a phobl ifanc yn un o'r grwpiau mwyaf o ddefnyddwyr cludiant cyhoeddus. Felly, drwy gyflwyno cynllun tocynnau teithio rhatach, mae gennym ddwy effaith gadarnhaol: rydym yn helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystr i adeiladu eu bywydau ac adeiladu gyrfa iddynt hwy eu hunain, ac, oherwydd mai cynllun tocynnau gostyngol yw hwn ac nid cynllun tocynnau rhad ac am ddim, rydym hefyd yn annog mwy o ddefnydd o fysiau ac felly yn rhoi hwb i refeniw i gwmnïau bysiau ac, yn hanfodol yng nghefn gwlad Cymru, rydym yn helpu i gadw gwasanaethau ymylol yn hyfyw ac ar ein ffyrdd.

Yn awr, a allai pethau fod wedi bod yn wahanol? Gallai. Mae gwelliant Plaid Cymru yn codi rhai o'i flaenoriaethau ei hun, wrth gwrs. Fodd bynnag, pe byddent wedi dod at y bwrdd trafod efallai y byddent mewn gwirionedd wedi gallu cael dylanwad ar rai o'r pethau hynny. Yn hytrach, roeddent yn neidio i fyny ac i lawr, fel y gwyddom, am yr M4 hollbwysig, nad oedd, wrth gwrs, mewn gwirionedd yn ddigon pwysig i fod yn welliant ganddynt hwy eu hunain. Nawr te, Mr Ramsay, o ran ffyrdd, bydd parhad yr A4232, sydd yn gyfan gwbl yn Ne Caerdydd, wrth gwrs, yn cael effaith hynod gadarnhaol ar fusnesau ar draws Caerdydd, ac rwy'n ddiolchgar i Jenny Rathbone am ei chydabyddiaeth o bwysigrwydd y prosiect y mae fy mhlaid wedi'i ddwyn ymlaen. Yn wir, mae busnesau yng Nghaerdydd yn frwdfrydig iawn dros barhad y ffordd hon, fel y dywedodd Celsa wrthyf pan ymwelais ag ef y bore yma. Fodd bynnag, bydd trigolion hefyd mewn lleoedd fel Sblot yn Ne Caerdydd a fydd yn elwa ar hyn o ran eu hiechyd a'u lles os bydd cymudwyr yn rhoi'r gorau i ruthro ar hyd Stryd Carlisle fel llwybr byr ac os bydd cymudwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio Heol Casnewydd ac yn defnyddio lleoedd eraill yn lle hynny. Nid dyma'r gyllideb y byddem wedi ei hysgrifennu, ond mae'n gyllideb y byddwn yn caniatáu iddi basio ar y sail yr ydym wedi'i gyflwyno.

While the United Kingdom economy has been steadily improving, unemployment and exports are just two areas where we see the opposite effect in Wales. The Lib Dems are once again propping up a failing Labour Government, which has wreaked immense damage on the Welsh public services and failed to effectively grow the Welsh economy over 15 years in power. A number of programmes have been affected by in-year cuts, which makes it difficult for people being helped by the programmes to even complete them. This is the case with the Welsh Government's apprenticeship scheme and Jobs Growth Wales. More apprenticeships appear to have been pledged to get Plaid Cymru to vote for the budget last year. Indeed, there has been much made of the cuts made in-year to the budget for apprenticeships over recent weeks, which has meant that there are some apprenticeships that may not be completed. The Minister for Education and Skills estimated that the number of new starts will decrease from a peak of 28,000 in 2012-13 to only 17,000 this year. The Welsh Conservatives would welcome clarification and assurances that this figure has been accurately estimated and on how it will be monitored. The budget deals also included a further £20 million for the year 2014-15, which the Welsh Government said it was honouring in the 2014-15 budget statement. As both Plaid and Lib Dem amendments show, the Welsh Government has yet again been propped up by other parties with unfulfilled, unrealistic and quick-fix policies in a futile attempt to try to restore the Welsh economy.

The budget for work-based learning decreased in net terms compared with 2013-14 by £7.3 million and £5.3 million in the next year. A similar situation exists for the Government's flagship youth job-creation scheme, Jobs Growth Wales. We asked the Minister to confirm how any reduction in opportunities would be applied across the sectors, and whether or not any of the strands or sectors had been prioritised for Jobs Growth Wales. The programme is currently subject to in-year budget cuts, and these have not been accounted for in the baseline of the 2015-16 draft budget.

It is integral that we know how these cuts will affect the scheme. Our previous requests have not been met. During the budget scrutiny session with the Enterprise and Business Committee, the Deputy Minister said that the decrease in funding resulted in fewer starts in 2015-16 and suggested that some of these will be in the current financial year. In her evidence to the committee, she said:

'we believe that the in-year cuts will cause around 1,000 fewer starts and around 600 otherwise'.

Er bod economi'r Deyrnas Unedig wedi bod yn gwella'n raddol, mae diweithdra ac allforion yn ddim ond dau faes lle'r ydym yn gweld yr effaith groes yng Nghymru. Unwaith eto, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnal Llywodraeth Lafur sy'n methu, sydd wedi gwneud cymaint o niwed aruthrol i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac wedi methu â thyfu economi Cymru yn effeithiol dros 15 mlynedd mewn grym. Mae nifer o raglenni wedi eu heffeithio gan doriadau yn ystod y flwyddyn, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl sy'n cael eu helpu gan y rhaglenni i hyd yn oed eu cwblhau. Dyma'r gwir am gynllun prentisiaeth Llywodraeth Cymru a Thwf Swyddi Cymru. Mae'n ymddangos yr addawyd mwy o brentisiaethau i gael Plaid Cymru i bleidleisio dros y gyllideb y llynedd. Yn wir, mae llawer wedi ei wneud o'r toriadau a wnaed yn ystod y flwyddyn i'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf, sydd wedi golygu bod rhai prentisiaethau na fyddant efallai yn cael eu cwblhau. Amcangyfrifodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydd nifer y dechreuwyr newydd yn gostwng o uchafbwynt o 28,000 yn 2012-13 i 17,000 yn unig eleni. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu eglurhad a sicrwydd bod y ffigwr hwn wedi ei amcangyfrif yn gywir ac o sut y bydd yn cael ei fonitro. Roedd bargaen y gyllideb hefyd yn cynnwys £20 miliwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn 2014-15, y dywedodd Llywodraeth Cymru yr oedd yn ei anrhydeddu yn natganiad cyllideb 2014-15. Fel y mae gwelliant Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dangos, mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi cael ei chynnal gan bleidiau eraill gyda pholisïau nas cyflawnwyd, sy'n afrealistig ac sy'n ateb cyflym mewn ymgais ofer i geisio adfer economi Cymru.

Mae'r gyllideb ar gyfer dysgu yn y gwaith wedi gostwng mewn termau net o'i gymharu â 2013-14 gan £7.3 miliwn a £5.3 miliwn yn y flwyddyn nesaf. Mae sefyllfa debyg yn bodoli ar gyfer cynllun creu swyddi ieuencid blaenllaw'r Llywodraeth, Twf Swyddi Cymru. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau sut y byddai unrhyw ostyngiad mewn cyfleoedd yn cael ei gymhwyso ar draws y sectorau, ac a yw unrhyw un o'r meysydd neu sectorau wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer Twf Swyddi Cymru. Mae'r rhaglen ar hyn o bryd yn destun toriadau yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, ac ni roddwyd cyfrif amdanynt yn llinell sylfaen cyllideb ddrafft 2015-16.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar y cynllun. Nid yw ein ceisiadau blaenorol wedi eu bodloni. Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Menter a Busnes, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y gostyngiad mewn cyllid wedi arwain at lai yn dechrau yn 2015-16 ac awgrymodd y byddai rhai o'r rhain yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd:

rydym yn credu bod y bydd y toriadau yn ystod y flwyddyn yn achosi oddeutu 1,000 yn llai yn dechrau ac oddeutu 600 fel arall.

Again, more cuts with no real clarification. The Assembly needs to know the number of fewer starts: how many of these are in year 2014-15 and how many will be in 2015-16. We urgently need clarification of how the reduction in the number of opportunities will be applied to the different elements of the programme. We need a breakdown of the estimated number of fewer prospective opportunities in the private sector, third sector, self-employment and graduate strands, as well as clarification on whether any of these strands have been prioritised in next year's funding.

We remain concerned about further reductions across the board. The Minister's paper to the committee identified a further £16.5 million-worth of reductions in the economy and science revenue allocations, and a further baseline reduction of £8.4 million in 2015-16, ostensibly as a result of the privatisation of portfolio budgets across Welsh Government. It is surely necessary for the Minister to highlight whether these savings have been made through efficiencies or through programme budget cuts. May we receive greater detail of the funding allocated to, and the outcomes expected of, the Infill phase 1 project, the Welsh Government's review of superfast Cymru, and the independent review of the work of Broadband Delivery UK?

We would also be interested in information about how broadband infrastructure schemes in Wales are linked to enterprise zones and inward investment. Wales deserves the best and the Welsh Government needs to show that it is on the side of hard-working people by using all the economic levers at its disposal.

Unwaith eto, mwy o doriadau heb unrhyw wir eglurhad. Mae angen i'r Cynulliad gael gwybod faint yn llai sy'n dechrau: faint o'r rhain sydd yn y flwyddyn 2014-15 a faint fydd yn 2015-16. Mae angen eglurhad ar frys ar sut y bydd y gostyngiad yn nifer y cyfleoedd yn cael eu cymhwyso ar gyfer gwahanol elfennau'r rhaglen. Rydym angen cael dadansoddiad amcangyfrifedig o faint yn llai o ddarpar gyfleoedd fydd yn y sector preifat, y trydydd sector, hunangyflogaeth a llinynnau graddedigion, yn ogystal ag eglurhad ynghylch pa un a yw unrhyw un o'r elfennau hyn wedi eu blaenoriaethu yng nghyllid y flwyddyn nesaf.

Rydym yn parhau i fod yn bryderus am ostyngiadau pellach ar draws y bwrdd. Roedd papur y Gweinidog i'r pwyllgor yn nodi gwerth £16.5 miliwn yn rhagor o ostyngiadau yn y dyraniadau refeniw economi a gwyddoniaeth, a gostyngiad llinell sylfaen pellach o £8.4 miliwn yn 2015-16, yn ôl pob golwg o ganlyniad i breifateiddio cyllidebau portffolio ar draws Llywodraeth Cymru. Onid yw'n angenrheidiol i'r Gweinidog dynnu sylw at ba un a yw'r arbedion hyn wedi eu gwneud drwy effeithlonrwydd neu drwy doriadau cyllideb rhaglen. A gawn ni fwy o fanylion am y cyllid a ddyrennir i, a'r deilliannau a ddisgwylir o'r prosiect Mewnlenwi cam 1, adolygiad Llywodraeth Cymru o Cymru gyflym iawn, a'r adolygiad annibynnol o waith Broadband Delivery UK?

Byddem hefyd â diddordeb mewn gwybodaeth am sut mae cynlluniau seilwaith band eang yng Nghymru yn gysylltiedig ag ardaloedd menter a buddsoddiad mewnol. Mae Cymru yn haeddu'r gorau ac mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod ar ochr y bobl sy'n gweithio'n galed drwy ddefnyddio'r holl ddulliau economaidd sydd ar gael iddi.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Finance and Government Business to reply to the debate.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ymateb i'r ddatl.

16:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Dirprwy Lywydd. Earlier this year, academics and policy analysts pointed to an agenda for those Governments that want to intervene and take action to address the adverse impacts of austerity. Their three-point agenda was to provide jobs, fairer shares and decent safety nets in these hard times. I subscribe to that agenda. It is reflected in the tough choices that the Welsh Government has had to make, and I acknowledge that that has been recognised today, particularly by Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Yn gynharach eleni, roedd academyddion a dadansoddwyr polisi yn cyfeirio at agenda ar gyfer y Llywodraethau hynny sydd eisiau ymyrryd a chymryd camau i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol cyni. Eu agenda tri phwynt oedd darparu swyddi, cyfrannau tecach a rhwydi diogelwch digonolyn cyfnod anodd hwn. Rwy'n cyd-fynd â'r agenda honno. Mae wedi ei hadlewyrchu yn y dewisiadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod eu gwneud, ac rwy'n cytuno bod hynny wedi cael ei gydnabod heddiw, yn enwedig gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

We are facing a 10% real-terms cut to our budget by the UK coalition Government. Remember that these are year-on-year cuts that we have faced since 2010, cuts that have deepened in both revenue and capital. As Lynne Neagle stated, there is £1.5 billion less in our budget in terms of supporting our public services. I do believe that our draft budget for 2015-16 is a budget that seeks to promote social justice and fairness, despite these financial challenges.

Rydym yn wynebu toriad o 10% mewn termau real i'n cyllideb gan Lywodraeth glymblaid y DU. Cofiwch fod y rhain yn doriadau o flwyddyn i flwyddyn yr ydym wedi'u hwynebu ers 2010, toriadau sydd wedi cynyddu o ran refeniw a chyfalaf. Fel y nododd Lynne Neagle, mae £1.5 biliwn yn llai yn ein cyllideb ar gyfer cefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus. Rwyf yn credu bod ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 yn gyllideb sy'n ceisio hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a thegwch, er gwaethaf yr heriau ariannol.

I thank Jocelyn Davies, the Chair of the Finance Committee, and indeed the Finance Committee all together for their scrutiny and the recommendations in their report, which I will respond to in detail. However, I believe that I have addressed many of those recommendations in opening this budget to date.

The big picture has to be about how we have managed these deepening budget cuts over the past four and a half years, and I will not forget that first emergency budget that we had back in June 2010. Do you recall, colleagues, that so-called 'emergency' budget, which we did not need? We decided, in the Welsh Government, that we would not make those cuts and that we would find those revenue and capital savings, which we then had to give to the Treasury in order to save those all-important contracts for school-building programmes.

16:04

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You refer to its being an 'emergency' budget but it is quite common for an incoming Government to lay its budget proposals out, and the Government at that time was six weeks old. That, surely, is common sense and democracy, at the end of the day. The people have spoken.

Diolch i Jocelyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, ac yn wir y Pwyllgor Cyllid i gyd am eu craffu a'r argymhellion yn eu hadroddiad, y byddaf yn ymateb iddynt yn fanwl. Fodd bynnag, credaf fy mod wedi rhoi sylw i lawer o'r argymhellion hynny wrth agor y gyllideb hon hyd yn hyn.

Mae'n rhaid i'r darlun mawr fod yn ymwneud â'r modd yr ydym wedi rheoli'r toriadau cynyddol hyn yn y gyllideb dros y pedair blynedd a hanner diwethaf, ac ni fyddaf yn anghofio'r gyllideb frys gyntaf a gawsom yn ôl ym mis Mehefin 2010. A ydych yn cofio, gydweithwyr, y gyllideb 'argyfwng' fondigrybwyll honno, nad oedd ei hangen arnom? Penderfynasom, yn Llywodraeth Cymru, na fyddem yn gwneud y toriadau hynny ac y byddem yn dod o hyd i'r arbedion refeniw a chyfalaf hynny, yr oedd yn rhaid i ni eu rhoi wedyn i'r Trysorlys er mwyn arbed y contractau hollbwysig hynny ar gyfer rhaglenni adeiladu ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rydych yn cyfeirio at y ffaith mai cyllideb 'argyfwng' oedd honno, ond mae'n eithaf cyffredin i Lywodraeth sy'n dod i mewn nodi ei chynigion cyllidebol, a chwe wythnos oed oedd y Llywodraeth ar y pryd. Onid synnwyr cyffredin a democratiaeth yw hynny yn y pen draw? Mae'r bobl wedi siarad.

16:05

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, there is not a track record or a history of emergency budgets coming in within weeks of a new coalition Government, seeking to slash a budget that had been agreed by Parliament only the previous year.

I think that we must be reminded, as well, as Lynne Neagle has drawn attention to, of the ways in which we have protected local government over the past few years. Local government and local government services have been slashed in England. There have been 7% cash cuts in England but a 3% cash increase in Wales over the past year. That has had a huge impact in ameliorating and mitigating the impacts of cuts on local government in Wales. It is slash and burn in England, but we have delivered our programme for government—our five pledges for a fairer future. We have doubled Flying Start funding for the most disadvantaged children and families in Wales. We have extended Jobs Growth Wales so that now 16,000 young people and their employers are benefiting. We have supported our community support officers. We have maintained our 1% protection for schools and £10 million for social services.

I welcome the fact that our budget agreement for next year and, indeed, for the following year with the Welsh Liberal Democrats has helped to mitigate some of the cuts, particularly the cuts that we would have had to make in terms of the apprenticeship programme—as Eluned Parrott said, safeguarding 5,000 apprentices. I can assure Members today that all apprenticeship placements already under way will continue to be funded as previously planned.

Wel, nid oes cofnod na hanes o gyllidebau argyfwng yn dod o fewn wythnosau o Lywodraeth glymblaid newydd, gan geisio torri cyllideb y cytunwyd arni gan y Senedd dim ond yn y flwyddyn flaenorol.

Credaf fod yn rhaid i ni gael ein hatgoffa, yn ogystal, fel y mae Lynne Neagle wedi tynnu sylw ato, o'r ffyrdd yr ydym wedi amddiffyn llywodraeth leol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth leol a gwasanaethau llywodraeth leol wedi cael eu torri'n helaeth yn Lloegr. Bu toriadau arian parod o 7% yn Lloegr ond bu cynnydd arian parod o 3% yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny wedi cael effaith enfawr o ran lleddfu a lliniaru effeithiau toriadau ar lywodraeth leol yng Nghymru. Torri a llosgi yw hi yn Lloegr, ond rydym ni wedi cyflwyno ein rhaglen lywodraethu—ein pum addewid am ddyfodol tecach. Rydym wedi dyblu arian Dechrau'n Deg ar gyfer y plant a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Rydym wedi ymestyn Twf Swyddi Cymru fel bod 16,000 o bobl ifanc a'u cyflogwyr yn elwa erbyn hyn. Rydym wedi cefnogi ein swyddogion cymorth cymunedol. Rydym wedi cynnal ein hamddiffyniad o 1% ar gyfer ysgolion a £10 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Croesawaf y ffaith bod ein cytundeb cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ac, yn wir, ar gyfer y flwyddyn ganlynol gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi helpu i liniaru rhai o'r toriadau, yn enwedig y toriadau y byddem wedi gorfod eu gwneud o ran y rhaglen prentisiaeth—fel y dywedodd Eluned Parrott, gan ddiogelu 5,000 o brentisiaid. Gallaf sicrhau Aelodau heddiw y bydd yr holl leoliadau prentisiaeth sydd eisoes wedi cychwyn yn parhau i gael eu hariannu fel y bwriadwyd yn flaenorol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mark Isherwood chose to look at the wider landscape: the state of our public finances. I am sure that he is aware, and Darren Millar as well, that there is growing speculation that the Office for Budget Responsibility's growth forecasts are likely to bring unwelcome news in the autumn statement next month. Tax revenues are failing to meet the UK Government's expectations. Yes, unemployment has gone down and there has been stronger growth than expected, but tax revenues look set to fall seriously short of the March budget forecast. So, let us look at your record for a moment. Halfway through the financial year, the Chancellor has borrowed a cumulative £58 billion, up from £52.6 billion in the same period last year. The position is worsened by the fact that the UK Government is unwilling to fund infrastructure through borrowing at current, very low, interest rates, as recommended by the International Monetary Fund.

However, I am glad that Mick Antoniw recognised that we can be innovative—and we have been, building our capital programmes with innovative infrastructure investment, both through the local government borrowing initiative and the not-for-profit distributing model, which, of course, Members across this Assembly and the Finance Committee have also welcomed in terms of new sources of finance. On that £500 million for twenty-first century schools announced today, we went to visit a school in Penarth, the Penarth Learning Community, where you could see the transformation that that new school estate will make to those children. Of course, as Mick Antoniw said, that has also included £100 million in his constituency in terms of schools and highways.

In the future, the devolution of new tax and borrowing powers will bring opportunities to boost our economy and to support our communities, and that commitment has already been made in terms of sharing the £500 million borrowing boost across Wales and supporting key schemes such as the metro. I do urge Members, if they have not already done so, to look at my letter to the Chancellor, which is in the Library. I called for him to look at Wales, and I think that that is an important call, which I am sure the leader of Plaid Cymru would want to support me on as well. It is a call for £3.5 billion-worth of investment in Wales, for Wales, in the autumn statement—[Interruption.] Nick Ramsay, you will have your turn, but before you rise to your feet with another rant, I fear, allow me to say that this is a £3.5 billion capital investment that I am calling for, for the metro and for north Wales connectivity. I do urge you, as it is not too late for Members across the Chamber, to support the letter that I have laid in the Library in terms of that £3.5 billion boost. That would go some way towards meeting the fair funding needs that we have in Wales.

Can I say that I do feel, today, that we need to remain united on securing fair funding for Wales? We were united in our motion last month. Fair funding can be delivered and sustained only if we have a funding floor implemented to prevent that further squeeze on our finances. So, I call again for talks to start immediately.

Dewisodd Mark Isherwood edrych ar y dirwedd ehangach: cyflwr ein cyllid cyhoeddus. Rwy'n siŵr ei fod yn ymwybodol, a Darren Millar hefyd, bod sion cynyddol bod rhagolygon twf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn debygol o ddod â newyddion digroeso yn natganiad yr hydref y mis nesaf. Mae referniw treth yn methu â bodloni disgwyliadau Llywodraeth y DU. Ydy, mae diweithdra wedi dod i lawr a bu twf cryfach na'r disgwyl, ond mae'n ymddangos y bydd referniw treth yn sylweddol llai na'r hyn oedd yn rhagolwg cyllideb mis Mawrth. Felly, gadewch i ni edrych ar eich hanes am eiliad. Hanner ffordd drwy'r fwyddyn ariannol, mae'r Canghellor wedi benthycu £58 biliwn cronnus, i fyny o £52.6 biliwn yn yr un cyfnod y llynedd. Mae'r sefyllfa yn cael ei gwaethgu gan y ffaith fod Llywodraeth y DU yn amharod i ariannu seilwaith drwy fenthycu ar gyfraddau llog isel iawn ar hyn o bryd, fel yr argymhellwyd gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol.

Fodd bynnag, rwy'n falch fod Mick Antoniw wedi cydnabod y gallwn fod yn arloesol—ac rydym wedi bod, gan adeiladu ar ein rhaglenni cyfalaf gyda buddsoddiad seilwaith arloesol, trwy'r fenter benthycu llywodraeth leol a'r model dosbarthu dielw, sydd, wrth gwrs, wedi cael croeso gan Aelodau ar draws y Cynulliad hwn a'r Pwyllgor Cyllid hefyd o ran ffynonellau newydd o gyllid. Ynghylch y £500 miliwn ar gyfer ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a gyhoeddwyd heddiw, aethom i ymweld ag ysgol ym Mhenarth, Cymuned Ddysgu Penarth, lle y gallech weld y gweddnewid y bydd yr ystâd ysgolion newydd yn ei olygu i'r plant hynny. Wrth gwrs, fel y dywedodd Mick Antoniw, mae hynny hefyd wedi cynnwys £100 miliwn yn ei etholaeth o ran ysgolion a phrifyrdd.

Yn y dyfodol, bydd datganoli pwerau trethu a benthycu newydd yn dod â chyfleoedd i roi hwb i'n heconomi ac i gefnogi ein cymunedau, ac mae'r ymrwymiad hwnnw eisoes wedi ei wneud o ran rhannu'r hwb benthycu £500 miliwn ar draws Cymru a chefnogi cynlluniau allweddol megis y metro. Rwy'n annog Aelodau, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes, i edrych ar fy llythyr at y Canghellor, sydd yn y Llyfrgell. Galwais am iddo edrych ar Gymru, ac rwy'n meddwl bod honno'n alwad bwysig, rwy'n siŵr y byddai arweinydd Plaid Cymru eisiau fy nghefnogi arni hefyd. Mae'n alwad am werth £3.5 biliwn o fuddsoddiad yng Nghymru, ar gyfer Cymru, yn natganiad yr hydref—[Torri ar draws.] Nick Ramsay, byddwch yn cael eich tro, ond cyn i chi godi ar eich traed gyda mwy o reffu, rwy'n ofni, gadewch imi ddweud bod hwn yn fuddsoddiad cyfalaf gwerth £3.5 biliwn yr wyf yn galw amdano, ar gyfer y metro ac am gysylltedd y gogledd. Rwy'n eich annog, gan nad yw'n rhy hwyr i Aelodau ar draws y Siambur, i gefnogi'r llythyr yr wyf wedi'i osod yn y Llyfrgell o ran yr hwb hwnnw o £3.5 biliwn. Byddai hynny'n mynd ran o'r ffordd tuag at ddiwallu'r anghenion ariannu teg sydd gennym yng Nghymru.

A gaf fi ddweud fy mod yn teimlo, heddiw, bod angen i ni aros yn unedig ar sicrhau cyllid teg i Gymru? Roeddem yn unedig yn ein cynnig y mis diwethaf. Gellir darparu a chynnal ariannu teg dim ond os oes gennym ariannu gwaelodol ar waith i atal y wasgfa bellach ar ein cyllid. Felly, rwy'n galw eto am sgysiau i ddechrau ar unwaith.

Finally, I will move to NHS reforms. We are providing an additional £225 million next year to the Welsh NHS. This responds directly and fully, as Alun Ffred Jones recognised, to the evidence provided by the Nuffield Trust. That message is clear: a sustainable NHS is within our grasp, provided that we make the necessary improvements in productivity and service delivery in tandem with this additional investment.

We are providing local health boards with resources also to make sure that they undertake the reforms needed to secure the long-term sustainability of the health service. I do have to respond to Nick Ramsay. I cannot describe it as anything more than a rant. The temperature did rise over on that side of the Chamber, Dirprwy Lywydd, at some point, though whether he was red or blue in the face, I am not sure. I would give him some advice: read your latest political lines before you rant, particularly about the cancer drugs fund. Have you not noticed the latest news on the cancer drugs fund? Last week, it was announced in England that the cancer drugs fund will be restricting access to some drugs. Price reductions were introduced for the first time, 42 drugs were re-assessed, and the overspend discredited in terms of the investment earlier this year. On the cancer drugs fund, I do not think, Nick Ramsay, that you had cared to look at that, had you, when you made those comments today?

Yn olaf, rwyf am symud at ddiwygio'r GIG. Rydym yn darparu £225 miliwn ychwanegol y flwyddyn nesaf i'r GIG yng Nghymru. Mae hyn yn ymateb yn uniongyrchol ac yn llawn, fel y cydnabu Alun Ffred Jones, i'r dystiolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Mae'r neges honno'n glir: mae GIG cynaliadwy o fewn ein gafael, ar yr amod ein bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol mewn cynhyrchiant ac yn darparu gwasanaethau ar y cyd â'r buddsoddiad ychwanegol hwn.

Rydym yn darparu byrddau iechyd lleol gydag adnoddau hefyd i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud y diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd. Mae'n rhaid i mi ymateb i Nick Ramsay. Ni allaf ei ddisgrifio fel unrhyw beth mwy na rhefru. Fe wnaeth y tymheredd godi draw ar yr ochr yna i'r Siambr, Ddirprwy Lywydd, ar ryw adeg, ond pa un a oedd yn goch neu'n las ei wyneb, nid wyf yn siŵr. Byddwn yn rhoi rhywfaint o gyngor iddo: ddarllenwch eich llinellau gwleidyddol diweddaraf cyn i chi refru, yn enwedig am y gronfa cyffuriau cancer. Onid ydych chi wedi sylwi ar y newyddion diweddaraf am y gronfa cyffuriau cancer? Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd yn Lloegr y bydd y gronfa cyffuriau cancer yn cyfyngu ar fynediad at rai cyffuriau. Cafodd gostyngiadau mewn prisiau eu cyflwyno am y tro cyntaf, cafodd 42 o gyffuriau eu hail-asesu, a thanseiliwyd y gorwariant o ran y buddsoddiad yn gynharach eleni. O ran y gronfa cyffuriau cancer, nid wyf yn credu, Nick Ramsay, eich bod wedi dewis edrych ar hynny, oeddech chi, pan wnaethoch chi'r sylwadau hynny heddiw?

16:11 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the point is, Minister, that at least in England they have got a cancer drugs fund, which is a damned sight more than you have ever done here.

Rwy'n meddwl mai'r pwynt yw, Weinidog, o leiaf yn Lloegr bod ganddynt gronfa cyffuriau cancer, sydd yn fwy o beth cythraul nag yr ydych chi erioed wedi ei wneud yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Despite the fact that we spend more per cancer patient in Wales. I think that you have just got to reflect on what Professor Peter Clark, who heads the cancer drugs fund, said last week. He said,

Er gwaethaf y ffaith ein bod yn gwario mwy fesul claf cancer yng Nghymru. Rwy'n credu bod yn rhaid i chi fyfyrrio ar yr hyn a ddywedodd yr Athro Peter Clark, sy'n arwain y gronfa cyffuriau cancer, yr wythnos diwethaf. Meddai:

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

'While the Cancer Drugs Fund currently funds drugs of good benefit to patients, it also includes a minority drugs with much less clinical value...These offer at best a modest or no impact on survival'.

Er bod y Gronfa Cyffuriau Cancer ar hyn o bryd yn ariannu cyffuriau o fudd da i gleifion, mae hefyd yn cynnwys cyffuriau lleiafrifol sydd â llawer llai o werth clinigol ... Mae'r rhain yn cynnig effaith gymedrol neu ddim effaith ar oesriad ar y gorau.

I am afraid that the head of the cancer drugs fund in England, in terms of support for the cancer drugs fund, is no longer in that place. We are proud of what we did.

Mae arnaf ofn nad yw pennaeth y gronfa cyffuriau cancer yn Lloegr, o ran y cymorth ar gyfer y gronfa cyffuriau cancer, bellach yn y lle hwnnw. Rydym yn falch o'r hyn a wnaethom.

Finally, as Mike Hedges said, this draft budget comes with a warning that there may be worse times to come, and our ability to protect and defend could be weakened if there were a Conservative Chancellor planning a further cut amounting to up to £48 billion over the forthcoming administration. That is according to the 'Financial Times' and is backed by the Institute of Fiscal Studies, over the term of a future Conservative Government. So, the message is clear: we have choices that are stark. First, of course, we have a choice next May in the ballot box, but we also have a chance to unite here today to call for fair shares in health, education and the economy, and a safety net for the vulnerable. I believe that that is what the people of Wales want, and that is what we will deliver in this draft budget. I commend the motion to you.

Yn olaf, fel y dywedodd Mike Hedges, mae'r gyllideb ddrafft hon yn dod gyda rhybudd y gall fod cyfnod gwaeth i ddod, a gallai ein gallu i ddiogelu ac amddiffyn gael ei wanhau pe byddai Canghellor Ceidwadol yn cynllunio toriad pellach o hyd at £48 biliwn dros y weinyddiaeth sydd i ddod. Mae hynny yn ôl y 'Financial Times' ac mae'n cael ei gefnogi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, dros dymor Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol. Felly, mae'r neges yn glir: mae gennym ddewisiadau sy'n llwm. Yn gyntaf, wrth gwrs, mae gennym ddewis fis Mai nesaf yn y blwch pleidleisio, ond mae gennym gyfle hefyd i uno yma heddiw i alw am gyfran deg ym maes iechyd, addysg a'r economi, a rhwyd ddiogelwch i'r rhai agored i niwed. Credaf mai dyna y mae pobl Cymru ei eisiau, a dyna beth y byddwn yn ei gyflawni yn y gyllideb ddrafft. Cymeradwyaf y cynnig i chi.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:13 **Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14** **The Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2013-14**

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5618 Jane Hutt

Motion NDM5618 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2013-14.

Notes the Children's Commissioner for Wales' Annual report 2013-14.

16:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I was very pleased to take up my role as Minister for Communities and Tackling Poverty with lead responsibility for children and young people. I welcome the opportunity to introduce this debate on the Children's Commissioner for Wales's annual report for 2013-14. I would like to thank Keith Towler and his office for the report, which will be the last annual report that Keith publishes. It includes a summary of actions taken by the commissioner's office, the accounts and spend, its forward work programme, and the areas where the commissioner raises concerns.

Roeddwn yn falch iawn o ddechrau ar fy swyddogaeth fel y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gyda chyfrifoldeb arweiniol dros blant a phobl ifanc. Croesawaf y cyfle i gyflwyno'r ddadl hon am adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2013-14. Hoffwn ddiolch i Keith Towler a'i swyddfa am yr adroddiad, sef yr adroddiad blynyddol olaf y bydd Keith yn ei gyhoeddi. Mae'n cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd gan swyddfa'r comisiynydd, ei chyfrifon a'i gwariant, ei blaenraglen waith, a'r meysydd lle mae'r comisiynydd yn mynegi pryderon.

I am pleased to see that the commissioner continues to be involved in a breadth of matters that touch the lives of children and young people, from advocacy to health, from youth justice to social care. There is no question as to the benefit of having a human rights institution for children in protecting their rights. I remain absolutely convinced that Wales did the right thing for children and young people in being the first UK country to establish a children's commissioner.

The commissioner has called on Welsh Government to ensure that our child poverty strategy is revised to ensure that it takes a rights-based approach. We are currently consulting on a revised child poverty strategy that highlights the importance of children's rights in tackling poverty. The revised strategy reaffirms our ambition to eradicate child poverty by 2020. It also focuses on what we can do to tackle poverty here and now.

The commissioner has called on us to review the travel behaviour code and involve children and young people in developing information about the code. A programme of work has already been agreed to address the issues identified, working with the commissioner and young people so that it better reflects the balance of rights and responsibilities for all parties. In addition, we have announced funding of £5 million towards 30 new Safe Routes in Communities projects across Wales in this financial year.

The commissioner is calling on Welsh Government to take the entitlements given to looked-after children and extend them to children and young people in custody, both during and following their sentence. The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will require all Welsh children and young people in custody, in the secure estate, to receive an assessment of their social care needs and to have those needs met.

The commissioner is calling on Welsh Government, local authorities and other providers to ensure that play opportunities for children and young people living in poverty or with a disability are both recognised and supported during the current challenging economic climate. Again, Wales is leading the way. On 1 July 2014, the duty in the Children and Families (Wales) Measure 2010 was commenced, requiring local authorities to take into account the diverse needs of children with a disability, those living in rural areas and those from diverse communities and cultures, and also to take account of charges for play provision and play being included within local authority child poverty strategies. Wales is the first country in the world to legislate to protect and enhance children's right to play.

Rwyf yn falch o weld bod y comisiynydd yn parhau i ymwneud ag ystod o faterion sy'n cyffwrdd bywydau plant a phobl ifanc, o eiriolaeth i iechyd, o gyfiawnder ieuencid i ofal cymdeithasol. Mae'n bendant o fantais bod gennym sefydliad hawliau dynol ar gyfer plant i ddiogelu eu hawliau. Rwyf yn parhau i fod yn gwbl argyhoeddedig bod Cymru wedi gwneud y peth iawn dros blant a phobl ifanc drwy fod y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu comisiynydd plant.

Mae'r comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ein strategaeth ar dlodi plant yn cael ei diwygio i sicrhau ei bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar strategaeth ddiwygiedig ar dlodi plant sy'n amlygu pwysigrwydd hawliau plant wrth drechu tlodi. Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn aildatgan ein huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud i drechu tlodi yma a nawr.

Mae'r comisiynydd wedi galw arnom i adolygu'r cod ymddygiad wrth deithio a chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu gwybodaeth am y cod. Mae rhaglen waith eisoes wedi ei chytuno i roi sylw i'r materion a nodwyd, gan weithio gyda'r comisiynydd a phobl ifanc er mwyn iddi roi gwell adlewyrchiad o gydbwysedd hawliau a chyfrifoldebau'r holl bartïon. Hefyd, rydym wedi cyhoeddi cyllid o £5 miliwn tuag at 30 o brosiectau newydd Llwybrau Diogel mewn prosiectau Cymunedol ledled Cymru yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd yr hawliau a roddir i blant sy'n derbyn gofal a'u hystem yn blant a phobl ifanc yn y ddalfa, yn ystod eu dedfryd ac wedyn. Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob plentyn a pherson ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa, yn yr ystâd ddiogel, yn cael asesiad o'i anghenion gofal cymdeithasol a bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu.

Mae'r comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr eraill i sicrhau bod cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu sydd ag anabledd yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn ystod yr hinsawdd economaidd heriol bresennol. Unwaith eto, mae Cymru'n arwain y ffordd. Ar 1 Gorffennaf 2014, dechreuodd y ddyletswydd yn y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion amrywiol plant sydd ag anabledd, rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r rhai o gymunedau a diwylliannau amrywiol, a hefyd ystyried cynnwys taliadau am ddarpariaeth chwarae a chwarae o fewn strategaethau tlodi plant awdurdodau lleol. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu i ddiogelu a gwella hawl plant i chwarae.

The commissioner is calling on Welsh Government, with local health boards and local authorities, to agree procedures to resolve continuing care funding disputes swiftly. Our children and young people's continuing care guidance states that local health boards and local authorities must ensure that no child is denied access or has access to appropriate healthcare delayed as a result of a dispute about funding shares. The dispute resolution protocol is set out in 'Towards a Stable Life and a Brighter Future'. I hope this assures Members that this Government values children and young people, and we fully intend to continue to provide the leadership needed to protect them and to give them opportunities and the best outcomes possible.

The children's commissioner somewhat unfairly suggests that Wales has become too comfortable in our role as international trailblazers. I do not think there is anything wrong with celebrating when we are doing something well and leading the way, and we certainly are leading the way. He suggests there is a lack of vision and leadership from Welsh Government. Again, I would question this. I believe this Government's vision for children is clear. We want a Wales where children's rights are a reality for each and every child. This is why we have placed such an emphasis on the United Nations Convention on the Rights of the Child. Children must be safe, have access to good education, good homes, spaces to play, be respected, have a voice and not be disadvantaged because of poverty or where they live.

The First Minister has, time and again, stated this Government's focus on outcomes for the people of Wales. We have moved to a model that puts outcomes for children and young people at the heart of all ministerial decisions, with the full implementation of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 in May 2014. Assembly Members approved our children's rights scheme in April. A key focus has been our children's right impact assessment, and I am pleased to see those assessments published alongside policy and legislation, giving context to the impact they are having. This, in turn, influences services on the ground and outcomes for children, young people and their families.

Since becoming Minister for Communities and Tackling Poverty, I have seen at first hand the difference we are making to the lives of children and young people with our policies and actions. I very much look forward to the debate today.

16:19

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to contribute to this debate on the Children's Commissioner for Wales's annual report for 2013-14 and to offer my thanks to the commissioner and his staff for their work.

I would like to comment on one of the commissioner's recommendations, and I quote:

'I am calling on Welsh Government to issue guidance on universal parenting support for parents and legal guardians.'

Mae'r comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru, gyda byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, i gytuno ar weithdrefnau i ddatrys anghydfodau ariannu gofal parhaus yn gyflym. Mae ein canllawiau gofal parhaus i blant a phobl ifanc yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sicrhau na chaiff mynediad unrhyw blentyn at ofal iechyd priodol ei wrthod na'i oedi o ganlyniad i anghydfod ynghylch cyfrannau cyllid. Mae'r protocol datrys anghydfodau wedi'i amlinellu yn 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell'. Rwyf yn gobeithio bod hyn yn sicrhau Aelodau bod y Llywodraeth hon yn gwerthfawrogi plant a phobl ifanc, ac rydym yn llwyr fwrriadu parhaus i ddarparu'r arweiniad sydd ei angen i'w hamddiffyn ac i roi cyfleoedd a'r canlyniadau gorau posibl iddynt.

Mae'r comisiynydd plant yn awgrymu, braidd yn annheg, bod Cymru wedi mynd yn rhy gyfforddus yn ein swyddogaeth fel arloeswyr rhyngwladol. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth o'i le ar ddathlu pan fyddwn yn gwneud rhywbeth yn dda ac yn arwain y ffordd, ac rydym yn sicrhau arwain y ffordd. Mae'n awgrymu bod diffyg gweledigaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, rwyf yn amau hyn. Credaf fod gweledigaeth y Llywodraeth hon ar gyfer plant yn glir. Hoffem weld Cymru lle mae hawliau plant yn realiti i bob un plentyn. Dyma pam yr ydym wedi rhoi cymaint o bwyslais ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n rhaid i blant fod yn ddiogel, mae'n rhaid bod addysg dda, cartrefi da a manau i chwarae ar gael iddynt, mae'n rhaid iddynt gael eu parchu, cael llais a pheidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi neu ble maent yn byw.

Mae'r Prif Weinidog, dro ar ôl tro, wedi nodi bod y Llywodraeth hon yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl Cymru. Rydym wedi symud at fodel sy'n rhoi canlyniadau i blant a phobl ifanc wrth wraidd pob penderfyniad gweinidogol, gan weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn llawn ym mis Mai 2014. Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad ein cynllun hawliau plant ym mis Ebrill. Un pwyslais allweddol fu ein hasesiad o'r effaith ar hawliau plant, ac rwyf yn falch o weld bod yr asesiadau hynny wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â pholisi a deddfwriaeth, sy'n rhoi cyd-destun i'r effaith y maent yn ei chael. Mae hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar wasanaethau ar lawr gwlad a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ers dod yn Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun y gwahaniaeth y mae ein polisiâu a'n camau gweithredu'n ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at y ddaidl heddiw.

Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddaidl hon am adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2013-14 a hoffwn gynnig fy niolch i'r comisiynydd a'i staff am eu gwaith.

Hoffwn wneud sylw ar un o argymhellion y comisiynydd, a dyfynnaf:

'Rwyf yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gymorth rhianta cyffredinol i rieni a gwarcheidwaid cyfreithiol.'

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I believe that Ministers should take this recommendation very seriously. Good and bad parenting is classless and, as the commissioner says, parents and legal guardians play a pivotal role in the life of every child. Most parents sometimes need advice and support, and I am proud that the integrated family support service is now operating pan-Wales.

I recognise and value the role of the third sector in supporting parents and families. Indeed, I recall a visit in 2012 with Darren Millar to Care for the Family, a charity based in Cardiff. I believe that there is genuine all-party agreement across this Chamber that parents in Wales should be supported to be the best mums and dads that they can be. Furthermore, the universal parental support, as the children's commissioner says, is in line with the UNCRC. With the Children and Families (Wales) Measure 2010 and with new duties for local authorities and local health boards under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Ministers should now without delay to issue guidance to support delivery of universal parenting support, which could and should include advice on alternatives to the smacking of children. I would like to thank the commissioner for his positive comments and his constructive criticism during the scrutiny of the social services Bill, and for his past support in the general development of policies that affect children and young people.

Another aspect of the commissioner's work that I would like to mention is his role as a voice for Wales. I am grateful to the commissioner for his work on the family justice review that was jointly commissioned by the Welsh and Westminster Governments. Keith Towler proved to be a very effective and strong voice for Wales on this review, and I am pleased that we now have a family justice network in Wales.

I would also like to recognise the commissioner's role on the strategic co-ordinating group of Operation Pallial, a National Crime Agency-led investigation into recent allegations of historical abuse in the care system in north Wales. His office continues to offer advice and support to members of the public. This leads me now to call publicly for a discrete Welsh voice on the Home Office's independent panel inquiry into child sexual abuse, a panel which is still without a chair. Having researched the members of this panel, I am not happy that Welsh interests are adequately covered by the existing membership, and so I call for that discrete Welsh voice.

Rwyf yn credu y dylai Gweinidogion gymryd yr argymhelliad hwn yn wir o ddifrif. Mae rhianta da a gwael yn ddiddosbarth ac, fel y dywed y comisiynydd, mae rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol yn chwarae rhan ganolog ym mywyd pob plentyn. Mae angen cyngor a chefnogaeth weithiau ar y rhan fwyaf o rieni, ac rwyf yn falch bod y gwasanaeth cymorth integredig i deuluoedd yn gweithredu ledled Cymru erbyn hyn.

Rwyf yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwaith y trydydd sector o ran cefnogi rhieni a theuluoedd. Yn wir, rwyf yn cofio ymweliad yn 2012 gyda Darren Millar â Gofal i'r Teulu, elusen wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Rwyf yn credu bod pob plaid yn y Siambr hon yn cytuno'n wirioneddol y dylid cefnogi rhieni yng Nghymru i fod y mamau a'r tadau gorau y gallant fod. Hefyd, mae'r gefnogaeth gyffredinol i rieni, fel y mae'r comisiynydd plant yn ei ddweud, yn unol â CCUHP. Gyda Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a chyda dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, dylai Gweinidogion bellach gymryd camau yn ddi-oed i gyhoeddi canllawiau i gefnogi'r ddarpariaeth o gymorth rhianta cyffredinol, a allai ac a ddylai gynnwys cyngor ar ddewisiadau eraill yn hytrach na tharo plant. Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd am ei sylwadau cadarnhaol a'i feirniadaeth adeiladol yn ystod y broses o graffu ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol, ac am ei gefnogaeth yn y gorfennol i'r gwaith cyffredinol o ddatblygu polisiau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Agwedd arall ar waith y comisiynydd yr hoffwn sôn amdani yw ei swyddogaeth o fod yn llais dros Gymru. Rwyf yn ddiolchgar i'r comisiynydd am ei waith ar yr adolygiad cyfiawnder teuluol a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Roedd Keith Towler yn llais effeithiol a chryf iawn dros Gymru ar yr adolygiad hwn, ac rwyf yn falch bod gennym erbyn hyn rwydwaith cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

Hoffwn hefyd gydnabod gwaith y comisiynydd ar grŵp cydlynu strategol Operation Pallial, ymchwilad a arweiniwyd gan yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol i honiadau diweddar o gam-drin hanesyddol yn y system gofal yn y gogledd. Mae ei swyddfa'n parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth i aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn fy arwain yn awr i alw'n gyhoeddus am lais ar wahân i Gymru ar ymholiad panel annibynnol y Swyddfa Gartref i gam-drin plant yn rhywiol, panel sy'n dal i fod heb gadeirydd. Ar ôl ymchwilio i aelodau'r panel hwn, nid wyf yn fodlon bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol gan yr aelodau presennol, ac felly galwaf am y llais Cymreig arwahanol hwnnw.

16:23

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to have the opportunity to take part in this debate this afternoon. I would like to begin by thanking Keith Towler and his team for their work on this report, and for their ongoing efforts to improve the lives of children and young people in Wales. This is, of course, Keith Towler's final annual report as Children's Commissioner for Wales with his seven-year tenure coming to an end in February. So, on behalf of this side of the Chamber, I thank him for his work and wish him well and all the best for the future.

Rwyf wrth fy modd o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Keith Towler a'i dîm am eu gwaith ar yr adroddiad hwn, ac am eu hymdrechion parhaus i wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Hwn, wrth gwrs, yw adroddiad blynyddol olaf Keith Towler fel Comisiynydd Plant Cymru; mae ei gyfnod o saith mlynedd yn dod i ben ym mis Chwefror. Felly, ar ran yr ochr hon o'r Siambr, rwyf yn diolch iddo am ei waith ac yn dymuno'n dda a phob llwch iddo ar gyfer y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am sure we would all agree that ensuring that our children and young people's rights are recognised and protected is fundamentally important. We must all continue to work to ensure that every child in Wales has access to the education, healthcare and advocacy services that they need and deserve. In the commissioner's report, he makes it quite clear that concerns are still evident over many years that the status of the national service framework is unclear, and that there is evidence of poor implementation of standards. Indeed, the commissioner notes the threats to vital front-line services for children and young people that are being felt right across Wales.

In my constituency, for example, paediatric provision has been downgraded at Wylfa Newydd hospital to a 12-hour model, and that has rightly worried families across the county. Like the people of Pembrokeshire, I remain unconvinced that these changes will result in safe and sustainable services. Sadly, there are no cast-iron guarantees that children in Pembrokeshire can and will receive the services they so desperately need. So, the commissioner is right to highlight threats to vital services in his report.

I understand that the Welsh Government is now producing specific outcome-focused delivery plans in relation to health as part of its 'Achieving Excellence: The Quality Delivery Plan for the NHS in Wales 2012-2016'. I also understand that the Minister for Health and Social Services has committed to developing a children and young person's delivery plan, which I very much welcome. Perhaps in response to this debate, Members will hear more about the progress of that particular delivery plan.

The commissioner's report also highlights the need to encourage local authorities to address children's rights in carrying out their equality impact assessments to understand how proposed changes to services will affect children and young people's wellbeing. Last year, the commissioner wrote to all local authority chief executives, asking them for information on what consideration had been given to children and young people's rights and wellbeing in making budget decisions. Sadly, a number of local authorities are still yet to respond, so I would like to encourage all Members in this Chamber to contact their local authority to ascertain how they have prioritised children and young people when drawing up their budget.

Naturally, cuts to local authority budgets will undoubtedly result in difficulties in delivering youth services. Indeed, I share the commissioner's concern that the cultural infrastructure on which youth services rely, such as libraries and leisure facilities, will lose out when it comes to local authority budgets. When finances are tight, cultural assets are often one of the first cutbacks to be made. So, I hope that local authorities are thinking outside of the box. I hope that they are thinking innovatively and exploring all avenues when it comes to funding leisure and play services in their respective areas.

Rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod sicrhau bod hawliau ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu cydnabod a'u gwarchod yn sylfaenol bwysig. Mae'n rhaid inni i gyd barhau i weithio i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n gallu cael y gwasanaethau addysg, gofal iechyd ac eiriolaeth y mae eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu. Yn adroddiad y comisiynydd, mae'n ei gwneud yn gwbl glir bod pryderon yn dal yn amlwg dros flynyddoedd lawer bod statws y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn aneglur, ac y ceir tystiolaeth o weithredu safonau'n wael. Yn wir, mae'r comisiynydd yn nodi'r bygythiadau i wasanaethau rheng flaen hanfodol i blant a phobl ifanc a brofir ledled Cymru.

Yn fy etholaeth i, er enghraifft, mae darpariaeth bediatrig wedi ei hisraddio yn ysbty Llwynhelyg i fodel 12 awr, sy'n destun pryder dealladwy i deuluoedd ar draws y sir. Fel pobl Sir Benfro, nid wyf innau wedi fy argyhoeddi y bydd y newidiadau hyn yn arwain at wasanaethau diogel a chynaliadwy. Yn anffodus, nid oes sicrwydd cadarn y gall, nac y bydd, plant yn Sir Benfro'n cael y gwasanaethau y mae arnynt angen mor daer amdanynt. Felly, mae'r comisiynydd yn iawn i dynnu sylw at fgythiadau i wasanaethau hanfodol yn ei adroddiad.

Deallaf fod Llywodraeth Cymru bellach yn cynhyrchu cynlluniau cyflawni penodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ym maes iechyd yn rhan o'u 'Rhagori: Y Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer y GIG yng Nghymru 2012-2016'. Rwyf hefyd ar ddeall bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc; rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn. Efallai mewn ymateb i'r ddatl hon, y caiff Aelodau glywed mwy am hynt y cynllun cyflawni penodol hwnnw.

Mae adroddiad y comisiynydd yn tynnu sylw hefyd at yr angen i annog awdurdodau lleol i roi sylw i hawliau plant wrth gyflawni eu hasesiadau o effaith ar gydraddoldeb er mwyn deall sut y bydd newidiadau arfaethedig i wasanaethau yn effeithio ar les plant a phobl ifanc. Y llynedd, ysgrifennodd y comisiynydd at brif weithredwyr pob awdurdod lleol i ofyn iddynt am wybodaeth am yr ystyriaeth a roddwyd i hawliau a lles plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau cyllidebol. Yn anffodus, mae nifer o awdurdodau lleol nad ydynt wedi ymateb hyd yn hyn, felly hoffwn annog yr holl Aelodau yn y Siambr hon i gysylltu â'u hawdurdod lleol i ganfod sut y maent wedi blaenoriaethu plant a phobl ifanc wrth lunio eu cyllideb.

Yn naturiol, bydd toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol yn ddiau yn arwain at anawsterau o ran darparu gwasanaethau ieuentid. Yn wir, rwyf yn rhannu pryder y comisiynydd y bydd y seilwaith diwylliannol y mae gwasanaethau ieuentid yn dibynnu arno, megis llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden, ar ei gollod yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Pan fo cyllid yn dynn, mae asedau diwylliannol yn aml ymysg y toriadau cyntaf i gael eu gwneud. Felly, rwyf yn gobeithio bod awdurdodau lleol yn meddwl mewn ffordd wahanol. Rwyf yn gobeithio eu bod yn meddwl yn arloesol ac yn archwilio pob posibilrwydd o ran ariannu gwasanaethau hamdden a chwarae yn eu hardaloedd eu hunain.

The commissioner's report also identified safe routes to schools as an area where further improvements can be made. I know that Members on this side of the Chamber have been particularly vocal on this issue. I was particularly impressed to note that 540 individual responses were received by the commissioner last year under his super ambassadors special mission, which encouraged children and young people to contribute their views to the Welsh Government's consultation on safe routes to school. It is excellent to hear such positive engagement with young people on Government consultations and I very much hope that this is something that we will see more of in the future.

In relation to safe routes to schools, the commissioner has specifically called on the Welsh Government to review the travel behaviour code and to involve children and young people in developing information about the code. I know that the Minister referred to this in her opening remarks, but perhaps the Minister can expand on what steps have now been taken in this specific area.

In closing, I thank the commissioner and his team for his final report as Children's Commissioner for Wales. The commissioner has done excellent work during his tenure, not least of all working with over 6,000 children and young people in the past 12 months alone. However, while good work has been recognised, the commissioner has also made it absolutely clear that governments at all levels must do more to engage with children and young people and to ensure that children and young people are a national priority.

16:28

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to speak in this annual debate on the children's commissioner's report. I would also like to pay tribute to Keith Towler. I think that he has spoken up for children and has a good record for the seven years that he has had that job.

Roedd adroddiad y comisiynydd hefyd yn nodi bod llwybrau diogel i'r ysgol yn faes lle gellir gwneud gwelliannau pellach. Gwn fod Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr wedi bod yn arbennig o lafar ar y mater hwn. Un peth a wnaeth argraff arbennig o dda arnaf oedd bod y comisiynydd wedi derbyn 540 o ymatebion unigol y llynedd dan ei ymgyrch arbennig uwch genhadon, a oedd yn annog plant a phobl ifanc i gyfrannu eu safbwyntiau at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar lwybrau diogel i'r ysgol. Mae'n wych clywed am ymgysylltiad mor gadarnhaol gyda phobl ifanc ar ymgynghoriadau'r Llywodraeth ac rwyf yn gobeithio'n fawr bod hyn yn rhywbeth y byddwn yn gweld mwy ohono yn y dyfodol.

O ran llwybrau diogel i'r ysgol, mae'r comisiynydd wedi galw'n benodol ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r cod ymddygiad wrth deithio ac i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu gwybodaeth am y cod. Gwn fod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn yn ei sylwadau agoriadol, ond efallai y gall y Gweinidog ymhelaethu ar y camau sydd wedi'u cymryd erbyn hyn yn y maes penodol hwn.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r comisiynydd a'i dim am ei adroddiad olaf fel Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r comisiynydd wedi gwneud gwaith ardderchog yn ystod ei gyfnod, yn enwedig ei waith gyda dros 6,000 o blant a phobl ifanc yn y 12 mis diwethaf yn unig. Fodd bynnag, er bod gwaith da wedi'i gydnabod, mae'r comisiynydd hefyd wedi ei gwneud yn gwbl glir bod yn rhaid i lywodraethau ar bob lefel wneud mwy i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol.

Rwyf yn falch iawn o gael siarad yn y ddadl flynyddol hon ar adroddiad y comisiynydd plant. Hoffwn innau hefyd dalu teyrnged i Keith Towler. Rwyf yn credu ei fod wedi siarad ar ran plant a bod ganddo hanes o waith da yn ystod y saith mlynedd y bu yn y swydd honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In the capital building in Texas, which I visited recently, which houses the Texas Senate and House of Representatives, there are pictures of all the members of the Senate and the house in big old frames on the walls at the back of the chamber and in the surrounding rooms. In the middle of the pictures of the members, there are pictures of children. They are the children or grandchildren of the members, or other children significant to them. All these children are under 12 years old. It seems that people come from all over the world to see these children; some of them are the children themselves, coming to see the pictures of themselves. I understand that the reason for having them there is so that the people who make the legislation in Texas have always got in their minds why they are making legislation—to have children foremost in their minds in everything they do. I was reminded of this when Lindsay Whittle held up a photo of his granddaughter in Plenary in one of the debates we were having about physical punishment a year or two ago. I think that having such a photographic display is something that we could consider doing in this Assembly, so that all of the laws and policy that we make have children absolutely at their heart, and I think that this would be a wonderful symbol of that. As we have said already—as the Minister said in her introduction—we have the building blocks in place, we are proud that we have a children's commissioner, we have the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 and we are proud of all of the things that we have done to promote the rights of children.

Despite this, I think that, however many building blocks we have in place, we still need a fundamental shift to put children at the forefront of our thinking in everything that we do. The children's commissioner refers to this in his report when he mentions keeping our eyes on the ball on these issues and that, whenever we think of any bit of legislation, it comes to our mind, 'What does this mean for children in future? What does this mean for future generations?' As I say, I think that we have the building blocks in place, and we have a good record, but I think that there are very significant further things that we need to do.

We want Wales to be a country where children will grow up safely and with as much security as possible. To do that, I think that one of the things that we need to do is get rid of the defence of reasonable punishment, which we have the power to do, so that there can be an unequivocal, clear message from the Government, all of the professionals involved in this field and everybody in the community that any form of physical punishment of children in Wales is unacceptable. I think that that is one thing that we could do to further children's rights in Wales.

Yn adeilad y Capitol yn Texas, yr ymwelais ag ef yn ddiweddar, sy'n gartref i Senedd a Thŷ Cynrychiolwyr Texas, mae yna luniau o holl aelodau'r Senedd a'r tŷ mewn hen fframiau mawr ar y waliau yng nghefn y siambr ac yn yr ystafelloedd o'i hamgylch. Yng nghanol y lluniau o'r aelodau, mae lluniau o blant. Plant neu wyrion yr aelodau, neu blant eraill sy'n arwyddocaol iddynt, yw'r rhain. Mae pob un o'r plant hyn o dan 12 oed. Mae'n ymddangos bod pobl yn dod o bob cwr o'r byd i weld y plant hyn; rhai ohonynt yw'r plant eu hunain, yn dod i weld y lluniau ohonynt eu hunain. Rwyf ar ddeall mai'r rheswm dros eu rhoi yno yw er mwyn i'r bobl sy'n gwneud deddfwriaeth yn Texas gofio bob amser pam y maent yn gwneud deddfwriaeth—sef bod plant yn flaenllaw yn eu meddyliau ym mhopeth a wnânt. Cefais fy atgoffa o hyn pan gododd Lindsay Whittle lun o'i wyres yn y Cyfarfod Llawn yn ystod un o'n dadleuon am gosbi corfforol flwyddyn neu ddwy yn ôl. Credaf fod cael arddangosfa ffotograffig o'r fath yn rhywbeth y gallem ystyried ei wneud yn y Cynulliad hwn, fel bod plant yn gwbl ganolog i'r holl gyfreithiau a pholisiau a wnawn, ac rwyf yn meddwl y byddai hyn yn symbol gwych o hynny. Fel yr ydym wedi'i ddweud eisoes—fel y dywedodd y Gweinidog yn ei chyflwyniad—mae'r blociau adeiladu wedi eu sefydlu gennym, rydym yn falch bod gennym gomisiynydd plant, mae gennym y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac rydym yn falch o bopeth yr ydym wedi'i wneud i hyrwyddo hawliau plant.

Er hynny, rwyf yn meddwl, er bod gennym gynifer o flociau adeiladu wedi'u sefydlu, bod arnom angen newid sylfaenol o hyd i sicrhau bod plant yn flaenllaw yn ein meddyliau ym mhopeth a wnawn. Mae'r comisiynydd plant yn cyfeirio at hyn yn ei adroddiad wrth sôn am gadw ein llygaid ar y bêl ar y materion hyn, a, phryd bynnag yr ydym yn meddwl am unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth, ein bod yn meddwl, 'Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer plant yn y dyfodol? Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?' Fel y dywedais, rwyf yn meddwl bod y blociau adeiladu yn eu lle gennym, ac mae gennym hanes da, ond rwyf yn meddwl bod pethau eraill arwyddocaol iawn y mae angen inni eu gwneud.

Hoffem i Gymru fod yn wlad lle bydd plant yn tyfu'n ddiogel ac â chymaint o sicrwydd ag y bo modd. I wneud hynny, rwyf yn meddwl mai un o'r pethau y mae angen inni ei wneud yw cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol, sydd o fewn ein pŵer, fel y gall y Llywodraeth, yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn a phawb yn y gymuned anfon neges ddiamwys, glir, bod unrhyw fath o gosb gorfforol i blant yng Nghymru yn annerbyniol. Credaf fod hynny'n un peth y gallem ei wneud i hybu hawliau plant yng Nghymru.

The other thing that I think that we must also do is protect the most disadvantaged children, and there has been reference to that here today. At lunchtime today, the cross-party group on Gypsies and Travellers—one of the most disadvantaged groups in Wales today—met. I am pleased that we had young Gypsies and Travellers at the meeting. The meeting was actually about health, but one of the concerns that was forcefully expressed to me was the fear that Gypsy and Traveller education might suffer as a result of the plans to rationalise and amalgamate a number of the education grants, including the grant for the education of Gypsy children and Traveller children and the minority ethnic achievement grant. Real fear was expressed that the protection and development of Traveller education would suffer if it is not a specific grant that is specifically aimed at use with Gypsy and Traveller children. Huge progress has been made, I think, in the education of Gypsy and Traveller children; certainly, all primary school-aged Gypsy and Traveller children are almost universally in school, and progress is being made in the secondary schools. However, people who are working with the children said to me that they do not see this progress continuing unless there is effort to ensure that these grants remain specifically for the groups that they were intended to help. I think that it is important to look at England, where I think that all Gypsy and Traveller education has been decimated.

I end with a tribute to Keith Towler and I thank him for all of the work that he has done for the last seven years.

16:33

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also want to begin by thanking Keith Towler for his years as our children's commissioner. Since 2008, he and his office have, I think, done an admirable job in speaking up for children and protecting and promoting their rights. During his time as commissioner, I have seen him interacting with children and young people on a number of occasions, and I can assure you that his successor will certainly have a challenge in living up to his popularity, his easy comfort with young people and his ability to relate to those with whom he works.

So, the coming year will be one of change, as the new commissioner is appointed, and also one of reflection, as an independent review of the role and functions of the office is carried out. I look forward to meeting the new commissioner and also seeing the role being strengthened following that review.

Y peth arall yr wyf yn credu bod yn rhaid i ni hefyd ei wneud yw amddiffyn y plant mwyaf difreintiedig, a chafwyd cyfeiriad at hynny yma heddiw. Amser cinio heddiw, cyfarfu'r grŵp trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr—un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru heddiw. Rwyf yn falch ein bod wedi gweld Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod mewn gwirionedd yn ymwneud ag iechyd, ond un o'r pryderon a fynegwyd yn rymus wrthyf oedd yr ofn y gallai addysg Sipsiwn a Theithwyr ddioddef o ganlyniad i'r cynlluniau i resymoli ac uno nifer o'r grantiau addysg, gan gynnwys y grant i addysgu plant Sipsiwn a phlant Teithwyr a'r grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig. Mynegwyd ofn gwirioneddol y byddai diogelwch a datblygiad addysg i Deithwyr yn dioddef pe na byddai grant penodol sydd â'r nod penodol o gael ei ddefnyddio gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr. Mae cynnydd aruthrol wedi'i wneud, rwyf yn credu, o ran addysg plant Sipsiwn a Theithwyr; yn sicr, mae bron holl blant Sipsiwn a Theithwyr o oed ysgol gynradd yn gyffredinol yn yr ysgol, ac mae cynnydd yn cael ei wneud yn yr ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, dywedodd pobl sy'n gweithio gyda'r plant wrthyf na allat weld y cynnydd hwn yn parhau oni wneir ymdrech i sicrhau bod y grantiau hyn yn parhau i fod yn benodol ar gyfer y grŵp y'u bwriadwyd i'w helpu. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig edrych ar Loegr, lle'r wyf yn credu bod yr holl addysg i Sipsiwn a Theithwyr wedi ei dinistrio.

Gorfennaf gyda theyrnged i Keith Towler ac rwyf yn diolch iddo am yr holl waith y mae wedi'i wneud dros y saith mlynedd diwethaf.

Hoffwn innau ddechrau drwy ddiolch i Keith Towler am ei flynyddoedd o fod yn ein comisiynydd plant. Ers 2008, mae ef a'i swyddfa, yn fy marn i, wedi gwneud gwaith clodwiw wrth siarad ar ran plant a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. Yn ystod ei gyfnod fel comisiynydd, rwyf wedi ei weld yn rhyngweithio â phlant a phobl ifanc ar sawl achlysur, a gallaf eich sicrhau y bydd ei olynnydd yn sicr yn wynebu her i fod mor boblogaidd, mor gyfforddus gyda phobl ifanc ac mor fedrus o ran uniaethu â'r rheini y mae'n gweithio gyda hwy.

Felly, bydd y flwyddyn nesaf yn un o newid, wrth i'r comisiynydd newydd gael ei benodi, a hefyd yn un o fyfyrto, wrth i adolygiad annibynnol o waith a swyddogaethau'r swyddfa gael ei gynnal. Edrychaf ymlaen at gwrdd â'r comisiynydd newydd a hefyd at weld y swyddogaeth yn cael ei hatgyfnerthu ar ôl yr adolygiad hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Children today are, I think, facing a future of unprecedented challenge. The Social Mobility and Child Poverty Commission found that, with the impact of the UK Government's welfare cuts and the problems of low pay set to bite, 2020 will mark the end of the first decade in recent history in which absolute child poverty increased. There is already a gulf in attainment between advantaged and disadvantaged children. Poor children are four times as likely to become poor adults as other children, and Wales has the second-highest child poverty rate in the UK. Half of three-year-olds in deprived areas are below the expected level of development. So, we are in danger of allowing a generation of disadvantaged children to fall through the cracks, reinforcing a lack of social mobility and trapping people in poverty.

In Wales, we can be proud of our record as trailblazers for children's rights, as the first nation in the UK to set up a commissioner's office, and the first to enshrine the UN Convention on the Rights of the Child into domestic law. We have led the way in putting children's rights and wellbeing at the heart of everything we do. That is why it is so disappointing that, just as the future of children in Wales is becoming more uncertain, the children's commissioner's report raises concerns that the Welsh Government might have forgotten its national vision for children and young people. Strong rhetoric on children's rights is meaningless unless it is translated into action. With local authorities having to make some very difficult decisions on budget reductions, I find it deeply worrying that the children's commissioner believes that children's rights are not properly being taken into consideration, and I share this concern.

The general failure to stand up for children's rights and the lack of vision puts the Government's change of policy on repealing section 58, the reasonable punishment defence, in a troubling light. Over the last 12 years or so, I have watched the Welsh Government argue strongly for the repeal of section 58, only to see the policy seemingly abandoned now as soon as the Assembly has the power to act—and I heard what Julie Morgan said earlier today about this. A section 58 repeal has been dubbed 'the smacking ban' in the past, but I want us to move past those attention-grabbing soundbites and discuss this issue for what it really is, namely a small adjustment in the law to better protect children, which will send a strong, clear message as part of a re-stated vision that the Welsh Government is committed to children's rights.

This will not criminalise smacking, and will be only a small step in that direction. Repealing section 58 removes a possible defence from someone with parental rights who is charged with assault on a child. No charges would be brought unless the police have evidence of a mark of a body, are satisfied that it is in the interest of the child, and that it passes the public interest test. The Crown Prosecution Service must also be satisfied that a conviction is achievable. The existence of this possible defence does not figure in any of those decisions. Therefore, to call this a smacking ban is, quite frankly, not accurate. I want to see the Welsh Government, once again, leading the way in driving progress for children and young people and taking a strong, principled stance on this issue.

Mae plant heddiw, yn fy marn i, yn wynebu dyfodol mwy heriol nag erioed. Canfu'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, oherwydd effaith toriadau lles Llywodraeth y DU a phroblemau cyflog isel, y bydd 2020 yn nodi diwedd y degawd cyntaf mewn hanes diweddar lle bu cynnydd mewn tlodi plant absoliwt. Mae bwlch mewn cyrhaeddiad eisoes rhwng plant breintiedig a difreintiedig. Mae plant tlawd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn oedolion tlawd na phlant eraill, ac mae gan Gymru'r gyfradd tlodi plant ail uchaf yn y DU. Mae hanner y plant tair blwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig o dan y lefel datblygiad disgwylidiedig. Felly, rydym mewn perygl o ganiatáu i genhedlaeth o blant difreintiedig ddisgyn drwy'r craciau, gan atgyfnerthu diffyg symudedd cymdeithasol a chadw pobl mewn tlodi.

Yng Nghymru, gallwn fod yn falch o'n hanes fel arloeswyr dros hawliau plant, fel y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu swyddfa comisiynydd, a'r gyntaf i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith ddomestig. Rydym wedi arwain y ffordd wrth sicrhau bod hawliau a lles plant yn ganolog i bopeth a wnawn. Dyna pam mae mor siomedig, wrth i ddyfodol plant yng Nghymru ddod yn fwy ansicr, bod adroddiad y comisiynydd plant yn codi pryderon y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi anghofio ei gweledigaeth genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae rhethreg gref ar hawliau plant yn ddiystyr oni bai ei bod yn troi'n gamau gweithredu. Wrth i awdurdodau lleol orfod gwneud penderfyniadau anodd iawn am ostyngiadau yn eu cyllidebau, mae'n peri pryder mawr imi bod y comisiynydd plant yn credu nad yw hawliau plant yn cael eu hystyried yn briodol, ac rwyf yn rhannu'r pryder hwn.

Mae'r methiant cyffredinol i sefyll dros hawliau plant a'r diffyg gweledigaeth yn gwneud i newid polisi'r Llywodraeth ynghylch diddymu adran 58, yr amddiffyniad cosb resymol, ymddangos fel problem. Dros y 12 mlynedd diwethaf, rwyf wedi gwyllo Llywodraeth Cymru yn dadlau'n gryf dros diddymu adran 58, ac nawr, cyn gynted ag y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu, mae'n ymddangos ei bod yn cefnu ar y polisi—a chlywais yr hyn a ddywedodd Julie Morgan yn gynharach heddiw am hyn. Mae diddymu adran 58 wedi cael ei alw'n 'waharddiad smacio' yn y gorffennol, ond hoffwn inni symud y tu hwnt i sylwadau bachog sy'n chwilio am sylw a thrafod y mater hwn am yr hyn yr ydyw mewn gwirionedd, sef addasiad bychan yn y gyfraith i amddiffyn plant yn well, a fydd yn anfon neges gref, glir yn rhan o weledigaeth wedi'i haildatgan bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hawliau plant.

Ni fydd hyn yn gwneud smacio'n drosedd; dim ond cam bach i'r cyfeiriad hwnnw fydd hyn. Mae diddymu adran 58 yn tynnu un amddiffyniad posibl oddi ar rywun â hawliau rhiant sy'n cael ei gyhuddo o ymosod ar blentyn. Ni châi cyhuddiad ei wneud oni bai bod gan yr heddlu dystiolaeth o farcio corff, eu bod yn fodlon bod hynny er budd y plentyn, a'i fod yn pasio prawf lles y cyhoedd. Mae'n rhaid i Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd fod yn fodlon bod modd cael euogfarn. Nid yw bodolaeth yr amddiffyniad posibl hwn yn rhan o unrhyw un o'r penderfyniadau hynny. Felly, mae galw hyn yn wahardd smacio, a dweud y gwir, yn anghywir. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru, unwaith eto, yn arwain y ffordd wrth sbarduno cynnydd ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn cymryd safiad cryf, egwyddorol ar y mater hwn.

The children's commissioner also believes that it is unjustified that the Welsh Government leaves the law as it is, with children not having equal protection under the law with adults. It is a human-rights obligation to respect the physical integrity and dignity of all people, including children—especially children. I look forward to expanding on this, so will be tabling amendments to the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill at Stage 2. I hope that Members will think about them carefully so that we can do right by respecting children's rights.

16:38

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome this report. I became an adult in the mid-1970s, and times have certainly moved on since then—I would say that they have moved on very much for a better. This was a time when corporal punishment with a cane, a slipper or the leg of a chair was common in schools and dispensed very often for little reason. We also had the saying 'Spare the rod and spoil the child' quoted regularly. When a child was behaving badly but the parents did not physically punish them, they were considered to be bad parents. Today, when I see parents out with their children, physical punishment is rare and very much frowned upon by other parents.

I now want to turn to two programmes that I believe are considered huge successes, the first of which is Flying Start. The investment is doubling in Flying Start, which offers a range of support, including high-quality childcare for two-year-olds in some of the most deprived communities in Wales. It also helps parents to access information and support about skills, jobs and debt advice. Flying Start targets areas in Wales with the highest proportion of children under four living in income-benefit households. People are working hard to ensure that more of our children can benefit from Flying Start care, and we are on target to double the number of children and families benefiting from Flying Start from 18,000 to 36,000. There has been an extra £55 million for facilities and training over three years. Evidence to date shows that Flying Start is beginning to have a real positive impact on children. When they go to school they are ready to learn and are more confident in mixing with other children. Perhaps most importantly, they are now not going to school in nappies—which was happening in some schools in the past. Of the schools in my constituency, those that have Flying Start are incredibly grateful, and those that do not have it want it and want to know why they have not got it—as the Minister for Education and Skills knows from a visit to Trallwn Primary School in my constituency last week.

Mae'r comisiynydd plant hefyd yn credu ei bod yn anghyfiawn bod Llywodraeth Cymru'n gadael y gyfraith fel ag y mae, lle nad yw plant yn cael yr un amddiffyniad dan y gyfraith ag oedolion. Mae'n rhwymedigaeth hawliau dynol i barchu uniondeb ac urddas corfforol pob unigolyn, gan gynnwys plant—yn enwedig plant. Edrychaf ymlaen at ehangu ar hyn, felly byddaf yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil Trais sy'n seiliedig ar Ryw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yng Nghyfnod 2. Gobeithiaf y gwnaiff yr Aelodau feddwl amdanynt yn ofalus fel y gallwn wneud y peth iawn a pharchu hawliau plant.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn. Deuthum yn oedolyn yng nghanol yr 1970au, ac mae pethau'n sicr wedi newid ers hynny—byddwn yn dweud eu bod yn bendant wedi newid er gwell. Roedd hyn yn adeg pan oedd cosb gorfforol gyda ffon, sliper neu goes cadair yn gyffredin mewn ysgolion ac yn digwydd yn aml iawn heb fawr o reswm. Hefyd, roedd y dywediad 'Spare the rod and spoil the child' yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Pan oedd plentyn yn ymddwyn yn wael, ond nad oedd y rhieni'n ei gosbi'n gorfforol, roeddent yn cael eu hystyried yn rhieni gwael. Heddiw, pan welaf rieni allan gyda'u plant, mae cosbi corfforol yn brin ac mae rhieni eraill yn gwgu arno.

Nawr, hoffwn droi at ddwy raglen yr wyf yn credu eu bod yn cael eu hystyried yn llwyddiannau mawr; y cyntaf ohonynt yw Dechrau'n Deg. Mae'r buddsoddiad yn dyblu yn Dechrau'n Deg, sy'n cynnig amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys gofal plant o ansawdd uchel i blant dwy oed mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hefyd yn helpu rhieni i gael gwybodaeth a chymorth am sgiliau, swyddi a chyngor ar ddyledion. Mae Dechrau'n Deg yn targedu ardaloedd yng Nghymru sydd â'r gyfran uchaf o blant o dan bedair oed sy'n byw mewn aelwydydd sy'n cael budd-dal incwm. Mae pobl yn gweithio'n galed i sicrhau bod mwy o'n plant yn gallu elwa ar ofal Dechrau'n Deg, ac rydym ar y trywydd iawn i ddyblu nifer y plant a theuluoedd sy'n elwa ar Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000. Cafwyd £55 miliwn ychwanegol ar gyfer cyfleusterau a hyfforddiant dros dair blynedd. Mae'r dystiolaeth hyd yn hyn yn dangos bod Dechrau'n Deg yn dechrau cael effaith wirioneddol gadarnhaol ar blant. Pan eu bod yn mynd i'r ysgol, maent yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu â phlant eraill. Yn bwysicaf oll efallai, nid ydynt nawr yn mynd i'r ysgol mewn cewynnau—roedd hynny'n digwydd mewn rhai ysgolion yn y gorffennol. O'r ysgolion yn fy etholaeth i, mae'r rhai sydd â chanddynt Dechrau'n Deg yn anhygoel o ddiolchgar, ac mae'r rhai nad yw ganddynt yn dymuno ei gael ac yn awyddus i gael gwybod pam nad yw ganddynt—fel y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n ei wybod yn dilyn ymweliad ag Ysgol Gynradd Trallwn yn fy etholaeth i yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Turning to Designed to Smile, it is important for children to get into the habit of looking after their teeth to avoid having to face associated health and social issues in later life—and, for those of us who have had toothache, a huge amount of pain. By the end of March 2012, around 78,000 children in 1,200 schools and nurseries were taking part in Designed to Smile, which is a programme to improve the oral health of nursery and primary school children in the areas of greatest need. It is just about getting children to clean their teeth. They do it collectively and, in some schools, they do it twice a day. When an 11 year-old in a deprived community asked, 'What is a filling?'—I was tempted to reply 'The grey stuff in all my molars'—it made me realise that the scheme is en route to become a great success.

Finally, I want to discuss two programmes that have made a huge impact recently, especially in my own constituency: the United Nations Convention on the Rights of the Child and restorative practice. Most schools in my constituency have embraced both. Back in October 2013, children and young people across Swansea celebrated recognition of their right to be heard when the city and county of Swansea became the UK's capital for children's rights. At a celebratory event at Swansea University's Institute of Life Science, children from schools across Swansea gave performances before an audience of dignitaries, including the former First Minister, to explain why children and young people's rights matter. They were delighted that their local authority was the first in Wales to adopt the UNCRC. On visiting schools across my constituency, I see the rights displayed on the walls, I see them displayed on the stairs, and I have actually seen them displayed on the ceilings. Most importantly, what I see is the children knowing what their rights are—knowing their right to education, knowing their right to be treated fairly, and knowing their right to worship as they wish.

Finally, I turn to restorative practice. Restorative practice is an approach that encourages children and adults to take responsibility for their actions. Swansea has the aim to be the first restorative city in Wales, and one of the first in the UK. This approach focuses on resolving conflicts at the earliest possible stage—it does not involve shouting at people, making them feel bad that it is their fault, and putting them into defensive mode—seeking to avoid blame and supporting people to take responsibility for finding a constructive solution to issues. It encourages effective communication and working towards positive outcomes. Restorative practice has been used effectively in the youth justice system for many years; now it is being used in schools. The long-term aim is that those who work with children, young people and their families in Swansea use restorative practice as a means to get children to behave in the manner that we want them to. I end with a quote from children at Gwrosydd Primary School in my constituency:

'It's better than the old way, where we just argued. It's more controlled. You have to listen to the other side of the story.'

That, I think, Deputy Presiding Officer, is huge progress.

I droi at y Cynllun Gwên, mae'n bwysig bod plant yn mynd i'r arfer o edrych ar ôl eu dannedd i osgoi gorfod wynebu materion iechyd a chymdeithasol yn nes ymlaen yn eu bywydau—ac i'r rhai ohonom sydd wedi cael y ddannoedd, llawer iawn o boen. Erbyn diwedd mis Mawrth 2012, roedd tua 78,000 o blant mewn 1,200 o ysgolion a meithrinfeydd yn cymryd rhan yn y Cynllun Gwên, sef rhaglen i wella iechyd y geg ymhlith plant ysgol feithrin ac ysgol gynradd yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf. Dim ond mater o gael plant i lanhau eu dannedd ydyw. Maent yn ei wneud gyda'i gilydd ac, mewn rhai ysgolion, maent yn ei wneud ddwywaith y dydd. Pan ofynnodd plentyn 11 oed mewn cymuned ddifreintiedig, 'Beth yw llenwad?'—cefais fy nhemtio i ateb 'Y stwff llwyd yn fy nannedd cefn i gyd'—gwnaeth imi sylweddoli bod y cynllun ar y ffordd i fod yn llwyddiant mawr.

Yn olaf, hoffwn drafod dwy raglen sydd wedi cael effaith enfawr yn ddiweddar, yn enwedig yn fy etholaeth fy hun: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac arfer adferol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn fy etholaeth i wedi cofleidio'r dda. Yn ôl ym mis Hydref 2013, bu plant a phobl ifanc ar draws Abertawe'n dathlu cydnabyddiaeth o'u hawl i gael eu clywed pan ddaeth dinas a sir Abertawe'n brifddinas hawliau plant y DU. Mewn dathliad yn Sefydliad Gwyddorau Bywyd Prifysgol Abertawe, perfformiodd plant o ysgolion ar draws Abertawe o flaen cynulleidfa o bwysigion, gan gynnwys y cyn Brif Weinidog, i egluro pam mae hawliau plant a phobl ifanc yn bwysig. Roeddent wrth eu boddau mai eu hawdurdod lleol nhw oedd y cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu CCUHP. Wrth ymweld ag ysgolion ledled fy etholaeth, rwyf yn gweld yr hawliau wedi'u harddangos ar y waliau, rwyf yn eu gweld wedi'u harddangos ar y grisiau, ac yn wir rwyf wedi eu gweld wedi'u harddangos ar y nenfydau. Yn bwysicaf oll, yr hyn yr wyf yn ei weld yw bod y plant yn gwybod beth yw eu hawliau—yn gwybod bod ganddynt hawl i addysg, yn gwybod bod ganddynt hawl i gael eu trin yn deg, ac yn gwybod bod ganddynt hawl i addoli yn ôl eu dymuniad.

Yn olaf, trof at arfer adferol. Mae arfer adferol yn ddull sy'n annog plant ac oedolion i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd. Nod Abertawe yw bod y ddinas adferol gyntaf yng Nghymru, ac yn un o'r rhai cyntaf yn y DU. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddatrys gwrthdaro ar y cam cynharaf posibl—nid yw'n golygu gweiddi ar bobl, gan wneud iddynt deimlo'n wael mai hwy sydd ar fai, a'u rhoi mewn modd amddiffynnol—i geisio osgoi bai a chynorthwyo pobl i fod yn gyfrifol am ddod o hyd i ateb adeiladol i faterion. Mae'n annog cyfathrebu effeithiol a gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol. Mae arfer adferol wedi ei defnyddio'n effeithiol yn y system cyfiawnder ieuencid ers blynyddoedd lawer; mae'n cael ei ddefnyddio mewn ysgolion erbyn hyn. Y nod hirdymor yw bod pobl sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn Abertawe yn defnyddio arfer adferol fel ffordd o sicrhau bod plant yn ymddwyn fel yr hoffem iddynt ymddwyn. Diweddaf gyda dyfyniad gan blant yn Ysgol Gynradd Gwrosydd yn fy etholaeth i:

'Mae'n well na'r hen ffordd, lle'r oeddem yn dadlau drwy'r amser. Mae mwy o reolaeth. Mae'n rhaid ichi wrando ar ochr arall y stori.'

Mae hynny, yn fy marn i, Ddirprwy Lywydd, yn gynydd enfawr.

The Minister, in her opening remarks, said that she felt that the children's commissioner had been somewhat unfair in his assessment of the Government, and she claimed that the Government was certainly leading the way. I think that those of us who were here in 2011, at the passing of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure, believed that to be the case, but the reality is somewhat different. Before I go into the detail of the report, I certainly would want to associate myself with the remarks made by both Julie Morgan and Jocelyn Davies, with regard to how easy it is for a Government to commit to something when it does not actually have the power to do anything about it. The reality is that the measure of a Government is when it assumes responsibility and does something when it can do something about it.

The sad thing is that this is the third time that I have stood up here in a situation when we could just re-run some of the remarks that we make year after year—probably, some of the remarks that people have made since the children's commissioner's office was founded. Yet again, we could talk for some time about toilets in schools, we could talk for some time about the right to independent advocacy, and we could also—as we have seen in the report issued today by the children's commissioner—talk about the rights of children who are in wheelchairs, as far as having access to the school of their choice within their locality is concerned.

Rights have become diluted, Minister, whether it is the case that children's budgeting is not given priority, either by the Welsh Government or local authorities, or whether it is the removal of a youth parliament, so that Wales now has the somewhat unearned distinction of being the only country within the European Union that will not have a representative youth parliament to reflect the views of children and young people and allow children and young people to tell us whether they think that we are doing the job that they thought that we were elected to do.

Yn ei sylwadau agoriadol, dywedodd y Gweinidog, ei bod yn teimlo bod y comisiynydd plant wedi bod braidd yn annheg wrth asesu'r Llywodraeth, ac roedd hi'n honni bod y Llywodraeth yn sicr yn arwain y ffordd. Rwyf yn credu bod y rhai ohonom a oedd yma yn 2011, yn pasio'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), yn credu bod hynny'n wir, ond mae'r gwirionedd ychydig yn wahanol. Cyn imi sôn am fanylion yr adroddiad, yn sicr hoffwn fy nghysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaeth Julie Morgan a Jocelyn Davies ill dwy, o ran pa mor hawdd yw hi i Lywodraeth ymrwymo i rywbeth pan nad oes ganddi mewn gwirionedd y pŵer i wneud unrhyw beth i newid pethau. Y gwir yw mai'r ffordd o fesur Llywodraeth yw pan fydd ganddi gyfrifoldeb, ei bod yn gwneud rhywbeth pan ei bod yn gallu gwneud hynny.

Y peth trist yw mai hwn yw'r trydydd tro imi sefyll yma mewn sefyllfa pan allem ddim ond ailddatgan rhai o'r sylwadau a wnawn flwyddyn ar ôl blwyddyn—yn ôl pob tebyg, rhai o'r sylwadau y mae pobl wedi'u gwneud ers sefydlu swyddfa'r comisiynydd plant. Unwaith eto, gallem siarad am gryn amser am doiledau mewn ysgolion, gallem siarad am gryn amser am yr hawl i eiriolaeth annibynnol, a gallem hefyd—fel y gwelsom yn yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan y comisiynydd plant—siarad am hawliau plant sydd mewn cadeiriau olwyn, o ran cael mynediad i'r ysgol o'u dewis eu hunain yn eu hardal eu hunain.

Mae hawliau wedi eu gwanhau, Weinidog, pa un a ydych yn sôn am ddiffyg blaenoriaeth i gyllidebu ar gyfer plant, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan awdurdodau lleol, neu am gael gwared ar senedd ieuencid, sy'n golygu bod gan Gymru bellach y statws heb ei ennill braidd o fod yr unig wlad o fewn yr Undeb Ewropeaidd a fydd heb senedd ieuencid gynrychioliadol i adlewyrchu barn plant a phobl ifanc a chaniatáu i blant a phobl ifanc ddweud wrthym a ydynt yn meddwl ein bod yn gwneud y gwaith yr oeddent yn credu y cawsom ein hethol i'w wneud.

Concerns have been expressed by the commissioner in particular with regard to the children's rights impact assessments, which have now been in place for almost three years. The commissioner points out that, in some cases, it was not clear that the assessments had been undertaken at all. It was also disappointing to hear in evidence in the Children, Young People and Education Committee last week that the assessment, even in those cases where there was evidence that they had been undertaken, constituted nothing more than a list of articles that applied to that particular measure. So, we took evidence as a committee and when we look back to 29 April this year when the Assembly debated the draft children's rights scheme 2014 and we were told by the then Minister for Communities and Tackling Poverty how effective the Welsh Government's robust processes were, that there had been considerable changes and that there were noteworthy commitments that would lead to the strengthening of arrangements, I have to say that some of us say, 'Show us the proof'. In reality, little has changed, and the commissioner is quite right, as the independent person who is there to look after the rights of children and young people in Wales, to say to the Government that he is somewhat disappointed with what were good principles not actually being committed to in practice. So, I would like to support the commissioner's call for the Welsh Government to review the quality of its CRIAs and to ensure that staff training is in place for staff and also for Ministers, in making sure that they not only meet their obligations, but that our children and young people are being well served.

I would like to move on to the issue of the protection of vulnerable children and young people in Wales because the report also refers to the loss of respite provision for children and young people with disabilities. This morning, as I said, we heard that even though guidelines on improving access have been in place now for 10 years as far as the rights of disabled children to have access to schools are concerned, we still have secondary schools that have no access whatsoever for disabled pupils, and their parents are having to fight for their children to be educated alongside their friends. Two years ago, I also raised the issue of the accountability arrangements of the commissioner. I would hope that the review that we are currently undertaking would mean that we obtain a situation where the commissioner is no longer accountable directly to the First Minister, who appoints him in the first instance.

In closing, I would say that, on too many occasions in this Siambr, we hear from the Government that the very existence of a scheme or strategy guarantees its implementation. That is clearly not the case. In closing, I would like to thank Keith Towler for the work that he has done, particularly, I have to say, with regard to his commitment to the setting up of Operation Pallial and to ensuring that the children and young people in north Wales get the protection they deserve.

Mae'r comisiynydd wedi mynegi pryderon yn arbennig ynghylch yr asesiadau o effaith ar hawliau plant, sydd bellach wedi bod ar waith ers bron i dair blynedd. Mae'r comisiynydd yn nodi, mewn rhai achosion, nad oedd yn glir bod yr asesiadau wedi eu cynnal o gwbl. Roedd hefyd yn siomedig clywed tystiolaeth yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr wythnos diwethaf nad oedd yr asesiad, hyd yn oed yn yr achosion hynny lle'r oedd tystiolaeth ei fod wedi'i gynnal, yn ddim mwy na rhestr o erthyglau a oedd yn berthnasol i'r mesur penodol hwnnw. Felly, cawsom dystiolaeth fel pwyllgor a phan edrychwn yn ôl ar 29 Ebrill eleni pan fu dadl yn y Cynulliad ynglŷn â'r cynllun hawliau plant drafft 2014 a phan ddywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wrthym pa mor effeithiol oedd prosesau cadarn Llywodraeth Cymru, y bu newidiadau sylweddol a bod ymrwymadau nodedig a fyddai'n arwain at gryfhau'r trefniadau, mae'n rhaid imi ddweud bod rhai ohonom yn dweud, 'Dangoswch inni'r prawf'. Mewn gwirionedd, ychydig iawn sydd wedi newid, ac mae'r comisiynydd yn llygad ei le, fel yr unigolyn annibynnol sydd yno i ofalu am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru, i ddweud wrth y Llywodraeth ei fod braidd yn siomedig na chafwyd ymrwymiad ymarferol gwirioneddol i'r egwyddorion da hyn. Felly, hoffwn gefnogi galwad y comisiynydd am i Lywodraeth Cymru adolygu ansawdd ei hasesiadau o'r effaith ar hawliau plant a sicrhau bod hyfforddiant staff ar gael i staff a hefyd i Weinidogion, wrth wneud yn siŵr, nid yn unig eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau, ond bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Hoffwn symud ymlaen at y mater o amddiffyn plant a phobl ifanc agored i niwed yng Nghymru oherwydd mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at gollu darpariaeth seibiant i blant a phobl ifanc ag anableddau. Y bore yma, fel y dywedais, clywsom, er bod canllawiau ar wella mynediad wedi bod ar waith nawr ers 10 mlynedd cyn belled ag y mae hawliau plant anabl i gael mynediad i ysgolion dan sylw, ein bod yn dal i glywed am ysgolion uwchradd nad oes ganddynt fynediad o gwbl i ddisgyblion anabl, a bod eu rhieni'n gorfod brwydro er mwyn i'w plant gael eu haddysgu ochr yn ochr â'u ffrindiau. Ddwy flynedd yn ôl, codais hefyd fater trefniadau atebolrwydd y comisiynydd. Byddwn yn gobeithio y byddai'r adolygiad yr ydym yn ei gynnal ar hyn o bryd yn golygu ein bod yn cyrraedd sefyllfa lle nad yw'r comisiynydd mwyach yn atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog, sydd yn ei benodi yn y lle cyntaf.

I gloi, byddwn yn dweud ein bod yn rhy aml yn y Siambr hon yn clywed gan y Llywodraeth bod y ffaith bod cynllun neu strategaeth yn bodoli'n gwarantu ei fod ar waith. Mae'n amlwg nad yw hynny'n wir. I gloi, hoffwn ddiolch i Keith Towler am y gwaith y mae wedi'i wneud, yn enwedig, mae'n rhaid imi ddweud, o ran ei ymrwymiad i sefydlu Operation Pallial ac i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y gogledd yn cael y diogelwch y maent yn ei haeddu.

I am very proud of the fact that, in the early days of the Assembly, the decision was made to appoint a children's commissioner to champion the interests of children and young people in Wales. I would like to thank him and his office for continuing in that role. I thought that the comments that Julie Morgan made about her visit to Texas and the parliament there, with the reminder that children's voices should always be integral to policy making, were very apt.

The Welsh Government, against a backdrop of devastating budget cuts that have hit children and families the hardest, has managed to support some of the most vulnerable in Wales. Again, like Mike Hedges, I just want to mention the allocation to double the number of children benefiting from Flying Start. There is also the Families First programme, to which the Welsh Government has allocated further resources. Of course, all of this is helping to contribute to the tackling poverty agenda. However, I think, as the commissioner's report notes today, while there has been progress, there are still many gaps through which children and young people are falling. I want to use my contribution today to reflect on some of these.

I welcome the fact that, in the near future, the commissioner will again turn the spotlight on pupil referral units. Often, PRUs are the most forgotten and marginalised of education provision for those young people who are struggling. If you look at the stats, they are simply unacceptable. Of the 19 pupil referral units that have been inspected under the new inspection framework, 37% required monitoring or follow-up visits and a further 26% were rated 'unsatisfactory' or 'adequate'. We know that this is not good enough and we are letting down those young people who attend these units.

On mental health services, I was pleased that the commissioner said that he would turn his attention again to those young people with mental health problems and the provisions that they have to call on. Like many of you, I continue to be contacted by constituents on behalf of their children who are really struggling here. If you suffer from a mental health problem and the provision is patchy and inconsistent, this can have a traumatic impact on your life. So, again, this is something that we have to come back to time and again. I am pleased that the commissioner has decided to mention this.

I am also pleased that the commissioner chose to play an active part in my committee, the Communities, Equality and Local Government Committee's deliberation on the Stage 1 report of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. This is something that we will debate here next week and my committee was able to include the commissioner's evidence to support one of the recommendations, which is to make provision for compulsory whole-school education programmes on healthy relationships. It is in our report and it says that, without the critical component of education, it is very difficult to see how much-needed attitudinal change can be achieved. Therefore, again, I think that it is vital, if we are going to do something properly, we need to take a very holistic view.

Rwyf yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi penderfynu, yn nyddiau cynnar y Cynulliad, penodi comisiynydd plant i hyrwyddo buddiannau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Hoffwn ddiolch iddo ef a'i swyddfa am barhau â'r gwaith hwnnw. Roeddwn yn meddwl bod y sylwadau a wnaeth Julie Morgan am ei hymweliad â Texas a'r senedd yno, sy'n eu hatgoffa y dylai lleisiau plant bob amser fod yn rhan annatod o lunio polisiau, yn addas iawn.

Mae Llywodraeth Cymru, yn erbyn cefndir o doriadau dinistriol yn y gyllideb sydd wedi taro plant a theuluoedd galetaf, wedi llwyddo i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Unwaith eto, fel Mike Hedges, hoffwn sôn am y dyraniad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg. Ceir hefyd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu adnoddau pellach iddi. Wrth gwrs, mae hyn i gyd yn helpu i gyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Fodd bynnag, credaf, fel y mae adroddiad y comisiynydd yn ei nodi heddiw, er bod cynnydd wedi'i wneud, mae llawer o fylchau y mae plant a phobl ifanc yn dal i ddisgyn drwyddynt. Hoffwn ddefnyddio fy nghyfraniad heddiw i fyfyrto ar rai o'r rhain.

Croesawaf y ffaith y bydd y comisiynydd, yn y dyfodol agos, unwaith eto'n troi'r sylw at unedau cyfeirio disgyblion. Yn aml, caiff darpariaeth addysg UCD ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cael trafferth ymdopi ei hanghofio a'i hymyleiddio. Os edrychwch ar yr ystadegau, maent yn gwbl annerbyniol. O'r 19 o unedau cyfeirio disgyblion a gafodd eu harolygu o dan y fframwaith arolygu newydd, roedd angen monitro neu ymweliadau dilynol ar 37% ohonynt a chafodd 26% arall eu graddio'n 'anfodddhaol' neu 'ddigonol'. Rydym yn gwybod nad yw hyn yn ddigon da ac rydym yn siomi'r bobl ifanc hynny sy'n mynychu'r unedau hyn.

O ran gwasanaethau iechyd meddwl, rwyf yn falch bod y comisiynydd wedi dweud y byddai'n troi ei sylw unwaith eto at y bobl ifanc hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r darpariaethau y mae'n rhaid iddynt alw arnynt. Fel llawer ohonoch, mae etholwyr yn dal i gysylltu â mi ar ran eu plant sydd yn wir yn cael trafferth yma. Os ydych chi'n dioddef o broblem iechyd meddwl a bod y ddarpariaeth yn dameidiog ac yn anghyson, gall hyn gael effaith drawmatig ar eich bywyd. Felly, unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ddod yn ôl ato dro ar ôl tro. Rwyf yn falch bod y comisiynydd wedi penderfynu sôn am hyn.

Rwyf hefyd yn falch bod y comisiynydd wedi dewis chwarae rhan weithredol yn ystyriaeth fy mhwyllgor, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, o adroddiad Cyfnod 1 y Bil Trais sy'n seiliedig ar Ryw, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei drafod yma yr wythnos nesaf ac roedd fy mhwyllgor yn gallu cynnwys tystiolaeth y comisiynydd i ategu un o'r argymhellion, sef darparu rhaglenni addysg ysgol gyfan gorfodol ar berthnasoedd iach. Mae yn ein hadroddiad ac mae'n dweud, heb yr elfen hollbwysig o addysg, ei bod yn anodd iawn gweld sut y gellir cyflawni'r newid agwedd y mae wir ei angen. Felly, unwaith eto, rwyf yn credu ei bod yn hanfodol, os ydym yn mynd i wneud rhywbeth yn iawn, bod angen inni feddwl mewn ffordd gwbl gyfannol.

On a related matter—and I want to thank other colleagues here today—I also welcome the commissioner’s long-standing view that this Bill should include the opportunity to remove the defence of reasonable punishment. Again, for me and others in the Chamber, without this, this Bill will be very much weakened and if we are really going to take this issue seriously, we have to do something about this. By not including this, we will continue to undermine the principle that we want to get across to all of the people in Wales of how much we are against violence. So, this is something that we need to look at.

Finally, I want to pay tribute to Keith Towler for the work that he has done on behalf of our young people in Wales. It is a role that has been challenging, but it is vital that the commissioner continues to be independent. Whatever political persuasion or Government that we have, it will always need a critical friend and someone who will stand up for the children and young people of Wales.

A society that does not recognise the rights of children and young people and does not make the appropriate investment is a society that is all the weaker. As Julie Morgan and others reminded us, we still have some way to go on this, so we cannot be complacent just yet.

Therefore, finally, may I pay tribute to Keith Towler and his office for the constant reminder that children’s rights are vital, not just for children and young people themselves, but for all of us here? I would like to wish him and his office well for the future.

16:54

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today. I always welcome the chance to debate the children’s commissioner’s annual report and indeed, last year, I provided the Welsh Government’s response, as Minister. It should be noted that much of the commissioner’s report will cover my period in office.

Nonetheless, I would like to concentrate today on a number of issues that the commissioner raises in his report and namely those relating to education, poverty and training. I note that he says that 28% of his cases in 2013-14 related to education. Among his challenges, the commissioner raises the issue of wheelchair-using children, as some Members have already suggested, and young people who are wheelchair bound accessing an education on equal terms with able-bodied children. I know that Ministers take this issue very seriously, and I would be grateful if the Minister, in replying, could set out what action the Welsh Government will take to address this particular concern.

Ar fater cysylltiedig—a hoffwn ddiolch i gydweithwyr eraill yma heddiw—rwyf hefyd yn croesawu barn hirsefydlog y comisiynydd y dylai'r Bil hwn gynnwys y cyfle i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Unwaith eto, i mi ac i eraill yn y Siambr, heb hyn, bydd y Bil hwn yn llawer gwannach ac os ydym wir yn mynd i gymryd y mater hwn o ddifrif, mae'n rhaid inni wneud rhywbeth am hyn. Drwy beidio â chynnwys hyn, byddwn yn parhau i danseilio'r egwyddor yr ydym yn ceisio ei chyfleu i holl bobl Cymru o faint yr ydym yn gwrthwynebu trais. Felly, mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i Keith Towler am y gwaith y mae wedi'i wneud ar ran ein pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n waith sydd wedi bod yn heriol, ond mae'n hanfodol bod y comisiynydd yn parhau i fod yn annibynnol. Pa bynnag gred wleidyddol neu Lywodraeth sydd gennym, bydd bob amser angen cyfaill beirniadol a rhywun a fydd yn sefyll dros blant a phobl ifanc Cymru.

Mae cymdeithas nad yw'n cydnabod hawliau plant a phobl ifanc ac nad yw'n gwneud y buddsoddiad priodol yn gymdeithas wannach. Fel yr atgoffodd Julie Morgan ac eraill ni, mae gennym gryn dipyn o ffordd i fynd eto ar hyn, felly ni allwn fod yn hunanfodlon eto.

Felly, yn olaf, a gaf fi dalu teyrnged i Keith Towler a'i swyddfa am ein hatgoffa'n barhaus bod hawliau plant yn hanfodol, nid dim ond i blant a phobl ifanc eu hunain, ond i bawb ohonom yma? Hoffwn ddymuno'n dda iddo ef a'i swyddfa ar gyfer y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf yn ddiolchgar am gael y cyfle i siarad yn y ddatllyb bwysig hon heddiw. Rwyf bob amser yn croesawu'r cyfle i drafod adroddiad blynyddol y comisiynydd plant, ac yn wir, y llynedd, fi a roddodd ymateb Llywodraeth Cymru, fel y Gweinidog. Dylid nodi y bydd llawer o adroddiad y comisiynydd yn ymdrin â fy nghyfnod i yn y swydd.

Serch hynny, hoffwn ganolbwyntio heddiw ar nifer o faterion y mae'r comisiynydd yn eu codi yn ei adroddiad, yn benodol y rhai sy'n ymwneud ag addysg, tloedi a hyfforddiant. Nodaf ei fod yn dweud bod 28% o'i achosion yn 2013-14 yn ymwneud ag addysg. Ymhlith ei heriau, mae'r comisiynydd yn codi mater plant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, fel y mae rhai Aelodau eisoes wedi'i awgrymu, a phobl ifanc sydd mewn cadeiriau olwyn yn cael mynediad at addysg ar delerau cyfartal â phlant abl eu cyrff. Gwn fod Gweinidogion yn cymryd y mater hwn o ddifrif, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog, wrth ateb, amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i roi sylw i'r pryder penodol hwn.

The commissioner also raises the issue of the provision of play opportunities for children and young people living in poverty, as well as for children and young people with disabilities. I know from my time as Minister how challenging it is to ensure that this provision is maintained during these times of strained public finances, but I am grateful for what the Welsh Government has done to try to ensure that children's rights are not affected here. For example, I am pleased, in light of our budget debate earlier this afternoon, that the Welsh Government is extending the pupil deprivation grant to pupils under the age of five, so that those children from the most disadvantaged backgrounds are not precluded from taking part in a high-quality and well-rounded experience during the foundation phase of their education, and that they also have the opportunities for structured play that that programme includes at its core. Furthermore, as Mike Hedges has indicated, the Welsh Government's Flying Start initiative will also help to ensure that, by the time that they start school, children under the age of four from our most deprived areas are ready to learn and are more confident in mixing with other children.

I also welcome the increase in the grant funding and better targeted support for children in the Gypsy and Traveller community who, as Julie Morgan has indicated, are less likely to be able to benefit from a structured and consistent education and who are also at a higher risk of being in poverty. A duty to prepare a child poverty strategy has now been incorporated into local authorities' single integrated plans, and this will better ensure joined-up working between our public services to try to support low-income families with children to lift themselves out of poverty. Eradicating disadvantage has to be our primary aim.

I note that the commissioner has called on the Welsh Government to revise its child poverty strategy to ensure that it takes a rights-based approach to tackling child poverty in Wales. I would say that the Families First programme and the 'Rights in Action' strategy will both go some way to ensuring that our child poverty strategy does just this. These will help to ensure that all children in Wales have the best opportunities in life and will underpin our commitments to the United Nations Convention on the Rights of the Child. Two of its core aims include making sure that children and young people in Wales have a comprehensive range of education and learning opportunities and are not disadvantaged by poverty. The new children and families delivery grant will also, I believe, more effectively support our tackling poverty agenda by reinforcing work around children's rights, play and participation programmes.

Mae'r comisiynydd hefyd yn codi'r mater o ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, yn ogystal ag i blant a phobl ifanc ag anabledau. Rwyf yn gwybod o fy nghyfnod fel Gweinidog pa mor heriol yw sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal yn ystod y cyfnod hwn o bwysau ar arian cyhoeddus, ond rwyf yn ddiolchgar am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i geisio sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar hawliau plant. Er enghraifft, rwyf yn falch, yng ngoleuni ein dadl am y gyllideb yn gynharach y prynhawn yma, bod Llywodraeth Cymru'n ymestyn y grant amddifadedd disgyblion i ddisgyblion o dan bump oed, fel nad yw'r plant hynny o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yn cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn profiad cyflawn o ansawdd uchel yn ystod cyfnod sylfaen eu haddysg, a'u bod hefyd yn cael y cyfleoedd chwarae strwythuredig sydd wrth wraidd y rhaglen honno. Yn ogystal â hynny, fel y mae Mike Hedges wedi'i nodi, bydd menter Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru hefyd yn helpu i sicrhau, erbyn yr adeg y maent yn dechrau yn yr ysgol, bod plant o dan bedair oed o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu gyda phlant eraill.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid grant a'r cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer plant yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd, fel y mae Julie Morgan wedi'i nodi, yn llai tebygol o allu elwa ar addysg strwythuredig a chyson ac sydd hefyd yn wynebu perygl uwch o fod mewn tlodi. Mae dyletswydd i baratoi strategaeth tlodi plant bellach wedi'i hymgorffori mewn cynlluniau integredig sengl awdurdodau lleol, a bydd hyn yn sicrhau gweithio cydgysylltiedig gwell rhwng ein gwasanaethau cyhoeddus i geisio cefnogi teuluoedd ag incwm isel sydd â phlant i godi eu hunain allan o dlodi. Mae dileu anfantais yn gorfod bod ein prif nod.

Nodaf fod y comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei strategaeth tlodi plant i sicrhau ei bod yn defnyddio dull seiliedig ar hawliau i drechu tlodi plant yng Nghymru. Byddwn yn dweud y bydd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r strategaeth 'Gweithredu'r Hawliau' ill dwy'n mynd beth o'r ffordd i sicrhau bod ein strategaeth tlodi plant yn gwneud yn union hynny. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd ac yn ategu ein hymrwymiadau i Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae dau o'i nodau craidd yn cynnwys gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yng Nghymru'n cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu ac nad ydynt dan anfantais oherwydd tlodi. Bydd y grant cyflawni newydd ar gyfer plant a theuluoedd hefyd, rwyf yn credu, yn ategu ein hagenda trechu tlodi'n fwy effeithiol drwy atgyfnerthu gwaith o gwmpas rhaglenni hawliau, chwarae a chyfranogiad plant.

There are a number of issues raised in the commissioner's report this year, and I would be grateful for the Minister's thoughts on the issues that I have raised. However, I am confident that the Welsh Government has the right measures and policies in place to address the commissioner's concerns. Finally, like other Members, I would like to conclude by paying tribute to Keith Towler for the work that he has undertaken since 2007. I had a good working relationship with him during my time as Minister, and he has done an effective job in promoting children's rights and holding us, as elected representatives, to account on behalf of our children and young people. His successor can build on a lot of good work.

Mae adroddiad y comisiynydd eleni'n codi nifer o faterion, a byddwn yn ddiolchgar o gael clywed barn y Gweinidog am y materion yr wyf wedi'u codi. Fodd bynnag, rwyf yn ffyddiog bod gan Lywodraeth Cymru y mesurau a'r polisiau cywir ar waith i ymdrin â phryderon y comisiynydd. Yn olaf, fel Aelodau eraill, hoffwn gloi drwy dalu teyrnged i Keith Towler am y gwaith y mae wedi'i wneud ers 2007. Roedd gennyf berthynas waith dda ag ef yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog, ac mae wedi gwneud gwaith effeithiol wrth hyrwyddo hawliau plant a'n dwyn ni, fel cynrychiolwyr etholedig, i gyfrif ar ran ein plant a'n pobl ifanc. Gall ei olynydd adeiladu ar lawer o waith da.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchgu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to all Members for their contributions. I will pick up on individual ones in a little while.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau. Rhof ymateb i rai unigol yn y munud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We all accept that we are in very challenging financial times, and, as a Government, we have had to prioritise resources, but I think that we have been very clear about the need to invest in the future of our children and young people, and that is why our draft budget agreement, for example, included the extension of the Flying Start programme—the funding for that is nearly £0.5 billion to date, and that has been protected. We have also given funding for children's social services to support vulnerable children and families. That has been maintained also.

Rydym oll yn derbyn ein bod mewn cyfnod ariannol heriol iawn, ac, fel Llywodraeth, rydym wedi gorfod blaenoriaethu adnoddau, ond credaf ein bod wedi bod yn glir iawn am yr angen i fuddsoddi yn nyfodol ein plant a'n pobl ifanc, a dyna pam yr oedd ein cytundeb cyllideb ddrafft, er enghraifft, yn cynnwys ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg—mae cyllid y rhaglen honno bron i £0.5 biliwn hyd yma, ac mae hynny wedi ei ddiogelu. Rydym hefyd wedi rhoi cyllid i wasanaethau cymdeithasol plant i gefnogi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae hynny wedi ei gynnal hefyd.

We have also prioritised the participation of children and young people in influencing the workings of Government—a key theme in our children and families delivery grant, led by Children in Wales, and that will be taken forward as a national model.

Rydym hefyd wedi blaenoriaethu cyfranogiad plant a phobl ifanc i ddylanwadu ar waith y Llywodraeth—thema allweddol yn ein grant cyflawni ar gyfer plant a theuluoedd, dan arweiniad Plant yng Nghymru, a datblygir hynny fel model cenedlaethol.

Ensuring that young people are able to make their voices heard on issues that have an impact on their lives is absolutely a priority for me and why I approved grant funding for 22 young people from right across Wales to attend a meeting of the UK Youth Parliament in the House of Commons just last week. I thought that it was a wonderful opportunity for them, but I also thought that it was really important that Wales's voice is heard very loud and clear in such gatherings.

Mae sicrhau bod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau'n flaenoriaeth bendant i mi a dyna pam y cymeradwyais gyllid grant i 22 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru i ddod i gyfarfod Senedd leuenctid y DU yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos diwethaf. Roeddwn yn meddwl ei fod yn gyfle gwych iddynt, ond roeddwn hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod llais Cymru'n cael ei glywed yn uchel ac yn glir iawn mewn cyfarfodydd o'r fath.

We will continue to address the challenging issues that face children, young people and their families, and I, too, would like to add my thanks to Keith Towler for his work in bringing these to the forefront. As we have said—and I would like to join other Assembly Members in paying tribute to Keith—it is his last year as the children's commissioner. He will finish at the end of February. I think that we all agree that Keith has carried out his role with integrity. He has been a diligent and determined champion of children and young people, and I would like to place on record my thanks too to Keith and his office for working with us and with others to ensure that children and young people are always absolutely at the heart of everything that we do. We know that we cannot stand still. That is why, in agreement with Keith, we commissioned the independent review to which Members have referred, led by Mike Shooter. The review will make recommendations for the Welsh Government and for the commissioner, and I very much look forward to receiving that report next month. I will certainly keep Members updated.

Turning to some of the points raised by Members, Gwenda Thomas raised a point about a Welsh voice on the Home Office independent panel of inquiry. I know that, this week, the Minister for Health and Social Services met with Baroness Randerson to express our disappointment, as a Government, that the panel membership does not include someone with the relevant experience and expertise that we have available in Wales. We will continue to make representations regarding the point that Gwenda made.

Several Members raised points about physical chastisement. I understand that there will be a motion before the Assembly next week, on the business statement, to set up a cross-party committee on the reform of the law on physical punishment of children by parents, and that will be considered by this Assembly next week.

Gwenda Thomas also mentioned positive parenting guidance. Certainly, we have done that. We gave guidance in September for those who have either a direct or an indirect role in providing parenting support. Also, specific parenting guidance to practitioners for Flying Start parents was also issued in September.

Paul Davies made a point regarding Safe Routes to School. I outlined in my opening remarks that we had given an additional £5 million funding. Like you, I was very pleased at the 540 responses. I think that it does show the level of engagement of children and young people in our policies. Paul Davies also questioned about the health delivery plan. Work is ongoing on that to be developed. That will take into account children's rights, as outlined in the UNCRC. It will be outcome-focused, and it will be reported annually here.

Julie Morgan referred to her visit to Texas. I would be very interested in learning a bit more about that. It certainly sounded a very good idea to be able to promote in the parliamentary building the policies that affect children and young people, because we do have many children and young people visiting the Senedd, and I think that it would be good for them to see it.

Byddwn yn parhau i ymddrin â'r materion heriol sy'n wynebu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a hoffwn innau ychwanegu fy niolch i Keith Towler am ei waith i dynnu sylw at y rhain. Fel yr ydym wedi'i ddweud—a hoffwn ymuno ag Aelodau eraill y Cynulliad i dalu teyrnged i Keith—hon yw ei flwyddyn olaf fel y comisiynydd plant. Bydd yn gorffen ddiwedd mis Chwefror. Credaf ein bod i gyd yn cytuno bod Keith wedi gwneud ei waith gydag uniondeb. Mae wedi bod yn hyrwyddwr diwyd a phenderfynol dros blant a phobl ifanc, a hoffwn gofnodi fy niolch hefyd i Keith a'i swyddfa am weithio gyda ni ac eraill i sicrhau bod plant a phobl ifanc bob amser wirioneddol wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gwybod na allwn aros yn ein hunfan. Dyna pam, mewn cytundeb â Keith, y gwnaethom gomisiynu'r adolygiad annibynnol y mae Aelodau wedi cyfeirio ato, dan arweiniad Mike Shooter. Bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac i'r comisiynydd, ac rwyf yn edrych ymlaen at gael yr adroddiad hwnnw y mis nesaf. Byddaf yn sicr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

I droi at rai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau, cododd Gwenda Thomas bwynt am lais Cymraeg ar banel ymholi annibynnol y Swyddfa Gartref. Rwyf yn gwybod, yr wythnos hon, bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod â'r Farwnes Randerson i fynegei ein siom, fel Llywodraeth, nad yw aelodaeth y panel yn cynnwys rhywun sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol sydd gennym ar gael yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau ynghylch y pwynt a wnaeth Gwenda.

Cododd sawl Aelod bwyntiau ynghylch cosbi corfforol. Rwyf ar ddeall y bydd cynnig gerbron y Cynulliad yr wythnos nesaf, ar y datganiad busnes, i sefydlu pwyllgor trawsbleidiol ar ddiwygio'r gyfraith ar rieni'n cosbi plant yn gorfforol, a bydd y Cynulliad hwn yn ystyried hynny yr wythnos nesaf.

Soniodd Gwenda Thomas hefyd am ganllawiau rhianta cadarnhaol. Yn sicr, rydym wedi gwneud hynny. Rhoesom ganllawiau ym mis Medi i'r rheini sy'n ymwneud â darparu cymorth rhianta yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau rhianta penodol i ymarferwyr i rieni Dechrau'n Deg ym mis Medi.

Gwnaeth Paul Davies bwynt ynglŷn â Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Amlinellais yn fy sylwadau agoriadol ein bod wedi rhoi cyllid ychwanegol o £5 miliwn. Fel chithau, roeddwn yn falch iawn â'r 540 o ymatebion. Credaf fod hynny'n dangos lefel ymgysylltiad plant a phobl ifanc â'n polisïau. Holodd Paul Davies hefyd am y cynllun cyflenwi iechyd. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu hynny. Bydd yn ystyried hawliau plant, fel y'u hamlinellwyd yn CCUHP. Bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac adroddir amdano'n flynyddol yma.

Cyfeiriodd Julie Morgan at ei hymwelid â Texas. Byddai gennyf ddi-ddordeb mawr mewn dysgu ychydig mwy am hynny. Roedd yn sicr yn swnio'n syniad da iawn i allu hyrwyddo yn yr adeilad seneddol y polisïau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, oherwydd mae llawer o blant a phobl ifanc yn ymweld â'n Senedd ni, ac rwyf yn meddwl y byddai'n beth da iddynt ei weld.

In terms of your story about Gypsy and Traveller children, obviously, they are some of the most disadvantaged. I remember that one of my very first meetings, when I was first elected as an Assembly Member, was with a young person from a site just next to my constituency, who said that she could never get a taxi to take her home. I remember thinking that that was such a simple thing, but she has clearly been severely disadvantaged in not being able to assume things that other young people can assume. I think that we have made great strides, and it is important that the Minister for Education and Skills will have heard your comments regarding education.

Jocelyn Davies referred to the review, which, as I said, I will be receiving from Mike Shooter next month, and I look forward very much to the recommendations that he brings forward.

In respect of the lack of vision that Keith Towler referred to, as I said, I do not agree with that. I think that we have made our vision for children very clear. We want a Wales where children's rights are a reality for each and every child. This is why we place such an emphasis on the UNCRC. Assembly Members did approve our children's rights scheme in May this year, as I said.

Mike Hedges referred to the Flying Start policy. Just last week, I opened two new Flying Start settlements—one over in Milford Haven and one in Aberporth. On the Milford Haven one, I was talking to a local councillor who was telling me that the first cohort of Flying Start children in that area has now just started high school and you can see very clearly the benefits that these children have had.

Designed to Smile is one of my favourite policies and schemes from this Assembly. Again, I think we are seeing the benefit to some of the children from our most deprived areas in relation to that policy.

Aled Roberts referred to the children's rights impact assessments. As I said, the scheme was updated this year and a key focus has been that assessment, which sets out the process for providing the evidence that children's rights are being considered right across Welsh Government work. Having said that, the implementation of the Measure is a learning process for us all, and I think it is really important that we understand how the UNCRC can be effectively incorporated into legislation and the workings of Government.

Christine Chapman also referred to Flying Start and Families First. I think the two schemes work very well together. We have got some pilots going on now in four areas to see how more collaboration can go across those two schemes, because, obviously, it is often the same families that our schemes are affecting.

You referred to child and adolescent mental health services. Again, it is very important that we get that right, certainly when those people cross into adulthood. It is really important that the transition services are there also.

O ran eich stori am blant Sipsiwn a Theithwyr, yn amlwg, maent ymysg y rhai mwyaf diffreintiedig. Rwyf yn cofio bod un o fy nghyfarfodydd cyntaf un, pan gefais fy ethol gyntaf fel Aelod Cynulliad, gyda pherson ifanc o safle yn agos i fy etholaeth, a ddywedodd nad oedd hi byth yn gallu cael tasci i fynd â hi adref. Rwyf yn cofio meddwl bod hynny'n beth mor syml, ond mae hi'n amlwg wedi bod o dan anfantais ddirifol o fethu â chymryd yn ganiataol y pethau y gall pobl ifanc eraill eu cymryd yn ganiataol. Credaf ein bod wedi cymryd camau breision, ac mae'n bwysig bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi clywed eich sylwadau am addysg.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies at yr adolygiad; fel y dywedais, byddaf yn ei gael gan Mike Shooter y mis nesaf, ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn at yr argymhellion y bydd ef yn eu cyflwyno.

O ran y diffyg gweledigaeth y cyfeiriodd Keith Towler ato, fel y dywedais, nid wyf yn cytuno â hynny. Rwyf yn meddwl ein bod wedi gwneud ein gweledigaeth ar gyfer plant yn eglur iawn. Hoffem weld Cymru lle mae hawliau plant yn realiti i bob un plentyn. Dyma pam yr ydym yn rhoi pwyslais o'r fath ar y CCUHP. Cymeradwyodd Aelodau'r Cynulliad ein cynllun hawliau plant ym mis Mai eleni, fel y dywedais.

Cyfeiriodd Mike Hedges at y polisi Dechrau'n Deg. Dim ond yr wythnos diwethaf, agorais ddau anheddiad Dechrau'n Deg newydd—un draw yn Aberdaugleddau ac un yn Aberporth. O ran yr un yn Aberdaugleddau, roeddwn yn siarad â chynghorydd lleol a oedd yn dweud wrthyf bod y garfan gyntaf o blant Dechrau'n Deg yn yr ardal honno newydd ddechrau yn yr ysgol uwchradd ac y gallwch weld yn glir iawn y manteision y mae'r plant hynny wedi'u cael.

Cynllun Gwên yw un o fy hoff bolisiau a chynlluniau gan y Cynulliad hwn. Unwaith eto, rwyf yn meddwl ein bod yn gweld mantais y polisi hwnnw i rai o'r plant o'n hardaloedd mwyaf diffreintiedig.

Cyfeiriodd Aled Roberts at yr asesiadau o'r effaith ar hawliau plant. Fel y dywedais, cafodd y cynllun ei ddiweddarw eleni ac un pwyslais allweddol oedd yr asesiad hwnnw, sy'n nodi'r broses ar gyfer darparu'r dystiolaeth bod hawliau plant yn cael eu hystyried ar draws gwaith Llywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, mae gweithredu'r Mesur yn broses ddysgu i bob un ohonom, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn deall sut y gellir ymgorffori CCUHP yn effeithiol yn neddfwriaeth a gweithgarwch y Llywodraeth.

Cyfeiriodd Christine Chapman hefyd at Ddechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Rwyf yn meddwl bod y ddau gynllun yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Rydym wedi dechrau cynlluniau arbrofol erbyn hyn mewn pedair ardal i weld sut y gellir gwneud mwy o gydweithio ar draws y ddau gynllun hynny, oherwydd, yn amlwg, mae ein cynlluniau'n aml yn effeithio ar yr un teuluoedd.

Gwnaethoch gyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasged. Unwaith eto, mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud hynny'n iawn, yn sicr pan fydd y bobl hynny'n tyfu'n oedolion. Mae'n wirioneddol bwysig bod y gwasanaethau pontio ar gael hefyd.

The last speaker was my predecessor, Jeff Cuthbert. As you say, Jeff, you had a very good relationship with Keith Towler, which I have been able to pick up. Certainly, we do look upon him as a critical friend. He is independent and his advice to us is very important.

On his comments regarding wheelchair access, I was not aware that it was a widespread problem, but I think that, certainly, we need to look at it. I think it is very worthy of investigation. Schools are expected to make reasonable adjustments if a child wants to go to a certain school. We have been very clear as a Government, as, certainly, has been the Minister for Education and Skills, that nobody should be discriminated against. So, I do think that is worthy of further investigation.

Just to conclude, Deputy Presiding Officer, I would like to pay tribute to Keith Towler for his last report.

Y siaradwr olaf oedd fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert. Fel y dywedwch, Jeff, roedd gennych berthynas dda iawn gyda Keith Towler, ac rwyf wedi gallu parhau â hynny. Yn sicr, rydym yn edrych arno fel cyfaill beirniadol. Mae'n annibynnol ac mae ei gyngor inni'n bwysig iawn.

O ran ei sylwadau ynglŷn â mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn, nid oeddwn yn ymwybodol bod honno'n broblem eang, ond rwyf yn credu, yn sicr, bod angen inni edrych ar hynny. Rwyf yn credu ei fod yn deilwng iawn o ymchwiliad. Disgwylir i ysgolion wneud addasiadau rhesymol os oes ar blentyn eisiau mynd i ysgol benodol. Rydym ni fel Llywodraeth, a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn sicr, wedi bod yn glir iawn na ddylid gwahaniaethu yn erbyn neb. Felly, rwyf yn sicr o'r farn bod hynny'n haeddu ymchwiliad pellach.

Dim ond gair i gloi, Ddirprwy Lywydd, hoffwn dalu teyrnged i Keith Towler am ei adroddiad olaf.

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Voting time now follows. Before I conduct the vote on the draft budget, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio'n dilyn yn awr. Cyn imi gynnal y bleidlais ar y gyllideb ddrafft, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5619.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5619.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 43, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5619.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 27, Yn erbyn 21, Ymatal 5.

Voting Time

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5619.](#)

Amendment not agreed: For 11, Against 42, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5619.](#)

Amendment not agreed: For 10, Against 43, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5619.](#)

Motion agreed: For 27, Against 21, Abstain 5.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:09. *The meeting ended at 17:09.*

Cofnod Pleidleisio

Voting Record

18/11/2014

Cynnwys Contents

[NDM5619 Gwelliant 1](#)

[NDM5619 Amendment 1](#)

[NDM5619 Gwelliant 2](#)

[NDM5619 Amendment 2](#)

[NDM5619 Cyllideb Ddrafft 2015-16](#)

[NDM5619 Draft Budget 2015-16](#)

NDM5619 Gwelliant 1
 NDM5619 Amendment 1

Gwrthodwyd y gwelliant
Amendment not agreed

O blaid / For: 11	Yn erbyn / Against: 42	Ymatal / Abstain: 0
Mohammad Asghar	Leighton Andrews	
Andrew R.T. Davies	Mick Antoniw	
Paul Davies	Rhun ap Iorwerth	
Suzy Davies	Peter Black	
Janet Finch-Saunders	Christine Chapman	
Russell George	Jeff Cuthbert	
William Graham	Alun Davies	
Mark Isherwood	Jocelyn Davies	
Darren Millar	Mark Drakeford	
Nick Ramsay	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas	
Antoinette Sandbach	Rebecca Evans	
	Vaughan Gething	
	Janice Gregory	
	John Griffiths	
	Lesley Griffiths	
	Llyr Gruffydd	
	Mike Hedges	
	Jane Hutt	
	Julie James	
	Bethan Jenkins	
	Alun Ffred Jones	
	Ann Jones	
	Carwyn Jones	
	Elin Jones	
	Huw Lewis	
	Sandy Mewies	
	Julie Morgan	
	Lynne Neagle	
	Eluned Parrott	
	William Powell	
	Gwyn R. Price	
	Jenny Rathbone	
	David Rees	
	Aled Roberts	
	Carl Sargeant	
	Kenneth Skates	
	Gwenda Thomas	
	Rhodri Glyn Thomas	
	Joyce Watson	

	Lindsay Whittle	
	Kirsty Williams	
	Leanne Wood	

NDM5619 Gwelliant 2
 NDM5619 Amendment 2

Gwrthodwyd y gwelliant
Amendment not agreed

O blaid / For: 10	Yn erbyn / Against: 43	Ymatal / Abstain: 0
Rhun ap Iorwerth	Leighton Andrews	
Jocelyn Davies	Mick Antoniw	
Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas	Mohammad Asghar	
Llyr Gruffydd	Peter Black	
Bethan Jenkins	Christine Chapman	
Alun Ffred Jones	Jeff Cuthbert	
Elin Jones	Alun Davies	
Rhodri Glyn Thomas	Andrew R.T. Davies	
Lindsay Whittle	Paul Davies	
Leanne Wood	Suzy Davies	
	Mark Drakeford	
	Rebecca Evans	
	Janet Finch-Saunders	
	Russell George	
	Vaughan Gething	
	William Graham	
	Janice Gregory	
	John Griffiths	
	Lesley Griffiths	
	Mike Hedges	
	Jane Hutt	
	Mark Isherwood	
	Julie James	
	Ann Jones	
	Carwyn Jones	
	Huw Lewis	
	Sandy Mewies	
	Darren Millar	
	Julie Morgan	
	Lynne Neagle	
	Eluned Parrott	
	William Powell	
	Gwyn R. Price	
	Nick Ramsay	
	Jenny Rathbone	
	David Rees	
	Aled Roberts	
	Antoinette Sandbach	
	Carl Sargeant	

	Kenneth Skates	
	Gwenda Thomas	
	Joyce Watson	
	Kirsty Williams	

NDM5619 Cyllideb Ddrafft 2015-16

NDM5619 Draft Budget 2015-16

Derbyniwyd y cynnig

Motion agreed

O blaid / For: 27	Yn erbyn / Against: 21	Ymatal / Abstain: 5
Leighton Andrews	Rhun ap Iorwerth	Peter Black
Mick Antoniw	Mohammad Asghar	Eluned Parrott
Christine Chapman	Andrew R.T. Davies	William Powell
Jeff Cuthbert	Jocelyn Davies	Aled Roberts
Alun Davies	Paul Davies	Kirsty Williams
Mark Drakeford	Suzy Davies	
Rebecca Evans	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas	
Vaughan Gething	Janet Finch-Saunders	
Janice Gregory	Russell George	
John Griffiths	William Graham	
Lesley Griffiths	Llyr Gruffydd	
Mike Hedges	Mark Isherwood	
Jane Hutt	Bethan Jenkins	
Julie James	Alun Ffred Jones	
Ann Jones	Elin Jones	
Carwyn Jones	Darren Millar	
Huw Lewis	Nick Ramsay	
Sandy Mewies	Antoinette Sandbach	
Julie Morgan	Rhodri Glyn Thomas	
Lynne Neagle	Lindsay Whittle	
Gwyn R. Price	Leanne Wood	
Jenny Rathbone		
David Rees		
Carl Sargeant		
Kenneth Skates		
Gwenda Thomas		
Joyce Watson		